Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
46/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
08/08/2017

# Gwerthusiad ôl-weithredol o'r ddeddfwriaeth digartrefedd (Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014): Adroddiad interim

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78859-201-7

Gwerthusiad ôl-weithredol Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Interim

A. Ahmed, M. Wilding, A. Gibbons, K. Jones, M. Rogers, I. Madoc-Jones
Sustainable Housing & Urban Studies Unit (SHUSU)
The University of Salford

Adroddiad Ymchwil Llawn: A. Ahmed, M. Wilding, A. Gibbons, K. Jones, M. Rogers, I. Madoc-Jones (2017) Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 46/2017.
Ar gael ar: http://llyw.cymru/statistics-and-research/evaluation-homelessness-legislation/?lang=cy

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:
Enw: Lucie Griffiths
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: lucie.griffiths@llyw.cymru

## Tabl cynnwys Tudalen


1. Rhagarweiniad a Chefndir y Ddeddf....10

Cefndir a manylion allweddol y Ddeddf....11

2. Dull Methodoleg y Gwerthuso....16

Dadansoddiad eilaidd o ystadegau digartrefedd....16

Ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid cenedlaethol....17

Arolwg awdurdod lleol (Ton Gyntaf)....17

Detholiad o astudiaethau achos....18

Astudiaeth Achos: Ymgysylltu ac ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth [ton gyntaf: Hydref 2016 - Ionawr 2017]....18

3. Adolygiad o Ddata Eilaidd....21

Y cyd-destun tai....23

Strwythur y bennod....23

*Data Cyn-Ddeddf....23*

*Data Ôl-Ddeddf....24*

Data Cyn-Ddeddf....24

*Aelwydydd y derbynnir eu bod yn ddigartref....24*

*Penderfyniadau a wnaethpwyd gan yr awdurdod lleol....24*

*Angen blaenoriaethol yn ôl math o aelwyd....26*

*Demograffeg y rhai mewn angen blaenoriaethol....26*

*Llety dros dro....27*

*Cyflawni cadarnhaol....29*

Data Ôl-Ddeddf....30

*Aelwydydd dan fygythiad o fod/a dderbynnir yn ddigartref....30*

*Angen blaenoriaethol yn ôl math o aelwyd....31*

*Camau a gymerwyd gan awdurdod lleol....33*

*Mathau o gamau gweithredu a wireddwyd....35*

*Llety dros dro....37*

*Nodweddion demograffig....38*

*Cyflawni cadarnhaol....39*

Crynodeb....40

4. Canfyddiadau Ymgynghori gyda Rhanddeiliaid Cenedlaethol....42

Cryfderau a chyflawniadau allweddol y Ddeddf....43

Canlyniadau ar gyfer pobl digartref ... 47
Cynyddu'r lefelau a chylch gwaith cymorth ... 48
*Y camau rhesymol sydd angen eu cymryd gan awdurdodau lleol er mwyn atal a rhyddhau digartrefedd. ... 50*
*Pwysigrwydd bwriadoldeb (fel yr amlinellir yn a78 o Ddeddf Tai (Cymru) Deddf 2014) ... 51*
*Cyflwyno'r ddyletswydd i gynorthwyo i ryddhau materion yn ymwneud â digartrefedd ... 52*
Effaith y ddeddfwriaeth ar wasanaethau a ddarperir i bobl heb gysylltiad lleol. ... 53
Effaith y Ddeddf ar rai mewn angen blaenoriaethol a'r rhai heb fod mewn angen blaenoriaethol. 54
Effaith y Ddeddf ar bobl gyda nodweddion gwarchodedig ... 55
*Eglurder y llwybrau ar gyfer pobl digartref gydag anghenion cymorth. ... 56*
Effaith y ddeddfwriaeth ar staff digartrefedd awdurdod lleol ... 56
Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) ... 58
Y Sector Rhentu Preifat ... 60
Llety Dros Dro ... 62
Rôl Cefnogi Pobl ... 62
Effaith ar feysydd polisi ac agendâu eraill ... 63
Effaith ar weithio mewn partneriaeth ... 65
Tystiolaeth a Monitro ... 67
Rôl Llywodraeth Cymru wrth gynorthwyo gweithredu'r Ddeddf ... 69
*Cod Arweiniad i awdurdodau lleol ar ddyrannu llety a digartrefedd (2016) ... 69*
*Adnoddau ... 70*
*Hyfforddiant ... 71*
Meysydd i fynd i'r afael â hwy ... 72
*Yr angen am lety tros dro a thymor hir ... 72*
*Cynyddu hygyrchedd gwybodaeth a chyngor ... 73*
Crynodeb o bwyntiau allweddol o'r cyfweliadau gan rhanddeiliaid cenedlaethol ... 73
5. Canfyddiadau o arolwg awdurdodau lleol ... 77
Cod Canllawiau ... 78
Gwybodaeth ac Asesiadau ... 79
*Sianeli gwybodaeth, cyngor a chymorth ... 79*
*Newidiadau i'r gwasanaethau gwybodaeth a chyngor: ... 79*
*Pobl sy'n gadael carchar neu ddalfa ieuenctid: ... 80*
*Pobl ifanc sy'n gadael gofal ... 80*
*Pobl ifanc sy'n gadael Lluoedd Arfog rheolaidd y Goron ... 81*

*Pobl sy'n gadael yr ysbyty ar ôl triniaeth feddygol fel cleifion mewnol am salwch meddwl* ....... 81
*Pobl sy'n derbyn gwasanaeth salwch meddwl yn y gymuned* ........ 82
*Pobl sengl* ........ 82
*Cysgu allan* ........ 83
*Pobl gyda 'nodweddion gwarchodedig'* ........ 83
*Pobl o awdurdodau lleol / trawsffiniol eraill.* ........ 84
*Prosesau i benderfynu a yw asesiad digartrefedd yn gymwys o dan a62 o'r Ddeddf* ........ 85
*Cynlluniau tai personol* ........ 85
Atal ........ 86
*Dyrannu adnoddau* ........ 89
*Prosesau cyn 56 diwrnod* ........ 92
*Agweddau tuag at waith atal* ........ 92
Angen Blaenoriaethol ........ 93
Cymorth i sicrhau ........ 94
*Dyrannu adnoddau o dan y cam cynorthwyo i sicrhau* ........ 97
*Defnydd o lety sector preifat* ........ 97
*Defnydd o lety dros dro* ........ 98
*Materion yn ymwneud â sicrhau llety* ........ 99
*Pobl sengl* ........ 99
*Pobl sy'n cysgu allan* ........ 99
*Pobl gyda 'nodweddion gwarchodedig'.* ........ 100
*Pobl o awdurdodau lleol eraill / trawsffiniol* ........ 100
*Grwpiau eraill.* ........ 101
Dyletswydd i Sicrhau ........ 101
Bwriadoldeb ........ 102
Cysylltiad Lleol ........ 103
Adolygiadau ac Apeliadau ........ 104
Gweithio mewn Partneriaeth ........ 106
*Newidiadau i ddulliau gweithio* ........ 106
*Sector Rhentu Preifat* ........ 107
*Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig* ........ 108
*Gwasanaethau Awdurdodau Lleol a gweithio aml-asiantaethol* ........ 109
Prosesau Cyfeirio a Chefnogi Pobl ........ 109
Monitro ........ 111

*Monitro cydraddoldeb* ........ *111*
*Monitro canlyniadau* ........ *113*
Asesiad Awdurdodau Lleol o Effeithiau'r Ddeddf ........ 114
*Y galw am wasanaethau digartrefedd a sut i'w ddiwallu* ........ *114*
*Heriau* ........ *117*
*Asesiad Cyffredinol* ........ *119*
Crynodeb ........ 119
*Gwybodaeth a Chyngor* ........ *119*
*Cymorth i Atal Digartrefedd* ........ *119*
*Cymorth i Sicrhau Llety* ........ *120*
*Dyletswydd i Sicrhau Llety* ........ *120*
*Adolygiadau ac Apeliadau, Cod Canllawiau a Monitro* ........ *121*
6. Canfyddiadau o’r Don Gyntaf o Gyfweliadau Defnyddwyr Gwasanaeth ........ 122
Demograffeg ........ 122
Digartrefedd yn ôl ardal ........ 124
Ffactorau sy’n arwain at ddigartrefedd ........ 125
*Perthynas yn chwalu a cham-drin domestig* ........ *128*
*Rhieni yn diarddel eu plant* ........ *129*
*Materion yn y sector rhentu preifat* ........ *129*
*Diffyg llety ar ôl cael eu rhyddhau o garchar/ sefydliadau eraill.* ........ *131*
*Troi allan o dai cymdeithasol neu hosteli* ........ *132*
*Trefniadau byw ansicr* ........ *133*
Materion Trawsbynciol ........ 133
*Ôl-ddyledion rhent, cyflogau isel a thoriadau budd-daliadau* ........ *133*
*Materion yn ymwneud ag iechyd meddwl* ........ *134*
Gwybodaeth ar sut i gael cyngor a chymorth digartrefedd ........ 134
Profiadau blaenorol o ddefnyddio gwasanaethau digartrefedd ........ 138
Anghenion cymorth a darparu gwasanaethau ........ 141
*Cymorth Iechyd Meddwl* ........ *142*
*Cefnogaeth Iechyd Corfforol* ........ *144*
*Cymorth i gael budd-daliadau* ........ *144*
*Cymorth i gynnal cyfrifoldebau gofal* ........ *145*
Safbwyntiau ynglŷn â’r gwasanaethau digartref a phrofiadau hyd yn hyn ........ 145

*Y graddau mae awdurdodau lleol yn deall amgylchiadau unigol a sut i gynorthwyo* ............... *147*

*Defnyddio'r gwasanaethau digartrefedd* ............... *149*

*Empathi* ............... *149*

*Cyfathrebu* ............... *150*

*Diffyg cysylltiad wyneb-yn-wyneb* ............... *151*

*Diffyg empathi* ............... *151*

Profiadau merched ............... 154

*Diffyg dealltwriaeth o anawsterau yn y sector rhentu preifat.* ............... *155*

*Rhagfarn yn deillio o wybodaeth bersonol flaenorol* ............... *155*

Profiad o hosteli ............... 156

*Dyheadau lletya yn ystod y chwe mis nesaf.* ............... *158*

Bylchau mewn darparu gwasanaeth ............... 162

*Diffyg lloches mewn argyfwng* ............... *162*

*Darpariaeth hostel fwy addas i ferched a chyplau* ............... *162*

*Yr angen am lety sy'n caniatáu anifeiliaid* ............... *163*

*Diffyg tai cymdeithasol / rhentu preifat addas* ............... *164*

*Gwybodaeth fwy eglur a diweddariadau mwy rheolaidd* ............... *165*

Crynodeb o gasgliadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau ............... 166

7. Canlyniadau ............... 170

Proses ............... 170

*Canolbwyntio ar atal* ............... *170*

*Cod Canllawiau* ............... *171*

*Y defnydd o fwriadoldeb* ............... *171*

*Angen blaenoriaethol/heb fod mewn angen blaenoriaethol.* ............... *172*

*Cysylltiad lleol.* ............... *172*

*Llwybrau* ............... *172*

*Cefnogi Pobl* ............... *173*

*Tystiolaeth a Monitro* ............... *173*

Effaith ............... 174

*Adnoddau* ............... *174*

*Canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth* ............... *174*

*Yr effaith ar bobl gyda nodweddion gwarchodedig/grwpiau sy'n agored i niwed.* ............... *176*

*Effaith y Ddeddf ar staff awdurdodau lleol* ............... *177*

*Effaith y Ddeddf ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC)* ........................................ *177*
*Effaith y Ddeddf ar y sector rhentu preifat* ................................................................................ *178*
*Effaith y Ddeddf ar y defnydd o lety dros dro* .......................................................................... *179*
*Effaith y Ddeddf ar agendâu eraill a gweithio mewn partneriaeth* ........................................... *179*
Adran Cyfeirnod ........................................................................................................ 181
Annex A: Cwestiynau Arolwg Awdurdodau Lleol ................................................................ 184

**Rhestr o dablau**

Tabl 3.1: Demograffeg y rhai mewn angen blaenoriaethol (2014-15)

Tabl 3.2: Aelwydydd sy’n gadael llety dros dro yn ôl y rheswm a’r flwyddyn

Tabl 3.3: Prif reswm am ddigartrefedd (2015-16)

Tabl 3.4: Camau cadarnhaol a gymerwyd, yn ôl awdurdod lleol (2015-16)

Tabl 3.6: Demographeg atal, rhyddhau a chyflawni (2015-16)

Tabl 3.7: Rhesymau dros gyflawni dyletswydd o dan adran 75 (2015-16)

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 3.1: Penderfyniadau a wnaethpwyd gan yr awdurdod lleol, 2014-15
Ffigur 3.2: Llety dros dro, amser a dreulir a math o aelwyd (2014-15, Ion-Mawrth)
Ffigur 3.3: Aelwydydd mewn angen blaenoriaethol (a75) yn ôl math o aelwyd (2015-16)
Ffigur 3.4: Llety dros dro, faint o amser a math o aelwyd (2015-16, Ionawr- Mawrth)
Ffigur 5.1: Barn ar ddefnyddioldeb cynlluniau tai personol (N = 20)
Ffigur 5.2: Darparu gwasanaethau atal (N=22)
Ffigur 5.3: Cynnydd yn y ddarpariaeth gwasanaethau atal ar ôl y Ddeddf (N = 22)
Ffigur 5.4: Adnoddau atal (N=22)
Ffigur 5.5: Barn am waith atal (N = 22)
Ffigur 5.6: Darparu cymorth i sicrhau llety (N = 22)
Ffigur 5.7: Cynnydd yn y ddarpariaeth o gymorth i sicrhau llety ar ôl y Ddeddf (N = 22)
Ffigur 5.8: Maint y newid yn y defnydd o lety dros dro / sector rhentu preifat (N = 22)
Ffigur 5.9: Defnydd o'r sector rhentu preifat (N = 22)
Ffigur 5.10: Nodweddion Cydraddoldeb wedi eu cofnodi yn y data (N = 22)
Ffigur 5.11: Barn am fonitro cydraddoldeb (N = 22)
Ffigur 6.1: Oedran ymatebwyr
Ffigur 6.2: Cyfansoddiad teuluol
Ffigur 6.3: Rhesymau am ddigartrefedd yn ôl ardal
Ffigur 6.4: Rhesymau pam fod unigolion yn wynebu digartrefedd (N = 154)
Ffigur 6.5: Rhesymau pam fod dynion a merched yn wynebu digartrefedd (N = 55)
Ffigur 6.6: Dadansoddiad o broblemau teuluol ar gyfer dynion a merched
Ffigur 6.7: Rhesymau troi allan o'r sector rhentu preifat: n = 33
Ffigur 6.8: Sut mae pobl yn gwybod lle i fynd i geisio cymorth: N = 151
Ffigur 6.9: Sut mae pobl yn gwybod lle i fynd i geisio cymorth yn ôl awurdodau:
Ffigur 6.10: Canran yr ymatebwyr yn benodol yn datgan anghenion cymorth sylfaenol
Ffigur 6.11: Lefel o gymorth yn ôl ardal
Ffigur 6.12: A yw'r awdurdod lleol yn deall y sefyllfa, a sut y gallant fod o gymorth? N = 154
Ffigur 6.13: Gobeithion ymatebwyr am gartref

**Geirfa**

Testun yr eirfa

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| RSL<br>LCC | Registered Social Landlords<br>Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig |
| PRS<br>SRhP | Private Rented Sector<br>Sector Rhentu Preifat |
| DVA<br>CDT | Domestic Violence and Abuse<br>Camdriniaeth Domestig a Thrais |
| WHQS<br>SATC | Welsh Housing Quality Standards<br>Safon Ansawdd Tai Cymru |
| BME<br>DLIE | Black, Minority Ethnic<br>Du, Lleiafrifoedd Ethnig |

# 1. Rhagarweiniad a Chefndir y Ddeddf

1.1 Cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014 newidiadau sylweddol yn y modd mae mynd i'r afael â digartrefedd (o Ebrill 2015), gyda'r newidiadau craidd i Ran 2 o'r Ddeddf[1] yn anelu at gael y gwasanaethau i ganolbwyntio ar atal digartrefedd a darparu cymorth i bob ceisydd cymwys. Mae'r gwerthusiad ôl-weithredol hydredol o'r rhan hon o'r Ddeddf sy'n canolbwyntio ar broses ac effaith fel ei gilydd, bellach ar droed.

1.2 Y nod gyffredinol o'r gwerthusiad yw deall sut mae'r Ddeddf wedi cael ei gweithredu gan sefydliadau sydd yn gysylltiedig â chefnogi pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref (awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a sefydliadau trydydd sector), ac unwaith y'i cwblheir, bydd yr ymchwil yn hysbysu dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o effaith y ddeddfwriaeth ar bobl sy'n ddigartref / sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

1.3 Mae amcanion penodol y gwerthusiad hwn fel a ganlyn:

- Er mwyn gwerthuso gweithredu'r ddeddfwriaeth gan awdurdodau lleol
- Er mwyn gwerthuso effeithiau byr a hirdymor y ddeddfwriaeth newydd
- Er mwyn canfod, drwy gofnodi interim a therfynol, yr angen am welliannau pellach, datblygiadau a chefnogaeth i sicrhau fod gwasanaethau cyson da yn cael eu darparu ar draws Cymru.
- Er mwyn asesu effaith y ddeddfwriaeth ar ddefnyddwyr gwasanaeth, awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol.
- Er mwyn gwerthuso'r effeithiau ar ddigartrefedd, gyda llawer mwy o bwyslais ar atal, sy'n nodwedd graidd o'r Ddeddf Dai (Cymru) 2014.

1.4 Mae'r gwerthusiad yn cynnwys dwy don o waith maes; canfyddiadau'r don gyntaf o'r gwaith maes sydd yn cael ei gyflwyno yn yr adroddiad interim hwn. Mae'r canfyddiadau yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad yn ôl grŵp o ymatebwyr, o ystyried cyfoeth a manylder yr ymatebion a dderbyniwyd. Fel adroddiad interim, ni chynhwysir argymhellion yn yr adroddiad, ond fe fydd yn ffurfio rhan o'r adroddiad terfynol.

[1] Cyfeirir ati fel y Ddeddf drwy gydol yr adroddiad hwn

1.5 Mae strwythur yr adroddiad Interim fel a ganlyn:

Pennod 1: Rhagarweiniad a Chefndir y Ddeddf

Pennod 2: Dulliau methodolegol y gwerthusiad

Pennod 3: Adolygiad o ddata eilaidd

Pennod 4: Canfyddiadau'r ymgynghori gyda rhanddeiliaid cenedlaethol

Pennod 5: Canfyddiadau o arolwg awdurdodau lleol

Pennod 6: Canfyddiadau o’r don gyntaf o gyfweliadau defnyddwyr gwasanaeth

Pennod 7: Casgliadau

**Cefndir a manylion allweddol y Ddeddf**

1.6 Cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014 - a weithredwyd yn Ebrill 2015 - nifer o newidiadau i’r modd y mae mynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru. Mae’r prif newidiadau yn cynnwys:

- Cyflwyno dyletswyddau newydd ar gyfer awdurdodau lleol i atal digartrefedd drwy gynorthwyo unrhyw un sy’n gofyn am gymorth a’i bod yn ddyletswydd ar awdurdodau i weithredu “camau rhesymol” i atal neu ryddhau digartrefedd.
- Ymyriadau mwy hyblyg gan awdurdodau lleol er mwyn sicrhau atal mwy effeithiol o ddigartrefedd.
- Newid yn y diwylliant sefydliadol a chyflwyno Cynlluniau Lletya Personol i gynnal dull person-ganolog/partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a’r bobl sy’n gofyn am gymorth.
- Cynyddu’r cyfnod pan fo pobl yn cael eu hystyried dan fygythiad o ddigartrefedd o 28 i 56 diwrnod.
- Newidiadau yn y defnydd o angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a darpariaethau cysylltiad lleol.
- Creu fframwaith newydd er mwyn cynnwys cymdeithasau tai a'r sector rhentu preifat i leddfu digartrefedd.

1.7 Nod y Ddeddf yw sicrhau fod:

- cymorth ar gael i bawb sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu sy'n ddigartref;
- ymyriadau cynnar yn digwydd i atal argyfyngau;
- llai o bwyslais ar angen blaenoriaethol;
- y defnydd gorau'n cael ei wneud o adnoddau, gan gynnwys llety rhentu preifat;
- awdurdodau lleol yn cydweithio gyda phobl i ddod o hyd i’r datrysiadau gorau ynglŷn â llety


- gweithio mewn partneriaeth ar draws sefydliadau i gyflawni datrysiadau cynaliadwy

1.8 Mae hyn yn golygu fod mwy o bobl nag erioed â hawl i gymorth, er bellach nid cynnig o dai cymdeithasol yw'r prif fath o gymorth sydd ar gael. Yn lle hynny, mae'n haws i awdurdodau lleol gyflawni dyletswyddau digartrefedd drwy gynnig llety yn y sector preifat.

1.9 Mae newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn golygu fod dod i'r afael â digartrefedd yng Nghymru, fel y'i deêllir ar hyn o bryd i ddigwydd mewn tri cham: (1) atal digartrefedd (atal); (2) lleddfu digartrefedd (rhyddhau); a (3) sicrhau llety. Mae'r ddau gam cyntaf ar gael i bawb, boed hwy mewn angen blaenoriaethol, digartrefedd bwriadol neu heb gysylltiad lleol. O fewn y cyfnod hwn mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gymryd 'camau rhesymol' i atal neu ryddhau pobl o fod yn ddigartref pan maent mewn perygl o fod yn ddigartref yn ystod y 56 diwrnod nesaf, neu mewn gwirionedd yn ddigartref. Mae camau rhesymol yn cynnwys: rhoi cymorth i bobl i ddod o hyd i lety; cynorthwyo gyda bondiau a rhent ymlaen llaw; cyfeirio pobl at wasanaethau cymorth; a chyfeirio pobl at wasanaethau cyfryngu i roi cymorth i deuluoedd aros gyda'i gilydd ac aros yn eu llety eu hunain. Daw'r trydydd cam i rym oni fydd y gweithgareddau atal a rhyddhau yn atal pobl rhag bod yn ddigartref. Yn y cam hwn, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol i asesu a yw pobl yn gymwys o dan y categorïau angen blaenoriaethol, yn ddigartref yn anfwriadol a'r cysylltiad lleol. Os yw aelwydydd yn gymwys ar gyfer y ddyletswydd i sicrhau cartref, rhaid i'r awdurdod lleol roi cymorth iddynt i ddod o hyd i lety addas a ddylai bod ar gael am o leiaf chwe mis.

1.10 Yn ymarferol, mae hyn yn golygu fod yn rhaid i awdurdodau lleol bellach ddilyn cyfres o ddyletswyddau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth ar gyfer atal a rhyddhau digartrefedd.

1.11 Esbonnir pob un o'r dyletswyddau hyn isod[2]




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2016:4)
Nodyn: - 'Arall' yn cynnwys gwrthod cymorth, heb gydweithredu a rhesymau eraill

[2] Nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth proses brawf y cysylltiad lleol

1.12 A62, Dyletswydd i asesu, sy'n golygu bod rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiad o amgylchiadau'r person, (neu'r aelwyd), os yw'r person yn holi ynglŷn â llety, neu os byddant yn gofyn am gymorth i gadw neu gael llety arall. Bydd yr awdurdod lleol yn asesu a yw'r person yn ddigartref neu yn debygol o fod yn ddigartref o fewn y 56 diwrnod nesaf (mewn geiriau eraill a yw'r person o dan fygythiad o fod yn ddigartref). Os bydd yr awdurdod lleol yn derbyn bod y person yn ddigartref neu o dan fygythiad o fod yn ddigartref – hynny yw, â hawl i ddyletswydd o gymorth - yna mae'n rhaid i'r awdurdod wneud asesiad: amgylchiadau a arweiniodd at ddigartrefedd y person / bygythiad o ddigartrefedd; anghenion lletya'r person / ei aelwyd; a oes ganddynt unrhyw anghenion o ran cymorth; ac a oes unrhyw ddyletswyddau eraill yn berthnasol; a pha ganlyniad mae'r person / ei aelwyd yn disgwyl ei gyflawni gyda chymorth yr awdurdod a sut y gallant gefnogi hyn.

1.13 Unwaith y bydd Dyletswydd i Asesu wedi cael ei chyflawni, os yw'r person yn cael ei dderbyn o **dan fygythiad o ddigartrefedd** o fewn 56 diwrnod o dan a62, ac yn gymwys i dderbyn cymorth, yna mae'r awdurdod lleol yn derbyn y Ddyletswydd i gynorthwyo i atal ceisydd rhag bod yn ddigartref (a66). Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol yn awr weithredu 'camau rhesymol' (a65) fel y nodir uchod er mwyn cynorthwyo i atal y person rhag bod yn ddigartref.

1.14 Os yw person yn cael ei dderbyn fel **bod yn ddigartref** ac yn gymwys i gael cymorth o dan a62 o'r Ddeddf, mae'r awdurdod lleol yn derbyn y Ddyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety (a73). Os ystyrir y person / ei aelwyd yn debygol o fod mewn angen blaenoriaethol, bydd yr awdurdod lleol hefyd yn ei roi mewn llety dros dro (o dan a68 o'r Ddeddf) tra byddant yn cymryd camau rhesymol i gynorthwyo sicrhau llety. Ar gyfer aelwydydd heb fod mewn angen blaenoriaethol, rhaid i'r awdurdod lleol barhau i gymryd camau rhesymol o dan a73.

1.15 A75 o'r Ddeddf - y Ddyletswydd i sicrhau llety - yn berthnasol i'r ceiswyr hynny sydd mewn angen blaenoriaethol. Er enghraifft, merched beichiog; pobl sydd â phlant dibynnol ar yr aelwyd; pobl agored i niwed; pobl sy'n profi camdriniaeth ddomestig; pobl sydd angen gadael eu cartref oherwydd argyfwng, er enghraifft o ganlyniad i dân neu lifogydd; 16 a 17 oed; 18-21 oed a allai fod mewn perygl o gael eu camdrin neu wedi bod yn y system gofal yn flaenorol; cyn-filwyr yn ddigartref ar ôl gadael y lluoedd arfog; a phobl fregus o ganlyniad i fod yn y ddalfa neu remánd. Os yw'r camau i ryddhau digartrefedd yn aflwyddiannus, a bod yr awdurdod lleol yn fodlon fod y person / aelwyd mewn angen blaenoriaethol, yn gymwys i gael cymorth, (ac

os yw'r awdurdod yn ystyried a ydynt yn ddigartref yn fwriadol, yna mae angen iddynt fod yn fodlon bod digartrefedd yn anfwriadol) yna mae'n rhaid iddynt dderbyn y Ddyletswydd i sicrhau llety (unwaith i a73 ddod i ben). Yna mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd drwy sicrhau eu bod yn cynnig llety am gyfnod, heb fod yn llai na chwe mis, a gall hyn yn awr olygu cynnig llety yn y sector preifat.

## 2. Dull Methodoleg y Gwerthuso

2.1 Dechreuodd y gwerthusiad o’r prosesau sydd ynghlwm â gweithredu’r Ddeddf a’i heffaith yn 2016, a bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gynhyrchu yn 2018. Mae’r gwerthusiad yn cynnwys methodoleg ymchwil meintiol ac ansoddol o nifer o gyfnodau cyflenwol gan ddefnyddio nifer o ddulliau ymchwil gwahanol. Llywiwyd y tîm astudio gan Lywodraeth Cymru a'r Grŵp Ymgynghorol a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol ar draws Cymru. Datblygwyd cyfryngau ymchwil gan y tîm ymchwil ac fe’u cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Hyd yma, mae'r gweithgareddau canlynol wedi'u cwblhau:

- Dadansoddiad meintiol o ddata eilaidd
- Arolwg ac adolygiad o 22 awdurdod lleol [ton gyntaf: Mehefin - Awst 2016]
- Ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid cenedlaethol [ Hydref – Tachwedd 2016]
- Dethol chwe ardal awdurdod lleol ar gyfer astudiaethau achos i ymgynghori a gweithio’n agos gyda darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth [Medi 2016]
- Astudiaeth Achos: Ymgynghori a gweithio’n agos gyda defnyddwyr gwasanaeth [ton gyntaf: Hydref 2016 - Ionawr 2017]
- I’w cwblhau:
- Astudiaeth Achos: Ymgynghori a gweithio’n agos gyda darparwyr gwasanaeth
- Arolwg ac adolygiad o 22 o awdurdodau lleol
- Dadansoddiad meintiol o ddata eilaidd
- Astudiaeth Achos: Ymgynghori a gweithio’n agos gyda defnyddwyr gwasanaeth
- Coladu ac adolygu gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli: adolygiad o lenyddiaeth a pholisi

**Dadansoddiad eilaidd o ystadegau digartrefedd**

2.2 Archwiliwyd yr ystadegau digartrefedd a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru yn chwarterol oddi wrth yr awdurdodau lleol. Cymerwyd y data yma o wefan Ystadegau ar gyfer Cymru, sydd ar gael i’r cyhoedd. Mae’r dadansoddiadau ar gael ym Mhennod 3.

**Ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid cenedlaethol.**

2.3 Cynhaliwyd un ar bymtheg o gyfweliadau gyda'r rhanddeiliaid cenedlaethol o'r cyrff canlynol:

- Cartrefi Cymunedol Cymru (1)
- Chartered Institute of Housing Cymru (1)
- Cymorth Cymru (1)
- Sefydliad Addysg Uwch (1)
- Rhwydwaith Digartrefedd (1)
- Shelter Cymru (2)
- Cymdeithas Landlordiaid Preifat (1)
- Take Notice Project (1)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (1)
- Isadran Polisi Tai Llywodraeth Cymru (4)
- Tai Pawb (1)
- Chartred Institute of Housing (1)

2.4 Canfuwyd y cyrff/unigolion uchod yn arwyddocaol wrth lunio'r Ddeddf, neu fel bod mewn sefyllfa i ddarparu persbectif pwysig ynglŷn â'i hethos, modd gweithredu a'i heffaith. Roedd rhai o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn gysylltiedig ag adolygu'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd flaenorol yng Nghymru a datblygu'r Ddeddf Dai (Cymru) 2014. Drafftiodd ac archwiliodd eraill y Ddeddf cyn iddi gael ei rhoi mewn grym; rhai yn ymdrin â'i gweithrediad strategol ac roedd eraill yn ymwneud â datblygu'r Cod Canllawiau. Rhag datgelu enwau'r rhanddeiliaid cenedlaethol a'r cyrff y maent yn eu cynrychioli, nid oes unrhyw wybodaeth wahaniaethol yn cael ei gynnwys yn y detholiadau o'u cyfweliadau. Mae canfyddiadau'r cyfweliadau hynny yn cael eu hadrodd ym Mhennod 4.

**Arolwg awdurdod lleol (Ton Gyntaf)**

2.5 Pwrpas yr arolwg oedd casglu gwybodaeth ansoddol a meintiol yn ymwneud â'r gwahanol gamau a amlinellir yn y Ddeddf. Datblygwyd yr arolwg gan y tîm ymchwil gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol ar draws Cymru, a'i dreialu mewn un awdurdod lleol i wirio'r cynnwys cyn ei gyflwyno i weddill yr awdurdodau lleol.

2.6 Derbyniwyd ymatebion (un gan bob tîm tai awdurdod lleol) rhwng y 4ydd o Orffennaf a'r 25ain o Awst, 2016. Anfonwyd e-bost gan Lywodraeth Cymru i gysylltiadau allweddol yn y timau tai awdurdodau lleol yn cyflwyno'r arolwg gan gynnwys linc. Anfonwyd e-byst dilynol gan y tîm ymchwil a Llywodraeth Cymru i'w hatgoffa nes derbyn adwaith gan bob awdurdod lleol (h.y. cyfradd ymateb 100%). Mae'r canfyddiadau yn cael eu hadrodd ym Mhennod 5.

**Detholiad o astudiaethau achos**

2.7 Dewiswyd chwe astudiaeth achos ar sail ddaearyddol: trefol/gwledig/arfordirol a gogledd/canolbarth/de Cymru lle'r oedd awdurdod lleol naill ai wedi cadw stoc dai neu wedi eu trosglwyddo i LCC. Llywiwyd y dewis gan feini prawf ychwanegol o Stats Cymru, yn cynnwys perfformiad yn seiliedig ar ddigartrefedd wedi ei atal yn llwyddiannus (a66) a'i ryddhau (a73). Yn ogystal, rhoddwyd ystyriaeth i astudiaethau eraill sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gan Shelter Cymru[3] a Swyddfa Archwilio Cymru[4], er nad oedd hyn o anghenraid yn hepgor cynhwysiad. Nid yw lleoliadau yr astudiaethau achos yn cael eu datgelu naill ai yn yr adroddiad interim na'r adroddiad terfynol.

**Astudiaeth Achos: Ymgysylltu ac ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth [ton gyntaf: Hydref 2016 - Ionawr 2017]**

2.8 Un o elfennau allweddol y gwerthusiad hwn yw archwilio effaith newidiadau gwasanaeth o safbwynt y bobl sydd wedi derbyn cefnogaeth. Er mwyn deall profiadau o wasanaethau ac effaith y gefnogaeth mae pobl wedi ei dderbyn cynhaliwyd y don gyntaf o ymchwil ansoddol hydredol gyda phobl sydd wedi manteisio ar wasanaethau digartrefedd ym mhob un o'r meysydd astudiaethau achos.

2.9 Fe wnaeth y tîm prosiect weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yr astudiaethau achos i gael mynediad i fframwaith samplu i sicrhau targedu fod y rhai wnaeth ymateb gydag ehangder demograffig, gan gynnwys: y rheini sy'n ddigartref/ mewn perygl o fod yn ddigartref; amrywiaeth o ran mathau o aelwydydd; a phobl gyda nodweddion gwarchodedig. Lleolwyd aelodau o'r tîm ymchwil yn swyddfeydd awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan gan fod hyn yn cynnig y dull mwyaf effeithiol i recriwtio cyfranogwyr yn nhon 1.

[3] Yn Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Sir Fflint, Conwy a Rhondda Cynon Taf

[4] Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful ac Abertawe

2.10 Ceisiodd y tîm ymchwil gyfweld â 25 o ddefnyddwyr gwasanaeth ym mhob ardal astudiaeth achos yn ystod y don gyntaf gan ragweld athreuliad dros gyfnod o 6 - 8 mis. Cynhaliwyd 154 o gyfweliadau yn gyfangwbl, ar draws y chwe ardal awdurdod lleol a'r sampl yn cynnwys pobl a oedd yn ddigartref neu a oedd yn derbyn cymorth gan yr awdurdodau lleol yn ystod cyfnod y gwaith maes. Trefnwyd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau gan staff yr awdurdod lleol a'u cynnal yn swyddfeydd yr awdurdod lleol, neu mewn hosteli a llochesi. Er mai'r nod cychwynnol oedd cyfweld pobl wrth iddynt ofyn cymorth gan yr awdurdod lleol am y tro cyntaf, doedd hyn ond yn bosibl mewn ardaloedd trefol iawn lle'r oedd nifer y bobl a oedd yn chwilio am gymorth yn ddigon uchel ar gyfer hyn. Ar gyfer ardaloedd mwy gwledig addaswyd y strategaeth samplo cychwynnol a'i ehangu i gynnwys pobl a oedd eisoes yn derbyn gwasanaethau. Fe wnaeth yr ymchwilwyr dreulio amser ychwanegol yn yr ardaloedd hyn, gan gynnal cyfweliadau dros y ffôn pan ofynnwyd am hynny.

2.11 Pwrpas casglu data gan ddefnyddwyr gwasanaeth oedd er mwyn crynhoi data o'u profiadau byw o gael ac ymdrin â gwasanaethau yn ogystal â'u profiadau o weithrediadau atal a'r llwybrau at gymorth. Cafodd cyfranogwyr ddewis cael y cyfweliadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg, (fe wnaeth pawb ddewis cael cyfweliad yn Saesneg).

2.12 Canolbwynt cyfweliadau ton 1 oedd cipio data sylfaenol perthnasol i'w dilyn yn agos yn nhon 2 ac i sefydlu perthynas gyda'r cyfranogwyr ymchwil. Fel canlyniad, roedd cyfweliadau yn nhon 1 yn fyr ac yn weddol strwythuredig, ac wedi eu cynllunio i gymryd dim mwy na thua 15 munud.

2.13 Canolbwyntiodd y cyfweliadau yn bennaf ar bedair thema allweddol:

- Rhesymau dros gael mynediad i gefnogaeth gan y tîm digartrefedd (gan gynnwys rhesymau dros fod yn ddigartref/ mewn perygl o fod yn ddigartref ac unrhyw anghenion cefnogaeth/nodweddion gwarchodedig a all fod ganddynt).
- Profiadau o'r broses o gael cefnogaeth (cadarnhaol a negyddol) (e.e. pa mor dda roedd pobl yn teimlo eu bod wedi cael eu cynorthwyo?) Oeddent yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch yn ystod eu cysylltiad cyntaf gyda'r gwasanaeth?)
- Lefel sefydlogrwydd o ran y cartref y maent yn ei ddisgwyl/obeithio ei gael yn ystod chwe mis nesaf
- Eu barn am fylchau canfyddedig mewn / manteision cymorth

2.14 Eglurwyd diben a natur yr ymchwil yn fanwl i'r holl gyfweleion posibl. Esboniwyd hefyd fod cymryd rhan yn yr ymchwil yn gwbl wirfoddol, a'u bod yn rhydd i dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg, a byddai'r holl wybodaeth a ddarganfuwyd yn cael ei storio'n ddiogel a'i drin yn hollol gyfrinachol. Pwysleisiodd yr ymchwilwyr eu hannibyniaeth o'r awdurdod lleol ac na fyddai cymryd rhan yn yr ymchwil yn cael unrhyw effaith ar y gefnogaeth maent yn ei dderbyn. Yn ogystal, gwahoddwyd y cyfweleion posibl i ofyn unrhyw gwestiynau a oedd ganddynt am y gwerthusiad. Cafwyd caniatâd gwybodus a'i recordio cyn cynnal unrhyw gyfweliad. Ar ôl derbyn caniatâd cafodd y cyfweliadau eu recordio yn ddigidol (dim ond un person wnaeth wrthod ac yn yr achos yma fe wnaeth yr ymchwilydd wneud nodiadau manwl). Cynigiwyd taleb siopa gwerth £10 i'r cyfranogwyr fel iawndal am eu hamser.

2.15 Ar ôl cwblhau cyfweliad ton 1, gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr am eu caniatâd i gysylltu â hwynt eto ymhen 6 - 8 mis. Cytunodd y cyfweleion, a phan ofynnwyd iddynt fe wnaethant rannu eu manylion cyswllt gyda'r tîm ymchwil, ac mewn nifer o achosion manylion cyswllt aelodau o'r teulu, cyfeillion a/neu weithwyr cymorth y gellid cysylltu â hwynt. Ar ôl 6 mis, ail gysylltir â phawb a gyfranogodd yn nhon 1 o'r ymchwil a chael eu gwahodd i fynychu ail gyfweliad. Bydd ton 2 yn cynnwys archwiliad treiddgar o effaith y gefnogaeth ar eu sefyllfa ynglŷn â chartref. Felly mae'r cyfweliadau yn y don hon yn debygol o fod llawer hirach na'r rhai yn nhon 1 (o gwmpas 45 munud). Mae canfyddiadau cyfweliadau'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hadrodd ym Mhennod 6.

## 3. Adolygiad o Ddata Eilaidd.

3.1 Mae'r bennod hon yn archwilio'r ystadegau digartrefedd y mae Llywodraeth Cymru yn eu casglu bob chwarter oddi wrth yr awdurdodau lleol. Mae'r holl ddata yn cael ei gymryd o wefan Ystadegau ar gyfer Cymru sydd hefyd ar gael i'r cyhoedd. Ar y cyfan, nid yw cymariaethau uniongyrchol o ddata Cyn ac Ôl-Ddeddf yn bosibl oherwydd newidiadau mewn dulliau gweithio a chasglu data Er enghraifft, ni chofnodwyd gweithgareddau atal cyn gweithredu'r Ddeddf, ac o dan y ddeddfwriaeth newydd dim ond cael ei ddarparu yn y cyfnodau diweddaraf y mae'r categori angen blaenoriaethol. Mae data Cyn-Ddeddf yn cael ei archwilio gyntaf, cyn troi at ddata Ôl -Ddeddf. Pan fo'n ymarferol, dadansoddir data yn ôl awdurdod lleol er mwyn cymharu perfformiad rhwng y 22 awdurdod lleol.

3.2 Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ffigurau a ddefnyddir yma ar gyfer Ebrill 2014 - Mawrth 2015 yn ddata Cyn-Ddeddf ac Ebrill 2015 - Mawrth 2016 i'r data Ôl-Ddeddf. Cynrychioliad o'r flwyddyn lawn ddiweddaraf o ddata sydd ar gael. Tra fo data ar gyfer unigolion sy'n cysgu allan yn cael ei gasglu ar ffurf cipluniau o un noson, ni ddadansoddir hyn yn y bennod hon gan fod y data yn cael ei gyflwyno fel ystadegau arbrofol a newidiadau yn y fethodoleg (Llywodraeth Cymru, 2017).

3.3 Dylid nodi, mai dim ond yn ddiweddar y mae data Ôl-Ddeddf wedi dechrau cael eu casglu, ac mi allai fod amrywiadau yn y dull y cesglir y data[5]. Gan fod pryderon am ansawdd y data a ddychwelwyd i Lywodraeth Cymru o dan y Ddeddf, mae'r ystadegau wedi cael eu dad-ddynodi fel Ystadegau Gwladol [6].

---

[5] Mae gwefan Stats Cymru (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/ )) yn nodi bod ffactorau sy'n effeithio ar ansawdd a chywirdeb y data a gasglwyd *'yn bennaf oherwydd y newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015 a'r amser sydd ei angen ar gyfer darparwyr data awdurdodau lleol i amsugno effaith y newidiadau hyn yn llawn ac i addasu eu systemau a phrosesau mewnol yn unol â hynny.'*

[6] Mae gwefan Stats Cymru hefyd yn esbonio fel a ganlyn: *'Er ein bod wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i wella ansawdd y data, mae terfyn ar y gwelliannau y gellir eu gwneud yn ôl-weithredol i'r data 2015-16 a rhai pryderon ynghylch ansawdd a chywirdeb y data yn parhau. Er bod ystadegau digartrefedd statudol cyn Ebrill 2015 wedi cael eu dynodi'n Ystadegau Gwladol, o ystyried y pryderon ynghylch ansawdd y data, cytunwyd gydag Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig i ddad-ddynodi dros dro data Ystadegau Digartrefedd 2015 - 2016. Felly, nid yw data 2015-16 a gyhoeddwyd ar Stats Cymru ac o fewn y datganiad sy'n cyd-fynd yn cael eu cyfri fel Ystadegau Gwladol'.*

3.4 Yn ychwanegol, ceir sawl cyfyngiad data arall. Yn benodol, oherwydd rhesymau cyfrinachedd nid oedd data crai ar gael, sy'n golygu (1) disodlir union ffigurau gan serenigion pan fo cyfanswm o dri neu lai ar gyfer categori penodol i'r data Cyn-Ddeddf (5 neu lai i'r data Ôl-Ddeddf); (2) talgrynnir yr holl ddata i'r 3 agosaf (5 i'r data Cyn-Ddeddf). Cesglir y data ar ffurf cyfres o dablau cyfanredol (h.y. nid cofnod unigol o ddata). Golyga hyn bod y graddau dadansoddi perthynas yn y data yn gyfyng, oherwydd y talgrynnir y data drwy ddefnydd o serenigion[7]. Yn ogystal, mae'r defnydd o serenigion yn golygu nad yw'r cyfansymiau bob amser yn cyfateb. Er mwyn uchafsymio'r defnydd o amcangyfrifon a allai ogwyddo'r canfyddiadau, 'roedd serenigion yn cael eu trin fel 0 ar gyfer y dadansoddiad.

3.5 Gan fod y Ddeddf wedi dod i rym dair wythnos i mewn i'r chwarter casglu data (Ebrill 27ain 2015), bu cyfnod o orgyffwrdd pan reolwyd rhai achosion o dan yr hen ddeddfwriaeth a rhai dan y ddeddfwriaeth newydd. Yn ystod y cyfnod hwn gofynnwyd i awdurdodau lleol i gofnodi achosion cyn 27ain o Ebrill gan ddefnyddio'r dull ffit orau. Barn Llywodraeth Cymru yw y gallai hyn fod wedi effeithio ar gywirdeb ystadegau chwarter cyntaf y data ôl-Ddeddf yn 2015 – 16 (Llywodraeth Cymru, 2016).

3.6 Mater a godwyd gan Shelter Cymru yw bod rhai pobl yn derbyn ymyriadau gan asiantaethau partner sydd ddim yn ymddangos yn yr ystadegau swyddogol gan eu bod yn cael cefnogaeth sydd ddim yn cael ei gofnodi fel camau rhesymol. (Shelter Cymru, 2016). Gallai hyn er enghraifft gynnwys ymyriadau gan staff hostel. Y goblygiad ar gyfer y data yw gall y nifer o ymyriadau fod yn danamcangyfrif, a thrwy hynny'r graddau mae digartrefedd yn broblem yng Nghymru, y gwaith sy'n cael ei wneud yn gysylltiedig â hyn yn ogystal â'r cyllid sydd ei angen, hefyd yn cael ei danamcangyfrif. Dylid felly cydnabod bod hwn yn gyfyngiad posibl ar y data, ac felly dylid ei ddehongli yn ofalus.

[7] Mae'r serenigion yn cael eu cydnabod fel data nad yw'n rhifol gan becynnau meddalwedd ystadegol ac felly byddai angen iddynt gael eu disodli gyda data rhifiadol. Mae hyn yn golygu defnyddio amcangyfrifon a allai ystumio'r canlyniadau, yn enwedig wrth gymharu awdurdodau lleol sydd â phoblogaethau digartref llai.

### Y cyd-destun tai

3.7 Amcangyfrifwyd fod poblogaeth Cymru yng nghanol 2015 yn 3,099,100, cynnydd o 35,600 ers y cyfrifiad 2011, pan oedd poblogaeth Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (DLIE) yn 4.4% o’r holl boblogaeth. (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2012a, 2012b, 2016). Roedd cyfanswm o 1,332,359 o aelwydydd ar draws y 22 awdurdod lleol, yn 2015. Mae cryn amrywiaeth rhwng poblogaethau ardaloedd lleol yng Nghymru. Mae bron i draean o anheddau wedi eu crynhoi i dair ardal: Caerdydd, Abertawe a Rhondda Cynon Taf, gyda thros 100,000 o anheddau ym mhob ardal. Mewn cymhariaeth, mae gan Ferthyr Tudful, Ynys Môn a Blaenau Gwent ychydig dros 86,000 rhyngddynt.

3.8 Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cynnwys cymysgedd ddaearyddol yn wledig a threfol, fodd bynnag yn gyffredinol ystyrir naw awdurdod lleol i fod yn wledig (Llywodraeth Cymru, 2008) ac mae hyn yn cynnwys awdurdodau yng Nghanolbarth, Gogledd a De Cymru. O ran y stoc dai, mae 11 o’r 22 awdurdod lleol wedi cadw perchnogaeth. O’r unarddeg awdurdod lleol hyn, mae Caerffili, Sir Fflint, Abertawe, Wrecsam, a Bro Morgannwg i gyd wedi pleidleisio yn erbyn trosglwyddo stoc, tra mae Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Sir Benfro a Phowys yn gweithio tuag at Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ar gyfer eu stoc dai. (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2017).

### Strwythur y bennod

3.9 Mae’r bennod hon yn dehongli’r data eilaidd o dan y penawdau canlynol:

*Data Cyn-Ddeddf*

- Aelwydydd y derbynnir eu bod yn ddigartref
- Penderfyniadau a wnaethpwyd gan yr awdurdod lleol
- Angen blaenoriaethol yn ôl math o aelwyd
- Demograffeg y rhai mewn angen blaenoriaethol
- Llety dros dro
- Cyflawni cadarnhaol

*Data Ôl-Ddeddf*

- Aelwydydd dan fygythiad o fod/a dderbynnir yn ddigartref
- Angen blaenoriaethol yn ôl math o aelwyd
- Camau a gymerwyd gan awdurdod lleol
- Mathau o gamau gweithredu a wireddwyd
- Llety dros dro
- Nodweddion demograffig
- Cyflawni cadarnhaol

**Data Cyn-Ddeddf**

*Aelwydydd y derbynnir eu bod yn ddigartref*

3.10 Yn ystod y blynyddoedd cyn gweithredu'r Ddeddf, bu gostyngiad yng nghyfanswm ffigurau digartrefedd, o 6,515 yn 2011 - 12, i 5,070 yn 2014-15, gyda'r rhesymau mwyaf cyffredin canlynol: perthynas â phartner wedi dod i ben (1,165 o aelwydydd yn 2014-2015); rhiant/perthnasau neu ffrindiau ddim yn fodlon neu ddim yn gallu cynnig llety; a cholli lle i fyw boed berchen ar y cyd neu ei rentu (1,070 o aelwydydd yn 2014 - 15).


*Penderfyniadau a wnaethpwyd gan yr awdurdod lleol*

3.11 Wrth archwilio'r penderfyniadau a wnaethpwyd gan bob awdurdod lleol, yr awdurdodau sy'n meddu'r rhifau uchaf o unigolion sy'n gymwys, yn ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol yn 2014 - 15, oedd Caerdydd (820 aelwyd), Abertawe (795 aelwyd) a Sir Gaerfyrddin (445 aelwyd). Y rhain hefyd yw'r tri awdurdod lleol sydd gyda'r rhifau uchaf o aelwydydd sy'n ddigartref. Ar y llaw arall, ychydig o aelwydydd oedd yn gymwys, yn ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol ym Merthyr Tudful (35) ac yn Ynys Môn (45).

3.12 O edrych ar gyfran o'r achosion a adroddwyd yn gyffredinol, Bro Morgannwg oedd yr awdurdod lleol gyda'r ganran uchaf o aelwydydd a oedd yn gymwys, yn ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol, yna Conwy a Phowys. Ar y llaw arall, Ynys Môn, Caerdydd a Sir Benfro oedd gyda'r gyfran isaf o aelwydydd a oedd yn gymwys, yn ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol. Yn arwyddocaol roedd yna gryn amrywiaeth ymhlith awdurdodau lleol, gan mai dim ond y rhai hynny a welwyd i fod yn gymwys, digartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol roedd gan awdurdod lleol ddyletswydd tuag atynt. Tra bod gwybodaeth a chyngor wedi cael eu cyflwyno i'r aelwydydd gyda gwahanol raddau

o gefnogaeth, ni chyflwynwyd data i'w archwilio i Lywodraeth Cymru gan nad oedd unrhyw ofyniad statudol ar gyfer rhyddhau.

**Ffigur 3.1: Penderfyniadau a wnaethpwyd gan yr awdurdod lleol, 2014-15**




Ffynhonnell: Addaswyd o StatsCymru (2015a)

*Angen blaenoriaethol yn ôl math o aelwyd*

3.13 Ymysg yr aelwydydd rheini a dderbynnir fel rhai digartref, o'u harchwilio yn ôl angen blaenoriaethol a math o aelwydydd, ceiswyr un person gwrywaidd oedd fwyaf cyffredin (1,640 aelwyd), yna aelwydydd rhiant sengl â phlant dibynnol (1,590 aelwyd). Ceiswyr un person benywaidd (1,085 aelwyd) par â phlant dibynnol (490 aelwyd), ac eraill (265 aelwyd) sef y gweddill.

3.14 Aseswyd bron y cyfan o aelwydydd un person gwrywaidd yn fregus am resymau a oedd yn cynnwys gadael carchar (780 aelwyd), anabledd corfforol, salwch meddwl, anabledd dysgu neu anawsterau dysgu (485 aelwyd) ymysg eraill. Yr oedd bron pob aelwyd un person benywaidd yn feichiog (195 aelwyd) neu yn fregus. Y prif resymau i aelwydydd un person benywaidd gael eu dosbarthu yn fregus oedd o ganlyniad i ddianc rhag trais neu fygythiad o drais yn y cartref (375 aelwyd), ynghyd ag anabledd corfforol, salwch meddwl, anabledd dysgu neu anawsterau dysgu. (220 aelwyd).

*Demograffeg y rhai mewn angen blaenoriaethol*

3.15 Pan archwilir nodweddion demograffeg, roedd mwy o ferched (3,015) na dynion (1,995) mewn angen blaenoriaethol. Ar gyfer y ddau ryw, roedd y mwyafrif yn 25 mlwydd oed a throsodd. Yr oedd bron 9% o gefndiroedd DLIE (450/5070), sydd bron ddwywaith y 4.4% o boblogaeth Cymru a gofnodwyd o gefndiroedd DLIE yng nghyfrifiad 2011.

**Tabl 3.1: Demograffeg y rhai mewn angen blaenoriaethol (2014-15)**

| Grwpiau yn ôl rhyw ag oedran | | Rh |
|---|---|---|
| Benyw | Oed 16-17 | 125 |
| 3015 | Oed 18-24 | 945 |
| (59%) | Oed 25 a throsodd | 1945 |
| | Cyfanswm benywaidd | 3015 |
| Gwryw | Oed 16-17 | 95 |
| 1995 | Oed 18-24 | 455 |
| (39%) | Oed 25 a throsodd | 1445 |
| | Cyfanswm gwrywaidd | 1995 |
| Cyfanswm Benyw, Gwryw ac Anhysbys* | | 5070 |

| Ethnigrwydd | | |
|---|---|---|
| Gwyn | Prydeinig | 4255 |
| 4345 | Gwyddelig | 15 |
| (86%) | O gefndir gwyn arall | 70 |
| | Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 5 |
| | Cyfanswm Gwyn | 4345 |
| DLIE | Cymysg | 60 |
| 450 | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 125 |
| (9%) | Du neu Ddu Prydeinig | 185 |
| | Grŵp ethnig arall | 80 |
| | Cyfanswm DLIE | 450 |
| Cyfanswm Gwyn, DLIE ac Anhysbys* | | 5070 |


Nodyn: *Roedd yna 60 achos o anhysbys yn ôl oed a rhyw a 275 achos o anhysbys yn ôl tarddiad ethnig.
Ffynhonnell: Addaswyd o StatsCymru(2015b)

*Llety dros dro*

3.16 Yn 2014-15, ‘roedd cyfanswm o 2,050 aelwyd mewn llety dros dro ar draws Cymru, gyda’r mwyafrif o’r aelwydydd hyn (855) mewn llety sector breifat o ryw fath (yn y mwyafrif o achosion wedi’u gosod ar brydles gan yr awdurdod lleol neu LCC), yn ogystal â 475 aelwyd ychwanegol mewn hosteli a noddfeydd i ferched, a 440 aelwyd mewn llety sector gyhoeddus dros dro. ‘Roedd eraill mewn gwely a brecwast (195 aelwyd) neu yn ddigartref adref (85 aelwyd).

3.17 'Roedd dros hanner y rhai a oedd mewn llety dros dro yn aelwydydd un person (1,170), y rhai â phlant dibynnol (765 aelwyd) a grwpiau aelwydydd eraill (110) sef y gweddill. 'Roedd bron dri chwarter o aelwydydd (1,475) wedi byw mewn llety dros dro am lai na chwe mis. Fodd bynnag, yr oedd 360 aelwyd wedi bod mewn llety dros dro rhwng chwe i 12 mis, a 215 aelwyd am fwy na blwyddyn.

**Ffigur 3.2: Llety dros dro, amser a dreulir a math o aelwyd (2014-15, Ion-Mawrth)**




Ffynhonnell: Addaswyd o StatsCymru (2015c; 2015d)

*Cyflawni cadarnhaol*

3.18 Nid yw cyflawni cadarnhaol o anghenraid yn golygu fod yr awdurdod lleol wedi cael hyd i lety ar gyfer yr aelwydydd hynny. Fel mae'r tabl isod yn arddangos, gwnaeth oddeutu dwy ran o dair o aelwydydd mewn angen blaenoriaethol yn 2014 - 15 dderbyn cynnig o lety, unai drwy'r cynllun dyrannu (2,210 aelwyd) neu drwy 'r sector rhentu preifat (330 aelwyd), tra gwnaeth y gweddill roi'r gorau i feddiannu llety yn wirfoddol (760 aelwyd), fynd yn ddigartref yn fwriadol (330 aelwyd), wrthod cynnig drwy'r cynllun dyrannu (100 aelwyd), peidio â bod yn gymwys (95 aelwyd).

**Tabl 3.2: Aelwydydd sy'n gadael llety dros dro yn ôl y rheswm a'r flwyddyn**

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Wedi derbyn cynnig o lety drwy'r cynllun dyrannu | 2425 | 2735 | 2240 | 2090 | 2210 |
| Wedi'u rhyddhau i'r sector breifat | 240 | 255 | 265 | 240 | 330 |
| Wedi rhoi'r gorau i lety yn wirfoddol | 1175 | 1175 | 965 | 920 | 760 |
| Penderfynnu mynd yn ddigartref yn fwriadol | 295 | 300 | 315 | 385 | 330 |
| Gwrthod y cynnig o lety drwy'r cynllun dyrannu | 155 | 175 | 95 | 120 | 100 |
| Ddim yn gymwys erbyn hyn | 190 | 175 | 215 | 155 | 95 |
| Cyfanswm | 4480 | 4810 | 4100 | 3910 | 3830 |

Ffynhonnell: Addaswyd o StatsCymru (2015e)

3.19 Cyflawnodd awdurdodau lleol eu dyletswyddau tuag at y mwyafrif o'r rheini mewn angen blaenoriaethol drwy lety cynllun dyrannu. Fodd bynnag dengys y ffigurau hefyd gynnydd drwodd a thro yn y nifer a ryddhawyd i'r sector preifat dros gyfnod o amser. Dengys y ffigurau ostyngiad yn nifer yr aelwydydd y gwnaeth yr awdurdodau gyflawni eu dyletswydd. Mae hyn yn unol yn fras â niferoedd is o geiswyr a ystyrir eu bod mewn angen blaenoriaethol dros gyfnod o amser.

**Data Ôl-Ddeddf**

*Aelwydydd dan fygythiad o fod/a dderbynnir yn ddigartref*

3.20 Wrth edrych ar Gymru gyfan, mae'r prif resymau am ddigartrefedd yn awr yn cael eu mesur yn wahanol iawn i'r dull a ddefnyddiwyd cyn y Ddeddf, oherwydd cofnodir y gwaith atal, a'r ffaith y gellid yn awr diystyru bwriadoldeb. Mae casglu data yn seiliedig ar ganlyniadau, a gallai pob aelwyd gael hyd at dri chanlyniad: atal o dan a66; cynorthwyo i sicrhau llety a73 (rhyddhau); dyletswydd i sicrhau llety o dan adran a75 (cyflawni). Yn dilyn hynny dylai atal aflwyddiannus gael ei asesu fel digartrefedd (dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety), a rhyddhau aflwyddiannus yna yn cael ei asesu fel angen blaenoriaethol (dyletswydd i sicrhau llety). Yn rhannol, mae hyn yn egluro pan fod nifer ceisiadau yn uwch na chyn y Ddeddf (pan fo penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn un cam).

3.21 Mae'r ffigurau'n dadlennu fod mwy o waith atal na gwaith rhyddhau yn cael ei wneud (yn nhermau nifer o aelwydydd), gyda cholli llety boed berchen ar y cyd neu ei rentu, yn brif reswm paham mae aelwydydd yn cael eu bygwth a digartrefedd (2,481 aelwyd), rhiant ddim yn fodlon neu ddim yn gallu cynnig llety (1,011 aelwyd), a pherthynas â phartner wedi dod i ben (960 aelwyd). I'r aelwydydd hynny wedi eu hasesu fel digartref o dan a73 (dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety), y rheswm mwyaf cyffredin yw perthynas â phartner wedi dod i ben (1,452 aelwyd), yna colli llety boed berchen ar y cyd neu ei rentu (1,251 aelwyd ), a rhiant ddim yn fodlon neu ddim yn gallu cynnig llety (1,089 aelwyd).

3.22 Mae nifer y rhai a aseswyd mewn angen blaenoriaethol wedi lleihau yn sylweddol ers y cyfnod cyn y Ddeddf, oherwydd camau cynnar a gymerwyd o dan y ddyletswydd i atal a'r ddyletswydd i gynorthwyo i sicrhau (dim ond y rhai sydd â rhyddhau aflwyddiannus sy'n cael eu cyfrif yma). Fodd bynnag, mae'r prif resymau fod y rhai mewn angen blaenoriaethol yn ddigartref bron yr un ag o'r blaen. Mae hyn y cynnwys: perthynas â phartner wedi dod i ben (336 aelwyd), yna colli llety boed berchen ar y cyd neu rentu (336 aelwyd), a rhiant ddim yn fodlon neu ddim yn gallu cynnig llety (261 aelwyd).

**Tabl 3.3: Prif reswm am ddigartrefedd (2015-16)**

| | O dan fygythiad o ddigartrefedd (a66) | Aseswyd yn ddigartref (a73) | Mewn angen blaenoriaethol (a75) |
|---|---|---|---|
| Rhiant ddim yn fodlon neu ddim yn gallu cynnig llety | 1011 | 1089 | 261 |
| Perthnasau neu ffrindiau ddim yn fodlon neu ddim yn gallu cynnig llety | 657 | 813 | 204 |
| Perthynas â phartner wedi dod i ben (Cyfanswm) | 960 | 1452 | 336 |
| Ddim yn dreisgar | 594 | 723 | 90 |
| Treisgar | 366 | 729 | 249 |
| Trais ac aflonyddwch | 111 | 141 | 63 |
| Cymhelliad hiliol | * | 9 | 3 |
| Oherwydd crefydd/crêd | * | * | * |
| Oherwydd ailgyfeiriad rhyw (hunaniaeth rhyw) | * | * | * |
| Oherwydd hunaniaeth/cyfeiriadedd rhywiol | * | * | * |
| Oherwydd anabledd | 6 | * | * |
| Oherwydd rheswm arall | 99 | 123 | 57 |
| Ôl-ddyledion morgeisi (ailfeddiannu neu golli cartref) | 138 | 48 | 15 |
| Ôl-ddyledion rhent ar anheddau yn y sector cymdeithasol | 288 | 96 | 9 |
| Ôl-ddyledion rhent ar anheddau yn y sector breifat | 390 | 129 | 27 |
| Colli llety roedden nhw yn berchen ar y cyd neu'n ei rentu | 2481 | 1251 | 336 |
| Eiddo presennol yn anfforddiadwy | 213 | 60 | 3 |
| Eiddo presennol yn anaddas | 321 | 246 | 63 |
| Pobl sy'n gadael carchar | 99 | 921 | 99 |
| Yn gadael sefydliad neu ofal (e.e. ysbyty, cartref preswyl, y fyddin ac ati.) | 246 | 237 | 93 |
| Arall (e.e.gan gynnwys bod yn ddigartref mewn argyfwng, wedi dychwelyd o dramor, a.y.b.) | 213 | 408 | 54 |
| Cyfanswm o aelwydydd | 7128 | 6891 | 1563 |


Ffynhonnell: Addaswyd o StatsCymru (2016g; 2016h; 2016i)

*Angen blaenoriaethol yn ôl math o aelwyd.*

3.23 Wrth archwilio aelwydydd mewn angen blaenoriaethol yn unol â'u bath, gellir gweld fod ychydig mwy o aelwydydd un person (771) nag aelwydydd â phlant sy'n ddibynnol (705). Fodd bynnag, mae'r cyfrannau o aelwydydd un person wedi lleihau ar ôl y Ddeddf, sy'n awgrymu fod y grŵp yma o bosibl yn llwyddo'n well i gael mynediad at gymorth oherwydd newidiadau i angen blaenoriaethol/ bwriadoldeb.

3.24 Mae'r rhesymau dros fod mewn angen blaenoriaethol yn debyg i'r rhai cyn y Ddeddf. Ar gyfer un person gwrywaidd, mae hyn oherwydd bod yn fregus o ganlyniad i henaint/ iechyd, yna oherwydd gadael carchar, a bod mewn peryg o drais/gamdriniaeth. Ar gyfer merched, mae hyn oherwydd bod yn fregus o ganlyniad i fod mewn peryg o drais/camdriniaeth yn ogystal â bod yn fregus o ganlyniad i henaint/iechyd, a bod yn feichiog.

**Ffigur 3.3: Aelwydydd mewn angen blaenoriaethol (a75) yn ôl math o aelwyd (2015-16)**




Ffynhonnell: Addaswyd o StatsCymru (2016f)

Nodyn ffigur: * 'Person sy'n gadael carchar' yn cyfeirio at gyn-garcharor ar ôl ei ryddhau heb lety i ddychwelyd iddo.

*Camau a gymerwyd gan awdurdod lleol*

3.25 Y gyfran gyfartalog o achosion atal llwyddiannus ar draws Cymru oedd 64.5%. O ran rhyddhau, ‘roedd y gyfran o achosion llwyddiannus yn gostwng i 45.1%, cyn codi unwaith eto i 79.7% am gyflawni cadarnhaol. Awgryma hyn, ar y cyfan fod cryn bwyslais ar waith atal. Mae hyn yn arwyddocaol gan nad oes gan yr awdurdodau lleol yr hawl mwyach i beidio â datblygu gwasanaethau atal, er bod ystod y gwasanaeth yn parhau i amrywio ymysg yr awdurdodau lleol.

3.26 Mae nifer o’r awdurdodau lleol yn nodedig oherwydd eu gwaith atal sydd wedi ei gofnodi yn eu hystadegau. Yr ardaloedd gyda’r ataliadau mwyaf llwyddiannus yw Gwynedd, Caerffili, Abertawe, Sir Fflint a Sir Fynwy. Ar y naill law, gall y data awgrymu fod yna nifer o awdurdodau lleol yn gwneud mwy o waith atal fel bo datrysiad i aelwydydd cyn y camau rhyddhau a chyflawni . Fodd bynnag, nid yw’r ystadegau yn dweud wrthym am y math o achosion a gaiff awdurdodau lleol na’r adnoddau sydd ganddynt wrth law ar gyfer y gwaith atal na’r pwysau ychwanegol y gallent eu hwynebu. Nid yw’r data ychwaith yn dweud am y gwaith a gynhaliwyd o dan a60 (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth), na’r gwaith a ymgymerwyd â wnaeth arwain at rai penderfyniadau 'ddim yn ddigartref'.

3.27 Yn ddiddorol iawn fodd bynnag, mae’r awdurdodau lleol sy’n cofnodi lefelau uwch o ddulliau atal llwyddiannus yn cynnwys ardaloedd gyda rhif weddol uchel neu isel o aelwydydd, yn ogystal ag awdurdodau trefol a gwledig, ac ardaloedd sydd wedi trosglwyddo neu gadw stoc. Mewn geiriau eraill, nid oes unrhyw bethau sy’n gyffredinol amlwg rhwng yr awdurdodau lleol sy’n cofnodi lefelau uwch o ddulliau atal llwyddiannus.

**Tabl 3.4: Camau cadarnhaol a gymerwyd, yn ôl awdurdod lleol (2015-16)**

Canran

| | Atal llwyddiannus (Adran 66) | Rhyddhau llwyddiannus (Adran 73) | Cyflawni cadarnhaol (Adran 75) |
|---|---|---|---|
| Cyfartaledd Cymru | 64.5 | 45.1 | 79.7 |
| Blaenau Gwent | 58.6 | 63.2 | 100.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 64.2 | 40.3 | 62.5 |
| Caerffilli | 78.2 | 62.4 | 78.2 |
| Caerdydd | 70.6 | 35.1 | 88.4 |
| Sir Gaerfyrddin | 53.1 | 43.3 | 85.5 |
| Ceredigion | 69.3 | 49.4 | 76.8 |
| Conwy | 70.0 | 39.7 | 70.6 |
| Sir Ddinbych | 55.1 | 29.0 | 80.0 |
| Sir Fflint | 75.9 | 53.6 | 100.0 |
| Gwynedd | 84.6 | 64.0 | 94.1 |
| Ynys Môn | 60.1 | 61.1 | 100.0 |
| Merthyr Tudful | 44.4 | 41.1 | 62.5 |
| Sir Fynwy | 73.8 | 41.1 | 68.4 |
| Castell -nedd Port Talbot | 52.2 | 45.7 | 54.5 |
| Casnewydd | 64.5 | 45.1 | 79.7 |
| Sir Benfro | 68.8 | 59.1 | 87.5 |
| Powys | 71.0 | 48.6 | 75.8 |
| Rhondda Cynon Taf | 48.7 | 40.7 | 93.4 |
| Abertawe | 75.4 | 58.2 | 68.8 |
| Torfaen | 64.2 | 32.7 | 68.1 |
| Bro Morgannwg | 53.9 | 39.5 | 72.9 |
| Wrecsam | 59.4 | 52.6 | 100.0 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2016: 18)

*Mathau o gamau gweithredu a wireddwyd*

3.28 Awgryma ystadegau fod gwaith atal wedi ymwneud â mwy o achosion o sicrhau llety amgen (3,534 aelwyd) na chefnogi pobl i aros yn eu cartrefi presennol. Yn nhermau llety, cafodd nifer helaeth o aelwydydd lety SRhP drwy gynlluniau cymhelliant i landlordiaid (819 aelwyd ) ac (903 aelwyd) heb gynllun gymhelliant. Aeth y mwyafrif o'r gweddill i dai cymdeithasol trwy gyfrwng awdurdodau lleol (705 aelwyd) ac LCC (648 aelwyd). O'r rhai hynny a gefnogwyd i aros ar eu haelwydydd, yn y mwyafrif o achosion (594 aelwyd), cefnogaeth di-gyllid oedd hyn.

3.29 Yn nhermau rhyddhau, y SRhP sydd a'r ffigurau uchaf, gan gynnwys y rhai gyda chynlluniau cymhelliant i landlordiaid (579 aelwyd) a'r rhai hynny heb gynlluniau cymhelliant (498 aelwyd), yna daw'r tai cymdeithasol, drwy yr LCC (513 aelwyd) a thai'r awdurdodau lleol (426 aelwyd).


| Gallu aros yn y cartref presennol | Atal | Ryddhau |
|---|---|---|
| Cymorth ariannol | | |
| – Ymyriadau ôl-ddyledion morgais neu achub morgeisi | 21 | |
| – Datrys ôl-ddyledion rhent neu daliadau gwasanaeth | 129 | |
| – Datrys problemau Budd-daliadau Tai a Lles | 153 | |
| – Taliadau ariannol | 96 | |
| – Cyngor ar Ddyledion a Materion Ariannol | 72 | |
| Is-gyfanswm | 471 | |
| Cymorth di-gyllid | | |
| – Cyfryngu a chymodi | 171 | |
| – Negydu neu eiriolaeth gyfreithiol i sicrhau bod rhywun yn gallu aros mewn llety yn y sector rhentu preifat | 237 | |
| – Mesurau i atal camdrin ddomestig | 9 | |
| – Darparu cymorth arall neu gymorth arbenigol ar gyfer problemau | 177 | |
| Is-gyfanswm | 594 | |
| Cyfanswm: Gallu aros yn y cartref presennol | 1,065 | |
| | | |
| Cael llety arall | | |
| Wedi trefnu llety gyda ffrindiau, perthnasau neu yn dychwelyd adref | 156 | 240 |
| Tai Cymdeithasol – Awdurdod lleol | 705 | 426 |
| Tai Cymdeithasol – LCC | 648 | 513 |
| Llety yn y sector breifat gyda chynllun cymhelliant landlord | 819 | 579 |
| Llety yn y sector breifat heb gynllun cymhelliant landlordiaid | 903 | 498 |
| Llety â chymorth hunangynhwysol | 168 | 225 |
| Unrhyw fath o lety annibynnol â chymorth | 105 | 399 |
| Cynllun perchnogaeth cartref cost isel, ateb y farchnad dai cost isel * | - | 3 |
| Cymorth neu gefnogaeth arall | 30 | 225 |
| Cyfanswm: Cael llety arall | 3,534 | 3,108 |
| Cyfanswm cyffredinol | 4,599 | 3,108 |

Nodyn: *Er enghraifft, bond di-arian, ffi darganfyddwyr, talu blaendal, rhent ymlaen llaw, taliadau yswiriant landlord.
Ffynhonnell: Addaswyd o StatsCymru (2016a)

*Llety dros dro*

3.30 Ym mis Mawrth 2016, rhoddwyd llety dros dro i gyfanswm o 1875 aelwyd, sy'n nodi lleihad o'r cyfnod cyn y Ddeddf [8]. Eto, roedd y mwyafrif mewn llety rhentu preifat (801 aelwyd). Mae'n parhau i fod yn wir mai aelwydydd un person sydd fwyaf tebygol o fod mewn llety dros dro, yna daw rhiant sengl ac yna parau â phlant dibynnol. Mae tueddiadau tebyg cyn y Ddeddf yn nhermau hyd y cyfnod mae aelwydydd wedi bod mewn llety dros dro, gyda thros ddwy ran o dair o aelwydydd sydd wedi cael eu cartrefu dros dro wedi bod yno am lai na chwe mis.

**Ffigur 3.4: Llety dros dro, faint o amser a math o aelwyd (2015-16, Ionawr- Mawrth)**




Ffynhonnell: Addaswyd o StatsCymru (2016b)

[8]Mae'r ffigurau diweddaraf gan StatsCymru yn dangos bod 1923 o aelwydydd yn cael eu lletya dros dro ym mis Medi 2016. Nid yw'r ffigurau hyn wedi cael eu defnyddio yma oherwydd ni ellid eu dadansoddi yn ôl faint o amser mewn llety dros dro.

*Nodweddion demograffig*

3.31 O archwilio canlyniadau yn unol â rhyw, merched yw'r mwyafrif tebygol o lawer i dderbyn canlyniad cadarnhaol yn y camau atal a chflawni. Yn fwy penodol, roedd y cyfansymiau benywaidd yn 2703 o ran atal ac 840 yn ôl cyflawni cadarnhaol (59% a 67% o'r radd cyfansymiau perthnasol). Dynion oedd y mwyafrif o ran canlyniad cadarnhaol i'r cam rhyddhau. Yn y cam rhyddhau, roedd 1677 (54% o'r cyfanswm) a dderbyniodd ganlyniad cadarnhaol yn ddynion.

3.32 Y nifer o aelwydydd DLIE sy'n derbyn canlyniadau cadarnhaol yn y camau atal a rhyddhau yw 294 a 207. Mae hyn yn 6% a 7% o achosion yn y drefn honno, sy'n uwch na'r 4.4% o boblogaeth cyffredinol Cymru o gefndiroedd DLIE. O ystyried cyflawni cadarnhaol, mae'r ffigurau ar gyfer y boblogaeth DLIE (189) yn codi i 15% o achosion.

**Tabl 3.6: Demographeg atal, rhyddhau a chyflawni (2015-16)**

| Grwpiau yn ôl rhyw ac oed | | Atal | Rhyddhau | Cyflawni Cadarnhaol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Benyw | Oedran 16-17 | 69 | 69 | 30 | 168 |
| 4923 (55%) | Oedran 18-24 | 798 | 408 | 300 | 1506 |
| | Oedran 25 a throsodd | 1836 | 903 | 510 | 3249 |
| | Cyfanswm benyw | 2703 | 1380 | 840 | 4923 |
| Gwryw | Age 16-17 | 36 | 69 | 21 | 126 |
| 3879 (43%) | Age 18-24 | 345 | 357 | 99 | 801 |
| | Age 25 and over | 1416 | 1251 | 285 | 2952 |
| | Cyfanswm gwryw | 1797 | 1677 | 405 | 3879 |
| Anhysbys | | 99 | 51 | - | 150 |
| Cyfanswm Benyw, Gwryw ac Anhysbys | | 4599 | 3108 | 1245 | 8952 |
| | | | | | |
| Ethnigrwydd | | | | | |
| Gwyn 7299 (82%) | | 3714 | 2610 | 975 | 7299 |
| DLIE | Cymysg | 39 | 27 | 24 | 90 |
| 690 (8%) | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 96 | 48 | 45 | 189 |
| | Du neu Du Prydeinig | 96 | 72 | 66 | 234 |
| | Grwp ethnig arall | 63 | 60 | 54 | 177 |
| | Cyfanswm DLIE | 294 | 207 | 189 | 690 |
| Cyfanswm Gwyn a DLIE | | 4008 | 2817 | 1164 | 7989 |
| Tras Anhysbys | | 591 | 291 | 81 | 963 |
| Cyfanswm Gwyn, DLIE ac anhysbys | | 4599 | 3108 | 1245 | 8952 |

Ffynhonnell: Addaswyd o StatsCymru (2016d; 2016e)

*Cyflawni cadarnhaol*

3.33 Fel y nodwyd uchod, nid yw cyflawni cadarnhaol o anghenraid yn golygu fod aelwydydd wedi dod o hyd i lety. Derbyniwyd llety gan gyfran fwy mewn angen blaenoriaethol drwy'r cynllun dyrannu o'u rhyddhau yn sgil y Ddeddf newydd (1041 allan o 1563 aelwyd)[9]. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, mae cryn dipyn yn llai yn cyrraedd y cam yma oherwydd y pwyslais ar waith atal. Yn gyferbyniol i'r defnydd cynyddol o'r sector breifat yn y camau atal a rhyddhau, dim ond cyfran fechan a dderbyniodd gynnig y sector breifat (144). O'r rhai na gynigwyd llety iddynt, mae llawer o'r rhesymau 'run fath ag o'r blaen: gorffen byw yn y llety yn wirfoddol (114 aelwyd), wedi dod yn ddigartref yn fwriadol (90 aelwyd), wedi gwrthod cynnig trwy'r cynllun dyrannu (57 aelwyd), neu ddin yn gymwys (27 aelwyd). Mae rhesymau

[9] Derbyniodd 66.6% o aelwydydd gynnig o lety yn 2015 – 16, i'w gymharu â 57.7% yn 2014-15 (2210 allan o 3830 aelwyd).

newydd yn cynnwys: tynnu y cais yn ôl (42 aelwyd), camgymeriad o ffaith (6 aelwyd), gwrthod cynnig yn y SRhP (9 aelwyd), gwrthod cynnig o lety dros dro addas (6 aelwyd), diffyg cydweithrediad (33 aelwyd).

**Tabl 3.7: Rhesymau dros gyflawni dyletswydd o dan adran 75 (2015-16)**

| | Rh |
|---|---|
| Ddim yn gymwys erbyn hyn | 27 |
| Dod yn ddigartref o lety a ddarperir o dan adran 75 yn fwriadol | 90 |
| Derbyn cynnig o lety drwy'r cynllun dyrannu (Rhan VI Deddf Tai 1996) | 1041 |
| Derbyn cynnig yn y sector preifat | 144 |
| Gorffen byw yn llety ar gael o dan adran 75 yn wirfoddol | 114 |
| Gwrthod cynnig o lety drwy'r cynllun dyrannu (Rhan VI Deddf Tai 1996) | 57 |
| Gwrthod cynnig o lety addas yn y Sector Rhentu Preifat | 9 |
| Gwrthod cynnig o lety dros dro addas o dan adran 75 | 6 |
| Diffyg cydweithrediad | 33 |
| Tynnu y cais | 42 |
| Camgymeriad o ffaith | 6 |
| Cyfanswm | 1,521 |

Ffynhonnell: Addaswyd o StatsCymru (2016j)

**Crynodeb**

3.34 Yn sicr mae gwahaniaethau mawr yn yr hyn a fesurir yn y data, yn dilyn cyflwyno'r Ddeddf, oherwydd yr ymdrechion i gofnodi prosesau a chanlyniadau. Ni ellir gwneud cymariaethau oherwydd y newidiadau hyn, a bod yna gyfyngiadau i ansawdd y data tra bod awdurdodau lleol yn addasu i'r dulliau gweithredu newydd. Er gwaethaf y cafeatau hyn, gall y data fod yn gymorth i ryw raddau i oleuo ein dealltwriaeth o'r Ddeddf.

3.35 Mae'r prif wahaniaeth rhwng yr ystadegau Cyn ac Ôl-Ddeddf yn dangos rhifau is o aelwydydd a asesir yn ddigartref. Mae'r gwaith atal yn awr yn cael ei gofnodi, a dengys hyn ar y cyfan, bod y mwyafrif o'r gwaith yn perthyn i'r categori yma (yn nhermau'r rhifau o aelwydydd sy'n derbyn cymorth oddi wrth yr awdurdodau lleol).

3.36 Canfyddir gwahaniaeth sylweddol fodd bynnag, rhwng awdurdodau lleol yn y cydbwysedd rhwng atal, rhyddhau a chyflawni. Tra gallai hyn fod oherwydd i rai awdurdodau lleol roi mwy o bwyslais ar atal, nid dyma'r stori yn llawn gan fod awdurdodau lleol yn wynebu heriau gwahanol, yn nhermau'r nifer o aelwydydd sy'n cyflwyno, yr adnoddau sydd ar gael, yn ogystal â ganddynt gyd-destunau gwahanol yn nhermau'r farchnad dai, i enwi ond rhai o'r ffactorau. Nid oes unrhyw debygrwydd amlwg ar hyn o bryd rhwng yr awdurdodau lleol sydd wedi cymryd dull

mwy ataliol o weithredu, a’r awdurdodau gyda rhifau amrywiol o aelwydydd, yn ddaearyddol, a mathau o stoc dai ymhlith y rhai a weithredodd y dull hwn.

3.37 Mae’n amlwg y defnyddir y SRhP i raddau helaeth mewn gwaith atal a rhyddhau. Mae bron i hanner y gwaith atal i alluogi aelwydydd i gael llety amgenach yn defnyddio’r SRhP, ac ataliwyd a rhyddhawyd fwy o aelwydydd yn llwyddiannus, gan dderbyn SRhP o’i gymharu â thai cymdeithasol.

3.38 Cofnodwyd llai o bobl o fod mewn angen blaenoriaethol oherwydd ni chymerir hyn i ystyriaeth ond pan bod atal a rhyddhau yn aflwyddiannus. Yn fras, er hyn mae’r ddemograffeg yn debyg i gyn i’r Ddeddf gael ei chyflwyno, yn y modd fod yna fwy o aelwydydd un person nag aelwydydd gyda phlant dibynnol. Fodd bynnag, mae cyfran yr aelwydydd un person wedi lleihau ar y cyfan, sy’n awgrymu y gallai’r grŵp yma fod yn cael budd o’r newidiadau a gyflwynwyd yn sgil y Ddeddf.

3.39 Ar y cyfan, bu lleihad bychan yn y nifer o deuluoedd mewn llety dros dro ers cyflwyno’r Ddeddf. Er y gallai hyn fod oherwydd y newidiadau a gyflwynwyd yn y Ddeddf mae’n amhosibl dweud gyda sicrwydd. Fel arall, mae tueddiadau llety dros dro yn eithaf tebyg yn nhermau demograffeg a’r amser a dreulir mewn llety dros dro: mae aelwydydd un person yn fwy tebygol o fod yn aelwyd dros dro, yna daw aelwydydd rhiant sengl a pharau â phlant dibynnol, ac mae dros ddwy ran o dair o’r aelwydydd dros dro yn aros yno am lai na chwe mis.

3.40 Oherwydd bod y data’n cael ei gasglu yn y camau atal, rhyddhau a chyflawni yn unigol mae’n bosibl yn awr gweld ar ba gam y derbyniodd aelwydydd gymorth yn ôl nodweddion demograffig. Datgela hyn fod y gyfran o aelwydydd DLlE yn cynyddu ym mhob cam.

3.41 Mae yna hefyd nifer o bethau y mae’r ystadegau yn datgelu llai i ni. Yn drawiadol iawn, nid oes bellach un ffigwr ar gyfer digartrefedd. Gan y gallai un aelwyd gael ei chofnodi o dan un neu fwy o’r camau atal, rhyddhau a chyflawni o fewn yr un flwyddyn, ni ellir cymryd cyfanswm o’r categorïau i ganfod ffigwr cyffredinol. Tra bo hyn o bosibl yn gwneud y ffigurau’n fwy anodd i’w dehongli, mae’n ddealladwy o ystyried y ffyrdd newydd o weithio o dan y Ddeddf. Dylid nodi, fodd bynnag, fod Llywodraeth Cymru wedi cynnwys llinell ddata newydd ar gyfer ffurflen flynyddol 2016 – 17, sy’n ceisio canfod holl asesiadau a62 ac felly yn darparu gwybodaeth o asesidau cychwynnol ar gyfer pob aelwyd.

# 4. Canfyddiadau Ymgynghori gyda Rhanddeiliaid Cenedlaethol

4.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r rhanddeiliaid cenedlaethol o'u safbwyntiau a gasglwyd am y prosesau a oedd yn gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf a'i heffeithiau posibl [10]. Digwyddodd yr ymgynghoriadau ym mis Hydref a Thachwedd, 2016. Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid am eu safbwyntiau am oblygiadau'r Ddeddf i'r bobl y maent yn eu cynrychioli. Cynhaliwyd pymtheg cyfweliad gyda'r rhanddeiliaid cenedlaethol o'r cyrff canlynol:

- Cartrefi Cymunedol Cymru (1)
- Chartered Institute of Housing Cymru (1)
- Cymorth Cymru (1)
- Sefydliad Addysg Uwch (1)
- Rhwydwaith Digartrefedd (1)
- Shelter Cymru (2)
- Cymdeithas Landlordiaid Preifat (1)
- Take Notice Project (1)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru(1)
- Isadran Polisi Tai Llywodraeth Cymru (4)
- Tai Pawb (1)

4.2 Mae'r bennod wedi ei threfnu o gwmpas y themâu canlynol a ddaeth yn amlwg o'r data:

- Cryfderau a chyraeddiadau allweddol y Ddeddf
- Canlyniadau ar gyfer pobl digartref
- Effaith y Ddeddf ar weithwyr digartrefedd yr awdurdodau lleol
- Effaith y Ddeddf ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Effaith y Ddeddf ar rôl y Sector Rhentu Preifat
- Effaith y Ddeddf ar y defnydd o lety dros dro
- Rôl Cefnogi Pobl
- Effaith y Ddeddf ar feysydd polisi eraill ac agendâu
- Effaith y Ddeddf ar weithio mewn partneriaeth
- Tystiolaeth a monitro
- Rôl Llywodraeth Cymru wrth gefnogi gweithredu'r Ddeddf

[10] Gweler Atodiad B am amserlen gyfweld rhanddeiliaid

- Meysydd i fynd i'r afael â hwynt
- Crynodeb

**Cryfderau a chyflawniadau allweddol y Ddeddf**

4.3 At ei gilydd, ‘roedd mwyafrif llethol o’r rhanddeiliaid cenedlaethol yn hynod o gadarnhaol ynglŷn â goblygiadau’r Ddeddf ac yn croesawu ei chyflwyno a’i gweithredu. Yn ôl un rhanddaliwr *“Y mae’n ddull mwy cadarnhaol o ymdrin â digartrefedd”.* Gwnaeth un arall y sylw: *“Mae fy marn i am y Ddeddf yn hynod bositif”.* Nododd rhanddaliwr arall: *“Mae cynnydd cadarnhaol wedi digwydd ar gyfer bron pob awdurdod lleol”.* Canfuwyd nifer o gryfderau allweddol y Ddeddf. Teimlai rhanddeiliaid fod y Ddeddf yn cynnig fframwaith mwy eglur i awdurdodau lleol a phartneriaid weithio ynddo; yn darparu’r cyfle i ymyriadau cynharach ac yn cryfhau’r canolbwynt ar atal; ac yn hybu newid yn niwylliant gwasanaethau digartrefedd yr awdurdodau lleol.

4.4 Nododd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid fod y Ddeddf newydd yn creu fframwaith cliriach, fwy cyson i awdurdodau lleol a sefydliadau partner i weithio ynddo, gan ffurfioli gweithgareddau atal digartrefedd. Yn gysylltiedig â hyn yw’r awgrym y buasai awdurdodau lleol wedi atal digartrefedd yn anffurfiol o dan (a thu allan i) i’r hen system, ond na fyddai hyn wedi cael ei gofnodi:

> *‘Mae'n caniatáu i awdurdodau lleol ffurfioli eu gwaith atal y maent eisoes wedi bod ar ei drywydd, felly mae llawer mwy o eglurder’.*

4.5 Cyfeirid yn benodol at sut oedd y Ddeddf yn darparu fframwaith “cydlynol” a “hawdd ei drin” ar gyfer awdurdodau lleol a sefydliadau partner, drwy gysylltu ac atgyfnerthu partneriaethau presennol a threfniant gweithio, ond gyda’r fantais ychwanegol o wella’r partneriaethau hyn ac annog dulliau rhyngasiantaethol creadigol o ymdrin â’r agenda atal. Yn ogystal, awgrymodd y rhanddeiliaid fod y system newydd yn cynnig eglurder yn nhermau gweithgareddau atal ond hefyd yn caniatáu i’r gweithgareddau yma gael eu cofnodi a’u monitro.

4.6 Roedd cyflwyno’r Ddeddf yn cael ei gweld fel newid sylfaenol nid yn unig mewn diwylliant ond yn y dulliau a ddefnyddiwyd i fynd i’r afael â digartrefedd, o “reoli” i “atal”. Ystyrid hyn yn arbennig o gadarnhaol gan ei fod yn ffurfioli gweithgareddau atal digartrefedd ac yn gosod atal yn ganolog i waith yr awdurdodau lleol fel dyletswydd statudol.

4.7 Felly, amlygwyd ymyriadau cynnar a'r canolbwynt ar atal fel cryfderau arwyddocaol y Ddeddf a nododd nifer o'r rhanddeiliaid fod gweithgareddau o'r fath yn golygu fod gwasanaethau yn fwy tebygol o fedru osgoi digartrefedd. Hefyd, ystyriwyd fod atal digartrefedd yn arbennig o bwysig o ystyried y prinder tai a'r galw am wasanaethau cymorth:

*'Mae'r canolbwynt ar atal wedi gwrthdroi'r dull y mae gwasanaethau'n gweithredu a sut mae pobl yn gweithio – yn lle bod yn ymatebol yn unig mae yna ethos rhagataliol'.*

*'Mae'n gadarnhaol iawn yn arbennig o ystyried y pwysau ar y cyflenwad tai a'r gwasanaethau cymorth: atal yw'r elfen allweddo'.*

4.8 Dywedodd dau randdaliwr fod y Ddeddf newydd yn golygu fod pobl mewn gwirionedd yn fwy tebygol o osgoi pwynt o argyfwng, neu mewn gwirionedd ddigartrefedd oherwydd ymyriad cynnar, a golygai hyn eu bod yn llai tebygol o fynd ymlaen i gamau olaf y ddeddfwriaeth. Yn y modd hwn yr oedd y ddyletswydd statudol a roddwyd ar yr awdurdodau lleol yn nhermau atal yn cael ei ystyried yn allweddol yn nhermau gosod model cynorthwyo cynnar a oedd yn effeithiol ac yn y bôn yn fuddiol i ddefnyddwyr gwasanaeth (yn ogystal â chael y gwerth ychwanegol o leihau baich costau sy'n gysylltiedig ag ymyriad brys a chyda phobl sydd yn ddigartref).

*'Mae'n gorfodi awdurdodau lleol i ymdrin â phobl yn y cyfnod cyn-argyfwng'*

4.9 Nododd y rhanddeiliaid y gweithgareddau atal allweddol isod o dan y Ddeddf:

- Cyllidebu a rheoli dyled
- Cyngor budd-daliadau
- Atgyfeirio at weithwyr cymorth fel y bo'r angen
- Rhyngweithio gyda chyngor tai a phobl sy'n ceisio cymorth
- Cyfryngu/ cynorthwyo pobl i reoli perthynas gyda landlordiaid yn arbennig yn y sector breifat
- Blaendaliadau / bondiau rhent
- Cyfeirio at Opsiynau Tai
- Addysg ddigidol

4.10 Gall gweithgareddau atal o'r fath gael eu categoreiddio yn fras i gyngor ariannol a chymorth; cyngor a chymorth cyffredinol; a chyfeirio at asiantaethau cymorth eraill.

4.11 Teimlai llawer o randdeiliaid fod y newid cadarnhaol mewn diwylliant a fewnosodwyd yn y Ddeddf yn golygu fod y pwyslais wedi symud tuag at bobl, gan fabwysiadau dull pobl-ganolog yn hytrach na chael ei yrru gan broses. Teimlai rhanddeiliaid fod newid pwyslais diwylliannol o'r fath yn golygu fod pobl yn cael eu trin gyda mwy o barch ac yn derbyn mwy o gefnogaeth. Yng ngeiriau'r ymatebydd yma:

*'Mae cymorth ystyrlon i bawb ac mae'n canolbwyntio ar yr unigolyn'.*

4.12 Ystyriwyd y symudiad tuag at agwedd ataliol a oedd yn lleoli pobl yng nghanol darpariaeth gwasanaethau'r awdurdodau lleol a sefydliadau partner, o hybu "egni cadarnhaol" gan newid y diwylliant o fewn awdurdodau lleol, yn hytrach na'i fod yn cael ei yrru gan broses.

*'Mae'r canolbwynt ar atal a symud oddi wrth ddulliau cymhwyster yn golygu ein bod yn trin pobl fel pobl ac nid gwrthrychau ar gyfer ymarferion asesu yn unig. Y mae wedi adnewyddu'r dull o drin digartrefedd yng Nghymru gydag egni cadarnhaol ar draws y Sector Wirfoddol yn ogystal â'r awdurdodau lleol'.*

4.13 Fodd bynnag, awgrymodd ymatebwr arall fod y term "person-ganolog" yn amhriodol gan fod y pwyslais ar staff Opsiynau Tai yn gweithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau i ddarganfod datrysiadau tai: *"Mae'r label person-ganolog yn gamarweiniol. Rwy'n ffafrio "ochr yn ochr" gan ei fod yn fwy o bartneriaeth rhwng y cwsmer yn ogystal ag asiantaethau*.[11]Yn yr un modd, nododd rhanddeiliaid eraill mai canolbwyntio ar unigolion yn ymarfer asiantaeth i helpu eu hunain yn hytrach na rhai sydd ond yn derbyn gwasanaethau, oedd craidd y Ddeddf:

*'Mae'r ddeddfwriaeth wedi bod yn llwyddiannus gan ei fod wedi newid y berthynas rhwng awdurdodau lleol a phobl sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd. Yn awr mae'n fwy o bartneriaeth…mae yna awyrgylch fwy cynhwysol a chadarnhaol'.*

4.14 Amlyga'r dyfyniadau uchod densiwn wrth weithredu'r model person-ganolog a'r disgwyliad fod unigolion yn mynd yn asiantau gweithredol o fynd at wasanaethau mewn perygl o ddigartrefedd neu pan ŷnt yn ddigartref. I rai defnyddwyr gwasanaeth (er enghraifft y rhai sy'n agored i niwed ychwanegol) nid yw bod yn

[11] Mae pennod 6 yn archwilio safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth ar y dull person-ganolog yn erbyn y dull mwy cydweithredol wrth ddarparu gwasanaeth.

‘bartner’ mwy gweithredol mor syml â hynny, nac yn gyraeddadwy neu hawdd ei adnabod yn syth i ddarparwyr gwasanaeth.

4.15 Fodd bynnag, yn gyffredinol ystyriwyd y dull partneriaeth a'r pwyslais ar ddefnyddwyr gwasanaeth yn cymryd peth cyfrifoldeb wrth geisio datrysiad o’i digartrefedd, yn arwain at ganlyniadau mwy cadarnhaol, yn benodol o ran newid ffyrdd o weithio a lleihau'r effaith 'drws tro'.

*'Yr ethos yma yw bod pobl yn cymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb drwy chwarae rhan yn y gweithredu. Mae hyn wedi arwain at lai o 'ddrws tro' ar gyfer cleientiaid, ac mewn rhai awdurdodau, mae'n amlwg fod yna newid o ran strwythur a diwylliant wedi digwydd. Mae wedi atgyfnerthu’r neges o’r newid mewn diwylliant o ddatrys problemau i ddod o hyd i atebion. Mae rhai awdurdodau yn adrodd fod yna heriau, ond mae newid diwylliant arwyddocaol yn y fan a’r lle. Felly at ei gilydd mae’r Ddeddf wedi llwyddo i atgyfnerthu atal yn sylweddol ac wedi hybu gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a chwsmeriaid’.*

4.16 Yn ogystal, nododd y rhanddeiliaid fod y Cynlluniau Tai Personol megis mecanwaith sy'n ymgorffori partneriaeth ac ymagwedd person-ganolog wrth fynd i'r afael â digartrefedd a gwell perthynas rhwng gweithwyr awdurdod lleol a’r defnyddwyr gwasanaeth:

*‘Mae Cynlluniau Tai Personol yn rhedeg drwy’r ddeddfwriaeth. Mae hyn wedi mynd i lawr yn dda, mae pobl yn hoffi’r cynllun, mae’n atgyfnerthu’r dull partner ac ystyrir y cwsmer fel partner hefyd’.*

4.17 Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid yr amrywiad ar draws awdurdodau lleol yn y modd y mae’r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu mewn perthynas â i ba raddau y cyflwynwyd y Cynlluniau Tai Personol. Teimlid hefyd fod rhai awdurdodau lleol wedi gwneud mwy o gynnydd nag eraill a dylid cydnabod hyn. Adroddodd un rhanddaliwr fod amrywiaeth o ran y cynnydd yn anochel oherwydd y cyd-destunau amrywiol y mae awdurdodau lleol yn gweithredu ynddynt ac yn yr ystod eang o heriau y maent yn eu hwynebu:

*‘Y mae 22 awdurdod lleol gyda gwahanol gyd-destunau lleol, setiau gwahanol o brofiadau a chynwyseddau, felly mae’n anochel bu rhywfaint o amrywiaeth yn y ffordd y mae gweithredu wedi’i ddatblygu”.*

*‘Mae defnyddio Cynlluniau Tai Personol yn hynod o gadarnhaol; fodd bynnag, mae’r ansawdd yn amrywio gan fod rhai awdurdodau lleol yn torri corneli’.*

4.18 Mae’r dyfyniad olaf yn awgrymu fod lefel amrywiol o ymrwymiad tuag at gyflwyno’r Cynlluniau Tai Personol ar draws y 22 awdurdod lleol, ac eto mae'r rhain yn arf hanfodol yng nghyd-destun dull gweithredu person-ganolog.

4.19 Yn ogystal, esboniodd dau ymatebydd arall fod dal gwaith i'w wneud mewn rhai awdurdodau mewn agweddau eraill o ddarparu gwasanaeth. Canfuwyd bod integreiddio gwasanaethau budd-dal tai i mewn i’r timau digartrefedd awdurdodau lleol o fudd i’r gweithredu, tra nododd un arall fod rhai awdurdodau yn parhau i beidio gweithio o fewn y Ddeddf:

> *‘Yn eu hanfod, mae staff wedi croesawu’r ffocws yn barod, ond mae angen i fod yn wyliadwrus. Mae gan rai awdurdodau lleol gryn dipyn o waith i’w wneud i wneud yn fawr o’r ffocws ar atal. Er enghraifft, mae rhai timau Budd-dal Tai wedi datgysylltu eu hunain oddi wrth y broses a gallai hyn fod yn rhwystr i weithredu'.*

4.20 Ar ran rhanddeiliaid yr oedd yn ymddangos fod gwybodaeth gyfyngedig am arfer yr hawl i adolygu newydd, gyda’r mwyafrif yn methu a gwneud sylw. Ar gyfer y rhanddeiliaid hynny a wnaeth sylwadau, y teimlad cyffredinol (er ni ellid rhoi tystiolaeth o hyn) oedd bod y nifer o adolygiadau wedi gostwng.

**Canlyniadau ar gyfer pobl digartref**

4.21 Yr oedd rhan bwysig o’r ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn gysylltiedig â chanolbwyntio ar y canlyniadau canfyddedig a gwirioneddol ar gyfer pobl ddigartref ers cyflwyno'r Ddeddf. Mae’r thema gyffredinol hon yn cael ei rhannau i nifer o is-themau fel a ganlyn:

- Cynyddu lefelau a chylch gwaith cynhorthwy
- Yr effaith o gynyddu’r cyfnod amser pan fo pobl yn cael eu hystyried o fod dan fygythiad o ddigartrefedd
- Y defnydd o’r Camau Rhesymol
- Y defnydd o fwriadoldeb
- Rhyddhau
- Y defnydd o’r cysylltiad lleol
- Y defnydd o angen blaenoriaethol a heb fod mewn angen blaenoriaethol
- Yr effaith ar bobl gyda nodweddion gwarchodedig
- Yr effaith ar grwpiau eithriedig
- Eglurder y llwybrau ar gyfer pobl ddigartref sydd ag anghenion cymorth
- Arfer yr hawl i adolygu newydd

**Cynyddu'r lefelau a chylch gwaith cymorth**

4.22 Teimlid fod hyn yn arbennig o arwyddocaol fel y tynnodd un rhanddaliwr sylw ato am bobl sengl, *'yn cael cam gan y ddeddfwriaeth flaenorol'.* Teimlai lawer *'fod mwy o gymorth a chefnogaeth'* o dan y ddeddfwriaeth newydd. Nododd y rhanddeiliaid fod llawer o bobl na fyddent wedi derbyn lefelau ystyrlon o gymorth o dan yr hen system, yn llawer mwy tebygol o gael budd, gan fod y ddeddfwriaeth wedi ehangu'r cwmpas ar gyfer y rhai a allai gael eu cefnogi.

4.23 Felly, teimlai rhanddeiliaid bod cyflwyno dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar atal yn creu canlyniadau mwy cadarnhaol i bobl sy'n ddigartref / yn cael eu heffeithio gan ddigartrefedd, yn bennaf trwy ehangu cylch gwaith cymorth. Credwyd bod tystiolaeth am hyn yn y galw am lety un person a gofnodwyd gan yr awdurdodau lleol:

> *'O dan y ddeddfwriaeth newydd - oherwydd y ffocws ar atal – y mae cynnydd yn y nifer o bobl sengl sy'n derbyn canlyniadau cadarnhaol a chael eu rhyddhau o ddigartrefedd. Mae awdurdodau lleol a phartneriaid yn adrodd diffyg llety un person felly mae'n rhaid eu bod yn gweld galw [o'r garfan hon] o dan y ddeddfwriaeth newydd'.*

4.24 Fodd bynnag, nododd rhai rhanddeiliaid, er y cofnodwyd fod mwy o bobl o bosib wedi cael eu hasesu drwy ddyletswydd ac yn cael cynnig cymorth, gallent fod mewn gwirionedd wedi derbyn cymorth o'r blaen [o dan yr hen system], er na gofnodwyd hynny'n swyddogol:

> *'Mae mwy o bobl yn cael eu hasesu yn y ddyletswydd - ond mae'n bosib eu bod wedi cael cymorth o'r blaen, heb roi cyfrif amdanynt'.*
>
> *Dyblu'r cyfnod mae ceiswyr yn cael eu hystyried i fod o dan fygythiad o ddigartrefedd'.*

4.25 Mae hyn yn amlygu'r anawsterau mewn deall y nifer o bobl a gynorthwyir o dan y Ddeddf yn llawn.

4.26 Er y teimlai ddau randdaliwr na allent wneud sylw, yr oedd cefnogaeth aruthrol gan y gweddill am ddyblu'r cyfnod lle mae ymgeiswyr yn cael eu hystyried yn ddigartref o 28 o i 56 diwrnod. Roeddent yn teimlo ei fod yn cyflwyno dyletswydd yn llawer fwy cadarn, yn rhoi mwy o amser i awdurdodau lleol i ddarparu cymorth ystyrlon yn ogystal â'r cyfle i ymyrryd yng nghynt. Credai rhanddeiliaid y buasai dyblu'r cyfnod yn cynyddu'r defnydd o wasanaethau, ac felly yn fwy effeithiol o ran atal

ddigartrefedd. Ystyrid fod manteision ychwanegol drwy atgyfnerthu'r fframwaith ar gyfer yr holl awdurdodau o ran gweithredu, gan sefydlu arferion cadarnhaol ar draws Cymru gan leihau arfer gwael. Awgrymai'r rhai wnaeth ymateb fod hyn yn atgyfnerthu'r ddyletswydd a chaniatáu amser ar gyfer ymyriadau llawer cynt a oedd yn hyrwyddo atal digartrefedd fwy effeithiol.

*'Mae hyn yn ddyletswydd llawer fwy cadarn; 'roedd y ddyletswydd 28 diwrnod yn gyfyngedig iawn, mae'n rhoi cyfle i awdurdodau lleol ymyrryd yn gynt fel gellid gwneud mwy. Mae'n gwneud atal yn fwy effeithiol ac yn darparu cyfle i ymyrryd ... felly mae wedi cynyddu'r diwylliant atal '.*

4.27 Yn y modd hwn, roedd y rhanddeiliaid yn adlewyrchu potensial y ddyletswydd 56 diwrnod i alluogi'r ethos person-ganolog o'r Ddeddf yn nhermau caniatáu mwy o amser i fynd i'r afael ag anghenion unigol ac er mwyn cynhyrchu Cynlluniau Tai Personol mwy cyfannol a chydlynol.

4.28 Awgrymodd eraill ei bod yn sefydlu'r agenda atal digartrefedd yn gadarn yn ogystal â'i hatgyfnerthu. Fodd bynnag, dangosodd nifer fechan o'r rhanddeiliaid fod ganddynt rai pryderon, yn arbennig ynghylch lefelau ymwybyddiaeth o wasanaethau ymysg defnyddwyr gwasanaeth, ac ynghylch cyfyngu'r cymorth 56 diwrnod. Fel canlyniad yr oedd dau randdaliwr yn cefnogi ehangu'r rheol 56 diwrnod hyd yn oed ymhellach.

*'Mae gennym ni bryderon ynglŷn ag agweddau o'r ddeddfwriaeth, byddai chwe mis yn ddelfrydol ar gyfer gwaith atal. Ni fuasai pobl ar drothwy argyfwng ar gyfer ymyriad ac fe fuasai'n lleihau'r profiad trawmatig i bobl ynghyd â chostau i wasanaethau'.*

4.29 Mynegodd un ymatebwr bryder fod angen i wybodaeth gael ei hysbysebu'n eang i gael yr effaith orau, a bod rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau ac ar draws agendâu yn angenrheidiol er mwyn i'r dull atal digartrefedd gael ei weithredu'n llawn:

*'Ydi pobl yn gwybod y gallant fynd at eu hawdurdod lleol? Mae angen i ni sicrhau fod y rheol 56 diwrnod yn cael ei gyfathrebu. Mae angen i ni wybod hefyd a yw pobl yn cael eu cefnogi gan raglenni eraill a sut mae atgyfeiriadau yn digwydd?'*

4.30 Yn ei hanfod, ystyriwyd y ddyletswydd 56 diwrnod yn gadarnhaol ond roedd rhywfaint o ansicrwydd yn parhau yn nhermau sut oedd hyn yn cael ei gyfathrebu ar draws y sector a chyda defnyddwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau dull partneriaeth gydlynol ac effeithiol o fewn yr amser penodedig.

*Y camau rhesymol sydd angen eu cymryd gan awdurdodau lleol er mwyn atal a rhyddhau digartrefedd.*

4.31 Pan ofynnwyd am eu barn am y camau rhesymol angenrheidiol i'w cymryd gan awdurdodau lleol i atal a rhyddhau digartrefedd mynegodd chwech o randdeiliaid na allent wneud sylw. Awgrymodd yr 11 arall wrth sôn am gyflwyno'r camau rhesymol (dyletswydd i gynorthwyo i atal / dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau) y *dylent* fod o fudd i bawb sy'n dod at yr awdurdod lleol am gymorth:

> *'Fe fyddai camau rhesymol wedi cael eu defnyddio yn flaenorol, ond erbyn hyn maent yn ddyletswydd; dylai hyn gynyddu'r pwysau ar wasanaethau y mae pobl yn troi atynt '.*

4.32 Fodd bynnag, mynegodd rhai rhanddeiliaid nifer o bryderon ynghylch dehongli a gweithredu'r hyn a olygir wrth 'gamau rhesymol' a sut gellid ei gymhwyso: *'Heb i hyn gael ei herio, mae'n anodd dweud beth sy'n rhesymol'*:

4.33 Awgrymodd un rhanddaliwr y dylid cael gwell eglurhad a diffiniad o gyfansoddiad 'camau rhesymol', gan fod diffyg eglurder yn golygu bod awdurdodau lleol yn ei ddehongli ac yn ei gymhwyso'n wahanol. Credir fod posibilrwydd fod hyn yn arwain at ganlyniadau andwyol i rai grwpiau o bobl:

> *'Buasai'n well gen i gael rhestr o'r camau y dylid eu dilyn. Ar hyn o bryd mae gormod o ryddid i awdurdodau lleol, ac ni ddarperir yn ddigonol ar gyfer rhai grwpiau o bobl, er enghraifft y rhai digartref sengl, y rhai sy'n cysgu allan, a'r rhai gydag 'amryfal waharddiadau'.*

4.34 Fodd bynnag, awgrymodd rhanddaliwr arall fod y diffiniad rhy benodedig o'r hyn a olygir wrth 'gamau rhesymol' ac yn medru mynd yn groes i ethos person-ganolog y ddeddfwriaeth, gan ei fod yn tanseilio y gallu i fod yn hyblyg wrth drin anghenion unigolion.

4.35 Roedd anghytundeb barn ynglŷn â pharodrwydd awdurdodau lleol i gynnal cefnogaeth. Teimlai un rhanddaliwr fod 'camau rhesymol' yn berthnasol i'r rhai sy'n derbyn cefnogaeth yn ogystal â'r awdurdod lleol, gan fod gofyn i'r unigolyn ddangos ei fod yn gweithredu ac os nad oedd, y pryder oedd y gallai awdurdodau lleol

ddefnyddio hynny fel rheswm i derfynu'r cymorth, gan nodi'r rheswm 'diffyg cydweithrediad afresymol'.

*'Mae'r defnydd o 'gamau rhesymol' yn golygu gofyn i bobl i roi cyfrif am eu hamser a dreulir yn chwilio am lety. Mae hyn fel y Lwfans Chwilio am Waith, ac os nad yw pobl yn gwneud hyn, yna maent yn cael eu gweld o fod yn afresymol yn gwrthod cydweithredu'.*

4.36 Fodd bynnag, tynnodd rhanddaliwr arall sylw tuag at y nifer o achosion byw fel tystiolaeth fod awdurdodau lleol mewn gwirionedd yn amharod i dynnu cymorth yn ei ôl, ac o ganlyniad yn gwrthddweud y pwynt a wnaethpwyd uchod:

*'Mae awdurdodau lleol yn amharod i ddod â gwasanaethau i ben. Mae hyn yn gadarnhaol gan ei fod yn dangos nad ydynt yn defnyddio'r ddeddfwriaeth i dynnu'n ôl o gynorthwyo. Y maent yn amharod i gau lawr achosion sy'n golygu fod yna nifer uchel o achosion byw'.*

*Pwysigrwydd bwriadoldeb (fel yr amlinellir yn a78 o Ddeddf Tai (Cymru) Deddf 2014)*

4.37 Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r defnydd hyblyg o fwriadoldeb, yn enwedig gan nad yw'n bresennol yn y camau atal a rhyddhau. Er bod tri rhanddaliwr yn teimlo na allent wneud sylw, awgrymodd nifer y gallai awdurdodau ddiddymu'r categorïau 'haeddiannol ac anhaeddiannol' fel y mae'r sylwadau canlynol yn egluro:

*'Y mae llai o ganolbwyntio ar fwriadoldeb ac y mae yna ddealltwriaeth fod gan awdurdodau lleol ddewis ynglŷn â sut y maent yn trin bwriadoldeb a gyda hyder cynyddol gall awdurdodau weithredu rhai o'r dewisiadau hynny'.*

*'Mae'r ddeddfwriaeth yn ... fwriadol 'ddall ' sy'n nodwedd arwyddocaol. Y bwriad oedd peidio â rhannu adnoddau yn gategorïau haeddiannol ac anhaeddiannol '.*

4.38 Fodd bynnag, teimlai rai rhanddeiliaid y dylid diddymu bwriadoldeb yn gyfan gwbl:

*'Gan fod bwriadoldeb ond yn cael ei ystyried yn y cam olaf - dyletswydd i sicrhau - dylid ei ddiddymu gan fod niferoedd bwriadoldeb yn isel'.*

4.39 Awgrymodd rhanddaliwr arall y dylid ei gadw fel 'rhwyd ddiogelwch' ar gyfer awdurdodau lleol, fel ffordd o reoli cynaliadwyedd tenantiaeth neu i weithredu fel rhwystr i bobl dorri tenantiaeth:

*'Rwy'n gweld nifer o unigolion sy'n gwneud eu hunain yn ddigartref yn fwriadol a buaswn yn wyliadwrus o gael gwared ar fwriadoldeb er fy mod yn gwybod bod galw i wneud hyn. Mi fuaswn yn hynod o nerfus wrth drafod y canlyniadau … mae'n rhaid i ni ddechrau pwysleisio fod canlyniadau am beidio â byw yn briodol mewn eiddo'.*

4.40 Fe wnaeth rhanddaliwr arall wneud sylw tebyg ond teimlai fod hyn wedi cael effaith negyddol:

*Mae i weld fel un o weddillion Deddf y Tlodion: haeddiannol neu anhaeddiannol. Mae ei fodolaeth barhaus yn bryder gan y gallai droi pobl yn ei erbyn. Cyn belled â'i fod i mewn [yn y ddeddfwriaeth] yn rhywle gellid ei ddefnyddio fel rhyw fath o fygythiad'.*

*Cyflwyno'r ddyletswydd i gynorthwyo i ryddhau materion yn ymwneud â digartrefedd*

4.41 Mynegodd pedwar o'r rhanddeiliaid na allent wneud sylw am gyflwyno'r ddyletswydd i ryddhau materion yn ymwneud â digartrefedd . Y teimlad cyffredinol gan randdeiliaid a wnaeth ymateb oedd bod hwn yn gynnig i'w groesawu a gwnaethant ei gefnogi gan ei fod eto'n creu amgylchedd mwy cadarnhaol a fframwaith ar gyfer awdurdodau lleol i weithredu ynddo. Gwnaethant awgrymu hefyd ei fod yn cynyddu'r nifer o bobl sy'n derbyn cymorth:

*'Mae hyn yn cael effaith; mae'n amgylchedd mwy cadarnhaol i bawb dan sylw. Mae'n golygu cyfweld ysgogol gan staff a mwy o bobl yn cael cymorth o ganlyniad*

4.42 Fodd bynnag, teimlai rhanddeiliaid eraill, y gall fod rhagor o waith i'w wneud o hyd gan rai awdurdodau ynglŷn â'r ddyletswydd i ryddhau, yn nhermau perfformiad amrywiol ar draws awdurdodau lleol a'r nifer o bobl sy'n cael eu cynorthwyo yn y cam hwn o'r ddeddfwriaeth:

*"Rydw i'n meddwl fod hwn wedi cael ei groesawu'n gadarnhaol ym mhob ardal, er y gall fod enghreifftiau unigol lle gallai rhai awdurdodau lleol fod wedi gwneud yn well, ond byddai hyn yn dibynnu ar amgylchiadau'r achosion unigol, nid oherwydd diffyg awydd [ar ran awdurdodau lleol] i gyflawni'r dyheadau hyn'.*

4.43 Gwnaeth un rhanddaliwr y sylw fod cyflwyno'r ddyletswydd hon yn cynyddu'r galw am wasanaethau digartrefedd:

> *'Mae mwy o bobl yn cael cymorth a fyddai wedi ei hystyried heb fod mewn angen blaenoriaethol ac mae hyn wedi creu cynnydd yn y galw am opsiynau tai. Mae hyn yn creu galw sydd â goblygiadau o ran adnoddau '.*

4.44 Felly, tra cydnabuwyd buddioldeb cyffredinol y ddyletswydd hon, fel y gallu i gefnogi mwy o bobl, cafodd y goblygiadau yn nhermau adnoddau ei gydnabod hefyd.

**Effaith y ddeddfwriaeth ar wasanaethau a ddarperir i bobl heb gysylltiad lleol.**

4.45 Pan ofynnwyd iddynt am eu barn am effaith y ddeddfwriaeth ar wasanaethau a ddarperir i bobl heb gysylltiad lleol, mynegodd wyth rhanddaliwr na allent wneud sylw. Awgrymodd rai rhanddeiliaid fod ymateb rhai awdurdodau lleol am ddarparu gwasanaethau i bobl heb gysylltiad lleol yn dibynnu'n helaeth ar y galw:

> *'Mae ymatebion awdurdodau lleol yn dibynnu ar niferoedd o bobl sy'n dod o du allan i'r ardal. Lle bynnag y mae niferoedd yn uwch, yna bydd yr awdurdod lleol yn cyfyngu fwy'.*

4.46 Awgrymodd un rhanddaliwr (yn anghywir) fod cafeat yn y Cod Canllawiau sy'n caniatáu i awdurdodau beidio a chynorthwyo pobl heb gysylltiad lleol os oes ganddynt adnoddau annigonol i wneud hynny:

> *'O ran gwasanaethau a gynigir i bobl heb gysylltiad lleol, gall awdurdodau lleol wneud penderfyniad i beidio â chynorthwyo pobl heb unrhyw gysylltiad lleol "o fewn yr adnoddau'.*

4.47 Fodd bynnag, mae hyn yn gamddehongliad o'r Cod Canllawiau sydd mewn gwirionedd yn caniatáu blaenoriaethu'r rhai hynny gyda chysylltiad lleol 'gyn belled eu bod yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol i bob ceisydd'.

4.48 Awgrymodd nifer o randdeiliaid y gall pobl gael eu denu i rai ardaloedd penodol, a bod *'Angen tynhau cysylltiad lleol'.*

4.49 Nodwyd Caerdydd yn benodol fel ardal a effeithiwyd gan lefelau uchel o alw gyda phobl heb gysylltiad lleol yn ddigartref, er y teimlid ei fod yn broblem o fewn ardaloedd trefol eraill hefyd. O ganlyniad i'r pwysau y mae hyn yn ei roi ar lety dros dro, nododd dau randdaliwr fod mesurau i ailsefydlu cysylltiad lleol gyda phwyslais ar darddle wedi cael ei ddatblygu mewn rhai ardaloedd.

**Effaith y Ddeddf ar rai mewn angen blaenoriaethol a'r rhai heb fod mewn angen blaenoriaethol**

4.50 Pan ofynnwyd am effaith y Ddeddf ar y rhai sydd mewn angen blaenoriaethol a'r rhai heb fod mewn angen blaenoriaethol, nododd tri rhanddaliwr na allent wneud sylw. Teimlai ddau randdaliwr fod y termau eu hunain yn annefnyddiol.

> *'Rwy'n teimlo'n rhwystredig â'r categorïau hyn oherwydd mae bob amser angen'.*

> *'Dwi'n deall pam eu bod wedi gwneud hyn, ac mae yn un ffordd y gall weithio yn y ffordd y maent wedi gwneud hynny. Yn y pen draw ddylai fod yna fwriad sy'n peidio [angen blaenoriaethol] rhag cael ei gymryd i ystyriaeth. Unwaith y mae atal yn cael ei sefydlu a'r galw yn lleihau, dylai angen blaenoriaethol fod yn ddibwys'.*

4.51 Yn gyffredinol, teimlid fod effaith y Ddeddf yn gadarnhaol iawn i'r bobl hynny heb fod mewn angen blaenoriaethol gan y dylent dderbyn gwasanaeth llawer gwell a mwy o gymorth nag y buasent o dan y ddeddfwriaeth flaenorol. Credwyd bod hyn yn arwain at well canlyniadau i fwy o bobl:

> *'Mae pobl heb fod mewn angen blaenoriaethol yn awr yn cael llawer mwy o gefnogaeth a gwasanaethau nag y buasent wedi ei gael cyn gweithredu. Bellach nid yw awdurdodau lleol yn edrych a yw pobl mewn angen blaenoriaethol ar y diwrnod cyntaf fel yr oeddynt yn y drefn flaenorol. Bydd hyn yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol mewn llawer mwy o achosion nag o'r blaen '.*

4.52 Fodd bynnag, testun pryder i rai rhanddeiliaid oedd a fuasai pobl heb fod mewn angen blaenoriaethol o dan yr hen system ar eu colled o dan y ddeddfwriaeth newydd, er ni sylwodd eraill ar unrhyw newid: *'Y mae effaith gadarnhaol wedi bod ar bobl sydd nad ydynt mewn angen blaenoriaethol er nid wyf mor sicr ynglŷn ag angen blaenoriaethol'.*

4.53 Felly, yr oedd cytundeb ymhlith rhanddeiliaid fod pobl heb fod mewn angen blaenoriaethol yn cael canlyniadau llawer gwell nag o dan y ddeddfwriaeth flaenorol; roedd yn llai amlwg a oedd pobl a oedd mewn angen blaenoriaeth yn well neu'n waeth o dan y Ddeddf newydd. Er hynny, yn gyffredinol ystyrir hyn yn gadarnhaol i bobl, ac i wasanaethau hefyd; yr olaf wedi cael y gallu i fabwysiadu dulliau mwy hyblyg a chreadigol ar gyfer unigolion mewn angen.

*‘Mae pobl mewn angen blaenoriaeth yn cael yr un fantais fuddiol a’r rhai heb fod mewn angen blaenoriaethol: mae atebion llawn dychymyg a phwrpasol yn cael eu datblygu ar gyfer aelwydydd boed mewn angen blaenoriaethol neu ddim . Mae gwasanaethau yn llawer mwy addas a hyblyg '.*

**Effaith y Ddeddf ar bobl gyda nodweddion gwarchodedig**

4.54 Pan ofynnwyd iddynt am eu barn ar effaith y Ddeddf ar bobl â nodweddion gwarchodedig, mynegodd pump rhanddaliwr na allent wneud sylw. Adroddodd rhanddeiliaid eraill fod cryn amrywiaeth yn yr effaith ar bobl gyda nodweddion gwarchodedig ar draws yr awdurdodau yng Nghymru. Ystyrid bod yr amrywiad yma o ganlyniad i'r gwahanol ffyrdd roedd gweithio mewn partneriaeth yn gweithredu a sut y defnyddiwyd adnoddau:

*'Y mae yna ddulliau amrywiol ar draws Cymru. Pan fo gwasanaethau cymorth a statudol yn cael eu halinio, y mae'r gwasanaeth yn dda. Pan fo dull gweithredu llai strategol, y mae'n waith sy'n mynd rhagddo '.*

4.55 Teimlai rhanddeiliaid hefyd fod amrywioldeb ynglŷn â natur effaith unigolyn ar bobl â nodweddion gwarchodedig, gyda phobl ag anableddau corfforol yn cael eu canfod yn ôl pob golwg yn gwneud yn well na'r rhai gyda phroblemau iechyd meddwl a oedd efallai heb y medrau angenrheidiol ac yn ei chael hi’n anodd ymdopi â’r systemau. Teimlid hefyd y gallai fod diffyg ymwybyddiaeth o sut i fynd i'r afael â materion o'r fath ymhlith staff awdurdodau lleol:

*‘Mae'r awdurdodau lleol yn dda am ddethol pobl gydag anableddau amlwg ond pan nad ydynt mor amlwg, er enghraifft gorbryder ac iselder nid oes gan opsiynau tai bob amser ymwybyddiaeth o'r problemau’.*

4.56 Mynegodd ddau randdaliwr hefyd y gallai’r diffiniad agored i niwed eithrio rhai pobl sy'n derbyn cymorth, ac efallai bod y trothwy yn rhy isel. Y goblygiad efallai nad oedd pobl sy'n agored i niwed yn derbyn y canlyniadau y dylent eu cael:

*‘Y mae yna rywfaint o effaith ynglŷn â’r diffiniad agored i niwed, wedi bod, mae'r trothwy yn is nag y dylai fod. Dylem fod wedi anghofio'r diffiniad o agored i niwed, mae hyn wedi cael ei feirniadu gan farnwr y Goruwch Lys wrth gymharu hyn ag achosion yn Lloegr’.*

4.57 Amlygodd rai rhanddeiliaid brofiadau cyn-droseddwyr o ddigartrefedd, fel maes sy'n peri pryder, o ran peirianwaith asesu'r angen am lety tra yn y carchar ac eglurder llwybrau, a'r potensial ar ddefnydd parhaus o angen blaenoriaethol:

*‘Nid yw digartrefedd y rhai sy’n cael eu rhyddhau o garchar yn cael eu hasesu yn y carchar. Maent yn mynd at Opsiynau Tai ar ôl cael eu rhyddhau ac yn darganfod nad ŷnt yn flaenoriaeth i unrhyw un’.*

*Eglurder y llwybrau ar gyfer pobl digartref gydag anghenion cymorth.*

4.58 Pan ofynnwyd am eu barn ynglŷn ag eglurder y llwybrau ar gyfer pobl ddigartref ag anghenion cymorth ac a ellid gwella'r rhain, mynegodd pedwar rhanddaliwr na allent wneud sylw. Yr oedd y gweddill yn gadarnhaol ynghylch y defnydd o lwybrau:

*‘Mae’r broses yn ddefnyddiol a dylid ei gyflwyno’n ehangach’.*

4.59 Gwnaeth randdaliwr arall y sylw y gallai sefydlu llwybrau fod o gymorth i greu cysylltiadau rhwng gwahanol asiantaethau:

*‘Mae angen cysylltiadau cryfach [rhwng asiantaethau] cyn i bobl gael i mewn i Opsiynau Tai a gallai'r llwybrau gynorthwyo yn hyn o beth'.*

4.60 Eglurodd un wnaeth ymateb er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, fod y Cod Canllawiau yn argymell y defnydd o lwybrau ar gyfer pobl sydd ag anghenion cymorth, a bod yr amser sydd ynghlwm wrth sefydlu hyn yn werth chweil i gyflawni canlyniadau cadarnhaol:

*‘Nid yw'n angen statudol i gael cynllun llwybrau, ond mae’n cael ei argymell yn y canllawiau. Er ei bod yn cymryd cryn dipyn o amser i gynhyrchu'r rhain, mae eu cael yn gadarnhaol '.*

**Effaith y ddeddfwriaeth ar staff digartrefedd awdurdod lleol**

4.61 Mater a gyfeiriwyd ato gan nifer o randdeiliaid oedd effaith y Ddeddf ar weithwyr digartrefedd yr awdurdod lleol. Yr oedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; cynnydd yn y llwyth gwaith; cynnydd mewn biwrocratiaeth; a newidiadau mewn arferion gwaith.

4.62 Eglurodd nifer o’r rhanddeiliaid fel yr oedd y galw am wasanaethau yn cynyddu, a bod llawer mwy o bobl yn gallu cael cymorth o dan y ddeddfwriaeth newydd, cafwyd cynnydd cysylltiedig yn llwyth gwaith staff awdurdodau lleol:

*‘Y mae llawer mwy o waith yn awr oherwydd cynnydd yn y galw gan fod cynnydd yn y galw am wasanaethau'.*

4.63 Fodd bynnag, er gwaethaf cynnydd yn llwyth gwaith staff awdurdodau lleol, nododd un rhanddaliwr mai yn ogystal â mwy o bobl yn derbyn cymorth, yr oeddent hefyd yn cael gwell canlyniadau:

> *'Bu cynnydd sylweddol mewn llwyth gwaith i gyflawni'r datrysiadau hynny ond maent yn cyflawni gwell datrysiadau i fwy o bobl'.*

4.64 Yn gysylltiedig â hyn roedd pryderon yn ymwneud a'r gwaith papur a'r biwrocratiaeth a oedd ynghlwm wrth hyn i staff Opsiynau Tai o dan y Ddeddf newydd a chyfundrefnau newydd:

> *'Mae mwy o achosion ar gyfer staff a chynnydd hefyd mewn biwrocratiaeth. Mae angen tri chyfathrebiad wrth symud o adran 66 a 73 felly mae hyn wedi ychwanegu haenau ychwanegol o fiwrocratiaeth '.*

4.65 Fodd bynnag, yn gyffredinol teimlid fod gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus wedi creu gwelliannau yn y dull y mae'r timau tai awdurdodau lleol yn gweithio yn nhermau agwedd fwy cadarnhaol i fynd i'r afael â digartrefedd ac arferion gwaith. Teimlai llawer o'r rhanddeiliaid fod newidiadau cadarnhaol wedi bod i staff fel canlyniad i symud tuag at ddull person-ganolog, gan ymateb yn gadarnhaol iawn mewn hyn o beth.

> *'Hyd yn hyn mae'r gweithredu wedi bod yn weddol lwyddiannus. Y mae wedi golygu newidiadau mawr yn nhermau ymarfer a diwylliant. Er enghraifft, mae timau Opsiynau Tai yn awr yn gweithio mewn ffordd wahanol iawn. Y mae newidiadau wedi bod mewn prosesau, dulliau a diwylliant '.*

4.66 Yn gyffredinol, teimlid fod bellach mwy o hyblygrwydd i staff, ac nid ydynt bellach wedi'u cyfyngu gan brosesau didoli'r ddeddfwriaeth flaenorol. Yn awr y maent yn gallu canfod datrysiadau lletya mwy person-ganolog ac nid ydynt wedi eu cyfyngu yn y math o bobl y maent yn gallu eu cefnogi, gyda'r goblygiad fod gan staff fwy o foddhad yn eu gwaith yn awr:

> *'Mae staff yn teimlo eu bod yn darparu gwasanaeth sy'n fwy person-ganolog, gan gynorthwyo mwy o bobl, a mathau gwahanol o bobl nag o'r blaen. Felly, mae symud i ffwrdd oddi wrth y categori angen blaenoriaethol wedi bod yn gadarnhaol yn nhermau'r gallu i ganfod datrysiadau i unigolion ac aelwydydd'.*

4.67 Fodd bynnag, mynegodd rai bod y symudiad o'r diwylliant cyfundrefnol i'r dull atal, fwy datrys-ganolog i ddigartrefedd wedi bod yn her i rai aelodau staff rheng flaen a oedd wedi arfer â'r hen gyfundrefn a yrrwyd gan broses. Mynegodd rai rhanddeiliaid i rai staff rheng flaen fod yr heriau gymaint fel eu bod wedi cyfnewid swyddi sydd wedi golygu fod trosiant uchel o staff i rai awdurdodau lleol. Er bod rhanddeiliaid yn cydnabod y buasai trosiant staff uchel yn cynrychioli her i awdurdodau lleol yn nhermau gweithredu gwasanaethau; teimlai rai bod hyn yn gyfle i staff newydd i ymuno â thimau, a bod hyn yn gadarnhaol.

*'Y mae timau Opsiynau Tai wedi teimlo o dan gryn dipyn o bwysau. Y mae peth trosiant o ran staff fel canlyniad i bwysau ychwanegol a newid mewn diwylliant. Mae rhai pobl [a fu'n gweithio am nifer o flynyddoedd o dan yr hen system] wedi ei chael hi'n anodd addasu, ond mae'r ffaith fod pobl newydd yn dod wedi adfywio'r dulliau a ddefnyddir'.*

4.68 Gallai'r trosiant o staff, fodd bynnag, gael ei ystyried yn anochel ac nid anghyffredin mewn amgylchiadau o newid sylweddol, ond fel mae un rhanddaliwr yn awgrymu, gallai fod wedi amlygu rhai materion ynglŷn â pharhad i rai awdurdodau lleol yn arbennig os mai staff mwy profiadol Opsiynau Tai sydd wedi gadael. Fel arall, gellir ystyried hyn yn gadarnhaol pan fo staff newydd yn cael eu hyfforddi yn y Ddeddf newydd yn unig ac nid ydynt yn meddu ar wybodaeth a phrofiad o dan y ddeddfwriaeth flaenorol, sydd wedi dyddio.

**Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC)**

4.69 Gofynnwyd i randdeiliaid am eu barn am y cyfraniadau a wneir gan y LCC i atal a mynd i'r afael â digartrefedd. Teimlai tri na allent wneud sylw, tra teimlai'r mwyafrif fod y cyfraniad a wnaed gan LCC yn aros yr un fath a'u bod eisoes yn chwarae rôl arwyddocaol mewn atal a mynd i'r afael â digartrefedd. Yng ngeiriau'r rhanddeiliaid hyn:

*'Rwy'n credu ei fod eisoes yn uchel ac yn parhau i fod felly.'*

*'Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu ei fod wedi newid yn gadarnhaol neu'n negyddol'.*

4.70 Nododd rhanddeiliaid amrediad ystod o weithgarwch allweddol a weithredir gan LCC sy'n gweithio i atal digartrefedd gan gynnwys: cynnal tenantiaeth, gweithio gydag awdurdodau lleol i gyflawni'r dyletswyddau ddigartref; ac ailgartrefu aelwydydd drwy osodiadau sy'n seiliedig ar ddewis. Nododd un rhanddaliwr sut:

*'Mae LCC yn gweithio'n hynod o galed ar gynnal tenantiaethau sydd yn amlwg yn cyfyngu digartrefedd ei hun'.*

4.71 Fodd bynnag, awgrymodd rai a wnaeth ymateb fod y ddeddfwriaeth newydd yn darparu fframwaith fwy clir i sefydlu rôl ar gyfer LCC mewn atal a mynd i'r afael â digartrefedd, yn nhermau cynyddu cydweithrediad rhwng LCC ac awdurdodau lleol; drwy ddarparu fwy o eglurder yn y berthynas rhwng LCC ac awdurdodau lleol, elfen y dylid cael ei barhau; ac yn y ffordd y gall LCC gyfrannu i'r agenda atal:

*'Y mae wedi cynorthwyo i wneud atal yn fwy clir. Mae wedi cynorthwyo i ddehongli lle y gall darparwyr gamu i mewn a ble mae eu hangen …ar y dechrau nid oedd yn glir sut oedd darparwyr i gydweithio gyda'r LCC ac i'r gwrthwyneb. Fel mae'r misoedd wedi mynd yn eu blaen ... mae wedi ymsefydlu i ddealltwriaeth gyffredinol '.*

4.72 Teimlai nifer fechan o randdeiliaid fod y berthynas rhwng awdurdodau lleol a LCC yn *'gydweithredol ar y cyfan, ond bod rhai hanesion yn peri pryder'*, gyda rhai LCC yn cael eu hystyried yn gweithio'n well nag eraill. Meysydd a amlygwyd fel bod yn achosi pryder oedd y rhai yn ymwneud â phobl a oedd yn flaenorol wedi torri cytundebau tenantiaeth neu aelwydydd a ystyriwyd yn 'broblemus'. Ystyrir fod hyn yn her i'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a'r LCC, o bosibl yn dynodi buddiannau awdurdodau lleol (wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth a datrys digartrefedd) a'u gwrthbwyso gan flaenoriaethau LCC wrth gynnal cymunedau a lleihau'r potensial o ymddygiad gwrthgymdeithasol:

*'Yn gyffredinol, mae darlun cymharol gadarnhaol ond mae rhai LCC yn bod yn anodd gyda phobl ar y cyrion yn nhermau materion yn ymwneud ag ymddygiad, incwm a methiannau yn eu cofnod tenantiaeth. Felly, mae rhywfaint o waith i wneud eto. Nid yw rhai awdurdodau lleol yn ddigon cadarn wrth herio LCC'.*

4.73 Rhoddodd sawl rhanddaliwr enghreifftiau penodol o le y gallai blaenoriaethau o'r fath wrthdaro, er roedd ymdeimlad ei fod yn llai o broblem i'r awdurdodau hynny a oedd wedi cadw eu stoc tai oherwydd y gallent gyflawni eu dyletswyddau 'yn fewnol', ond gallai fod problemau gydag enwebiadau i awdurdodau trosglwyddo.

**Y Sector Rhentu Preifat**

4.74 Teimlai dri rhanddaliwr na allent wneud sylw ar y defnydd o'r sector rhentu preifat. Yn gyffredinol, teimlai'r gweddill fod y sector rhentu preifat wedi cael ei defnyddio i raddau llawer mwy helaeth ers cyflwyno'r Ddeddf, a bod hyn yn gadarnhaol:

*‘Mae awdurdodau lleol yn arfer y gallu i gyflawni eu dyletswyddau i mewn i’r sector rhentu preifat ac mae hyn yn gam hynod o gadarnhaol’.*

*'Mae defnyddio'r sector preifat yn cynyddu'r opsiynau sydd ar gael i bobl'.*

4.75 Fodd bynnag, yr oedd rhai yn cydnabod fod opsiynau eraill yn gyfyngedig ar gyfer awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau:

*‘Nid oes opsiwn i ddweud y gwir er bod y sector breifat yn gybolfa; peth ohoni’n dda a pheth ohoni’n ddrwg. Weithiau maent yn fwy fforddiadwy na’r rhai'r LCC’.*

4.76 Yn ogystal, nododd rai rhanddeiliaid fod amrywiad o ran argaeledd llety rhentu preifat ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, a bod hyn yn creu anawsterau os oedd diffyg stoc. Awgrymodd eraill fodd bynnag, y gallai amgylchiadau rhai ardaloedd, ble mae galw mawr am lety rhentu preifat, arwain at y cwestiwn a yw’n fforddiadwy ai peidio:

*‘Mae defnydd sylweddol o'r sector breifat wedi ei wneud. Mewn gwirionedd yn ei hanfod mae’n dibynnu ar natur y stoc leol ac mae'n haws i rai ardaloedd nag eraill. Mewn rhai ardaloedd, gall fod yr unig stoc sydd ar gael’.*

4.77 Mynegodd rai rhanddeiliaid bryderon ynghylch lefel (gymharol isel) o sicrwydd deiliadaeth mewn llety a rentir yn breifat:

*‘Mae’n rhaid i ni gofio mai dim ond tenantiaeth chwech mis mae pobl yn ei gael gan ofyn y cwestiwn pa mor gynaliadwy yw’r tenantiaethau hyn’.*

4.78 Amlygodd rhai pryderon am y diffyg rheoleiddio'r sector rhentu preifat ac awgrymwyd y buasai cyflwyno Rhan 1 o’r Ddeddf 2014, yn ogystal â’r cynllun cofrestru ‘Rhentu Doeth Cymru’ yn cael effaith gadarnhaol.

4.79 Awgrymodd rhanddeiliaid hefyd bod amrywiaeth yn y modd yr oedd sector rhentu preifat yn gweithio gydag awdurdodau lleol a’i bod yn ymddangos i weithredu'n fwy llwyddiannus pan fo gwasanaethau cyfryngu a chymhellion yn eu lle. Teimlid hefyd fod cymhellion yn allweddol wrth annog landlordiaid i letya tenantiaid sy'n agored i niwed.

*‘Mae gwahanol batrymau o weithio gyda'r sector rhentu preifat a dylem fod yn canfod arferion gorau. Mae hyn yn gweithio'n well mewn rhai ardaloedd nag eraill lle mae gwasanaethau megis cyfryngu a chymhellion yn bodoli'.*

4.80 Awgrymodd un rhanddaliwr y dylid ystyried cynyddu hyd tenantiaethau fyrddaliol sicr, ond mae angen cydbwysedd rhwng hyn â buddiannau landlordiaid preifat. Tra cododd rai rhanddeiliaid bryderon ynghylch yr anawsterau mewn cael gafael ar wasanaethau cymorth ar gyfer tenantiaid yn y sector rhentu preifat, o'i gymharu â thenantiaid awdurdodau lleol:

*‘Dylai cefnogaeth tenantiaeth weithio gyda phobl mewn tai cymdeithasol. Ond yn y sector rhentu preifat rydych chi ar eich pen eich hun, nid ydych yn sicr beth sydd ar gael a sut i gael cefnogaeth ... nid yw tenantiaid yn y sector rhentu preifat yn cael gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael, er enghraifft cymorth i gynnal tenantiaethau, cyngor ar ddyledion, beth i'w wneud os oes gennych broblemau a hawliau yn gyffredinol ac yn y blaen, tra mae tenantiaid y cyngor yn cael gwybod am y pethau hyn.’*

4.81 Amlygodd eraill anfodlonrwydd canfyddedig landlordiaid preifat i letya pobl sy'n agored i niwed a allai fod ag anghenion cymhleth ac awgrymasant fod y landlordiaid preifat yn brin o'r profiad a'r arbenigedd i ddarparu cymorth i bobl sy'n agored i niwed yn y sector. Argymhellodd rai y dylid cynyddu’r gefnogaeth a ddarperir i landlordiaid i’w galluogi i gynorthwyo eu tenantiaid:

*‘Y mae'n hynod anodd i landlordiaid gael mynediad at gymorth neu gyfeirio unigolion. Mae gan awdurdodau lleol a LCC y gallu i gael mynediad at rwydweithiau cefnogaeth, ond nid ydynt yn gwneud hynny... Felly, pe byddai gan landlordiaid preifat wybodaeth am bwy i gysylltu â hwynt, a fuasai hynny’n gymorth i gynnal tenantiaethau ac atal digartrefedd. Felly, os yw landlordiaid yn derbyn mwy o denantiaid risg uchel, beth all awdurdodau lleol ei wneud i gefnogi landlordiaid? Ac os oes gan landlordiaid denantiaid risg uchel i le y gallent gyfeirio am gymorth?*

4.82 Fodd bynnag, awgrymodd rhanddaliwr arall fod enghreifftiau o drefniadau llwyddiannus ar waith gyda Cefnogi Pobl a'r sector rhentu preifat:

*‘Rydym yn gwybod bod rhai awdurdodau lleol yn defnyddio cynlluniau Cefnogi Pobl i gyllido pobl sy'n fregus yn y sector rhentu preifat’.*

4.83 Cyfeiriodd rhanddeiliaid eraill at effaith defnyddio'r sector breifat ar adnoddau, yn gyntaf yn nhermau'r budd-daliadau tai ac yn ail y ddarpariaeth o warantau blaendaliadau a rhent:

*'Bydd y 'bill' budd-dal tai yn cynyddu trwy ddefnyddio landlordiaid preifat i gyflawni'.*

**Llety Dros Dro**

4.84 Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid am eu barn ar y defnydd o lety dros dro. Nododd pedwar na allent wneud sylw, tra awgrymodd y gweddill fod y defnydd o lety dros dro wedi gostwng, yn rhannol oherwydd y defnydd o'r sector rhentu preifat:

*'Mae'r defnydd o wely a brecwast wedi lleihau ac mae nifer y bobl a gafodd gymorth wedi cynyddu'.*

4.85 Fodd bynnag, dywedodd rhai randdeiliaid, er bod gostyngiad wedi bod yn y defnydd o lety dros dro, byddai bob amser angen am hynny, yn arbennig er mwyn pobl ag anghenion cefnogaeth, ac er mwyn y bobl hynny na ellid datrys eu digartrefedd.

4.86 Ystyriwyd llety dros dro yn angenrheidiol hefyd i gyn-droseddwyr, a theuluoedd mawr:

*'Mae'n amlwg fod gostyngiad wedi bod yn y defnydd o lety dros dro a G&B, ond carcharorion yw'r cafeat'.*

**Rôl Cefnogi Pobl**

4.87 Pan ofynnwyd pa mor effeithiol mae gwasanaethau Cefnogi Pobl yn galluogi gweithrediad o'r Ddeddf, nododd tri rhanddaliwr na allent wneud sylw. Cydnabu rhai bod Cefnogi Pobl wedi chwarae rôl ataliol sylweddol cyn cyflwyno'r Ddeddf, gyda'r mwyafrif yn pwysleisio *'heb Cefnogi Pobl buasai fod wedi bod yn anodd gweithredu'r ddeddf'.*

4.88 Fodd bynnag, nododd sawl rhanddaliwr fod amrywioldeb ar draws ardaloedd awdurdodau lleol yn y modd yr oedd gwasanaethau Cefnogi Pobl yn gweithredu'r ddeddfwriaeth:

*'Mae yna ambell berthynas agos iawn, ond mae hyn yn amrywio ar draws awdurdodau ac weithiau nid yw monitro yn ddigonol '.*

4.89 Ystyriwyd fod y fath amrywioldeb ar draws awdurdodau lleol yn dibynnu ar nodweddion ardal benodol a'r berthynas rhwng y gwahanol sectorau. Awgrymwyd lle oedd llwybrau i wasanaethau yr oedd hyn yn gweithio orau, a bod mwy o gynnydd wedi'i wneud mewn ardaloedd trefol. Fodd bynnag, roedd un rhanddaliwr yn teimlo fod amrywiadau yn nulliau awdurdodau lleol o ddefnyddio'r llwybrau, a hefyd yn y dulliau'r gweithiau llwybrau mewn ardaloedd penodol. Mewn geiriau eraill, nid oedd bodolaeth porth yn golygu o anghenraid fod mynediad i wasanaethau yn syml oherwydd gweithiau rai yn well nag eraill:

*'Mae'n well mewn rhai ardaloedd na'i gilydd, mae rhai pyrth yn gadarnhaol ond nid eraill'.*

4.90 Yn ogystal, awgrymodd rhai rhanddeiliaid nad oedd y bartneriaeth rhwng Cefnogi Pobl ac asiantaethau eraill bob amser yn gadarnhaol ac eto gwelwyd bod hyn yn amrywio ar draws awdurdodau.

**Effaith ar feysydd polisi ac agendâu eraill**

4.91 Roedd rhai rhanddeiliaid yn glir iawn ynglŷn â sut oedd y gwahanol agendâu yn mynd efo'i gilydd, ac eglurodd dau ohonynt sut oedd atal digartrefedd yn llwyddiannus yn cyfrannu'n gadarnhaol i weithredoedd meysydd polisi eraill:

*'Mae'n rhan o gyfres o ddulliau atal ar draws ystod o wasanaethau, er enghraifft, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol [ym mhob un o'r rhain] mae pwyslais ar wasanaethau atal a diogelu yn y tymor hir yn ymwneud â gallu pobl i gynorthwyo eu hunain. Felly mae cyfres o drosolion deddfwriaethol a fframweithiau sy'n gweithio mewn ffordd gymeradwyol ar hyd y ddeddfwriaeth ddigartrefedd'.*

*'Pan fo sefyllfa lletya rhywun yn dirywio, bydd hyn yn cael effaith ar y ffordd y maent yn defnyddio gwasanaethau eraill'.*

4.92 Esboniodd un rhanddaliwr yn fanwl paham mae angen gwell dulliau gweithio ar draws yr holl agendâu i wneud y gorau o lwyddiant y pedwar darn o ddeddfwriaeth:

*'Mae Llywodraeth Cymru wedi pasio pedair Deddf a phob un ohonynt yn canolbwyntio ar atal. Mae'r rhain yn cynnwys Trais yn erbyn Menywod; Cenedlaethau i Ddod; Y Ddeddf Tai; Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. . Mae rhai awdurdodau lleol yn cael y Ddeddf Tai a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i weithio ar y cyd gan gomisiynu i sicrhau fod y ddwy Ddeddf yn cael ymateb priodol. Fodd bynnag, ein pryder yw sut y mae*

*awdurdodau lleol yn mynd i gymhwyso'r ddwy arall .. i sicrhau atal. Er enghraifft, fe allech gael unigolyn yn cael cymorth drwy law'r Ddeddf Tai oherwydd ei fod yn ddigartref ond fe allai fod wedi cael cymorth eisoes drwy un o'r tair deddf arall? Gyda'i gilydd, gallai'r pedair deddf fod yn chwyldroadol pe bai pawb yn gweithio gyda'i gilydd ar draws y pedwar sector, ond yr ydym yn cael y teimlad fod gwir gyfle yn cael ei golli '.*

4.93 Esboniodd eraill y buasai'n cymryd peth amser i'r holl agendâu gael eu mewnosod yn iawn:

*'Ar ddiwrnod da, mae'r cyfan yn cyd-fynd yn dda iawn gyda'i gilydd, ond mae'n waith caled gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol rannau o awdurdodau lleol sy'n ymwneud â darnau arwyddocaol o ddeddfwriaeth, yn arbennig i ymarferwyr'.*

4.94 Yn bennaf, soniodd rhanddeiliaid am effaith y Ddeddf ar agendâu eraill mewn termau cadarnhaol. Yng ngeiriau un rhanddaliwr *'Cafwyd effaith gadarnhaol'*, er nododd un arall:

*'Y mae'n anodd mesur effaith ar bobl sydd ddim yn mynd yn ddigartref'.*

4.95 Nododd rhanddeiliaid nifer o enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol ar agendâu eraill, er enghraifft iechyd a gofal cymdeithasol, o ran gweithio'n well mewn partneriaeth yn ogystal ag arbedion o ran cost:

*'Mewn gofal cymdeithasol, rydym yn dechrau gweld rhai o'r partneriaethau ac effeithiau hyn'.*

4.96 Nododd rhanddaliwr arall gan fod gwasanaethau Cefnogi Pobl yn allweddol wrth weithredu'r Ddeddf, a chanlyniad hyn yw effeithiau cadarnhaol ar iechyd a gofal cymdeithasol:

*'Yn gyffredinol, mae 'Cefnogi Pobl yn mynd law yn llaw â Rhan 2 [y Ddeddf], yna dylai effeithiau da ar iechyd a gofal cymdeithasol, ddod yn ei sgîl'.*

4.97 Amlygwyd enghreifftiau cadarnhaol hefyd mewn cysylltiad â phobl ifanc a phyrth ymadawyr gofal a'r gwaith partneriaeth yn digwydd rhwng gwasanaethau trais a chamdrin ddomestig, ond hefyd yn nhermau pa mor dda y mae'r agendâu hyn wedi eu cysylltu:

*'Y mae cysylltiad rhwng agendâu camdrin ddomestig, camdrin a digartrefedd. Y mae tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymorth camdrin a camdrin ddomestig'.*

4.98 Awgrymodd un rhanddaliwr fod angen mwy o hyblygrwydd yn y ffordd yr oedd cefnogaeth yn cael ei ddarparu:

> *'A yw'n iawn i bobl digartref i barhau i symud o wahanol fathau o lety gyda setiau newydd o staff cymorth? Gall y profiad o hostel beidio â bod yn un cadarnhaol ... Mae ystadegau ar gyfer Cefnogi Pobl yn awgrymu bod 50% yn gymorth yn ôl y galw a 50% yn gymorth yn seiliedig ar lety. Dylai'r cydbwysedd yn y gwasanaethau newid i adlewyrchu'r agenda ataliol '.*

4.99 Fodd bynnag, nododd rai rhanddeiliaid fod dal angen i'r agenda digartrefedd gael eu hintegreiddio'n well gydag agendâu eraill a'i bod yn angenrheidiol fod ffactorau ehangach sy'n effeithio ar ddigartrefedd a gweithredu'r Ddeddf yn cael eu hystyried, er enghraifft newidiadau i'r system budd-daliadau:

> *'Bydd effaith y pwysau ehangach yng Nghymru a'r DU yn allweddol i lwyddiant y Ddeddf. Er enghraifft, canlyniadau capio'r Lwfans Tai Lleol'.*

4.100 Mae'r rhanddaliwr hwn yn goblygu'r ffyrdd y mae'r Ddeddf yn rhyngweithio gyda agendâu eraill yng Nghymru, ond o fewn cyd-destun ehangach y DU hefyd. Yn ogystal, cododd y rhanddaliwr hwn y mater o heriau presennol, a'r goblygiad fod yna ymwybyddiaeth o'r heriau sydd i ddod: er enghraifft, mewn perthynas â'r newidiadau i'r system fudd-dal y DU a chyflwyno'r Credyd Cynhwysol.

**Effaith ar weithio mewn partneriaeth**

4.101 Yr oedd pob un o'r rhanddeiliaid yn gytûn ynglŷn â'r angen am weithio mewn partneriaeth er mwyn gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus: *'Mae'n hollol angenrheidiol'*. Cyflwynwyd hyn yn nhermau angen awdurdodau lleol am wasanaethau darparwyr eraill, yn ogystal ag oherwydd bod digartrefedd fel arfer yn cynnwys mathau eraill o eithrio , felly mae'r datrysiadau i'r elfen hon yn golygu fod angen mewnbwn gan asiantaethau a gwasanaethau eraill (er enghraifft cefnogaeth cyffuriau ac alcohol, gwasanaethau cwnsela a chefnogaeth cyflogaeth):

> *'I lawer o bobl, ni ddaw digartrefedd fel eitem unigol, er enghraifft, colli swydd, teuluoedd yn chwalu, profedigaeth, dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol ac iechyd meddwl'.*

4.102 Yn gyffredinol teimlai pob rhanddaliwr fod gweithio mewn partneriaeth ar draws nifer o asiantaethau a sectorau wedi cynyddu o dan y Ddeddf, oherwydd bod y Ddeddf a'r Cod Canllawiau wedi eu datblygu ar y cyd gyda'r partneriaid allweddol, felly roedd gweithio mewn partneriaeth yn rhan annatod o'r cychwyn cyntaf:

*‘Nid darn o ddeddfwriaeth a ddisgynnodd allan o'r awyr ydoedd, rhywbeth a ddatblygwyd ar y cyd rhwng awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Shelter Cymru ac amrediad o randdeiliaid a aeth drwy broses gymharol hir i ddatblygu syniadau, llunio'r Papur Gwyn, gan symud ymlaen gyda'r bil, archwilio, ac yna’r Ddeddf derfynol. Felly, yr oedd cryn dipyn o hanes a stori gefndirol o bobl yn gweithio gyda'i gilydd i geisio cael yn barod ar gyfer hyn’.*

4.103 Nododd rhanddeiliaid nifer o enghreifftiau lle mae partneriaethau yn gweithio'n dda, megis gwaith gyda sefydliadau'r trydydd sector ac ar bynciau fel iechyd meddwl a camdrin ddomestig. Esboniodd un rhanddaliwr fod gweithio mewn partneriaeth gyda Shelter Cymru, sefydliadau'r trydydd sector, ac yn arbennig gwasanaethau iechyd meddwl wedi gwella pan fo gwasanaethau yn cael eu hymgorffori mewn timau digartrefedd awdurdodau lleol:

*‘Mae’n ymddangos fod awdurdodau lleol yn gweithio’n fwy cydweithredol gyda sefydliadau trydydd sector a Shelter yn rhan annatod o dimau mewn awdurdodau lleol. Mae gwasanaethau iechyd meddwl hefyd wedi cael eu hymgorffori mewn rhai awdurdodau lleol, felly mae llawer mwy o ymdrech yn cael ei wneud yn hyn o beth’.*

4.104 Gwnaeth rhanddeiliaid eraill sylwadau ar y berthynas fwy cadarnhaol rhwng awdurdodau lleol a Shelter Cymru - partner pwysig – sy’n awgrymu fod y berthynas yn awr yn llai 'gwrthdrawiadol' ac 'ymosodol’, ac yn hytrach yn fwy cefnogol a’r canolbwynt ar ddatrys problemau:

*'Mae Shelter ac awdurdodau lleol yn gweithio'n llawer gwell gyda'i gilydd; mae'r berthynas yn llawer llai gwrthdrawiadol ac yn hytrach yn datrys problemau’.*

4.105 Tra nododd y rhai a wnaeth ymateb fod y cysylltiad rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi gwella, yn rhannol oherwydd mwy o eglurder ynghylch sut y dylent weithio gyda'i gilydd:

*‘Yn awr, mae set fwy eglur o gysylltiadau yn cael eu diffinio yn y fan a’r lle, er enghraifft, rhwng y partneriaid awdurdodau lleol a’r LCC.'*

*'Y mae yna enghreifftiau da o awdurdodau lleol a LCC yn gweithio'n dda gyda'i gilydd'.*

4.106 Fodd bynnag, ‘roedd gwahaniaeth barn am effeithiolrwydd cydberthynas rhwng gwahanol awdurdodau lleol. Teimlai rai rhanddeiliaid fod y rhain yn dechrau gweithio'n dda, ond teimlai’r mwyafrif fod angen mwy o waith i sefydlu cydweithio ar draws y gwasanaeth, yn arbennig felly ym maes iechyd, iechyd meddwl, gwasanaethau cymdeithasol a Chefnogi Pobl:

*'Mae'n gweithio mewn rhai mannau, mae gwell dealltwriaeth o sut mae pethau'n cyd-gysylltu gyda'i gilydd ond mae angen gwneud mwy o waith... Mae'r llinyn o gwmpas atal yn creu amgylchedd sy'n annog cydweithio, ond efallai nad yw hyn yn gweithio gystal ag y gallai'.*

**Tystiolaeth a Monitro**

4.107 Gofynnwyd i randdeiliaid am eu barn ar y dull y caiff data ei gasglu, ei gofnodi a'i gyflwyno ar wefan Stats Cymru. Maent yn gwneud sylwadau ar ddefnyddioldeb y data a'r prosesau sydd ynghlwm wrth gasglu data a hefyd yn cynnig barn a oeddent yn teimlo fod y data yn adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei gyflawni ar draws Cymru. Fodd bynnag, ymddengys fod safbwyntiau cymysg ymysg y rhai a wnaeth ymateb ynglŷn â’r dull y mae’r ystadegau’n cael eu cyflwyno a'u hygyrchedd. Teimlai rai bod yr ystadegau’n eglur, tra bod eraill yn teimlo eu bod yn anodd *i 'rai nad oedd yn arbenigwyr tai’* eu deall*.* Crybwyllwyd rhai elfennau penodol:

*'Mae angen i gyfanswm y bobl dderbyniodd gymorth fod yn fwy eglur'.*

*'Mae ffigurau cydweithrediad / diffyg cydweithrediad a cholli cyswllt hefyd yn uchel iawn ac mae Shelter hefyd wedi codi'r mater hwn. Pan fo pobl yn symud ac yn y blaen dylid ei gofnodi fel colli cysylltiad yn hytrach na diffyg cydweithredu. Mae angen ailddiffinio ceisydd yn tynnu cais yn ôl ac awdurdod lleol yn tynnu cais yn ôl ar ran y ceisydd yn yr arweiniad a’r ystadegau. Nid yw’r dull a gymerir yn yr ystadegau yn rhoi gwir adlewyrchiad o holl anghenion yn y maes fel enghraifft, canlyniadau a chipio meintiol blynyddol, 166 o bobl gyda a66 wedi ei rhyddhau ond nid ydym yn gwybod hyn yn iawn'.*

*'Y mae'n anodd dod i gasgliadau am ddata cyfanredol ac mi fuasai’n dda gallu traws dabio'.*

4.108 Gan edrych y tu hwnt i'r ffordd y cyflwynir yr ystadegau, yr oedd rhai rhanddeiliaid yn hynod gadarnhaol ynglŷn â’r cynnydd a’r cyflawniadau hyd yn hyn o dan y ddeddfwriaeth newydd ac yn teimlo fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr ystadegau:

*‘Mae safon y gwaith atal yn gadarnhaol ac ymddengys fod y data yn cefnogi'r naratif o effaith gadarnhaol y ddeddfwriaeth'.*

4.109 Fodd bynnag, ar gyfer un rhanddaliwr, cododd yr ystadegau bryderon am y canlyniadau ymysg y boblogaeth DLIE:

*'Mae ffigyrau a oedd yn adrodd yn ol ar ethnigrwydd yn achosi pryder oherwydd bod adran 75 ryddhau yn dangos 15% DLIE , sydd yn or-gynrychiolaeth ac yn llawer uwch na'r blynyddoedd blaenorol, mae angen ei ymchwilio yn enwedig o ystyried mai 6-7% sydd yn cael ei roi ar gyfer atal a rhyddhau'.*

4.110 Awgrymodd rhai rhanddeiliaid, er bod darlun cadarnhaol yn cael ei gyflwyno drwy'r ystadegau, nid yw pob agwedd ar y gwasanaethau yn cael eu cofnodi. Teimlid nad yw’r data yn adlewyrchu gwir faint y gwaith sy'n cael ei wneud:

*‘Mae'r data cyfredol yn rhoi ‘darlun'. Gyda Chefnogi Pobl a Grant Atal Digartrefedd mae'n ymddangos fod rhai canlyniadau yn hynod gadarnhaol, e.e. mae cyfryngu wedi ei ddarparu gan y trydydd sector neu gyfryngu trydydd parti wedi bod yn gadarnhaol iawn yn enwedig ymysg pobl ifanc, ond nid yw'r ystadegau o reidrwydd yn adlewyrchu hyn. Felly, mae angen sicrhau fod hyn yn cael ei ddal ac mae hefyd angen tystiolaeth ynghylch sut mae atgyfeiriadau yn cael eu gwneud’.*

*'Mae angen i ni wella ansawdd y dulliau casglu data. Nid yw ystadegau’n adlewyrchu gwaith sy’n cael ei wneud yn y fan a’r lle ac mae angen mwy o sylw i fanylder '.*

*'Yn ôl yr ystadegau [mewn un awdurdod lleol] y mae llai na naw achos [trais a camdrin ddomestig], ond rydym yn gwybod ei fod yn llawer mwy na hyn. Mewn geiriau eraill, mae mwy wedi cael ei wneud nag sy’n cael ei gofnodi, felly mae angen i ni gofnodi hyn a gofnodwyd yn y fframwaith '.*

4.111 Yn fwy penodol, yr oedd gan rhanddeiliaid eraill bryderon ynglŷn â'r ffaith a oedd yr holl waith a gyflawnwyd gan asiantaethau ar wahân i lywodraeth leol yn cael ei gofnodi:

> *"Mae lefelau uchel o atal yn digwydd ond mae yna allgreigiau, er enghraifft, dim ond 23% o bobl sy'n cael eu cefnogi i aros yn eu tai eu hunain. Mae'n rhaid i ni ofyn a ydynt yn derbyn gwasanaeth cyn iddynt fynd at Opsiynau Tai? Nid ydym yn gwybod y manylion y tu ôl i'r ystadegau'.*
>
> *'Yr oedd nifer y penderfyniadau ddim yn ddigartref / dan fygythiad o fod yn ddigartref yn anghyfartal o uchel. Ydy o'n dangos fod cyfryngu wedi digwydd? Nid yw rhai ffigurau meintiol o reidrwydd yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd '.*

**Rôl Llywodraeth Cymru wrth gynorthwyo gweithredu'r Ddeddf**

4.112 Nododd nifer o randdeiliaid y dulliau a ddarparodd Llywodraeth Cymru i gynorthwyo awdurdodau lleol a sefydliadau partner wrth weithredu'r Ddeddf. Ystyriwyd bod y cymorth yma yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

- Cod Canllawiau i awdurdodau lleol ar ddyrannu llety a digartrefedd (2016)
- Adnoddau
- Hyfforddiant

*Cod Arweiniad i awdurdodau lleol ar ddyrannu llety a digartrefedd (2016)*

4.113 Wrth siarad am y Cod Canllawiau Llywodraeth Cymru, teimlai'r holl randdeiliaid (ar wahân i dri na allent wneud sylw) ei bod yn ddogfen arbennig o ddefnyddiol, ac fe wnaethant sôn yn gadarnhaol am y ffaith ei bod wedi cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'r sector. Tra roedd rhai yn croesawu manylder y ddogfen, teimlai eraill ei bod yn 'anhylaw' ac y gellid ei symleiddio. Cyfeiriodd un rhanddaliwr at yr anhawster yn y Canllawiau i daro'r cydbwysedd iawn:

> *'Rwy'n meddwl bod y Cod wedi dioddef o'r tensiwn rhwng yr angen am lawer o fanylion fel bod pobl yn gwybod beth oedd angen ei wneud, a gormod o fanylion sy'n llethu. Yn bersonol, yr wyf yn teimlo ei fod yn hir ac yn dechnegol iawn, ond mewn gwirionedd mewn cydbwysedd mae wedi gweithio'n dda yn nhermau symleiddio'r adrannau unigol o beth ddylai'r Ddeddf wneud '.*

4.114 Awgrymodd randdeiliad eraill bod y Cod Canllawiau, er ei bod yn *'ddogfen dda',* nid oedd yn cael ei defnyddio'n aml gan awdurdodau lleol, ac felly yn eu gadael yn agored i heriau:

> *'Mae'n ddogfen dda ond nid yw'n cael ei defnyddio'n aml. Mae Shelter yn aml yn herio pan nad yw awdurdodau lleol wedi ei ddarllen '.*

4.115 Mynegodd dau randdaliwr oherwydd gweithrediadau'r Canllawiau, nid oes unrhyw gyfraith achos, a bod y cymal 'sylw dyledus' (due regard) hefyd yn caniatáu lle i ddehongliad hyblyg o'r Canllawiau:

> *'Mater arall yw nad oes rhwymyn cyfraith achosion hyd yn hyn ac mae'n annhebygol y bydd cyfraith achosion yn cael eu gwneud oherwydd y geiriad "due regard", sy'n rhoi'r dewis opsiwn i awdurdodau lleol i eithrio gan nad yw'n rhwymo'.*

4.116 Amlygodd ymatebwr arall y rhan yn y Cod Canllawiau sy'n ymddangos yn gwrth-ddweud y Ddeddf, gan awgrymu y gall y cysylltiad lleol gael ei ddefnyddio mewn ardaloedd o alw uchel am dai (fel Caerdydd). Fodd bynnag, er mwyn egluro, mae'r Cod Canllawiau (ym mharagraff 15.26) yn datgan y caiff yr awdurdodau lleol roi blaenoriaethu i bobl sydd â chysylltiad lleol wrth ymgymryd â'r camau rhesymol - er enghraifft cyflwyno bondiau, a blaendaliadau rhent, yn ogystal â'r defnydd o gyllid atal - na fedrant wrthod derbyn dyletswydd yn seiliedig ar gysylltiad lleol:

> 'Mae cysylltiad lleol yn cael ei ddefnyddio yng Nghaerdydd, croesddywediad yw bod y Canllawiau yn caniatáu hyn, ond nid yw'r ddeddfwriaeth yn ei ganiatáu, felly mae hyn yn enghraifft o ble maent yn anghytuno'.

*Adnoddau*

4.117 Amlygodd randdeiliaid rôl hollbwysig o gyllid trosiannol wrth weithredu'r Ddeddf. Yn gyffredinol, yr oeddynt yn teimlo ei fod wedi cael ei ddefnyddio'n briodol, ond mynegwyd pryderon ynghylch argaeledd adnoddau unwaith yr oedd y cyllid trosiannol wedi dod i ben:

> *'O siarad yn fras mae cyllid trosiannol wedi cael ei ddefnyddio'n dda, ond mae pryder am y sefyllfa pan ddaw i ben. Mae rhai ardaloedd angen gwasanaethau cyfryngu effeithiol '.*
>
> *"Mae effaith cyllid trosiannol ar y proffesiwn yn beth cadarnhaol ond mae pryderon ynghylch beth fydd yn digwydd pan ac yn ogystal beth fydd yn digwydd pan fo pobl yn gwrthod neu beidio â chael cymorth'.*

4.118 Gan gydnabod y galwadau ychwanegol ar awdurdodau lleol, a'r angen am gyllidebau cynaliadwy, nododd un rhanddaliwr*: 'Mae angen i awdurdodau lleol gael mwy o sicrwydd am gyllidebau ar adeg llawer cynt'*. Galwodd sawl rhanddaliwr am estyniad o gyllid trosiannol yn ogystal â chyflwyno cyllid hir dymor i gefnogi gweithredu parhaol y Ddeddf. Amlygodd rhai wnaeth ymateb bwysigrwydd gwneud yn sicr fod adnoddau ar gael i gynnal y berthynas rhwng y sector rhentu preifat a’r awdurdodau lleol, unai drwy ddarparu cymhellion neu drwy adennill bondiau. Cafwyd awgrym y dylai adnoddau barhau i gael eu blaenoriaethu ar gyfer gwasanaethau Cefnogi Pobl, ond yn ogystal i’r gwrthwyneb y gellid defnyddio adnoddau Cefnogi Pobl yn fwy effeithiol i gefnogi'r ddeddfwriaeth.

*Hyfforddiant*

4.119 Nododd pob rhanddaliwr fod yr hyfforddiant a ddarparwyd hyd yn hyn gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn hynod ddefnyddiol, er bod dau wedi nodi fod y raddfa amser yn fyr ac yn agos iawn at gyflwyno'r Ddeddf; teimlodd un arall fod cyfle digonol yn cael ei ddarparu ar gyfer awdurdodau lleol i gyfrannu. Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid bwysigrwydd hyfforddiant parhaus er mwyn ymgorffori'r atal ymhellach yn ogystal â sicrhau fod staff newydd yn cael eu hysbysu'n llawn. Yr oedd galwadau i ailadrodd yr hyfforddiant gwreiddiol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

> *'Yr ydym yn ymwybodol o drosiant staff, felly mae bob amser angen gloywi ac atgyfnerthu arfer da ac mae rhannu gwybodaeth ar draws yr awdurdodau lleol yn bwysig'.*

4.120 Crybwyllodd rhanddaliwr arall yr angen am gynyddu’r ymwybyddiaeth o’r darpariaethau penodol o’r Ddeddf ymysg poblogaeth Cymru, ac unwaith eto amlygwyd darpariaethau:

> *'Mae rhai awdurdodau lleol wedi galw am fwy o gysgodi i'r gweithredu [yn cael eu rhoi] ar waith i staff rheng flaen a chwsmeriaid. Yr oedd hyn yn rhan o'r rhaglen hyfforddi pan fo’r rhai a oedd yn gweithio o dan y ddeddfwriaeth newydd yn arsylwi rhyngweithiadau rhwng staff rheng flaen a chwsmeriaid ac yn dysgu'r dulliau mae rhai awdurdodau yn gweithredu. Mae rhai wedi gofyn am y rhaglen hyfforddi eto - fodd bynnag, mae hyn yn gostus a gallai'r arian gael ei fuddsoddi mewn ailgartrefu’.*

4.121 Mynegodd rhanddeiliaid fod meysydd penodol a oedd angen hyfforddiant yn cynnwys: hyfforddiant mewn perthynas â'r dehongliad o gysylltiad lleol; sut i gefnogi pobl sy'n dioddef eithrio amryfal; sut i gefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig; defnydd priodol o lwybrau; a Diwygiad Lles.

4.122 Awgrymodd rhai bod angen hyfforddiant i sefydlu sut mae'r agenda digartrefedd yn cyd-fynd ag agendâu eraill, ac i hyrwyddo cysondeb ar draws yr awdurdodau:

*'Mae angen i fod yn eglur ynglŷn â sut mae Rhan 2 [o'r Ddeddf] yn ffitio i mewn i agendâu eraill, er enghraifft cynlluniau cymorth a rennir a chyrff comisiynu awdurdodau lleol, felly mae angen rhannu dealltwriaeth, felly buasai hyfforddiant o gymorth'.*

**Meysydd i fynd i'r afael â hwy**

4.123 Amlygodd rhai randdeiliaid yr angen i Lywodraeth Cymru i gymryd arweiniad strategol parhaus wrth weithredu'r Ddeddf. Teimlid bod hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas ag integreiddio digartrefedd gydag agendâu eraill, gan fynd i'r afael â'r defnydd o 'ddiffyg cydweithrediad', a bod yn ymatebol i unrhyw ddiffygion yn y ddeddfwriaeth:

*'Dylai Llywodraeth Cymru ddal ati i geisio rhoi arweiniad yn nhermau integreiddio'r elfennau amrywiol o wasanaethau atal e.e. o gylch y gwasanaethau cymdeithasol, mynd i'r afael â rhaglenni tlodi. Gallant ddangos arweinyddiaeth drwy wireddu hynny ... a gallent barhau i hyrwyddo arweinyddiaeth '*

*Yr angen am lety tros dro a thymor hir*

4.124 Gwnaeth dau randdaliwr y sylw nad oedd materion strwythurol yn cael sylw gan y Ddeddf; mewn geiriau eraill, mae prinder tai yn parhau (er gwaethaf y ffaith y defnyddir y sector breifat) a bod cysgu allan yn parhau i fod yn broblem sylweddol yng Nghymru.

4.125 Tra awgrymodd eraill y gallai dileu'r hawl i denantiaeth gymdeithasol rwystro pobl rhag defnyddio'r system, a bod llai o ganlyniadau sicr ar ddiwedd y Ddeddf pan gall dyletswydd gael ei chyflawni drwy'r sector rhentu preifat:

*"Erbyn hyn nid oes unrhyw hawl awtomatig i denantiaeth gymdeithasol gall rhai [pobl] rhoi'r gorau a gollwng allan o'r system'.*

*'Mae canlyniadau llai sicr ar y diwedd, er enghraifft tenantiaeth sector rhentu preifat: bwriad y ddeddf oedd darparu datrysiad, nid plastr'.*

4.126 Awgrymodd rhai rhanddeiliaid fod rhai grwpiau o bobl yn debygol o fod wedi profi canlyniadau gwael, yn arbennig, dynion sengl a rhai gydag amryfal waharddiadau:

*'Ni roddir cymorth i'r digartref sengl nac i'r amryfal waharddiadau, felly ar hyn o bryd mae'r gyfundrefn yn ddiffygiol ar eu cyfer'.*

*Cynyddu hygyrchedd gwybodaeth a chyngor*

4.127 Awgrymodd rhanddeiliaid y gellid gwella gweithredu'r ethos person-ganolog drwy wneud gwasanaethau gwybodaeth a chyngor yn fwy hygyrch, yn ogystal â monitro canlyniadau ymgysylltu â gwasanaethau.

**Crynodeb o bwyntiau allweddol o'r cyfweliadau gan rhanddeiliaid cenedlaethol**

4.128 Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol iawn ynglŷn â chyflwyno a gweithredu'r Ddeddf, gan wneud y sylw ei bod yn darparu fframwaith mwy eglur i bob grŵp i weithredu ynddo, yn lledaenu cylch gwaith cymorth ac yn cynyddu'r nifer o bobl sy'n derbyn cymorth ystyrlon a chymorth wedi'i deilwra. Ystyriwyd yn ogystal fod y Ddeddf hefyd wedi ymgorffori newid mewn diwylliant a phwyslais ar bobl yn hytrach na phrosesau, sydd wedi hwyluso ymyriadau yng nghynt. Awgrymodd y rhanddeiliaid er bod gweithredu dull sy'n canolbwyntio ar atal-gyfeiriedig yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, ar y cyfan bu gwelliannau mewn arferion gwaith a gwell canlyniadau ar gyfer pobl sy'n ddigartref / dan fygythiad o ddigartrefedd. Fodd bynnag, maent yn rhybuddio fod rhai bylchau mewn gwybodaeth yn parhau ac mae angen parhaol i godi ymwybyddiaeth i atal digartrefedd. Roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol iawn ynghylch y defnydd o Gynlluniau Tai Personol o ran cyflawni cefnogaeth person-ganolog. Fodd bynnag, teimlai rai na ddylai'r rhain fod yn orfodol gan fod profiadau pobl yn amrywio ar draws awdurdodau, tra soniodd eraill am bryderon ynghylch cynnydd mewn llwyth gwaith i staff awdurdodau lleol a bod yr angen am safonau perfformiad a monitro.

4.129 Yr oedd cefnogaeth i'r newidiadau sydd wedi dyblu'r cyfnod pan ystyrir fod ceiswyr yn ddigartref o 28-56 o ddiwrnodau oherwydd ystyriwyd fod gan hyn nifer o fanteision: caniatáu ymyriadau llawer cynharach; cryfhau'r ddyletswydd ddigartrefedd; hwyluso atal yn fwy effeithiol; cynyddu y defnydd o wasanaethau; cynyddu arferion da; a sefydlu ac atgyfnerthu'r agenda atal. Gyda golwg ar y camau rhesymol sy'n angenrheidiol i'w cymryd gan awdurdodau lleol i atal a rhyddhau digartrefedd, awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid cyflwyno camau rhesymol (dyletswydd i rwystro / dyletswydd i ryddhau; cymorth i atal a chymorth i sicrhau) fel

rhywbeth sy’n fuddiol i bawb sy’n ymddangos yn yr awdurdod lleol am gymorth, fodd bynnag, mynegodd eraill bryderon am y dehongliad, cynhwysiad a chofnodi 'camau rhesymol'. Yn gyffredinol roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol iawn ynglŷn â’r defnydd hyblyg o fwriadoldeb, yn arbennig gan nad yw'n bresennol yn y camau atal a rhyddhau, er teimlai rai dylai bwriadoldeb gael ei ddileu’n llwyr. Ymddangosodd fod gan randdeiliaid wybodaeth gyfyngedig o'r graddau yr oedd yr hawl adolygu newydd yn cael ei arfer; awgrymodd rhai bod nifer yr adolygiadau wedi gostwng ers cyflwyno'r Ddeddf, ond fod angen mwy o wybodaeth am hyn. Pan ofynnwyd iddynt am y defnydd o lety dros dro, awgrymodd y mwyafrif o'r rhanddeiliaid fod hyn wedi lleihau, ond cydnabyddai eraill y buasai yna bob amser angen llety dros dro, er enghraifft ar gyfer cyn-droseddwyr, pobl gydag anghenion cymorth a theuluoedd mawr. Mewn perthynas â chyflwyno’r ddyletswydd i gynorthwyo i ryddhau digartrefedd, y teimlad cyffredinol oedd bod hyn yn gadarnhaol. Yn gyffredinol, teimlai rhanddeiliaid fod defnyddio'r sector preifat hefyd yn gadarnhaol. Amlygodd rhai pryderon am y diffyg rheoleiddio, amrywioldeb mewn safonau a diogelwch cyfyngedig o'r sector preifat. Teimlai'r mwyafrif o'r rhanddeiliaid fod y cyfraniad a wneir gan LCC wedi aros yr un fath a'u bod eisoes yn chwarae rôl sylweddol wrth atal a mynd i'r afael â digartrefedd.

4.130 Awgrymodd rhai rhanddeiliaid fod ymatebion awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau i bobl heb gysylltiad lleol yn amrywio ar draws awdurdodau ac yn dibynnu i raddau helaeth ar y galw. Amlygodd eraill y posibilrwydd o effeithiau negyddol o gafeat yn y Cod Canllawiau sy'n caniatáu i awdurdodau beidio â chynorthwyo pobl heb gysylltiad lleol os nad oes ganddynt ddigon o adnoddau. Yn gyffredinol, teimlai pob rhanddaliwr fod gweithio mewn partneriaeth ar draws nifer o asiantaethau a sectorau wedi gwella o dan y ddeddfwriaeth ac yr oeddynt yn cytuno fod gweithio mewn partneriaeth yn angenrheidiol i weithredu'r ddeddfwriaeth yn llwyddiannus. Ar y cyfan roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol am effaith y ddeddfwriaeth ar agendâu eraill, tra mynegodd eraill y buasai’n cymryd peth amser i’r holl agendâu i gael eu hymgorffori yn iawn. Cydnabyddai rhai rhanddeiliaid fod Cefnogi Pobl yn chwarae rôl ataliol cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth a phwysleisiodd pawb fod gwasanaethau Cefnogi Pobl yn rhan annatod o weithredu’r Ddeddf yn llwyddiannus ac er mwyn atal digartrefedd. Fodd bynnag, mynegodd nifer o gyfranogwyr bod yna amrywioldeb ar draws awdurdodau lleol yn y modd yr oedd gwasanaethau Cefnogi Pobl yn gweithredu'r ddeddfwriaeth. Ystyriwyd hyn yn

berthnasol i nodweddion lleol gwasanaethau a'r berthynas rhwng gwahanol ddarparwyr.

4.131 Roedd rhanddeiliaid yn gyffredinol gadarnhaol ynghylch y llwybrau; fodd bynnag, teimlid tra roedd enghreifftiau o ymarfer da, roedd yna hefyd feysydd lle gellid gwneud gwelliannau. Teimlid yn gyffredinol fod effaith y Ddeddf yn gadarnhaol iawn i'r bobl hynny heb fod mewn angen blaenoriaethol. Er hyn mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â ‘r rhai hynny a fyddai wedi bod mewn angen blaenoriaethol o dan yr hen system ac a fyddent yn cael eu hamddifadu o dan y Ddeddf newydd. Adroddodd rhanddeiliaid fod yna lefelau uchel o amrywioldeb yn yr effaith ar bobl gyda nodweddion gwarchodedig ar draws awdurdodau yng Nghymru. Teimlid fod pobl gydag anableddau corfforol yn gwneud yn well na'r rhai â phroblemau iechyd meddwl a allai fod heb y medrau angenrheidiol. Mynegodd yr holl randdeiliaid fod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol, a hefyd yn nodi’r angen am hyfforddiant parhaus. Yn ogystal, crybwyllodd y mwyafrif o randdeiliaid yr angen i gadw cyllid trosiannol a sicrhau cyllid mwy cynaliadwy er mwyn diogelu gweithredu hir dymor llwyddiannus y Ddeddf. Mynegodd bron pob rhanddaliwr fod Cod Canllawiau Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol iawn, er hynny fod y ddogfen braidd yn anhylaw.

4.132 Teimlai sawl rhanddeiliad nad oedd yr ystadegau yn adlewyrchu'r gwaith oedd yn cael ei wneud ar draws Cymru gan fod anghysondebau yn y dulliau roedd awdurdodau lleol yn cofnodi gwybodaeth. Teimlwyd fod hyn yn arbennig o arwyddocaol wrth gofnodi CDT (camdriniaeth ddomestig a thrais); pobl a ddynodwyd ddim yn ddigartref / dan fygythiad o ddigartref; a heb gydweithredu. O'r rhai hynny a fynegodd bryderon am y Ddeddf, codwyd y materion canlynol: amheuon am y defnydd o'r sector rhentu preifat; darpariaethau'r Ddeddf, yn arbennig y defnydd o fwriadoldeb, cysylltiad lleol a dim cydweithredu; y posibilrwydd o ganlyniadau gwael i grwpiau wedi'u heithrio, er enghraifft y rhai sy'n profi eithrio amryfal, dynion sengl a phobl ifanc; y posibilrwydd o agendâu eraill; dyfodol cyllid; a'r symudiad tuag at ddefnyddio technoleg ddigidol. Mynegwyd gweithgaredd atal allweddol fel: cyllidebu a rheoli dyled; cyngor budd-daliadau; cyfeirio at weithwyr cymorth fel y bo'r angen; rhyngweithio gyda chyngor tai a phobl yn chwilio am gymorth; cyfryngu i bobl i reoli perthynas â landlordiaid, yn enwedig yn y sector preifat; blaendaliadau / bondiau rhent; cyfeirio tuag at opsiynau ddewisiadau tai; ac addysg ddigidol a chyngor am fudd-daliadau.

4.133 Awgrymodd rhanddeiliaid fod canlyniadau anfwriadol o gyflwyno'r Ddeddf yn cynnwys: yr effaith ar staff mewn timau cyngor tai/ opsiynau; niferoedd isel o bobl yn aros yn eu cartref gwreiddiol; diffyg cyfraith achos; defnydd o 'gamau rhesymol' a 'gwrthod cydweithredu yn fwriadol'; defnydd amrywiol o Gynlluniau Tai Personol; landlordiaid preifat yn codi ffioedd gosod; y defnydd o gyllid trosiannol i gefnogi cyn-droseddwyr; a rhai awdurdodau yn parhau i weithredu y tu allan i'r ddeddfwriaeth. Mynegodd rhanddeiliaid y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi gweithrediad y Ddeddf ymhellach trwy fonitro'n effeithiol; parhau â chymorth ariannol; a darparu mwy o hyfforddiant i staff a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol. Yn olaf, mynegodd y rhanddeiliaid fod cysgu allan yn parhau i fod yn broblem yng Nghymru a bod angen mwy o letyai, yn arbennig ar gyfer dynion sengl.

## 5. Canfyddiadau o arolwg awdurdodau lleol

5.1 Amlinella’r bennod hon ganlyniadau arolwg ar-lein o’r holl 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Casglwyd gwybodaeth ansoddol a meintiol yn ymwneud â'r gwahanol gamau a amlinellwyd yn y Ddeddf. Y bwriad oedd casglu gwybodaeth am safbwyntiau ôl-weithredu’r Ddeddf ar draws Cymru. Datblygwyd yr arolwg gan y tîm ymchwil drwy ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a’r rhanddeiliaid allweddol ar draws Cymru, a’i dreialu mewn un awdurdod lleol i wirio’r cynnwys cyn ei gyflwyno i weddill yr awdurdodau lleol. Derbyniwyd ymateb (un gan bob tîm tai awdurdod lleol) rhwng y 4ydd o Orffennaf a’r 25ain o Awst 2016. Anfonwyd e-bost gan Lywodraeth Cymru i gysylltiadau allweddol yn nhimau tai awdurdodau lleol yn cyflwyno'r arolwg gan gynnwys linc. Anfonwyd e-byst gan y tîm ymchwil a Llywodraeth Cymru i’w hatgoffa nes derbyn adwaith gan bob awdurdod lleol.

5.2 Mae'r holiadur, sydd i'w weld yn Atodiad A, yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau caeëdig a phen agored, a thrwy hynny yn ôynhyrchu data ansoddol a meintiol. Pan oedd yn bosibl, categoreiddiwyd yr ymatebion ansoddol a chafodd nifer tebyg eu meintioli er mwyn ceisio deall ehangder barn mewn perthynas â rhannau penodol o'r Ddeddf. Fodd bynnag, ni fu hyn bob amser yn ymarferol oherwydd amrywiaeth enfawr yr atebion yn ogystal ag amwysedd rhai o’r ymatebion.

5.3 Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau a gyflwynir yma yn awgrymu fod y dull atal yn gweithio, er fod awdurdodau lleol yn teimlo fod cynnydd yn y galw wedi digwydd, a fod achosion ar agor yn hirach, a’r dyletswyddau gweinyddol yn fwy. Ni fu unrhyw gynnydd dramatig yn nifer y bobl sy'n cyflwyno o awdurdodau lleol/trawsffiniol eraill. Ni newidiodd unrhyw awdurdod lleol ei safiad ynglŷn â chynnal bwriadoldeb ar hyn o bryd er i’w safbwyntiau fod yn rhanedig ynglŷn â’i safbwyntiau yn y dyfodol. Ar y cyfan, ymddengys fod awdurdodau lleol yn cefnogi’r newidiadau ac yn credu eu bod wedi cael effeithiau cadarnhaol.

5.4 Yn fras mae strwythur y bennod yn dilyn y camau a amlinellir yn y Ddeddf ac fe'i rhennir i'r adrannau canlynol:

- Cod Canllawiau
- Gwybodaeth ac Asesiadau
- Atal
- Angen Blaenoriaethol
- Cymorth i Sicrhau Llety
- Dyletswydd i Sicrhau
- Bwriadoldeb
- Cysylltiad Lleol
- Adolygiadau ac Apeliadau
- Gweithio mewn Partneriaeth
- Proses Gyfeirio
- Monitro
- Asesiad Awdurdod Lleol o Effeithiau'r Ddeddf
- Crynodeb a Sylwadau i Gloi

**Cod Canllawiau**

5.5 Roedd bron pob un o'r awdurdodau lleol wedi dod i ganlyniad fod y *'Cod Canllawiau'* yn ddefnyddiol iawn (13) neu'n eithaf defnyddiol (8), tra fod yr awdurdod lleol oedd ar ôl ddim yn ei gael yn ddefnyddiol nac yn annefnyddiol. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys, ei fod yn hwyluso dealltwriaeth o'r Ddeddf a thrwy hynny'n cydymffurfio, ei fod yn gynhwysfawr a chryno, gan gynnwys siartiau llif, ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd:

> *'Mae'r Cod Canllawiau yn hynod gynhwysfawr ac yn darparu dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r gyfraith ac Achosion Llys perthnasol, felly mae'n arf defnyddiol iawn ar gyfer Awdurdodau Lleol. Mae hefyd yn cynorthwyo i ddatblygu ymagwedd strategol at ddiwallu anghenion tai a llywio arferion gweithredol o ddydd i ddydd '.*

> *'Mae'r Cod Canllawiau diwygiedig yn welliant sylweddol ar y canllawiau a gyhoeddwyd yn 2015. Mae llai o ddyblygu ac mae'r rhestr cynnwys yn adlewyrchu pob adran'.*

5.6 Nododd bedwar awdurdod lleol yr oedi a fu o ran derbyn y Cod Canllawiau, oherwydd yn benodol teimlwyd y gallai fod wedi arwain yr ailfodelu o'r gwasanaethau a ddigwyddodd mewn ymateb i'r Ddeddf. Er enghraifft:

*'Roedd cryn oedi cyn derbyn y Cod Canllawiau a arweiniodd at weithredu'r Ddeddf heb ddim y gellid cyfeirio ato'.*

*'Fe wnaethom ailfodelu'r gwasanaeth ar gyfer y Ddeddf newydd cyn i'r CC [Cod Canllawiau] fod ar gael, fodd bynnag, y mae'n ein cynorthwyo i ganolbwyntio ar agweddau allweddol o'r Ddeddf wrth gyflawni'r ddyletswydd'.*

5.7 Yn ogystal awgrymwyd y gallai ambell 'scenario' neu astudiaethau achos gael eu cynnwys i roi arweiniad ar faterion y mae swyddogion rheng flaen yn debygol o'u hwynebu.

*'Byddai wedi bod o gymorth pe bai'r canllawiau wedi rhoi rhai sefyllfaoedd (yng nghyd destun yr atodiad). Byddai'r rhain wedi cynorthwyo swyddogion i nodi pryd y sbardunwyd dyletswyddau, pa hysbysiadau i'w hanfon (ac amserlennu), pryd i asesu addasrwydd ac yn y blaen'.*

**Gwybodaeth ac Asesiadau**

*Sianeli gwybodaeth, cyngor a chymorth*

5.8 Gofynnwyd i awdurdodau lleol: *"Pa sianeli a ddefnyddir gan eich Awdurdod Lleol i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i bobl sy'n ddigartref/mewn perygl o fod yn ddigartref o dan a60 o'r Ddeddf?"* a gallent ddewis mwy nag un ateb. Dengys y canlyniadau fod pob awdurdod lleol yn defnyddio cyswllt wyneb yn wyneb a thros y ffôn, tra bod 17 yn defnyddio'r sianeli ar y we yn ogystal. Adroddodd naw cyngor lleol eu bod yn defnyddio sianeli sy'n cynnwys mathau eraill o gyfryngau, ffôn neu we, gyda rhai unigol yn crybwyll cynhadledd ffôn o garchar neu gyswllt fideo o garchar, negeseuon testun SMS ac e-byst. Soniodd dau awdurdod lleol iddynt ddefnyddio taflenni ffeithiau a gwybodaeth hyrwyddo.

*Newidiadau i'r gwasanaethau gwybodaeth a chyngor:*

5.9 Adroddodd y cyfan o'r 22 awdurdod lleol eu bod wedi newid eu gwasanaeth gwybodaeth a chyngor i ateb anghenion y grwpiau arbennig o dan a60(4) y Ddeddf. Amrywiai'r atebion, fodd bynnag, yn ôl grwpiau penodol.

*Pobl sy'n gadael carchar neu ddalfa ieuenctid:*

5.10 Y newid mwyaf cyffredin i wasanaethau gwybodaeth a chyngor oedd cyflwyno dolen gyswllt rhwng dalfa a chymuned. Gwneir hyn ar ffurf Llwybr i'r rhai sy'n Gadael Carchar ac yn ymwneud â swyddog paratoi a/neu fodel cyn-asesiad. Trwy gydweithio gyda'r gwasanaeth carchardai gellir addasu'r wybodaeth a'r cyngor ar gyfer carcharorion penodol. Y bwriad yw i awdurdodau lleol gael 66 diwrnod o rybudd cyn y rhyddhau (y 56 diwrnod oherwydd bygythiad digartrefedd gyda 10 diwrnod yn sgìl y targed amser o 10 diwrnod i alluogi penderfyniad i gael ei wneud ynghylch a yw'r ddyletswydd yn ddyledus).

5.11 Nododd un awdurdod lleol y gallai materion godi pan fo'r carchardai y cysylltir â hwy yn Lloegr (lle nad yw'r ddeddfwriaeth na'r llwybr i'r rhai sy'n gadael carchar yn gymwys). Y mae anawsterau eraill yn cynnwys:

> *'Gall cynlluniau'r ailsefydlu fod yn anodd eu cael o fewn cyfnod amser penodedig, gall yr wybodaeth fod heb 'ddyddiadau rhyddhau' na'r asesiadau risg diweddaraf, sy'n hanfodol i'n gwasanaeth ni. Deil o hyd anfodlonrwydd o gyfeiriad rhai gwasanaethau ailsefydlu i dderbyn na fydd yr holl garcharorion yn cael eu trin fel angen blaenoriaethol'.*

5.12 Adroddodd dau awdurdod lleol arall eu bod ar hyn o bryd yn adolygu systemau a phrosesau, neu'n datblygu model cyn-asesiad.

*Pobl ifanc sy'n gadael gofal*

5.13 Mynegodd tua hanner yr awdurdodau lleol na fu unrhyw newidiadau arwyddocaol yn y maes hwn, gan fod gwasanaethu eisoes yn eu lle ac wedi eu hen sefydlu, yn ogystal â'r berthynas gyda'r gwasanaethau plant. Adroddodd pedwar awdurdod lleol fod cydweithio'n mynd o nerth i nerth, a'u bod wedi sefydlu Porth Person Ifanc neu yn y broses o wneud hynny. Mynegodd awdurdod lleol arall eu bod ar fin sefydlu gweithio amlddisgyblaeth er mwyn gwella cynigion awdurdodau lleol i bobl ifanc. Fodd bynnag, mewn rhai awdurdodau lleol mae y cydweithio yn y maes hwn yn rhagflaenu'r Ddeddf a ddaeth i rym. Mewn un arall fe allai newidiadau strwythurol o fewn yr awdurdod lleol gael effaith ar y gwaith hwn:

*'Mae ein dyletswyddau ni yn parhau'r un fath er i'r gwasanaeth cymdeithasol gyflogi swyddog llety arbenigol o fewn y tîm ymadael â gofal cyn hynny, a oedd gyda gwybodaeth dda o ddeddfwriaeth y gwasanaethau cymdeithasol yn ogystal â thai, ac yn medru bod yn eiriolwr ar ran pobl ifanc. Mae'r swydd hon bellach wedi ei dirwyn i ben'.*

*Pobl ifanc sy'n gadael Lluoedd Arfog rheolaidd y Goron*

5.14 Yng nghyd-destun cynnig gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc sy'n gadael lluoedd arfog rheolaidd y Goron, ymateb mwyaf cyffredin yr awdurdodau lleol oedd '*dim newid',* gan fod gwasanaethau yn bodoli eisoes.[12] Nodwyd gan dri awdurdod lleol y rhoddid blaenoriaeth i'r rhai yn y categori hwn yn y cynllun dyrannu. Adroddodd dau awdurdod lleol arall nad oedd ganddynt ond ychydig o gyn-filwyr ar eu rhestrau, ond gan nodi eu bod yn dilyn y ddeddfwriaeth, er enghraifft, cynhwysid cwestiynau gorfodol ar y lluoedd arfog yn eu hasesiad tai. Adroddodd pum awdurdod lleol eu bod wedi arwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog. Y mae hyn wedi cefnogi mentrau yn cynnwys '*ffafriaeth ychwanegol'* i bersonél cyn-filwyr, yn ogystal â gweithredu Rhwydwaith Glinigol Iechyd Meddwl Cyn-filwyr o fewn i'r bwrdd iechyd lleol, a chynllun treialu tai â chymorth. Nid oedd yn eglur, fodd bynnag, ai newid o ganlyniad i'r Ddeddf oedd hyn. Dywedodd un awdurdod lleol eu bod wedi diweddaru eu gwefan tai o ganlyniad i'r Ddeddf, gwefan *"y gall personél y lluoedd ei defnyddio cyn cael eu rhyddhau",* tra mae un arall yn y broses o ddatblygu cyn-asesiad fel rhan o'r cofrestru ar gyfer tai, gyda'r amcan o roi cyngor a chymorth addas i bobl ifanc sy'n gadael y lluoedd arfog.

*Pobl sy'n gadael yr ysbyty ar ôl triniaeth feddygol fel cleifion mewnol am salwch meddwl*

5.15 Adroddodd saith awdurdod lleol nad oedd newid yn y maes hwn. Mae hyn oherwydd systemau sy'n bodoli eisoes, er enghraifft partneriaeth gyda thîm iechyd meddwl cymunedol, ysbytai lleol, byrddau iechyd a Gofal Cymru. Mewn awdurdodau lleol eraill, y mae'n ymddangos fod newid ar droed, neu fod y gwasanaethau yn cael eu hadolygu. Mae un awdurdod lleol yn datblygu cysylltiad ar hyn o bryd gyda'r Bwrdd Iechyd, ac mae dau arall yn y broses o sefydlu protocol rhyddhau o'r ysbyty yn ogystal â modelu cyn-asesiad. Yn un awdurdod lleol, adroddwyd fod ail-strwythuro gwasanaethau wedi galluogi'r tîm Cefnogi Pobl a'r tîm

[12] Derbyniwyd yr ymatebion cyn lansio'r Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog ym mis Tachwedd 2016. Mae'r llwybr hwn yn ceisio egluro a chynyddu cysondeb y cyngor ar dai a chymorth ar gyfer y gymuned Lluoedd Arfog yng Nghymru.

tai i gydweithio i wella'r arferion yn y maes hwn, a'i bod wedi datblygu ymhellach gyfarfodydd rhyddhau, er mwyn sicrhau fod opsiynau tai yn cael eu trafod lle bo hynny'n bosibl, cyn eu rhyddhau.

*Pobl sy'n derbyn gwasanaeth salwch meddwl yn y gymuned*

5.16 Adroddodd awdurdodau lleol hefyd nad oedd fawr o newid yn eu gwaith gyda phobl sy'n derbyn gwasanaeth iechyd meddwl yn y gymuned, gan fod y gwasanaethau eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, pwysleisiodd saith awdurdod lleol eu bod wedi gwneud neu'n gwneud ymdrech i wneud newidiadau er mwyn osgoi digartrefedd yn y grŵp yma. Er enghraifft, amlygodd un awdurdod lleol yr ystod o waith y maent yn ei wneud:

> *'Gall digartrefedd gael ei fygwth am nifer o resymau gan gynnwys diffyg atgyweirio neu anghydfod rhwng cymdogion. Rydym wedi datblygu protocol gweithio gyda GorfodaethTai ac yn cyfeirio unrhyw denant yn y sector rhentu preifat sydd â phroblemau atgyweirio iddynt hwy - wrth wneud hynny, byddem yn tynnu sylw at faterion iechyd meddwl a'r gofid mae diffyg atgyweirio yn ei achosi'.*

5.17 Er hyn, nodwyd rhai anawsterau wrth gynnig gwasanaeth i bobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned. Pwysleisiodd un awdurdod lleol yr angen am gefnogaeth fwy arbenigol ar gyfer y grŵp hwn:

> *'Mae'n anodd gyda cheiswyr sy'n derbyn gwasanaeth o'r amryw dimau iechyd meddwl pan nad oes ganddynt gyfeiriad neu gyfeiriad gofal. Mae gan lawer o'r ceiswyr digartref broblemau iechyd meddwl. Mae angen llety mwy arbenigol, dros dro/â chymorth ar gyfer iechyd meddwl'.*

*Pobl sengl*

5.18 Pwysleisiodd y mwyaf o'r ymatebion fod gwasanaethau gwybodaeth a chyngor yn awr yn ehangach ac yn fwy cynhwysol i bobl sengl, o'u cymharu â'r cymorth cyfyngedig a oedd ar gael o dan y Ddeddf flaenorol, ac ymdrechwyd i bwysleisio fod gwasanaethau gwybodaeth a chyngor yn gyffredinol i bawb. Mae hyn yn golygu mwy o gymorth i ddod o hyd i lety ac ymgysylltiad â phartneriaid tai â chymorth. Fodd bynnag, mae un awdurdod lleol wedi lansio Porth Pobl Sengl sy'n *'dwyn ynghyd yr holl brosesau atgyfeirio unigolion tuag at Lety â Chymorth o dan un system'.*

5.19 Mewn awdurdodau lleol eraill, mae’r newid yn ymddangos yn llai dramatig. Mewn awdurdodau lleol a oedd yn gwneud gwaith atal cyn y Ddeddf, mae yna hefyd ymdeimlad o ychydig neu ddim newid. Er enghraifft, dywedodd un awdurdod lleol *'Ni fu unrhyw newid i'r gweithdrefnau. Byddwn yn defnyddio'r Asiantaethau Gosod Adeiladau, Cyfryngu, a gweithredu asesiad llawn i atal digartrefedd'.*

*Cysgu allan*

5.20 Adroddodd ychydig dros hanner (12) awdurdod lleol iddynt brofi problemau penodol yn gysylltiedig â sicrhau llety ar gyfer pobl sy'n cysgu allan. Mae rhai gwelliannau wedi eu nodi ers y Ddeddf, gan gynnwys cyflwyno gweithiwr datrysiad ar gyfer yr ardal a chymhellion i landlordiaid yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â gwell gweithio drwy bartneriaeth gydag Allgymorth ac Ailsefydlu. Dywedodd un awdurdod lleol bod yna well adnabyddiaeth o’r rhai sy'n cysgu allan drwy waith ‘Streetlink’ yn ogystal â gwell gweithdrefnau mewnol, i’w nodi. Mae un awdurdod lleol wedi ymgymryd â sawl menter i wella gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n cysgu allan.

> *'Rydym wedi datblygu taflen newydd i gynghori cleientiaid ynglŷn â’u dewisiadau a hefyd i ddarparu cyngor cyffredinol wrth gysgu allan. Yn ychwanegol at ein darpariaeth bresennol megis hosteli a llety â chymorth eraill , rydym wedi edrych i gynyddu'r opsiynau sydd ar gael, e.e. Prosiect Cysgu Allan sy'n darparu lleoliad uniongyrchol i mewn i letyau annibynnol gan ddilyn egwyddorion "Housing First Model”.*

5.21 Mae dau awdurdod lleol yn ystyried bod llai o newid wedi bod yn y maes hwn, oherwydd parheir i osod trefn ar y systemau.

*Pobl gyda ‘nodweddion gwarchodedig’*

5.22 Roedd yr ymatebion yn rhanedig ynglŷn ag i ba raddau y bu newid yn y gwasanaethau gwybodaeth a chyngor i gwrdd ag anghenion pobl sydd â *'nodweddion gwarchodedig'.* Nododd saith awdurdod lleol na fu unrhyw newid. Aeth dau o'r rhain ymhellach gan egluro fod y Ddeddf Cydraddoldeb yn rhagflaenu newidiadau i'r Ddeddf; y goblygiad yw bod eisoes sylw dyledus yn cael ei roi i anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft:

> *'Rydym bob amser wedi glynu at y Ddeddf Cydraddoldeb ac wedi cael ein hyfforddi i ddelio gyda cheiswyr sydd â nodwedd warchodedig'.*

5.23 Cyfeiriodd y 15 awdurdod lleol sy'n weddill at ryw fath o newid, er nad yw'n glir bob amser i ba raddau cafwyd newid. Er enghraifft, dywedodd un awdurdod lleol fod gwasanaethau bellach yn cael eu sefydlu i fod yn fwy cynhwysol a hygyrch, ond nid ydynt yn cynnig mwy o fanylion penodol o hyn. Mae un awdurdod lleol bellach yn darparu *'gwybodaeth ar le i chwilio am ddewisiadau tai o'r sector rhentu preifat, eiddo cyngor anodd eu gosod a manylion cyswllt ar gyfer cynlluniau 'Bond'.* Mewn un arall, apwyntiwyd Swyddog Porth Atgyfeirio, ac awgrymir fod hyn *'yn golygu fod gwybodaeth fwy manwl ar gael yn awr ac o ganlyniad gellir cyfeirio pobl yn well tuag at y gwasanaeth cymorth mwyaf addas'.* Mewn dau o'r 15 awdurdod lleol, roedd yna newidiadau wedi eu cynllunio neu ar waith.

*Pobl o awdurdodau lleol / trawsffiniol eraill.*

5.24 Gan mwyaf, adroddodd awdurdodau lleol na fu unrhyw newid dramatig, hynny yw, yn yr ystyr y buasai cyngor yn parhau i gael ei roi i bobl o awdurdodau eraill neu o Loegr. Fodd bynnag, dywedodd un awdurdod ar y ffin na ddisgwylid iddynt gynnig gwybodaeth, cyngor ac asesiadau o dan yr hen ddeddfwriaeth, ac yn hyn o beth bu newid mawr. Adroddodd awdurdod arall (awdurdod heb fod ar y ffin) fod cynnydd yn y niferoedd sy'n dod o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ac y dylent newid y cyngor a gynigir:

> *'Bu cynnydd yn yr achosion trawsffiniol ac o ganlyniad i'r diffyg cysylltiad lleol, cynigiwyd mwy o gymorth ac felly newidiwyd yn unol â hynny. Mae mwy o geisiadau gan ALl eraill i drosglwyddo eu hachosion i ni '.*

5.25 Adroddodd dau awdurdod am eu hymwybyddiaeth o'r cymhlethdod ynghlwm wrth gyflawni eu dyletswyddau, yn enwedig gyda phobl sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed neu mewn perygl, felly mae'r ddau awdurdod yn ymdrechu i ystyried hyn wrth gynnig gwybodaeth a chyngor i bobl o awdurdodau lleol eraill / trawsffiniol.

*Prosesau i benderfynu a yw asesiad digartrefedd yn gymwys o dan a62 o'r Ddeddf*


5.26 Yn yr arolwg, adroddodd pob awdurdod lleol fod y broses yn eithaf tebyg ac yn golygu cysylltiad ffôn neu gyswllt personol wyneb yn wyneb â staff gwasanaethau cwsmeriaid. Cesglir cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl, er mwyn dod i benderfyniad sydd yn seiliedig ar asesiad a62. Disgrifiodd pedwar awdurdod lleol sut y trefnir apwyntiad gyda swyddog tai cyn dod i benderfyniad. Dywedodd awdurdod arall y gellid gwneud archwiliad gyda thrydydd parti cyn cyfarfod y ceisydd. Gwirir y wybodaeth a chymerir mwy o wybodaeth bellach er mwyn dod i gasgliad a yw'r person yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Os oes rheswm i gredu bod y person yn ddigartref / mewn perygl o fod yn ddigartref, yna trefnir apwyntiad fel arfer ar yr un diwrnod. Os canfyddir nad yw'r person yn ddigartref /nac mewn perygl o fod yn ddigartref, yna cynigir gwybodaeth a chyngor.

5.27 Adroddodd awdurdodau lleol eraill fod pob cysylltiad gyda swyddogion profiadol o'r Gwasanaeth Digartrefedd ei hun (un awdurdod), neu fod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud i ganolfan asesu sengl (er fod yna ganolfan ar wahân ar gyfer y rhai o dan 21 oed) a bod y penderfyniad i wneud asesiad digartrefedd yn cael ei wneud yn ystod y cyfweliad cychwynnol (un awdurdod). Cyfeiriodd awdurdod lleol arall at wasanaeth galw-heibio ar gyfer rhai sy'n ddigartref ar hyn o bryd.

*Cynlluniau tai personol*

5.28 Nododd ugain o'r 22 awdurdod lleol iddynt ddefnyddio cynlluniau tai personol wrth roi gwybodaeth a chyngor. Credai deunaw o'r 20 awdurdod lleol fod cynlluniau tai personol yn ddefnyddiol.

**Ffigur 5.1: Barn ar ddefnyddioldeb cynlluniau tai personol (N = 20)**




5.29 Mewn ymateb i'r datganiad *'Mae'r Ddeddf wedi dylanwadu ar eich Awdurdod Lleol i gynnig gwell gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn perthynas â digartrefedd',* cytunodd 20 awdurdod lleol (pedwar yn cytuno'n gryf, 16 yn cytuno), tra bod dau awdurdod lleol wedi rhoi ymateb niwtral.

**Atal**


5.30 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y prosesau a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â dyletswyddau i atal digartrefedd (a62 ac a66).

5.31 Gofynnwyd i awdurdodau lleol am y math o wasanaethau atal a gynigiwyd ganddynt, naill ai wedi ei ddarparu gan yr awdurdod lleol neu sefydliadau eraill, neu a fu cynnydd yn y ddarpariaeth ar ôl y Ddeddf. Fel y gwelir yn y tabl isod, mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau atal yn cael eu cynnig ar draws yr awdurdodau lleol. Mae’r gwaith cyfryngu ac eiriolaeth neu gynrychiolaeth arall yn fwy tebygol o gael eu cynnig gan sefydliadau ar wahân yn hytrach nag yn fewnol, fel y mae allgymorth. Y mathau o weithgareddau atal lle gwelwyd y cynnydd mwyaf yn dilyn y Ddeddf yw taliadau grant neu fenthyciad (sydd i raddau helaeth yn cael ei ddarparu’n fewnol) cefnogaeth i reoli dyled, ôl-ddyledion morgais neu rent, llety, a gwybodaeth a chyngor.

**Ffigur 5.2: Darparu gwasanaethau atal (N=22)**



**Ffigur 5.3: Cynnydd yn y ddarpariaeth gwasanaethau atal ar ôl y Ddeddf (N = 22)**




5.32 Gallai nifer helaeth o'r *'gwasanaethau eraill'* a nodwyd berthyn i'r categorïau a enwyd gan eu bod yn ymwneud â gwasanaethau megis cefnogaeth gydag ôl-ddyledion rhent neu eiriolaeth. Yr oedd y rhai eraill yn cynnwys darpariaethau ychwanegol o ddodrefn (dau awdurdod), ynghyd â nwyddau gwyn a pharseli bwyd (un awdurdod). Mae un awdurdod wedi rhoi mwy o hyfforddiant ar hawliau a dyletswyddau landlordiaid preifat gan gynnwys Rhenti Smart Cymru, gan ddechrau cofrestr tai hygyrch ar gyfer ceiswyr sydd angen addasiadau penodol am resymau iechyd ac anableddau. Mae awdurdod arall wedi cyflogi Swyddog Caffael Sector Rhentu Preifat llawn amser, sydd wedi datblygu eu portffolio landlordiaid preifat.

*Dyrannu adnoddau*

5.33 Nododd un ar bymtheg awdurdod lleol eu bod wedi newid y dull maent yn dyrannu adnoddau er mwyn cynnig gwasanaethau atal, fel y gwelir yn y siart isod. Y newid mwyaf cyffredin, a grybwyllwyd gan saith awdurdod lleol, yw'r defnydd mwy hyblyg o gronfa atal. Yn ogystal, mae peth adrefnu gwasanaethau wedi digwydd, fel y mynegwyd gan ddau awdurdod lleol sydd wedi sefydlu gwasanaethau Porth. Ail-strwythurodd ddau arall wasanaethau mewn ffyrdd eraill er mwyn defnyddio'r sector rhentu preifat, tra mynegodd awdurdod lleol arall eu bod wedi cyfuno timau. Mae newidiadau eraill yn cynnwys, gweithiwr achos CAB yn fewnol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth tai (wedi ei sicrhau gan ariannu trosiannol); a symud swyddogion profiadol i ben blaen y gwasanaeth a chreu rolau generig.

**Ffigur 5.4: Adnoddau atal (N=22)**



5.34 Mynegodd pedwar ar bymtheg o awdurdodau lleol fodd bynnag fod rhai problemau wedi ôi fel canlyniad i adnoddau cyfyngedig. Rhestrodd rhai o’r awdurdodau nifer o broblemau. Roedd y broblem a ddatganwyd fwyaf aml yn ymwneud ag anawsterau wrth sicrhau llety (10 awdurdod), yn bennaf fel canlyniad i faterion yn gysylltiedig â denu’r sector breifat. Mae materion sy’n ymwneud â’r sector breifat yn cynnwys pa mor fforddiadwy ydynt i gwsmeriaid ar fudd-daliadau tai, bondiau papur heb fod yn ddeniadol i landlordiaid, a diffyg gwasanaeth gwarantwyr. Cododd un awdurdod lleol bryder ynglŷn ag asiantaeth gosod tai cymdeithasol lleol:

> *‘Yn ymarferol roedd yr AGTC [asiantaeth gosod tai cymdeithasol] yma’n gweithredu yn fwy fel sefydliad masnachol yn cynhyrchu gwarged ar gyfer eu prif sefydliad. Golygai hyn fod llawer o gleientiaid y grŵp yn cael eu heithrio. Mae gan y Cyngor amcan strategol i edrych ar fanteision ac anfanteision gwahanol fodelau o AGTC [asiantaeth gosod tai cymdeithasol] ac yn gwneud penderfyniad ynghylch datblygiad '.*

5.35 Mynegodd pump o’r rhai a wnaeth ymateb eu pryderon ynglŷn â ariannu trosiannol a'r effaith y gallai gostyngiadau ei gael ar gymorth blaendaliadau a gwaith atal. Yn ogystal, teimlir ei bod wedi bod yn anodd recriwtio staff oherwydd natur byrdymor y cytundebau:

> *‘Mae lleihad flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn cyllid trosiannol wedi ei gwneud yn anodd recriwtio staff ar gyfer lleoliadau byrdymor sydd â'r wybodaeth am y ddeddfwriaeth. Mae hyfforddi’r swyddogion hyn wedi rhoi pwysau ar weddill y tîm’.*

5.36 Er gwaethaf y newidiadau a gwblhawyd yn barod, mynegodd 15 allan o 22 o ymatebwyr nad oedd un neu fwy o wasanaethau atal allweddol ar gael ar hyn o bryd yn eu hawdurdod lleol. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd diffyg cyffredinol o lety. Mynegodd pump o awdurdodau lleol yr angen am lety ar gyfer pobl ifanc a llety i’w rannu.

5.37 Nododd dau awdurdod lleol fod diffyg asiantaethau gosod tai cymdeithasol. Awgrymodd un arall eu bod angen mwy o letyau yn y sector rhentu preifat. Nododd tri awdurdod lleol arall fod anghenion lletya penodol hefyd. ‘Roedd y rhain yn cynnwys tai â chymorth, a hosteli uniongyrchol, cyfleuster dros nos ar gyfer seibiant

mewn achosion o deuluoedd yn chwalu, a thŷ gwlyb[13], hosteli mynediad uniongyrchol a lletyau i'r rhai hynny gydag awtistiaeth/Syndrom Asperger.

5.38 Datganodd tri awdurdod lleol yr angen am fwy o eiriolaeth a chyfryngu, oherwydd teimlwyd fod Shelter a CAB yn gweithio hyd eithaf eu gallu yn barod.Gwasanaethau eraill a drafodwyd yn cynnwys: yr angen am fwy o asiantaethau cyngor arbenigol ar gyfer pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl, er enghraifft (un awdurdod); pwysigrwydd *'canfod rhesymau dros ddigartrefedd a gweithio'n benodol ar y rhain'* (un awdurdod), a *'Rhaglenni ar gyfer tramgwyddwyr o gamdrin domestig'* (un awdurdod).

5.39 Teimlai un awdurdod lleol bod angen mwy o hyfforddiant generig *'i gyflwyno rhaglen yn ymwneud â rheolaeth cyn-denantiaeth/tenantiaeth ar gyfer aelwydydd bregus'.* Mae awdurdod lleol arall yn y broses o ddatblygu Canolbwynt Gwasanaeth Atal a Rhyddhau Digartrefedd sy'n cynnwys cyd-weithredu ar draws adrannau awdurdod lleol a gyda phartneriaid , ac mae agwedd debyg yn cael ei ffafrio gan yr awdurdod lleol a ddywedodd fod angen bod yn: *'Fwy wyneb i wyneb, pob asiantaeth cymorth o dan yr un to'.*

5.40 Pan ofynnwyd am y rhesymau pam na ellir darparu'r gwasanaethau hyn ar hyn o bryd, mynegodd 12 o'r 15 awdurdod lleol bod hyn oherwydd rhesymau cyllido neu adnoddau ariannol a diffyg cynhwysedd cysylltiedig. Amlygodd un awdurdod y penderfyniadau a fyddai angen eu gwneud er mwyn canolbwyntio ar waith atal:

> *'Mae'r Cyngor yn edrych ar y meysydd yma o angen heb eu diwallu yn ei Strategaeth Ddigartrefedd /Tai. Yn ddieithriad, bydd adnoddau yn broblem a bydd yn ofynnol i wneud penderfyniadau anodd ynghylch ailddyrannu adnoddau presennol. Mae'r Cyngor yn edrych ar sut y gall ddefnyddio'n gyfreithlon adnoddau'r Cyfrif Refeniw Tai i weithio mewn partneriaeth er mwyn gwella rhai meysydd angen sydd heb eu diwallu '.*

5.41 Wynebai awdurdodau lleol eraill faterion penodol; teimlai un awdurdod lleol fod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn *'amharod i newid proffil y stoc a datblygu',* ac roedd preifateiddio asiantaeth gosod tai cymdeithasol yn fater mewn awdurdod arall. Daearyddiaeth oedd yn broblem i un awdurdod lleol a oedd yn teimlo fod natur wledig y sir yn gwneud integreiddio gwasanaethau yn anodd gan fod y trefi mwyaf wedi eu rhannu i ogledd a de'r sir.

[13] Hostel lle ganiateir yfed alcohol.

*Prosesau cyn 56 diwrnod*

5.42 Mae gan bob un o'r awdurdodau lleol brosesau atal ar waith pan fo'r bygythiad o ddigartrefedd yn fwy na 56 diwrnod. Disgrifiodd pob awdurdod lleol brosesau tebyg yn yr ystyr fod amgylchiadau yn cael eu hasesu a gwybodaeth a chyngor yn cael ei roi i unrhyw un sy'n cyflwyno. Ar gyfer rhai awdurdodau lleol, mae gwasanaethau a ddarperir yn debyg i'r rhai ar gyfer pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref: *'mae yma'r un gwasanaeth ond heb yr hysbysiad ffurfiol oni bai fod yna fygythiad ymhen 56 diwrnod'.* Mynegodd tri awdurdod lleol yn benodol y buasent yn cymryd pob cam rhesymol i osgoi digartrefedd a darparu opsiynau i'r ceiswyr. Honnodd awdurdod lleol arall eu bod '*yn croesawu'r cyfle i ymyrryd yn gynnar'*, tra cynhaliai un arall ddilyniant wythnosol. Mewn awdurdod lleol arall, derbynnir dyletswydd mewn rhai amgylchiadau:


> *'Os bydd cwsmer yn cyflwyno'n arbennig o fregus neu mae'n debygol y byddai rhwystrau sylweddol i atal digartrefedd, derbynnir y ddyletswydd ac fe fyddai'r gwaith yn mynd rhagddo'.*

5.43 Yr oedd un gwahaniaeth rhwng yr awdurdodau lleol fodd bynnag, ac yn dibynnu ar ba mor hir cyn y 56 diwrnod wnaeth y ceisydd gyflwyno, ac roedd hyn fel arfer yn dibynnu ar y math o risg. Er enghraifft, mae un awdurdod lleol yn cyfeirio achosion a ystyrir yn fwy anodd i'w hatal (rhyddhau o garchar / y lluoedd arfog / ysbyty) i'r cofrestrau dewis o dai neu dai hygyrch; derbynnir ymholiadau gan rai sy'n gadael carchar hyd at 84 diwrnod cyn eu rhyddhau.

*Agweddau tuag at waith atal*

5.44 Fel y gwelir yn y siart isod, teimlai fwyafrif clir fod eu hawdurdodau lleol yn gwneud mwy o waith atal, fod hyn yn fwy cynhwysol ac effeithiol, a fod cynyddu'r cyfnod y mae ceiswyr yn cael eu hystyried o fod dan fygythiad o ddigartrefedd i 56 diwrnod wedi cael dylanwad cadarnhaol.

**Ffigur 5.5: Barn am waith atal (N = 22)**




**Angen Blaenoriaethol**

5.45 Cyfeiriodd deuddeg o ymatebwyr nad oedd eu hawdurdod lleol wedi newid y modd yr oeddynt yn cynhwyso'r prawf agored i niwed o dan a71 ers i'r Ddeddf ddod i rym[14]. O'r rhai a newidiodd y prawf agored i niwed, yr oedd pump ymateb yn ymwneud â chasglu gwybodaeth newydd / mwy o wybodaeth i sefydlu agored i niwed, ac fe wnaeth pump ddilyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru a deddfau'r achosion diweddaraf.

[14] Mae A71 o'r Ddeddf yn diffinio agored i niwed/ bregus mewn perthynas â a70 o'r Ddeddf, sy'n nodi pwy sydd ag angen blaenoriaethol am lety.


5.46 Fel y gellid disgwyl, yn dilyn cyflwyniad y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion yn y Mannau Diogel, fe wnaeth 21 o’r 22 o awdurdodau lleol newid eu hagwedd tuag at y rhai sy'n gadael carchar a /neu ddalfa ieuenctid. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn teimlo eu bod wedi bod yn fwy rhagweithiol yn y maes hwn. Ar gyfer wyth awdurdod lleol, mae hyn wedi golygu penodi gweithwyr penodol i gysylltu gyda charchardai a swyddogion cyswllt carchardai rhanbarthol, yn ogystal â defnyddio'r Llwybr i’r rhai sy’n Gadael Carchar. Mynegodd pum awdurdod fod y math yma o gymorth yn dibynnu ar y ffaith fod y rhai sy'n gadael carchar mewn angen blaenoriaethol. Ar y llaw arall, nododd un awdurdod lleol eu bod yn parhau i ddarparu llety dros dro i’r holl rai sy'n gadael y carchar.

**Cymorth i sicrhau**


5.47 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y prosesau a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r dyletswyddau i sicrhau llety (a73 ac a75).

5.48 Holwyd awdurdodau lleol am y math o wasanaethau a ddarperir i gynorthwyo i sicrhau llety i geiswyr digartref o dan a73 o'r Ddeddf (dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety), boed unai yn cael eu darparu gan yr awdurdod lleol neu sefydliadau eraill, ac a fu cynnydd yn y ddarpariaeth ar ôl y Ddeddf. Unwaith eto, fel gyda'r cwestiwn tebyg a ofynnwyd yn y cam atal (gweler 5.27) mae’r ymatebion yn dangos bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn cael eu cynnig ym mhob un o’r awdurdodau lleol, er nid bob amser drwy'r ddarpariaeth fewnol. Mae'r canlyniadau yn adlewyrchu'r ymatebion a roddwyd i'r un cwestiwn o dan Atal, sef mai eiriolaeth neu gynrychiolaeth arall, cyfryngu, a gwasanaethau allgymorth yw'r rhai lleiaf tebygol o gael eu cynnig gan ddarpariaeth fewnol. Y mathau o wasanaethau a nodwyd sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf o ran cynorthwyo i sicrhau o ganlyniad i’r Deddf, eto yn debyg i’r rhai a welwyd mewn gwaith Atal: taliadau ar ffurf grant neu fenthyciad (sy'n cael ei ddarparu i raddau helaeth yn fewnol); cefnogaeth i reoli dyled, ôl-ddyledion morgais neu ôl-ddyledion rhent; llety; a gwybodaeth a chyngor.

**Ffigur 5.6: Darparu cymorth i sicrhau llety (N = 22)**



**Ffigur 5.7: Cynnydd yn y ddarpariaeth o gymorth i sicrhau llety ar ôl y Ddeddf (N = 22)**




5.49 Ymysg y gwasanaethau eraill nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y categorïau a enwyd oedd cynnydd yn y ddarpariaeth o lety argyfwng (un awdurdod lleol) a mentrau i roi tai gwag yn ôl i ddefnydd (un awdurdod lleol). Mae un awdurdod lleol wedi cynyddu cyllid ar gyfer nwyddau gwyn, dodrefn a pharseli bwyd. Mae parseli bwyd hefyd wedi cael eu defnyddio gan un awdurdod lleol i *'alluogi cleientiaid i ddefnyddio eu harian ar gyfer costau rhentu'*. Roedd elfennau eraill o gynnydd yn cynnwys staffio ar ffurf Swyddog Caffael Sector Rhentu Preifat (un awdurdod lleol).

*Dyrannu adnoddau o dan y cam cynorthwyo i sicrhau*

5.50 Fel y nodwyd uchod, adroddodd tua hanner yr awdurdodau lleol fod cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer y gwasanaethau cymorth i sicrhau. Er bod adnoddau yn cael eu cydnabod yn broblem gan lai o awdurdodau lleol nag yn y cyfnod atal, adroddodd pymtheg o awdurdodau lleol eu bod wedi cael problemau sylweddol wrth geisio cyflwyno gwasanaethau cynorthwyo i sicrhau, oherwydd adnoddau prin.

5.51 Ymysg yr awdurdodau lleol, cyllid unwaith eto oedd y mater mwyaf cyffredin a drafodwyd, gan gynnwys gostyngiadau i'r dyfodol yn y Cyllid Trosiannu Llywodraeth Cymru, Cyllid Cefnogi Pobl a Diwygio Lles. Yr oedd wyth awdurdod lleol yn teimlo fod lleihau cyllid yn cyfyngu adnoddau dynol ac yn y pen draw ystod y gwasanaethau y gellid eu cynnig. Roedd argaeledd llety hefyd yn fater pwysig, ac yn gysylltiedig â Diwygio Lles*: 'Gall y diffyg tai fforddiadwy ar gyfer pobl ifanc sengl fod yn broblem a fydd ond yn gwaethygu yn sgil y diwygiadau lles'.* Yn ogystal ag argaeledd llety yn y sector rhentu preifat, mynegodd awdurdodau lleol unigol bryder ynghylch argaeledd llety un ystafell wely, tai â chymorth ar gyfer y rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, a theuluoedd yn ddibynnol ar fudd-daliadau.


*Defnydd o lety sector preifat*

5.52 Nododd deg o awdurdodau lleol fod peth cynnydd yn y defnydd o lety yn y sector preifat yn sgîl y Ddeddf yn dod i rym, a nododd wyth arall gynnydd sylweddol. Roedd y rhesymau dros y cynnydd yn cynnwys: gwireddu'r cyfrifoldebau o dan y Ddeddf a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau. Mae hyn wedi golygu defnyddio arian grant ar gyfer blaendaliadau a phenodi swyddogion i weithio gyda'r sector rhentu preifat. I'r rhai na fynegodd unrhyw newid, roedd hyn oherwydd perthynas a oedd yn bodoli eisoes gyda landlordiaid preifat (un awdurdod), dim cynnydd mewn eiddo rhentu preifat (un awdurdod), ynghyd â'r hinsawdd ariannol a'r farchnad dai lleol yn cynyddu (un awdurdod ). Goblygiadau'r pwynt olaf yw y gellir bod yn anodd dod o hyd i eiddo lle mae'r rhent yn fforddiadwy.

5.53 Dim ond un awdurdod lleol a fynegodd leihad. Fodd bynnag, diffyg cyflenwad oedd y rheswm dros hyn:

> *'Tra yn awr gallwn gyflawni ein dyletswydd i mewn i'r SRhP [sector rhentu preifat] mae'r gofyn ar y cyfan am y SRhP wedi cynyddu heb i'r cyflenwad gynyddu yn ôl y galw. Mae diffyg llety rhannu ystafell yn y sir '.*

**Ffigur 5.8: Maint y newid yn y defnydd o lety dros dro / sector rhentu preifat (N = 22)**




*Defnydd o lety dros dro*

5.54 Pan ofynnwyd a oedd newid wedi bod yn y defnydd o lety dros dro ers i'r Ddeddf ddod i rym, yr oedd yr ymatebion wedi eu dosbarthu yn eithaf cyfartal. Er bod saith o ymatebwyr yn dweud nad oedd newid, adroddodd wyth fod yna rhyw fath o gynnydd (pan fydd y categorïau cynnydd bach a sylweddol yn cael eu rhoi at ei gilydd), a gwelodd saith ostyngiad yn eu defnydd o lety dros dro.

5.55 Ymhlith yr awdurdodau lleol a oedd yn adrodd cynnydd yn y defnydd o lety dros dro, roedd rhesymau yn cynnwys mwy o bobl sengl yn gofyn am gymorth tŷ mewn argyfwng i atal cysgu allan (un awdurdod), diffyg llety i symud ymlaen iddo (un awdurdod), a mwy o gystadleuaeth am dai rhentu preifat lle teimlai'r awdurdod lleol fod landlordiaid yn llym yn eu dewis o denantiaid (un awdurdod). Nododd un awdurdod lleol, er na welwyd cynnydd na gostyngiad, eu bod yn teimlo fod pobl yn aros mewn llety dros dro am gyfnod hirach oherwydd rhwystrau i'r sector rhentu

preifat. Nododd awdurdod arall dueddiadau tebyg i bobl sengl, ond yr oeddynt yn teimlo fod hyn wedi'i leddfu gan y gostyngiad mewn nifer y bobl a oedd yn gadael y carchar gan nad oes ganddynt angen blaenoriaethol awtomatig. Dywedodd un awdurdod lleol fod y cynnydd mewn gwaith atal yn golygu nad ydynt '*wedi gorfod cynyddu'r nifer o unedau llety dros dro'.*

5.56 O'r saith awdurdod lleol a oedd yn teimlo fod gostyngiad wedi bod, mewn dau awdurdod lleol, priodolwyd hyn i ymgymryd â mwy o waith atal. Mewn awdurdod arall, fe wnaeth symud adnoddau i wasanaethau atal blaenllaw olygu gorfod cau hostel. Tra gwelodd un arall fod gallu rhyddhau i'r sector rhentu preifat a diystyru blaenoriaeth awtomatig ar gyfer carcharorion fel dull o leihau'r angen am lety dros dro. Er bod awdurdod lleol (a welodd gynnydd cyffredinol yn eu defnydd o lety dros dro) yn teimlo bod y lleihad mewn cyn-droseddwyr mewn llety wedi cael ei ddadwneud gan *'leoliadau yn gorfod parhau am y ddyletswydd 56 - diwrnod pan fo rheswm i gredu y gallant fod mewn angen blaenoriaethol '.*

*Materion yn ymwneud â sicrhau llety*

*Pobl sengl*

5.57 Adroddodd un ar hugain o'r awdurdodau lleol broblemau yn ymwneud â sicrhau llety ar gyfer pobl sengl. Yn fwy penodol, gwelwyd fod diffyg llety un ystafell wely, llety i'w rannu a diffyg llety symud ymlaen. Cyfeiriodd tri ar ddeg o awdurdodau lleol yn benodol at y rhai o dan 35 mlwydd oed:

> *'Mae gallu fforddio llety SRhP [sector rhentu preifat] i bobl o dan 35 mlwydd oed wedi bod yn eithriadol o anodd. Mae hyn wedi gwaethygu fel canlyniad i'r newid i fudd-daliadau i rai dan 35 mlwydd mewn tai cymdeithasol oherwydd effaith yr hyn sydd yn digwydd yn Ebrill 2018 a pharodrwydd LCC [landlordiaid cymdeithasol cofrestredig] i ddyrannu i'r ystod oedran hon'.*

5.58 Yr oedd awdurdod arall wedi wynebu heriau tebyg, ond yr oeddynt yn mynegi perthynas fwy cadarnhaol gyda'r sector rhentu preifat:

> *'Mae gennym heriau sylweddol, fodd bynnag, hyd yn hyn rydym wedi bod yn hynod o lwyddiannus yn adnabod datrysiadau tai o fewn SRhP [sector rhentu preifat] yn arbennig ar gyfer y categori hwn'.*

*Pobl sy'n cysgu allan*

5.59 Yr oedd yr ymateb yn gymysg ynglŷn ag a oeddynt wedi wynebu problemau penodol wrth sicrhau llety i'r rhai hynny oedd yn cysgu allan. Mewn un awdurdod

lleol, yr oedd lloches nos wedi eu cynorthwyo i ateb y galw. Yr oedd rhai awdurdodau lleol yn teimlo nad oedd unrhyw newidiadau wedi digwydd ar ôl y Ddeddf. I ddau o'r naw awdurdod lleol, eglurwyd fod hyn oherwydd y niferoedd cymharol isel o bobl oedd yn cysgu allan yn eu hardal. Ymhlith y 12 o awdurdodau lleol a fynegodd bod yna broblemau o ran sicrhau llety i bobl sy'n cysgu allan, nid yw'n sicr a oedd y materion yma o ganlyniad uniongyrchol i'r Ddeddf. Mae materion fel hyn yn cynnwys y canfyddiad bod landlordiaid yn cael y dewis o'r farchnad, anawsterau mewn cael rhai sy'n cysgu allan i gysylltu â chymorth, a darganfod mathau o gardiau adnabod sy'n dderbyniol i landlordiaid, y cyfan hefyd yn faterion y bu anhawster yn eu cylch cyn y Ddeddf.

*Pobl gyda 'nodweddion gwarchodedig'.*

5.60 Ymateb tra chymysg oedd tuag at y cwestiwn a oedd awdurdodau lleol wedi wynebu materion penodol mewn sicrhau tai ar gyfer pobl gyda 'nodweddion gwarchodedig' ar ôl cyflwyno'r Ddeddf. Nododd un ar ddeg o awdurdodau lleol nad oeddynt, ac nad oeddent yn ymwybodol o newidiadau penodol ers y Ddeddf. Ar gyfer y naw a deimlai fod yna faterion penodol; diffyg llety addas ar gyfer pobl ag anableddau corfforol oedd un ohonynt . Er enghraifft, ymatebodd un awdurdod lleol ei bod: '*Yn her i ddod o hyd i lety wedi'i addasu yn briodol yn y sector rhentu preifat a thai cymdeithasol.'* Yn ôl un awdurdod lleol: *'Nid oes llawer o landlordiaid yn barod i ganiatáu addasiadau i'w heiddo, felly gall y sector rhentu preifat fod yn anaddas ar gyfer pobl â phroblemau iechyd corfforol. Yn ogystal, yn aml, nid yw addasiadau yn cael eu caniatáu i flociau o fflatiau mewn ardaloedd cymunedol '.* Tra mae sawl her wedi bod er mwyn cael llety ar gyfer pobl ag anableddau corfforol mewn un awdurdod lleol, maent yn datgan hefyd: *'Nid ydym wedi cael profiad fod landlordiaid yn gyfyngol neu'n wahaniaethol'.*

*Pobl o awdurdodau lleol eraill / trawsffiniol*

5.61 Ymateb y mwyafrif o awdurdodau oedd nad oedd sicrhau llety ar gyfer pobl o awdurdodau lleol eraill/ trawsffiniol wedi bod yn fater penodol neu nad oeddent yn ymwybodol o gynnydd yn y galw ers y Ddeddf. Tra gallai ceiswyr o du allan i'r ardal brofi materion fel cael eu gosod yn y band isaf o ran dyrannu, *'maent yn parhau i dderbyn cyngor a chymorth priodol gan y tîm Opsiynau Tai'.* Mae rhai awdurdodau lleol, yn ceisio ailgysylltu'r rhai heb angen blaenoriaethol â'u hawdurdod lleol yn gyntaf ac wedi profi *'llwyddiant cyfyngedig o ran sicrhau llety ar gyfer y grŵp hwn.'* Nododd un awdurdod lleol fod yna faterion achlysurol *'oherwydd cyfyngiadau gyda*

*Bwrdd Bondiau a Pholisi Dyrannu',* a mynegodd un arall hefyd fod 'cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau o ALl eraill a hefyd gynnydd mewn cyflwyniadau o du allan i'r sir'. Mynegodd un awdurdod enghraifft benodol, *'Fe wnaethom brofi problem ynglŷn â chyfeirio teulu yn ôl i awdurdod lleol yn Lloegr, a oedd yn gwrthod cynorthwyo oherwydd deddfwriaeth wahanol'.*

*Grwpiau eraill.*

5.62 Ychydig o awdurdodau lleol a grybwyllwyd materion gyda grwpiau eraill. Cododd un awdurdod lleol y mater o *'ddiagnosis deuol',* fodd bynnag, sydd: *'wedi bod yn broblem yn nhermau darparu cymorth priodol, gan arwain at anawsterau o ran sicrhau llety gyda landlordiaid. Teimlwn fod angen cyngor Llywodraeth Cymru ar weithwyr mudol yr UE sydd ddim yn gallu cael Budd-dal Tai, ond yn gallu cael tŷ. Mae rhai pobl wedi cael eu dal gan y newidiadau i'r rheolau sy'n ymwneud â bod yn gymwys ar gyfer BT ers iddynt gael eu lleoli '.*

**Dyletswydd i Sicrhau**

5.63 Gofynnwyd i awdurdodau lleol *'Beth oedd y prif ddulliau a ddefnyddiwyd gan eich Awdurdod Lleol i gyflawni dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr mewn angen blaenoriaethol (a 75) pan fo'r ddyletswydd yn a73 yn dod i ben? '* Mae'r ymatebion yn dangos mai tai cymdeithasol yw'r prif ddull y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio i gyflawni eu dyletswyddau terfynol i'r rhai sydd mewn angen blaenoriaethol. Rhoddodd sawl awdurdod lleol fwy nag un ymateb, gyda 18 yn nodi tai cymdeithasol, naw yn nodi'r sector rhentu preifat a 2 *'arall'* (tai â chymorth).

5.64 Ymhlith yr awdurdodau lleol a wnaeth ddewis tai cymdeithasol, y rheswm allweddol a roddwyd oedd diffyg eiddo sector preifat fforddiadwy:

> *'Mae'r cynnydd yn argaeledd tai cymdeithasol o'u cymharu ag argaeledd o fewn y SRhP [sector rhentu preifat] yn ei gwneud hi'n anochel y defnyddir mwy o dai cymdeithasol'.*
>
> *'Nid yw'r sector rhentu preifat yn fforddiadwy nac yn gynaliadwy ar gyfer y ceiswyr digartref mwyaf bregus'.*

5.65 Roedd prinder y galw am dai cymdeithasol mewn rhai ardaloedd o fewn awdurdod lleol hefyd yn cael ei adnabod fel rheswm allweddol:

> *'Rydym yn bennaf yn defnyddio'r sector dai cymdeithasol i ddarparu llety a ffaith o'n plaid yw bod llai o alw amdano mewn rhai ardaloedd yn y cymoedd. Mae'r defnydd o dai Gosod yn Seiliedig ar Ddewis yn arf defnyddiol arall '.*

5.66 Dywedodd dau awdurdod lleol eu bod yn cyflawni eu dyletswydd drwy dai cymdeithasol oherwydd nifer llai o geiswyr a oedd yn cyrraedd y cam hwn a gorludded ceiswyr o opsiynau eraill. Fodd bynnag, dim ond mathau penodol o lety a all fod ar gael:

*'Ar y cyfan teuluoedd sy'n debygol o gael llety mewn tai cymdeithasol, oherwydd bod gennym lawer mwy o stoc maint teuluol nag ar gyfer un person'.*

5.67 I'r rhai a ddynodai SRhP, roedd hyn yn bennaf oherwydd bod llai o stoc o dai cymdeithasol. Fodd bynnag, mynegodd un awdurdod lleol newidiadau o ganlyniad i'r Ddeddf:

*'Mae'r SRhP [sector rhentu preifat] wedi dod yn fwy fforddiadwy i gleientiaid drwy ddefnyddio DTD [taliadau tai dewisol] a'r cynllun bond. Mae hefyd yn rhoi gwell cyfle o gael llety yn yr ardaloedd y maent yn dewis byw ynddynt'.*

**Bwriadoldeb**

5.68 Pan ofynnwyd a ydynt wedi diystyru bwriadoldeb ar gyfer unrhyw un o ddibenion a75 i unrhyw grwpiau mewn angen blaenoriaeth benodol, atebodd pum awdurdod lleol do, a 17 na. Ar gyfer pedwar o'r rhain a atebodd do, yr oedd y rhai 16-17mlwydd oed a rhai'n gadael gofal wedi cael eu diystyru, tra i'r llall yr oedd ar gyfer *'unigolion sydd neu sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig'*. Dim ond dau awdurdod lleol a wnaeth sylwadau ar yr effaith, gydag un yn gwneud y sylw fod: *'pob person ifanc bellach yn gallu cael llety sy'n briodol i'w hamgylchiadau a'u hanghenion trwy'r Porth Pobl Ifanc'*. Mewn un o'r pump fodd bynnag , ni chafwyd unrhyw effaith '*gan na ddarganfu'r Awdurdod unrhyw bobl ifanc yn y Grŵp Angen Blaenoriaethol yn ddigartref yn fwriadol yn ystod y 5 mlynedd flaenorol'.*

5.69 Pan ofynnwyd iddynt a ydynt wedi gwneud unrhyw newidiadau i'w hagwedd wreiddiol ar fwriadoldeb ers Gorffennaf 2015, atebodd pob awdurdod lleol nad oeddynt. Mynegodd dau eu bod yn adolygu eu safbwynt, a mynegodd dau arall eu bod yn ymgysylltu â Shelter Cymru ar y mater hwn. Datgelodd dau awdurdod arall eu bod angen mwy o amser i ystyried y mater pan fo newidiadau eraill sy'n deillio o'r Ddeddf wedi sefydlu:

*'Er ein bod yn ymwybodol fod ymgyrch Shelter Cymru i roi terfyn ar fwriadoldeb ar gyfer grwpiau eraill cyn 2019, rydym wedi penderfynu cynnal ein sefyllfa bresennol. Mae'r Ddeddf yn newydd, ac mae angen i ni fod yn sicr o sut mae pethau yn ymsefydlu cyn gwneud newidiadau ychwanegol '.*

5.70 Yr oedd pedwar awdurdod lleol yn fwy awyddus i gadw eu safle ar fwriadoldeb oherwydd y nifer fechan o achosion, tra bod tri yn gweld posibilrwydd o ddylanwadu er mwyn ennill cydweithrediad. Mae un awdurdod lleol wedi gweld lleihad diweddar mewn niferoedd o aelwydydd sy'n ddigartref yn fwriadol, ac y maent yn ei briodoli i fwy o waith atal. Yr oedd yr un awdurdod lleol yn awyddus i bwysleisio eu bod yn parhau i ddarparu cefnogaeth wrth gynnal y prawf, gyn belled â bod unigolion yn ymgysylltu â gwasanaethau. Gwnaeth un awdurdod lleol y sylw:

> *'Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth i awgrymu ei fod angen ei adolygu. Nid ydym wedi cael unrhyw astudiaethau achos ble mae'n hagwedd wedi effeithio ar bobl yn andwyol'.*

5.71 Yn yr un modd mewn ymateb i'r datganiad *'Roedd newid y prawf bwriadoldeb o ddyletswydd i bŵer, yn golygu fod cymorth mwy effeithiol yn cael ei gynnig'*, nodwyd nad oedd y newid o ddyletswydd i bŵer i'w weld yn cael unrhyw effaith go iawn. Yn fwy penodol, roedd un awdurdod lleol yn cytuno'n gryf gyda'r datganiad , chwech yn cytuno, deuddeg ddim yn cytuno nac yn anghytuno, dau yn anghytuno ac un yn anghytuno'n llwyr.

**Cysylltiad Lleol**

5.72 Gofynnwyd i awdurdodau lleol amlinellu eu proses o ddarparu cymorth i bobl sy'n chwilio am gymorth heb gysylltiad lleol. Nododd saith awdurdod lleol eu bod yn parhau i ddarparu cyngor a chymorth yn annibynnol o gysylltiad lleol, tra bod dau awdurdod lleol arall yn blaenoriaethu ailgysylltu ag awdurdodau lleol blaenorol. Fodd bynnag ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol (13), mae'n fwy o gyfuniad. Er enghraifft:

> *'Rydym yn cynnal asesiad, darparu cyngor a chymorth ar lety yn y sector preifat (nid ydym yn darparu blaendaliadau), rydym yn cynorthwyo pobl i ddychwelyd i'w hardaloedd os ydynt eisiau hynny (talu costau tocynnau trên ac ati), os ydynt mewn angen blaenoriaethol rydym wedi lletya rhai, a'u cyfeirio'n ôl at eu ALI yn unol ag adran 82 HA 2014 '.*

5.73 Pwysleisiodd un awdurdod lleol oni bai fod angen blaenoriaethol, fe fyddai'r bobl hynny heb gysylltiad lleol yn y categori blaenoriaeth isel ar gyfer cymorth a dyraniad o dai. Dywedodd un arall eu bod yn ystyried cysylltiad lleol yn unol â phob achos yn eu tro. Yn gyffelyb, amlinellodd awdurdod lleol y dulliau y maent yn cymryd amgylchiadau person i ystyriaeth pan ŷnt yn ystyried sut i gefnogi pobl heb gysylltiad lleol:

*'Mae'r awdurdod yn deall y gall fod rhesymau mewn amgylchiadau eithriadol i hepgor cymhwyster person i gael llety â chymorth [yr Awdurdod lleol] e.e. sy'n ymwneud â sefyllfa fregus eithafol neu berygl, neu i gael mynediad i ddarpariaeth arbenigol nad yw ar gael yn eu bwrdeistref leol. Ers gweithredu'r Gwasanaeth Ailgysylltu, rydym wedi cefnogi 36 o unigolion i ddychwelyd i'w bwrdeistref leol ac wedi rhoi cymorth i 19 o bobl ychwanegol i gael canlyniad, drwy gael hyd i lety addas yn [ein Hawdurdod], e.e. sector rhentu preifat '.*

5.74 Mewn ymateb i'r cwestiwn *'Sut ydych chi'n meddwl fod diffyg prawf cysylltiad lleol yn a66 ac a73 (yn unol â a S73 (2)) o'r Ddeddf wedi cynyddu'r galw am gymorth digartrefedd yn eich ardal?*', canfu tri ar ddeg o awdurdodau lleol gynnydd bychan yn y galw, tra bod un yn dangos cynnydd sylweddol yn y galw, cofnododd chwech ddim newid, a dau fod yna ostyngiad bach yn y galw.

5.75 Awgrymodd deg awdurdod lleol ers cyflwyno'r Ddeddf fod y cymorth a gynigir yn fwy effeithiol i'r bobl hynny heb gysylltiad lleol. Rhoddodd deg awdurdodau lleol ymateb niwtral a theimlai 2 nad yw'r cymorth a gynigir i bobl digartref / rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn fwy effeithiol ar ôl cyflwyno'r Ddeddf.

**Adolygiadau ac Apeliadau**

5.76 Pan ofynnwyd a oedd y nifer o geisiadau i benderfyniadau awdurdodau lleol i gael eu hadolygu /apelio wedi cynyddu neu ostwng ers i'r Ddeddf ddod i rym, atebodd y mwyafrif o'r awdurdodau lleol (16) fod nifer y ceisiadau a'r adolygiadau ac apeliadau llwyddiannus wedi lleihau, gyda'r chwech oedd yn weddill yn ymateb eu bod wedi cynyddu.

5.77 Nifer cyfartalog yr adolygiadau oedd 18.6 ers i'r Ddeddf ddod i rym. Fodd bynnag, allan o gyfanswm o 391 o adolygiadau a gofnodwyd gan 21 awdurdod lleol[15], roedd un awdurdod lleol yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o'r cyfanswm (257). O'r adolygiadau hyn, roedd mwy na hanner (144 adolygiadau / 56%) ohonynt yn llwyddiannus, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol (49%). Dim ond pedwar apêl a gofnodwyd ymysg yr holl awdurdodau lleol ac roedd y rhain wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng dau awdurdod.

[15] Mae data ar gyfer un awdurdod lleol wedi eu heithrio oherwydd ymatebion annilys.

5.78 Nododd yr awdurdod lleol gyda'r nifer uchaf o adolygiadau *'Nid yw'r cynnydd wedi bod yn sylweddol'* ers y Ddeddf, ond bod yna gynnydd wedi bod yn y nifer o adolygiadau llwyddiannus. Eglurwyd y cynnydd fel a ganlyn:

> *'Er yr hyfforddiant cychwynnol i staff roedd angen buddsoddiad ychwanegol i ddeall yn llawn manylder y ddeddfwriaeth newydd. Roedd hyn yn arbennig o wir yn ystod y cyfnod pontio pan oedd y ddwy set o ddeddfwriaethau yn cael eu cymhwyso'.*

5.79 Yr oedd dau a wnaeth ymateb fod ceisiadau i benderfyniadau awdurdodau lleol i gael eu hadolygu / apelio wedi cofnodi cynnydd yn dweud mai dim ond cynnydd ymylol yr oeddynt wedi ei weld. Teimlai un awdurdod lleol arall fod cynnydd wedi bod mewn ceisiadau i benderfyniadau i gael eu hadolygu / apelio, ond ni wnaethant gofnodi ffigurau. Ni cheisiodd eraill egluro'r rheswm dros y cynnydd.

5.80 Ymhlith y rhai a nododd bod ceisiadau wedi gostwng, teimlwyd bod hyn o ganlyniad i waith mwy rhagweithiol, a thrwy weithio y tu allan i brosesau ffurfiol lle bo modd: *'Nid ydym wedi cael unrhyw geisiadau adolygu ffurfiol. Os oes unrhyw faterion rydym yn delio â'r sefyllfa y tu allan i broses ffurfiol '*. Adroddodd tri awdurdod iddynt geisio adborth gan Shelter Cymru ar benderfyniadau a allai fod yn ddadleuol.

5.81 Yr oedd teimlad ymhlith rhai awdurdodau lleol y gallai'r lleihad fod dros dro yn unig:

> *'Ychydig iawn o geisiadau adolygu hyd yn hyn, ond y mae'n parhau i fod yn gymharol gynnar ac yr ydym yn rhagweld y gallai'r nifer o adolygiadau ac apeliadau gynyddu wrth i'r ddeddfwriaeth sefydlu a'r gyfraith achos hefyd yn dod i mewn'.*
>
> *'Rydym yn rhagdybio fod Shelter wedi dilyn y cyngor i beidio â herio yn y camau cynnar.*

5.82 Tra adroddodd 19 o'r 22 awdurdod lleol fod lleihad yn y nifer o adolygiadau ac apeliadau llwyddiannus, teimlai'r mwyafrif na fu unrhyw newid gwirioneddol i'r rhesymau am adolygiadau ac apeliadau ers i'r Ddeddf ddod i rym. Mewn un awdurdod lleol, lle bu gostyngiad, yr oedd priodoldeb wedi disodli bwriadoldeb fel y prif reswm dros adolygu.

5.83 Adroddodd tri awdurdod fod cynnydd wedi bod. Fodd bynnag, nododd dau o'r tri awdurdod nad oeddynt yn cadw cofnodion. Yn wir, gofynnodd un awdurdod lleol i'w hymateb cael ei ddiystyru am y rheswm hwn. Yn un o'r ddau awdurdod lleol arall y maent yn priodoli'r cynnydd i fynd i'r afael â'r Ddeddf.

**Gweithio mewn Partneriaeth**

*Newidiadau i ddulliau gweithio*

5.84 Roedd y mwyafrif o'r ymatebion (19) yn arddangos fod newid wedi bod mewn gweithio mewn partneriaeth o fewn eu hawdurdodau lleol. Dim ond tri awdurdod adroddodd nad oedd unrhyw newid. Ymhlith yr awdurdodau lleol a adroddodd newid perthynas, nododd sawl un fod cysylltiadau wedi gwella mewn gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a /neu wasanaethau cymdeithasol i blant o ganlyniad i newidiadau mewn gweithio neu ailstrwythuro gwasanaethau yn unol â'r Ddeddf, yn ogystal â'r rhaglen Cefnogi Pobl. Mae'r newidiadau o fewn un awdurdod lleol yn arddangos pa mor eang mae'r newidiadau wedi bod mewn rhai awdurdodau lleol:

> *'Mae'n gwasanaethau CP [Cefnogi Pobl] wedi cael eu hadlunio yn unol ag amcanion y Ddeddf ac yr ydym yn gweithio gydag adrannau eraill o fewn yr Awdurdod i ddatblygu'r rhain e.e. Gwasanaethau plant, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, Pobl hŷn. Yr ydym wedi sefydlu cyfarfodydd panel gydag adrannau eraill megis paneli achos cymhleth, paneli lletya pobl ifanc ac ati i ddiwallu anghenion pobl sy'n agored i niwed. Ar y cyfan mae yna gydweithio gwell ac mae'n parhau i ddatblygu '.*

5.85 Roedd cysylltiadau gwell wedi eu nodi gyda swyddogion iechyd amgylcheddol, yn ogystal â thimau sector rhentu preifat (dau awdurdod lleol). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod lle i wella. Awgrymodd un awdurdod lleol fod iechyd meddwl yn faes lle mae angen mwy o waith.

5.86 O'r rhai a fynegodd nad oedd unrhyw newid, dim ond un awdurdod gynigiodd eglurhad pellach, a oedd yn canolbwyntio ar gysylltiadau cryf a gwan fel ei gilydd:

> *'Yr oedd yna eisoes berthynas waith dda gyda'r cynllun-adran tai'r sector preifat i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd ar gyfer ceiswyr digartref. Mae'r berthynas gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i fod yr un fath. Parhau i fod yn anodd cael cymorth gan y tîm iechyd meddwl'.*

5.87 Yr oedd perthynas rhwng yr amryfal fathau o bartneriaid allanol i'w weld wedi gwella i 20 o 22 o'r awdurdodau lleol. Tanlinellodd sawl ymatebwr fod y berthynas gyda'r trydydd sector wedi gwella ers y Ddeddf. Er enghraifft, datganodd un awdurdod *'Mae sector statudol a'r trydydd sector yn gweithio gyda nod cyffredin mewn golwg'.* Mae'r ystod o sefydliadau yn cael eu cofnodi gan awdurdod lleol a soniodd am y gwaith yr oeddynt wedi ei wneud i addasu i'r Ddeddf:

*‘Datblygu protocolau o weithio ar y cyd wedi eu datblygu gyda: Ysbytai Lleol, NACRO, CAB, Shelter Cymru, LCC [landlordiaid cymdeithasol cofrestredig], fforwm landlordiaid newydd a gwell. Wrth ragweld y Ddeddf, datblygodd [ein] Cyngor ein siop ‘un stop’ a model rhannu gwasanaethau [ein] Datrysiadau Tai, mewn partneriaeth gyda [ein] cymdeithas dai fwyaf. Yr ydym wedi cynnal diwrnodau gyda’r amryfal sefydliadau yn y sector gyhoeddus '.*

5.88 Dim ond dau awdurdod ddangosodd nad oedd newid wedi bod mewn cydweithio gyda phartneriaid allanol. Nododd un bod hyn oherwydd eu bod bob amser wedi cael perthynas waith da, ond nododd y llall eu bod wedi cael trafferthion gydag ysbyty iechyd meddwl 'yn cysylltu â ni ar ddiwrnod rhyddhau heb unrhyw rybudd o flaen llaw’.

*Sector Rhentu Preifat*

5.89 Pan ofynnwyd am y datblygiad yn y berthynas gyda’r sector rhentu preifat ers y Ddeddf, teimlai un ar bymtheg o awdurdodau lleol fod y berthynas wedi gwella, tra teimlai dau eu bod yn parhau i fod yn dda. Nid oedd yr ymatebion yn egluro’r gwelliannau, ond y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd oedd mwy o gyswllt ac ymgysylltiad (naw awdurdod lleol), a oedd yn cynnwys fforymau landlordiaid (tri awdurdod lleol). Fel enghraifft o’r cysylltiad agosach yma, dywedodd un awdurdod lleol fod ganddynt:


*‘Gysylltiadau agosach â landlordiaid y SRhP [sector rhentu preifat] gan ein bod yn trafod yn barhaus er mwyn sicrhau llety'.*

5.90 Y rheswm cyffredin nesaf a nodwyd o ran gwella perthynas oedd cyflogi swyddogion datblygu ar gyfer y sector rhentu preifat (chwe awdurdod lleol). Rhesymau eraill a roddwyd oedd cymorth ariannol, sydd wedi arwain at '*fod yn barod i ddarparu ar gyfer mwy o gleientiaid'* (un awdurdod lleol), a’r cynllun Rhent Smart Cymru (un awdurdod). Dywedodd tri awdurdod lleol nad oedd y berthynas wedi gwella, oherwydd fforddiadwyedd. Nododd un awdurdod lleol eu bod yn ansicr a fu gwelliant ai peidio.

5.91 Mae'r siart isod yn dangos fod 20 allan o 21 o’r awdurdodau lleol a ymatebodd i'r cwestiwn yn cytuno fod y Ddeddf wedi galluogi defnydd mwy effeithiol o'r sector rhentu preifat, i atal / rhyddhau digartrefedd ac i gyflawni dyletswyddau digartrefedd; roedd tua thraean o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf â'r datganiad hwn. Er nad oedd unrhyw awdurdodau lleol yn anghydweld â’r naill ddatganiad na’r llall, yr oedd un ymateb niwtral o ran y defnydd o'r sector preifat i atal a rhyddhau digartrefedd, ac

un ymateb ar goll. Cafwyd un ymateb niwtral o ran y defnydd o'r sector preifat i gyflawni'r ddyletswydd ddigartrefedd.

**Ffigur 5.9: Defnydd o'r sector rhentu preifat (N = 22)**




Nodyn Ffigur: Nid oes un awdurdod lleol wedi ymateb i'r datganiad cyntaf

*Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig*

5.92 Roedd ymatebion wedi eu dosbarthu'n fwy cyfartal ynglŷn a oedd y Ddeddf wedi caniatáu cydweithio mwy effeithiol gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Cytunodd wyth awdurdod lleol, tra bod 9 ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 5 yn anghytuno.

5.93 Roedd sawl ymateb ansoddol yn gadarnhaol, ac yn dangos fod perthynas dda gyda'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi eu cynnal dros gyfnod o amser. Roedd newidiadau allweddol mewn rhai awdurdodau yn amrywio *o 'rannu gwybodaeth fwy manwl dros nifer derbyn o dan bob cam o'r ddeddfwriaeth'* i drefnu grwpiau llywio ar gyfer cyswllt rheolaidd gyda phartneriaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a gofyn i bob landlord cymdeithasol cofrestredig i arwyddo cytundeb cynhwysfawr i'w hymrwymo i atal digartrefedd. Yn ogystal, mae enghreifftiau hefyd o gyd-leoli a chyflwyno gwasanaethau.

5.94 Y mae'n bwysig nodi fod rhai materion yn parhau, fodd bynnag, yn enwedig gydag unigolion *'anodd eu lletya'* fel y nododd tri awdurdod. Mynegodd un o'r rhain, er bod ganddynt berthynas weithio dda ar y cyfan, nid oedd cofrestr cyffredinol, gan ychwanegu *'nid yw'r Ddeddf wedi effeithio polisïau dyrannu'* landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Amlygodd awdurdod lleol arall faterion eraill:

*'Mae diffyg ymgysylltiad i atal digartrefedd... cynnydd mewn achosion llys / dadfeddiannu dros y misoedd diwethaf ... Galwadau taliad uchel. Asesiadau cyn-denantiaeth llym iawn, dim hyblygrwydd ar incwm / gwariant ... Y galw am wythnos o rent llawn o flaen llaw heb ystyried [a fydd] BT [budd-dal tai] yn cael ei wneud, ymgymryd ag "archwiliadau" o gollfarnau troseddol ceiswyr'.*

*Gwasanaethau Awdurdodau Lleol a gweithio aml-asiantaethol*

5.95 Cytunodd deunaw awdurdod lleol fod y Ddeddf wedi caniatáu mwy o bwyslais ar gydweithredu rhwng gwasanaethau awdurdodau lleol a gwaith aml-asiantaethol, gyda dau arall yn cytuno'n gryf. Dim ond dau ymateb niwtral a dderbyniwyd ac nid anghytunodd unrhyw awdurdod lleol â'r datganiad hwn.

**Prosesau Cyfeirio a Chefnogi Pobl**

5.96 Mynegodd pymtheg o awdurdodau lleol eu bod yn meddu ar gynllun porth ar gyfer gwasanaethau Cefnogi Pobl, gydag un awdurdod lleol yn dweud y byddant *'yn gweithredu un cyn bo hir'*. Ar gyfer pob awdurdod lleol, mae hyn yn bwynt cyfeirio canolog i geisiadau am gymorth, sydd wedyn yn cael eu dyrannu i ddarparwr. Mewn un awdurdod mae hyn ar ffurf system TG ganolog:

*'Mae ceisiadau am Dai â Chymorth yn cael eu cwblhau drwy asiantaethau yn atgyfeirio drwy system TG ganolog. Yna mae'r system yn cydweddu unigolyn i gynllun addas ac yna mae'r cynllun arweiniol yn asesu ceiswyr am lety, ac mae hyn wedyn yn penderfynu addasrwydd i gynlluniau. Fel y mae lle gwag yn ymddangos yna cysylltir â cheiswyr yn seiliedig ar asesiad angen '.*

5.97 Datgelwyd y gall hyn fod ar ffurf swyddog llawn-amser, fel sydd yn bodoli mewn un awdurdod lleol, lle lleolir hwynt yn y tîm Opsiynau Tai. Y mae hefyd yn amlwg fod cynlluniau porth ar wahanol lefel o ddatblygiad, gydag un awdurdod yn nodi ei fod '*yn y cyfnod cynnar o ddatblygiad '.* Mae awdurdod lleol arall yn gweithredu tri chynllun porth ar gyfer cael llety a gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen: (i) y Cynllun Porth i bobl Sengl ac i deuluoedd, ar gyfer y Tîm Opsiynau Tai; ii) y Porth Cymorth Hyblyg ar gyfer y tîm Cefnogi Pobl; a (iii) y Porth Pobl Ifanc, sydd wedi ei leoli mewn adeilad penodol ar gyfer gwasanaethau pobl ifanc, a weithredir gan Opsiynau Tai / Gwasanaethau Plant / sefydliad trydydd sector. Yn ogystal, yn ddiweddar maent wedi sefydlu porth ar drais yn y cartref.

5.98 Gan eithrio'r Awdurdod sydd yn y broses o ddatblygu cynllun porth, (a fydd yn ei ddefnyddio ar gyfer atgyfeiriadau i wasanaethau Cefnogi Pobl), mynegodd pob un o'r awdurdodau lleol fod ganddynt brosesau atgyfeirio ffurfiol ar gyfer gwasanaethau Cefnogi Pobl. Yn ymarferol, y dull mwyaf cyffredin y mae'r rhain yn ei weithredu, yw drwy systemau cyfeirio canolog (adroddwyd gan 11 awdurdod lleol). Atgyfeirir i gynlluniau priodol a gwneir asesiadau. Mae’r rhai sy’n cwrdd â’r meini prawf wedyn yn cael eu cysylltu fel y mae lleoedd gwag ar gael.

5.99 Adroddwyd fod gan awdurdodau lleol lwybrau ar wahân ar gyfer prosesau atgyfeirio, yn dibynnu ar y gwasanaethau sydd eu hangen. Yn yr awdurdod gyda’r tri chynllun porth, mae prosesau atgyfeirio ar gyfer pob un o'r pyrth. Teimlai awdurdod arall *'Gall fod anghysondebau yn y broses atgyfeirio a’r amser ymateb’.*

5.100 Dangosodd deunaw o awdurdodau lleol fod yr agenda digartrefedd yn hysbysu comisiynu’r gwasanaethau Cefnogi Pobl. Mewn sawl awdurdod lleol mae hyn yn gweithio'n ymarferol oherwydd bod Cefnogi Pobl a thai yn rhan o’r un tîm. Mae hyn yn cymryd ffurfiau amrywiol; Cefnogi Pobl wedi eu sefydlu yn Tai, y swyddogaeth Digartrefedd Strategol yn cael ei oruchwylio gan Reolwr Comisiynu Cefnogi Pobl, neu'r ddau Cefnogi Pobl a thai yn ffurfio un tîm neu yn rhan o dîm ehangach megis Gwasanaethau Cymunedol (6 awdurdod). Nododd dau awdurdod lleol arall fod gwasanaethau yn cael eu comisiynu ar y cyd. Y goblygiad yw bod ym mhob un o'r awdurdodau lleol hyn, gomisiynwyr Cefnogi Pobl sy’n cael eu hysbysu am yr agenda digartrefedd:

> *'Rydym yn cyfathrebu a rhannu gwybodaeth am ofynion ac anghenion gwasanaeth er mwyn sicrhau fod gennym wasanaethau a fydd yn cyflawni anghenion [ein] Hawdurdod.*

5.101 Nododd awdurdodau lleol eraill hefyd fod yr agenda digartrefedd yn hysbysu comisiynu’r gwasanaethau Cefnogi Pobl trwy rannu gwybodaeth. Mae gwybodaeth ystadegol yn cael ei ddarparu i Cefnogi Pobl mewn un awdurdod lleol, tra bod Cefnogi Pobl yn mynychu rhwydweithiau digartrefedd mewn un arall. Mewn un awdurdod, mae Cefnogi Pobl yn cwblhau ffurflenni mapio anghenion gyda'u cleientiaid.

## Monitro


*Monitro cydraddoldeb*

5.102 Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol pa nodweddion cydraddoldeb sy'n cael eu cofnodi yn y data a gesglir ganddynt. Fel y gwelir yn y siart isod, mae'r canlyniadau yn dangos amrywiad mawr ymhlith yr awdurdodau. Yn arwyddocaol, nid oes unrhyw nodweddion penodol sy'n cael eu monitro gan bob awdurdod lleol. Yn wir, mae mwy na chwarter yr awdurdodau lleol (6) yn datgan nad ydynt yn casglu unrhyw ddata ar fonitro cydraddoldeb. Mae hyn yn nodedig gan fod angen data am nodweddion megis ethnigrwydd a rhyw ar gyfer y ffurflen ystadegol i Lywodraeth Cymru. Cyfyngiad arall sy'n bosibl yw'r ffaith nad yw llawer o bobl yn rhoi gwybodaeth am nodweddion cydraddoldeb i'r awdurdodau lleol gan ei fod yn cael ei ddatgelu trwy hunan-ddatgeliad.

5.103 Roedd rhai awdurdodau lleol yn awyddus i nodi eu bod yn cofnodi nodweddion eraill, megis data am ofalwyr / rhieni / gwarcheidwaid, ac am y Gymraeg neu ddewis o iaith. Nododd awdurdodau lleol eraill nodweddion penodol lle maent yn brin o ddata. Mewn un awdurdod, roedd hi'n anodd cysylltu gyda'r rhai sy'n cysgu allan, tra dywedodd un arall nad ydynt 'yn mesur yn benodol effaith hyn ar bobl o ALl [awdurdodau lleol] eraill/ trawsffiniol'.

5.104 Roedd ymatebion wedi'u rhannu'n gyfartal ynglŷn â defnyddio'r data, rhwng y rhai nad oeddynt yn ei ddefnyddio neu ddim yn siŵr sut i'w ddefnyddio ar y naill law, ac awdurdodau lleol sy'n ei ddefnyddio i sicrhau cydymffurfiaeth. Yn achos yr olaf, gall fod yn ddylanwadol drwy ymarferion mapio gwasanaethau, teilwra gwasanaethau i ateb y galw, a chomisiynu gwasanaethau.


**Ffigur 5.10: Nodweddion Cydraddoldeb wedi eu cofnodi yn y data (N = 22)**




Nodyn Ffigwr: Mae hil yn cynnwys hil, lliw, a chenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth, tarddiad ethnig neu genedlaethol)

5.105 Dim ond lleiafrif nododd bod eu hawdurdod lleol yn monitro mwy o ran cydraddoldeb ers i'r Ddeddf ddod i rym neu fod y gwaith monitro cydraddoldeb yn fwy effeithiol.

**Ffigur 5.11: Barn am fonitro cydraddoldeb (N = 22)**




Nodyn Ffigur: Nid oes un awdurdod lleol wedi ymateb i'r trydydd datganiad

*Monitro canlyniadau*

5.106 Adroddodd y rhan fwyaf o’r awdurdodau lleol eu bod yn gallu mesur canlyniadau i bobl sy'n derbyn cymorth o dan y Ddeddf drwy eu ffurflen ystadegau i Lywodraeth Cymru. Roedd un awdurdod lleol hefyd yn cynhyrchu adroddiadau wythnosol i reolwyr. Cyfeiriodd rhai at sefydlu systemau TG newydd neu gronfa ddata i wneud hynny. Mewn un awdurdod, cydnabuwyd fod mesur canlyniadau yn un o’r rhesymau i uno timau: *Mae'r tîm Cefnogi Pobl yn awr wedi uno gyda thîm Opsiynau Tai, i alluogi holi trylwyr o'r holl ddata a gasglwyd '.* Yn ddiddorol, honnodd un awdurdod na fesurwyd canlyniadau oni bai eu bod ar gyfer y Gwasanaethau Cefnogi Pobl.

5.107 Roedd bron pob un o'r awdurdodau lleol yn datgan bod y data hwn yn cael ei gasglu bob chwarter. Mewn un awdurdod, maent yn cael eu *'casglu’n ddyddiol ac yn cael eu hadrodd yn ôl yn chwarterol, bob 6 mis ac yn flynyddol',* tra mewn un arall, roedd adroddiadau wythnos a misol yn cael eu cynhyrchu. Nododd yr awdurdodau lleol eu bod yn defnyddio'r data hwn ar gyfer mesur perfformiad ac wrth adolygu a chomisiynu gwasanaethau.

5.108 Maes arall lle gwelwyd llai o fonitro'n digwydd oedd yn y broses o dynnu cais yn ôl.. Dim ond un awdurdod lleol a gytunodd yn llwyr fod prosesau ar waith i fynd ar drywydd ceisiadau a dynnwyd yn ôl, tra bod pedwar awdurdod yn cytuno, chwech yn ymateb yn niwtral , naw yn anghytuno, a dau yn anghytuno'n llwyr. Fel y cyfryw, mae'n ymddangos nad oes llawer o wybodaeth am y rhai sy'n tynnu'n ôl. A oeddynt angen fwy o gymorth neu a oedd yna nodweddion cydraddoldeb penodol yn cael eu gorgynrychioli neu beidio.

5.109 Roedd yr ymatebion wedi eu rhannu rhwng y rhai a oedd yn dadansoddi'r data canlyniadau yn ôl cydraddoldeb a'r rhai nad oeddynt. Adroddodd un awdurdod eu bod yn cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb. I awdurdodau lleol eraill, roedd y data'n cael ei ddadansoddi'n ôl y gofyn neu ar lefel yr awdurdod yn unig, nid gan yr adran dai. Nododd un awdurdod fod hwn yn faes eu bod wrthi'n ceisio gwella. Ar y cyfan, mae'n ymddangos mai dadansoddiad cymharol fychan o ganlyniadau yn ôl nodweddion cydraddoldeb sy'n digwydd.


**Asesiad Awdurdodau Lleol o Effeithiau'r Ddeddf**

*Y galw am wasanaethau digartrefedd a sut i'w ddiwallu*

5.110 Nododd tri ar ddeg o awdurdodau lleol am y cynnydd yn y galw, wyth yn nodi lefelau tebyg o alw, tra bod un awdurdod yn unig wedi gweld gostyngiad. Ymhlith yr awdurdodau lleol hynny oedd wedi gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau digartrefedd, roedd hyn oherwydd y ddyletswydd atal a phobl yn troi at y gwasanaethau tai yn llawer cynt nag o'r blaen. Mae hyn wedi arwain at newid yn y math o waith sydd ei angen:

> *'Mae cynnydd yn y galw gan gleientiaid nad ydynt yn flaenoriaeth; cynnydd yn y galw am flaendaliadau a rhent o flaen llaw gan ein bod yn ddibynnol ar y sector rhentu preifat i ryddhau digartrefedd'.*

**Ffigur 5.12: Effaith y Ddeddf ar y galw am wasanaethau digartrefedd**




Nodyn Ffigur: Roedd hwn yn gwestiwn agored. Cafodd ymatebion yr awdurdodau lleol eu codio ar ôl casglu data

5.111 Er i'r awdurdodau lleol adrodd nad oeddynt wedi cofnodi gwaith atal fel ag y gallent o'r blaen, roedd ymdeimlad fod achosion ar agor am gyfnod hwy, sy'n golygu fod llwyth achosion y swyddogion tai wedi cynyddu, ac y gallai'r dull partneriaeth fod yn drwm ar adnoddau.

5.112 Dywedodd tri awdurdod lleol a sylwodd hefyd ar hyn fod cynnydd wedi bod yn y galw ar y cychwyn ond bod hyn bellach wedi sefydlu. Canfu un awdurdod lleol fod y cynnydd mewn gwaith atal wedi ei wrthbwyso gan ostyngiad yn yr achosion dyletswydd terfynol. Fodd bynnag, nododd y pedwar awdurdod lleol a adroddodd ar lefel debyg o alw, fod mwy o bwysau i wneud mwy gyda phob achos, ac achosion yn cymryd mwy o amser a'r swyddogion tai yn ymwneud â mwy o achosion.

5.113 Roedd awdurdodau lleol a adroddodd lefelau tebyg neu gynnydd mewn galw yn nodi'r pwysau a'r llwyth gwaith cynyddol. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, roeddynt yn teimlo nad oedd hyn wedi cael ei gyfateb gan gynnydd mewn adnoddau (ac eithrio arian trosiannol Llywodraeth Cymru). Anghytunodd pedwar ar ddeg o awdurdodau lleol gan sôn am y cynnydd mewn adnoddau, roedd dau ddim yn cytuno nac yn anghytuno a chwech yn cytuno.

5.114 Yn wir, pan ofynnwyd yn fwy penodol sut y gwnaethant gwrdd â'r galw, cyllid trosiannol gan Lywodraeth Cymru oedd y ffynhonnell fwyaf cyffredin o ariannu ar gyfer gwaith atal, yn ogystal defnyddiwyd cyllid Cefnogi Pobl. Ynghyd â defnyddio cyllid ar gyfer gwaith atal megis taliadau rhent a blaendaliadau, defnyddiwyd hyn hefyd i alluogi awdurdodau lleol i greu swyddi i gynorthwyo'r gwaith atal hwn, megis Swyddog Adsefydlu Carcharor, Cymorth Tenantiaeth ar gyfer y sector rhentu preifat, swyddog datblygu yn y sector rhentu preifat (un awdurdod), swyddog iechyd yr amgylchedd a swyddog budd-dal tai (un awdurdod). Roedd yr hyfforddiant staff

hwn yn bwysau ychwanegol (un awdurdod). Mae'r ddibyniaeth ar gyllid trosiannol yn golygu y gall swyddi fod mewn perygl yn y dyfodol:

*‘Gwasanaeth ailfodelu i gynnwys 2 swydd a ariennir drwy'r cyllid trosiannol ac 1 drwy gyllid Cefnogi Pobl. Mae hyn yn golygu fod pob un o'r 3 swydd mewn perygl os fyddai'r arian yn diflannu '.*

5.115 Amlinellodd un awdurdod lleol sut y defnyddiwyd y cyllid trosiannol mewn ffyrdd mwy cynaladwy er mwyn ailstrwythuro gwasanaethau:

*‘Galluogodd y cyllid i ni fedru ailstrwythuro ein Gwasanaeth Opsiynau Tai a chreu tîm a oedd a’u prif ffocws ar atal methiannau tenantiaeth ac i ddatblygu ein datrysiadau opsiynau tai. Mae'r olaf yn becyn o wasanaethau a gynigir i landlordiaid yn y sector rhentu preifat er mwyn ein galluogi i gyflawni ein dyletswydd '.*

5.116 Nododd awdurdodau lleol eraill fod ateb y galw am fwy o waith atal wedi golygu ail-leoli staff i wasanaethau cyffredinol neu pen blaen.

*'Mae staff wedi cael eu hail-leoli o’r gwaith cefn blaenorol o ddarparu llety dros dro gyda gofynion adnodau uchel a chynnig cymorth, i’r gwaith pen-blaen o atal a rhyddhau’.*

*'Ar ôl gweithredu'r Ddeddf, adolygwyd y strwythur staffio a daeth holl rolau tai presennol yn generig, gan ganiatáu i'r holl staff gynnal asesiadau digartrefedd a chynorthwyo gyda mesurau atal'.*

5.117 Dull arall a amlinellwyd yn yr ymatebion oedd y cydweithio ar draws awdurdodau lleol. Roedd un awdurdod yn cymryd rhan mewn cynllun treialu gydag awdurdod lleol arall lle'r oedd datrysiadau tai a’r timau sector rhentu preifat yn cael eu huno ar draws yr awdurdodau lleol i gynyddu lefelau staffio i alluogi rheoli'r llwyth gwaith cynyddol a datblygiad yn y sector rhentu preifat. Fodd bynnag, ni fydd y gwasanaeth ar y cyd yn parhau ac mae’r awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn y broses o rannu'r gwasanaeth. Mae’r bartneriaeth yng Ngogledd Cymru rhwng nifer o’r awdurdodau lleol sy’n ymwneud â dwy swydd a ariennir yn rhanbarthol hefyd yn mynd rhagddo. Y swyddi yw Swyddog Adolygu ac un sy'n ymwneud ag ailsefydlu carcharorion a gweithredu'r Llwybr Carcharor. Yn ôl un awdurdod lleol, y farn gychwynnol yw bod y swydd Swyddog Adolygu wedi bod yn fwy o lwyddiant:

*'Maent wedi bod yn rhagweithiol wrth adolygu achosion lle mae'r awdurdod lleol wedi cael ei herio, wrth ddarparu cyngor ac arweiniad i Swyddogion Datrysiadau Tai ac wrth hyfforddi staff ar weithredu'r ddeddfwriaeth'.*

5.118 Yn ogystal, adroddwyd am ymdrechion i wneud newidiadau i'r systemau TG i gynorthwyo rheoli'r galw: *'roedd mabwysiadu system TG integredig wedi lleihau'r amser mewnbynnu i weithwyr achos (ond yn defnyddio un gronfa ddata yn awr i gofnodi gwaith achos)'.* Disgrifiodd awdurdod lleol arall ei bod wedi buddsoddi mewn system TG newydd er mwyn gwneud rheoli achosion yn fwy effeithlon. Tra bod un arall wedi diweddaru ei gwefan er mwyn i bobl dan fygythiad o fod yn ddigartref fedru chwilio am atebion ar-lein, ac wedi gosod cyfrifiaduron mewn ardal gyhoeddus o'r swyddfa yn ogystal â buddsoddi mewn pecyn meddalwedd a ddatblygwyd gan Kirklees MBC *'Gadewch i ni eich Helpu'* sy'n darparu gwasanaeth dod o hyd i denant. Yn ôl yr awdurdod, ychydig o lwyddiant a gafodd y fenter olaf.

*Heriau*

5.119 Pan ofynnwyd am ymateb i'r datganiad *'Nid yw eich Awdurdod Lleol wedi wynebu unrhyw heriau sylweddol wrth weithredu'r Ddeddf o fis Ebrill 2015',* dim ond tri awdurdod lleol atebodd nad oeddent wedi wynebu heriau sylweddol, a dau nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd wyth awdurdod lleol yn anghytuno'n llwyr â'r datganiad hwn, tra bod 9 arall yn anghytuno, fel bod cyfanswm o 17 o awdurdodau lleol yn datgan eu bod wedi wynebu heriau sylweddol.

5.120 Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol i amlinellu'r tair her uchaf y maent wedi eu hwynebu wrth weithredu'r Ddeddf. Yr ymateb mwyaf cyffredin (12) ac mae wedi cael ei gategoreiddio fel baich gweinyddol ac yn cynnwys gwaith papur, gofynion hysbysu, cynlluniau tai personol, ac adolygiad o waith achos. Ynghyd â llwyth gwaith cynyddol, teimlwyd bod y baich gweinyddol yn amharu ar y gwaith rheng flaen o roi cymorth i gwsmeriaid:

*'Nid oedd y setiau data a ddarparwyd o'r cychwyn yn ddigon clir ac roedd [hyn] wedi arwain at faterion ynghylch sut i gofnodi achosion ac yn straen ychwanegol i swyddogion yn gyffredinol. Gallai hyn fod wedi cael ei ddatblygu'n well cyn y gweithredu ac fe fyddai hyn yn ei dro wedi cynorthwyo gweithwyr achos yn eu rolau ac efallai wedyn arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer y rhai mewn perygl'.*

*'Gwelsom nid yn unig gynnydd yn nifer yr achosion, ond mae llwyth gwaith staff wedi cynyddu oherwydd y swm aruthrol o weinyddiaeth sy'n ofynnol o ran darparu gwahanol lythyrau hysbysu a chynlluniau tai personol. Mae'r rhain yn*

*cymryd llawer o amser i baratoi ac mae'n rhaid bod yn ofalus iawn i sicrhau nad ydynt yn agored i heriau cyfreithiol '.*

5.121 Her gyffredin arall a nodwyd oedd diffyg llety addas / fforddiadwy (naw). Roedd union natur y sialens hon yn amrywio ym mhob awdurdod lleol, rhwng tai sector preifat a chymdeithasol, neu'r angen am fathau penodol o lety:

*'Mwy o bwysau ar gyrchu eiddo yn y sector rhentu preifat i allu cyflawni dyletswyddau digartrefedd. Mae eisoes brinder tai fforddiadwy yn yr ardal, yn y sector tai cymdeithasol a phreifat '.*

*'Diffyg argaeledd tai, yn enwedig yn y sector cymdeithasol, i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol fel y'i diffinnir yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014'.*

5.122 Roedd yr adnoddau ariannol, a nodir yn chwech o'r ymatebion, yn her allweddol arall o ganlyniad i 'r baich cynyddol o waith gyda'r newid ffocws tuag at waith atal; gyda phryderon am natur tymor byr y cyllid hefyd yn cael ei gynnwys yn y categori hwn:

*'Cadarnhawyd symiau'r Cyllid Trosiannol yn hwyr yn y dydd, a arweiniodd at oedi o ran gallu recriwtio staff ychwanegol a chadarnhau blaenoriaethau ar gyfer gwariant'.*

5.123 Teimlid hefyd nad oedd y diwygiadau lles wedi helpu'r sefyllfa'n ariannol (pum ymateb), yn arbennig y newidiadau sydd ar y gweill i'r budd-dal tai ar gyfer y rhai o dan 35 oed:

*'Mae'r newidiadau sy'n gysylltiedig â Diwygio Lles wedi ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i ddatrysiadau addas i bobl sengl o dan 35 oed'.*

5.124 Her arall a gynhwyswyd mewn 6 ymateb oedd ailstrwythuro neu ddulliau newydd o weithio er mwyn ateb y galw (fel y trafodwyd uchod) a'r hyfforddiant cysylltiedig:

*'Roedd y ddeddfwriaeth newydd a'r dulliau o weithredu yn gofyn am set newydd o sgiliau i alluogi staff i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio / gweithdrefnau a oedd yn angenrheidiol ar y dechrau i redeg ochr yn ochr â'r hen ddeddfwriaeth, 'Roedd gofyn ailhyfforddi staff yn llwyr a darparu cefnogaeth ar y newidiadau a oedd yn drwm iawn ar adnoddau'.*

*Asesiad Cyffredinol*

5.125 Pan ofynnwyd iddynt roi eu barn ar p'un a yw'r Ddeddf ar y cyfan yn cael effaith gadarnhaol yn eu hawdurdod lleol ar gyfer pobl sydd angen cymorth digartrefedd, roedd 21 allan o 22 awdurdod lleol naill ai'n cytuno (13 ymateb) neu'n cytuno'n llwyr (8 ymateb),felly cytunwyd. Nid yw'r awdurdod lleol sydd ar ôl naill ai'n cytuno nac yn anghytuno .

**Crynodeb**

5.126 Yn gyffredinol, mae ymatebion awdurdodau lleol wedi dangos eu bod o blaid y newidiadau a gyflwynwyd o dan y Ddeddf, ac maent yn credu bod y newidiadau deddfwriaethol wedi cael effeithiau cadarnhaol. Ar yr un pryd, fodd bynnag, maent yn canfod bod y galw wedi cynyddu, mae achosion ar agor yn hirach a bu cynnydd yn eu baich gweinyddol. Mae awdurdodau lleol yn teimlo bod y dull atal yn gweithio, ac ni fu unrhyw gynnydd dramatig yn nifer y bobl sy'n cyflwyno gan awdurdodau lleol / trawsffiniol eraill. Fodd bynnag, nid oes unrhyw awdurdod eto wedi newid eu safbwynt ar fwriadoldeb, ac er bod rhai yn barod i adolygu eu dulliau, mae eraill yn fwy gofalus ynghylch newid y ffordd y maent yn gweithio ar hyn o bryd neu fe fyddai'n well ganddynt gynnal yr un safbwynt. Gan edrych yn benodol ar gamau yn y Ddeddf, mae canlyniadau'r arolwg yn dangos

*Gwybodaeth a Chyngor*

- Mae awdurdodau lleol yn credu bod y Ddeddf wedi bod o gymorth i wella eu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor.
- Mae bron pob awdurdod lleol yn defnyddio cynlluniau tai personol.
- Mae'n ymddangos mai'r grŵp penodol sydd wedi gweld y newidiadau mwyaf i'r gwasanaethau gwybodaeth a chyngor a gynigir iddynt yw'r rhai hynny sy'n gadael carchar neu lety cadw ieuenctid (drwy'r Llwybr Gadael Carchar).

*Cymorth i Atal Digartrefedd*

- Yn y mwyafrif helaeth o'r ardaloedd awdurdod lleol nid oes unrhyw newid dramatig wedi bod yn y nifer o bobl sy'n cyflwyno o awdurdodau lleol eraill / trawsffiniol
- Mae bron pob awdurdod lleol yn teimlo y bu cynnydd mewn gwaith atal ac yn gadarnhaol am ei effeithiolrwydd.

- Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ymgymryd â rhywfaint o waith atal pan fo'r bygythiad o ddigartrefedd yn fwy na 56 diwrnod, er bod y manylion yn amrywio fesul awdurdod lleol.
- Mae llai na hanner yr awdurdodau lleol wedi newid eu prawf cymhwyso agored i niwed o dan a71. Fodd bynnag, maent yn casglu mwy o wybodaeth i adnabod pobl sy'n agored i niwed ac yn ystyried diweddariad cyfraith achos.

*Cymorth i Sicrhau Llety*

- Bu cynnydd llawer llai yn y gweithgareddau y mae awdurdodau lleol yn eu gweithredu o dan gymorth i sicrhau.
- Mae adnoddau ariannol yn cael eu hystyried fel mater sy'n effeithio ar ddarpariaeth y cymorth sicrhau gwasanaethau, oherwydd natur dros dro Cyllid Pontio Llywodraeth Cymru a Chyllid Cefnogi Pobl, ynghyd â'r diwygiadau i fudd-daliadau tai.
- Mae argaeledd llety priodol yn fater allweddol, yn enwedig i bobl sengl. Er y gall awdurdodau lleol bellach gyflawni dyletswydd drwy'r sector rhentu preifat, nid yw'r cyflenwad wedi cynyddu.
- Dywedodd rhai awdurdodau lleol eu bod wedi gweld gostyngiad yn y defnydd o lety dros dro, ac y maent yn priodoli hyn i'w gwaith atal. Mae eraill yn credu bod eu defnydd o lety dros dro yn cynyddu a bod hyn fel canlyniad i'r angen am fwy o symud ymlaen a llety un ystafell wely.
- Bu cynnydd sylweddol mewn gwaith partneriaeth gyda phartneriaid ac asiantaethau yn cydweithio yn fewnol ac yn allanol.

*Dyletswydd i Sicrhau Llety*

- Mae'r tai cymdeithasol yn parhau i fod y brif ffordd y mae y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer y rhai sydd mewn angen blaenoriaethol pan fo a73 (dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ) yn dod i ben.
- Dim ond pump awdurdod lleol sydd wedi diystyru bwriadoldeb ar gyfer rhai grwpiau angen blaenoriaethol. Mae hyn wedi bod ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed a rhai sy'n gadael gofal. Mewn un achos, mae ar gyfer y rhai sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig.

- Mae pob un o'r awdurdodau lleol yn dweud nad oes unrhyw newid wedi bod yn eu safbwynt ynglŷn â bwriadoldeb. Fodd bynnag, mae nifer o awdurdodau lleol yn ymgysylltu â Shelter Cymru ynglŷn â hyn. Mae rhai yn adolygu eu sefyllfa, tra bod eraill eisiau mwy o amser i weld sut mae newidiadau o'r Ddeddf yn datblygu.

*Adolygiadau ac Apeliadau, Cod Canllawiau a Monitro*

- Er nad oes cofnodion cywir yn cael eu cadw bob amser ar adolygiadau, mae un awdurdod lleol yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o'r cyfanswm (gyda thros hanner y rhain yn llwyddiannus).
- Ymddengys fod gweithio gyda Shelter Cymru yn lleihau nifer yr adolygiadau ac apeliadau i nifer o’r awdurdodau lleol.
- Mae'n amlwg bod lle i wella o ran monitro cydraddoldeb. Nid yn unig yn yr ystod o nodweddion y mae data yn cael ei gasglu, ond hefyd sut y mae'r data yn cael ei ddadansoddi a'i wirio yn erbyn canlyniadau.
- Credir fod y Cod Canllawiau yn gyffredinol yn ddefnyddiol iawn. Awgrym nodedig yw cynnwys ‘scenarios’ neu astudiaethau achos i gynyddu cymhwysedd y canllawiau.

# 6. Canfyddiadau o’r Don Gyntaf o Gyfweliadau Defnyddwyr Gwasanaeth

6.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau defnyddwyr gwasanaeth a gafodd eu cyfweld am eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau digartrefedd.[16] Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng Tachwedd 2016 a Chwefror 2017. Fel y dangoswyd yn y bennod ar fethodoleg, cynhaliwyd 154 o gyfweliadau ar draws chwe ardal astudiaethau achos. O’r 154 cyfweliad a gynhaliwyd, yr oedd yr awdurdod lleol yn gweithio i atal digartrefedd mewn 31 achos, ac o gael hyd i lety i’r rhai oedd eisoes yn ddigartref mewn 97 achos. Yr oedd pedwar ar hugain o ymatebwyr wedi cael hyd i lety yn ddiweddar; fodd bynnag, yr oedd pawb a oedd wedi cael hyd i lety eu hunain yn y sector rhentu preifat yn parhau i fod ar y rhestr aros tai, a theimlant fod eu sefyllfa yn parhau i fod yn ansicr.

6.2 Gofynnwyd nifer o gwestiynau i ymatebwyr, a datgelir y canlyniadau yn ôl y themâu canlynol:

- Demograffeg
- Ffactorau sy’n arwain at ddigartrefedd
- Gwybodaeth ar sut i gael cyngor a chymorth digartrefedd
- Profiadau blaenorol o ddefnyddio gwasanaethau digartrefedd
- Anghenion cymorth a darparu gwasanaethau
- Safbwyntiau ynglŷn â’r gwasanaethau digartrefedd a phrofiadau hyd yn hyn
- Bylchau mewn darparu gwasanaeth
- Dyheadau ynglŷn â llety yn ystod y chwe mis nesaf
- Crynodeb o ganfyddiadau


**Demograffeg**

6.3 O’r 154 o gyfweliadau, yr oedd 99 ymatebwr yn wrywaidd, a 55 yn fenywaidd. Er nad oedd yn sampl gynrychiadol, mae’r mwyafrif o ddynion yn adlewyrchu’r cyfansoddiad o bobl sy’n cyflwyno eu hunain yn ddigartref neu eisoes yn cael cymorth gan wasanaethau digartrefedd yn ystod cyfnod y gwaith maes.


[16] Gweler Atodiad C am amserlen gyfweld defnyddwyr gwasanaeth

6.4 Roedd y mwyafrif o ymatebwyr (*n* = 149) yn dod o gefndir ethnig gwyn ac roedd rhif tebyg yn ystyried eu hunain yn Brydeinwyr (gan gynnwys rhai oedd yn ystyried eu hunain yn Saeson (*n* = 88) neu'n Gymry (*n* = 48)

**Ffigur 6.1: Oedran ymatebwyr**




**Ffigur 6.2: Cyfansoddiad teuluol**




6.5 Yr oedd pumdeg chwech o ddefnyddiwyr gwasanaeth yn gyn-droseddwyr, gyda dau ohonynt yn wynebu achosion llys ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai o'r rhain, roedd 39 yn gyn-droseddwyr yn y gorffennol a dim ond 17 o bobl oedd yn ddigartref ar y pryd oherwydd iddynt gael eu rhyddhau o garchar yn ddiweddar.

**Digartrefedd yn ôl ardal**

6.6 Wrth edrych ar y prif resymau am ddigartrefedd ar draws yr ardaloedd astudiaethau achos, daw gwahanol batrymau i'r golwg. Mae'r ffaith mai bychan oedd y sampl ym mhob ardal, fodd bynnag, yn atal unrhyw berthynas ystadegol arwyddocaol.

**Ffigur 6.3: Rhesymau am ddigartrefedd yn ôl ardal**




6.7 O’r canlyniadau cyntaf hyn, y mae’n dod yn amlwg tra bod profi anawsterau teuluol yn ffactor allweddol mewn achosi digartrefedd ar draws yr awdurdodau, mewn rhai ardaloedd y mae’n ail i’r weithred o droi deiliaid allan o dai rhentu preifat. Mae hyn yn arddangos effaith gref sefyllfa’r farchnad dai ar ddigartrefedd; canfyddiad a gefnogir gan astudiaethau eraill fel y Monitro Digartrefedd[17]. Y mae’n nodedig fod y nifer o ymatebwyr sy’n priodoli eu digartrefedd i faterion teuluol yn ymddangos yn llawer uwch mewn ardaloedd pan fo troi deiliaid allan o’r sector rhentu preifat yn isel. Mae canfyddiadau defnyddwyr gwasanaeth o sut y gallai’r ffactorau hyn fod yn gydgysylltiol yn elfen i’w archwilio ymhellach yn yr ail don o gyfweliadau meintiol. Mae’r gwahaniaethau rhwng troi allan gan ddarparwyr tai cymdeithasol hefyd yn arwydd o faes pwysig i’w archwilio ymhellach mewn cyfweliadau gyda defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth. O gymryd rhif ymatebwyr i ystyriaeth, mae amrywiaeth yn y rhesymau a roddir am ddigartrefedd yn finimol.

**Ffactorau sy’n arwain at ddigartrefedd**

6.8 ‘Roedd y rhesymau pam fod ymatebwyr yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref yn amrywio llawer. Mae’r siart isod yn dangos y prif resymau am ddigartrefedd ar draws y 154 cyfweliad, er mewn sawl achos canfu fod nifer o ffactorau yn rhyngweithio.

**Ffigur 6.4: Rhesymau pam fod unigolion yn wynebu digartrefedd (N = 154)**





6.9 Ar y cyfan, materion teuluol - neu berthynas deuluol yn chwalu - oedd y rhesymau mwyaf cyffredin y soniwyd amdanynt paham fod rhywun wedi dod yn ddigartref.

[17] Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. & Watts, B. (2015) *The Homelessness Monitor: Wales* London: Crisis.


Rhyddhau o fan sefydliadol (carchar yn bennaf, er bod y niferoedd hyn yn cynnwys tri ymatebwr o ganolfannau adferiad) oedd yr ail wahaniaeth o ran canran yn ôl rhyw. Cynhwysid sawl categori o dan "faterion teuluol" gan gynnwys: perthynas ramantaidd yn dod i ben yn ddi-drais; trais a chamdriniaeth; gwaharddiad rhieni; perthynas â phlant neu lysblant yn chwalu; a marwolaeth aelod o'r teulu. Cafodd dynion a merched brofiadau gwahanol o'r categorïau hyn i, gyda merched i raddau wedi eu dosbarthu'n weddol sefydlog ar draws y tri chategori cyntaf. Yr oedd dynion yn fwy tebygol o adael y cartref pan fo perthynas yn dod i ben, ac yn fwy tebygol o gael eu heithrio o'r cartref fel pobl ifanc. Dynion oedd pump o'r 11 ymatebwr a ddaeth yn ddigartref oherwydd dianc rhag trais a chamdriniaeth (archwilir hyn ymhellach isod).

6.10 Wrth edrych yn fwy manwl am y rhesymau dros ddigartrefedd yn ôl gwahaniaethau rhyw, mae sawl categori yn ymddangos fel pe bai ganddynt nifer tebyg o ddynion a merched; er enghraifft, troi allan o'r SRhP a throi allan o dai cymdeithasol. Fel y nodwyd uchod, mae gan faterion teuluol fwy o gyfartaledd o ddynion sy'n profi digartrefedd yn yr un modd â rhyddhau o sefydliad.

**Ffigur 6.5: Rhesymau pam fod dynion a merched yn wynebu digartrefedd (N = 55)**




**Ffigur 6.6: Dadansoddiad o broblemau teuluol ar gyfer dynion a merched**



*Perthynas yn chwalu a cham-drin domestig*

6.11 Cynorthwyodd y cyfweliadau i amlygu rhai o'r materion teuluol sydd wedi arwain ymatebwyr i gael cymorth gan yr awdurdod lleol. I'r mwyafrif o ymatebwyr, nid yw tor-perthynas wedi cynnwys trais neu gamdriniaeth; yn syml darganfu pobl na allent fyw gyda'i gilydd ddim mwy. Fel y mae'r graff uchod yn ei ddangos, i gyplau heterorywiol, fel arfer, y dyn oedd yn gadael fel y dengys y dyfyniadau canlynol:

> *'Dim ond gwahanu oddi wrth fy ngwraig nes i, tor-priodas. Ar y diwedd 'roeddwn i ar y stryd. Yr oeddem y cweryla yn aml. Dywedais i, "Di o ddim yn dda i'r plant. Mae'n rhaid i un ohonom ni fynd, ac yn amlwg ni all fod yn ti. Mae'n rhaid mai fi ydi o." - felly mi es'*

6.12 Fodd bynnag, doedd hyn ddim yn wir ym mhob achos fel y gwelir gan yr ymatebwyr benywaidd hyn:

> *'Mi wahanais i oddi wrth fy nghymar ac roedd ganddo ef y merched ac ati, ac mi ddiweddais i yn cysgu allan'.*
>
> *Fe chwalodd fy mhartneriaeth...'roedd o wedi cael hyd i rywun arall, ac mi feddyliais i, dyna hi. Dw i'n mynd. Doedd gen i unman arall i fynd. 'Roeddwn i'n aros hefo fy ffrindiau, ar soffa mam neu ar lawr. Nes i ddim sylweddoli fod 'na gymorth allan 'na i mi. Cyfeiriodd [ffrind i'r teulu] fi at [gorff cefnogi lleol] a'm cyfeiriodd wedyn i Opsiynau Tai'.*

6.13 Roedd y mwyafrif o rieni yr oedd eu plant wedi aros gyda'u cyn-gymar yn mynegi angen am fflat gydag o leiaf un neu ddwy o ystafelloedd gwely er mwyn gallu derbyn y plant yno a chynnal perthynas gyda hwynt o hyd.

6.14 Yr oedd un ar ddeg o ymatebwyr yn dianc rhag trais a chamdriniaeth ddomestig, gyda llawer yn symud i rywle arall yng Nghymru neu'r DU er mwyn byw mewn diogelwch ac osgoi cael eu darganfod neu eu cysylltu gan eu gyn-gymar treisgar:

> *'Mi redais i i ffwrdd rhag camdriniaeth ddomestig mewn [awdurdod lleol arall] a rhentu'n breifat ... yna, gafodd o hyd i mi. Felly adewais i'r fan honno a dod yma'.*

6.15 Mwyafrif bach iawn o'r ymatebwyr hyn oedd yn ferched, cyfanswm o chwech gyda phum goroeswr gwrywaidd. Erys y cyfanswm o bump yn fach, ond mae'n bosibl ei fod yn sampl sy'n dangos yr angen i gefnogi dynion sy'n dioddef o gamdriniaeth; edrychir yn fwy manwl ar hyn wrth edrych sut yr oedd ymatebwyr wedi cael profiad o ddarpariaeth gwasanaeth.

*Rhieni yn diarddel eu plant*

6.16 I bobl ifanc, yr anallu i fyw gyda'u rhieni oedd y rheswm pennaf dros eu digartrefedd. Cael eu gwahardd o gartref y teulu gan riant/rieni (gwaharddiad rhieni) oedd wedi sbarduno 19 allan o 38 ymatebwr o dan 25 mlwydd oed i droi at yr awdurdod lleol am gymorth. O'r rhain, 'roedd 14 yn wrywaidd, a phump yn fenywaidd. Yng ngeiriau un dyn ifanc:

> *'Tydi fy mam ddim eisiau fi o gwmpas bellach... Yn y bôn, mae hi wedi fy niarddel. Mae'n teimlo nad ydi hi eisiau i mi ddod yn ôl. Dw i wedi gofyn iddi ac mae hi fel hyn,"Na dwi ddim isio i chdi ddŵad yn ôl achos ti'n ddim byd ond traffath ac ati." Dim ond fi fy hun, ond mae gen i broblemau ADCG (ADHD), mae'n hunllef'.*

6.17 'Roedd rhai pobl ifanc wedi eu diarddel o'r cartref teuluol nifer o flynyddoedd ynghynt, ond ers hynny wedi methu â chael llety sefydlog:

> *'Mi ges i ffrae deuluol anferth. Fy mam a'm tad; dw i ddim wedi byw hefo nhw ers oeddwn i'n 15 mlwydd oed, bob amser i mewn ac allan o'r tŷ ac ati'.*


6.18 Tra 'roedd rhai pobl ifanc wedi cymodi â theulu ar y cychwyn, 'roedd mwy o wrthdaro yn creu mwy o broblemau ynglŷn â llety o bryd i'w gilydd:

> *'Ges i fy lluchio allan o dŷ fy rhieni ac 'roeddwn i'n byw ar fy mhen fy hun ac yna mi roddais y gorau i'm tenantiaeth am fy mod i wedi symud yn ôl at fy nhad ond wnaeth hynny ddim gweithio ac yn y diwedd ges i fy lluchio allan a doeddwn i ddim yn medru mynd yn ôl i ble yr oeddwn o'r blaen'.*

*Materion yn y sector rhentu preifat*

6.19 O'r 154 o ymatebwyr, yr oedd 33 yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref o ganlyniad i faterion gyda llety yn y sector rhentu preifat. Yr oedd bron i union hanner o'r rhain yn digwydd pan benderfynodd y landlord ddod â'r denantiaeth i ben fel y gwelir yn y siart isod.

**Ffigur 6.7: Rhesymau troi allan o'r sector rhentu preifat: n = 33**




6.20 Yr oedd naw allan o'r 16 wedi derbyn rhybudd swyddogol adran 21.[18] Roedd y rhesymau a roddwyd gan landlordiaid am y troi allan yn niferus, o landlordiaid yn gwrthod adnewyddu cytundeb, i'r rhai a oedd yn disgwyl symud yn ôl i'r llety, i'r ddau landlord a benderfynodd roi'r gorau i rentu eu heiddo yn hytrach na'i drwyddedu o dan y Cynllun Rhentu Doeth Cymru.

6.21 Yr oedd 12 tenantiaeth bellach wedi dod i ben neu ar fin dod i ben oherwydd amodau byw truenus. Mewn un achos 'roedd landlord preifat yn ceisio troi'r ymatebwr allan, unigolyn a oedd gan anableddau. Yr oedd hyn oherwydd nifer yr atgyweiriadau oedd eu hangen ar yr eiddo, a'r problemau o gyflawni hyn tra 'roedd tenant anabl yn parhau i fyw yno:

> *'Oherwydd yr atgyweirio sydd ei angen a'r ffaith fod rhai o'r atgyweiriadau sydd eu hangen – oherwydd fod gen i anableddau...efallai y bydd angen i'r llawr gael ei godi. Felly (mae'r landlord yn ) pryderu pe byddwn i'n aros yno tra mae hynny'n digwydd, fod rhywbeth yn mynd i ddigwydd i mi – does ganddo ni ddim lle arall i fynd iddo tra mae'r atgyweirio'n cael ei wneud'.*

[18] Mae hysbysiad Adran 21 yn caniatáu i landlord droi tenant allan ar ddiwedd eu Tenantiaeth Byrddaliol Sicr, boed yn denantiaeth am gyfnod penodol neu o fis i fis. Gweler https://www.gov.uk/evicting-tenants/section-21-and-section-8-notices.

6.22 Cwynodd ddeuddeg o ymatebwyr am faterion arwyddocaol yn ymwneud ag adnewyddu eiddo gan landlordiaid preifat. Gwnaethant y sylw fod hyn wedi eu gorfodi i edrych am lety newydd. Ni ellid byw yn nhŷ un teulu oherwydd rhesymau a oedd yn cynnwys asbestos, lleithder a charthion crai. Ers hynny, mae datganiad wedi cael ei wneud nad yw'r tŷ mewn cyflwr i allu byw ynddo. Teimlai ddau ymatebwr nad oeddynt yn ddiogel, nid oherwydd cyflwr yr adeilad, ond oherwydd anawsterau byw mewn llety a rennir. Hwn oedd yr unig fath o lety yr oeddynt wedi gallu ei gael yn y sector rhentu preifat.

*Diffyg llety ar ôl cael eu rhyddhau o garchar/ sefydliadau eraill.*

6.23 Yr oedd ugain o ymatebwyr yn ddigartref oherwydd diffyg llety ar ôl cael eu rhyddhau o amryfal sefydliadau. Ym mhob achos bron, carchar oedd hwn. Fodd bynnag, yr oedd tri achos pan fo pobl wedi cael eu rhyddhau o ganolfannau adferiad heb fod â llety i fynd iddo. I'r rhai a gafodd eu rhyddhau o garchar, mynegodd y mwyafrif na chawsant gymorth yn ymwneud â llety nes iddynt fod wedi gadael y carchar. Mynegir hyn yn glir isod pan aeth unigolyn i'w awdurdod lleol am y tro cyntaf:

> *'Wel, fe ddes i allan o garchar y bore 'ma. Does gen i unman i fyw'.*

6.24 Pan fo ymatebwyr wedi cael eu rhyddhau o garchar, eu swyddog prawf oedd y ffigwr allweddol i lawer o'r dynion gan ei fod yn eu cyfeirio am lety.

6.25 Yr oedd merched ychydig yn fwy tebygol o fod wedi cael hyd i gymorth neu wedi cael eu cyfeirio'n uniongyrchol at hostel tra yr oeddynt yn y carchar. Yr oedd un ferch a gafodd ymweliad gan Shelter yn y carchar wedi gallu cysylltu â'r awdurdod lleol cyn cael ei rhyddhau:

> *'Mi ddois i allan o garchar, mi wnes i. Felly, yr hostel oedd fy opsiwn olaf i er mwyn dod adref yn gynt. Yr oeddwn i'n ffonio o'r carchar bob wythnos, ffonio [staff y cyngor ]. [ Staff y cyngor ] plîs, plîs, mae angen i mi fynd adref at fy mab. Dw i angen cyfeiriad sefydlog'.*

6.26 Yr oedd sawl ymatebwr ag ôl-ddyledion rhent a threth y cyngor ar denantiaethau yr oeddynt wedi eu gadael fel canlyniad i gyfnod yn y carchar. Yr oedd hyn yn ei gwneud yn fwy anodd i gael tai cymdeithasol. Yr oedd un ymatebwr wedi colli ei lety dros dro fel canlyniad i fynd i garchar ac o'r herwydd wedi cael ei ystyried yn ddigartref yn fwriadol ac yn anghymwys i gael cynhorthwy ar ôl ei ryddhau:

*'Yr oeddwn mewn llety dros dro am tua dau fis, ond bum mis cyn hynny cefais ychydig o drafferth gyda'r heddlu. Mi gymerodd o tua chwe mis iddynt ei ddatrys, i fynd i'r llys, felly 'roeddwn yn y llety dros dro; treuliais fy nau ddiwrnod olaf yno. Yr oeddwn yn y llys ddydd Mawrth ac yr oeddwn i fod i arwyddo am fy fflat, wedyn, ar y dydd Iau. Wrth gwrs, cefais fy nedfrydu ar y dydd Mawrth. Mi wnaethant benderfynu fy mod wedi gwneud fy hun yn ddigartref a ni wnawn nhw ddim i mi rŵan ac ers i mi ddŵad allan o'r carchar...Dw i wedi bod yn ddigartref, yn cysgu ar y stryd'.*

*Troi allan o dai cymdeithasol neu hosteli*

6.27 Yr oedd pymtheg o ymatebwyr wedi cael eu troi allan / yn cael eu troi allan o dai cymdeithasol neu hosteli am nifer o resymau. Yn bennaf, 'roedd hyn am dorri tenantiaeth: y mwyafrif oherwydd gwahanol ffurfiau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a arweiniodd at gwynion gan gymdogion, ymddygiad afreolus neu faterion yn ymwneud â'r heddlu. Mewn un ardal benodol, yr oedd nifer o ymatebwyr wedi cael helynt personol gyda rheolwyr lloches:

*'Yn y bôn, jyst teimlo fod rhywun yn cymryd [ mantais ohonaf i] wnes i. Mewn ffordd gollais i reolaeth ohonof i fy hun, gofynnodd y staff i mi fynd i eistedd, i ymdawelu...Yn y diwedd es i amdano fo a daethant hwy rhyngom ni a'm lluchio i allan ac wedyn mi ddaeth yr heddlu oherwydd fy mod i'n taro'r biniau tu allan.. yn ceisio ymdawelu'.*

6.28 Siaradodd dri o ymatebwyr ar draws y gwahanol ardaloedd astudiaethau achos am yr anawsterau yr oeddynt yn eu hwynebu fel canlyniad i ymddygiad blaenorol. Yr oeddynt yn teimlo fod eu sefyllfa bersonol yn parhau oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi ymddiwygio:

*'Dros y pedwar mis diwethaf dw i wedi bod yn ceisio cael lle ganddyn nhw a, fel y dywedais i, oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn 2014 maen nhw wedi fy labelu i fel deiliad anaddas...jyst pobl yn dŵad i'm tŷ i oedd o. Mi ddywedais i, does dim byd gwrthgymdeithasol .. dim ond ffrindiau yn dŵad i'r tŷ, ac mi wnaethon nhw ei ystyried o fel ymddygiad gwrthgymdeithasol ... Maen nhw'n parhau i ailadrodd hynna; parhau i ailadrodd hynna, wyddoch chi. Dw i'n ddeiliad anaddas a hynny, wyddoch chi, am fod gen i lawer... Dw i wedi cael cynnig gwneud cyrsiau hefo'r heddlu a phethau felly ac mae'n ymddangos nad oes unrhyw un yn fy nghymryd o ddifri'.*

*Trefniadau byw ansicr*

6.29 Yr oedd naw o bobl yn profi trefniadau byw ansicr, dim oherwydd unrhyw fath o argyfwng fel y disgrifiwyd uchod, ond yn hytrach nid oeddynt wedi llwyddo i gael llety sefydlog. Yr oedd hyn yn cynnwys pobl a oedd yn mynd o un soffa i'r llall neu'n byw dros dro mewn ystafell sbâr yng nghartref ffrind neu aelod o'r teulu a chael eu hunan yn analluog i sicrhau llety parhaol.

**Materion Trawsbynciol**

*Ôl-ddyledion rhent, cyflogau isel a thoriadau budd-daliadau*

6.30 Aeth pedwar ymatebwr yn ddigartref oherwydd eu hanallu i dalu'r rhent a'r ddyled a oedd canlyniad hyn, ond 'roedd gan tua 25 faterion a oedd yn ymwneud ag ôl-ddyledion rhent yn ogystal â'u prif resymau dros ddigartrefedd ar adeg y cyfweliad. 'Roedd gan un ôl-ddyledion rhent ers sawl blwyddyn cyn hynny, ac ni allai gael hyd i unrhyw ffordd i'w talu. Iddynt hwy, 'roedd aros mewn hostel yn cael ei ystyried yn gam angenrheidiol er mwyn sicrhau eu cartref eu hun:

> *'Ar hyn o bryd, dw i wedi bod yn ddigartref oherwydd ôl-ddyledion rhent o flynyddoedd yn ôl. Yr oeddwn yn byw hefo fy mrawd, yn mynd i'm gwaith ac 'roeddwn yn gweithio [i] asiantaeth a nes i jyst - weithiau ni allwn dalu'r rhent ...a doeddwn i ddim yn gwybod am y costau cudd yr oeddynt yn eu hychwanegu... Dw i wedi dŵad yn ôl yma oherwydd nes i ddeffro un diwrnod a sylweddoli mai dyma'r unig ffordd dw i'n mynd i gael fy nghartref fy hun'.*

6.31 Aeth defnyddiwr gwasanaeth arall yn ddigartref ar ôl cael ôl-ddyledion rhent wedi i'r 'dreth ystafell wely' gael ei chyflwyno:

> *'Y dreth ystafell wely oedd o gan amlaf, oherwydd 'roedd arnaf i £1,300 o dreth ystafell wely iddynt...'Roedd gen i fy nhŷ am 13 o flynyddoedd ac yna mi es i i ddyled gyda'r dreth ystafell wely ac wedyn mi wnaethon nhw fy rhoi i ar y stryd'.*

6.32 Amlygodd bedwar ymatebwr y croestoriad o bolisïau budd-daliadau lles a'u digartrefedd. Aeth un person yn ddigartref oherwydd amseriad ei daliadau budd-dal gan nad oedd y rhain yn cael eu derbyn bob amser ar yr un diwrnod, ac yn aml ar ôl i'w rhent fod i gael ei dalu, felly 'roedd ei daliadau bob amser yn hwyr. Pan wnaeth yr asiantaeth gosod ofyn am daliad er mwyn newid y dyddiad yr oedd rhent i gael ei dalu, gwrthododd yr unigolyn hwn ac fel canlyniad gofynnwyd iddo adael yr eiddo. Mewn achos arall, pan ofynnwyd paham oedd y teulu mewn hostel, atebodd y rhiant ifanc yn syml, "Mi ges i swydd." O ganlyniad i'r swydd ran-amser newydd hon, tynnwyd eu budd-dal tai yn gyfan gwbl, a dechreuasant gael trafferth i fforddio cynnal eu tenantiaeth. Ar ôl colli'r swydd honno, gosododd y ganolfan waith sancsiwn arnynt am ddeuddeg wythnos lawn, ac achosodd hyn iddynt golli eu cartref. Disgrifiodd y sefyllfa, ychydig cyn iddynt gael eu troi allan:

> *'Fedrwn i ddim talu fy rhent. Weithiais o allan: ar ôl talu'r rhent mi fuasai gen i £8 y mis. Felly gwnaeth ôl-daliadau rhent gynyddu ac fe wnaethant ein troi allan'.*


*Materion yn ymwneud ag iechyd meddwl*

6.33 Mynegodd wyth ymatebwr fod salwch meddwl difrifol, ac i un arall ei iechyd corfforol (a arweiniodd i broblemau iechyd meddwl), wedi gorfodi iddynt gael cymorth gan wasanaethau digartrefedd. Yn wir, yr oedd problemau iechyd meddwl yn nodwedd gyffredin i nifer sylweddol o ymatebwyr gan fod 59 o bobl wedi siarad yn agored am faterion iechyd meddwl yr oeddynt wedi cael diagnosis ohono, ac yn derbyn triniaeth o'i herwydd. O'r rhain, yr oedd cyfanswm o bump wedi cael diagnosis o Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD). Dewisodd nifer o ymatebwyr beidio ag ateb y cwestiwn ynglŷn ag oedd ganddynt broblemau iechyd meddwl. I lawer wnaeth ateb, fodd bynnag, roedd materion megis problemau iechyd meddwl yn cydgysylltu gyda chamddefnyddio alcohol a sylweddau. Bydd anghenion iechyd meddwl ymatebwyr yn cael ei drafod mewn mwy o fanylder isod.

**Gwybodaeth ar sut i gael cyngor a chymorth digartrefedd**

6.34 'Roedd pumdeg dau o ymatebwyr yn deall sut i ddefnyddio cyngor a chymorth yn dilyn cael eu cyfeirio gan ddarparwyr gwasanaeth eraill. Yr oedd y rhain yn cynnwys gweithwyr cefnogi, timau iechyd meddwl, Shelter Cymru, cyrff trydydd sector eraill, swyddogion yr heddlu, swyddogion prawf, a meddygon teulu.

**Ffigur 6.8: Sut mae pobl yn gwybod lle i fynd i geisio cymorth: N = 151**




6.35 ‘Gwyddai’ ran gyfartal o ymatebwyr i ddod i’r awdurdod lleol am gymorth neu roeddent wedi clywed 'ar lafar' oddi wrth deulu, ffrindiau, neu bobl eraill a oedd yn cysgu allan:

> *'Wel i ddweud y gwir, ‘roedd o’n wybodaeth gyffredinol. Mi feddyliais. Ar ôl clywed gymaint am gynghorau, felly mi edrychais ar y rhyngrwyd m rifau ac yn y blaen a gwahanol adrannau’.*

6.36 Fodd bynnag, ar gyfer rhai defnyddwyr gwasanaeth yr oedd dysgu lle i fynd ar lafar wedi cymryd peth amser. Fel yr eglurodd un ymatebwr:

> *Doeddwn i ddim [yn gwybod lle i fynd am gymorth] Mi wnes i dreulio tri mis a hanner mewn cae ...' Yn y bôn ffrind ddywedodd hyn wrthyf. Sbïais i fewn iddo wedyn a dechrau ymgyfeirio '.*

6.37 Yr oedd saith o ymatebwyr wedi edrych ar y rhyngrwyd am le i fynd am gymorth ynglŷn â digartrefedd, neu wedi gofyn i rywun arall wneud hynny ar eu rhan. Dibynnodd ychydig o ymatebwyr ar gyngor oddi wrth eraill a oedd wedi bod, neu ar y pryd, mewn sefyllfa debyg. Daeth rhai o'r rhain yn uniongyrchol at un o'r hosteli neu at yr awdurdod lleol i ofyn yn unionyrchol i gael eu rhoi mewn hostel arbennig neu fel arall geisio osgoi gwasanaethau digartrefedd yn gyfan gwbl:

*'Mae pobl ddigartref yn siarad ymysg ei gilydd, Darganfod am [yr hostel], wnes i gab ffrind, ie'.*


*'Nes i ddarganfod [yr hostel] fy hun, ond gofynnais i [yr awdurdod lleol] os allwn i ddod yma. Wnaethon nhw ddim sôn wrthyf i amdano'.*

6.38 Roedd tri ymatebwr wedi gwybod ble i fynd am gymorth, ond gwnaethant fynegi fod angen llawer iawn o amynedd er mwyn cael cymorth gan y gwasanaeth tai. Disgrifiodd un person y broses a wnaethant ei ddilyn i gyrraedd rhywun a allai eu cynorthwyo:

*'Wel mewn gwirionedd dim ond trwy fynd o un lle i'r llall, oherwydd, fel y dywedais, ar y cychwyn, doedden nhw ddim cymorth o gwbl i mi. Rhoi'r gorau i ffonio..ces wybod fod gen i ddim siawns o gael dim byd oherwydd mae 'na brinder tai a hyn a'r llall; gweld ychydig o lefydd gwag ond [person staff gwasanaethau tai] a'r bobl eraill wedi bod yn fy nghynorthwyo wedi bod yn ardderchog'.*

6.39 Eglurodd pedwar o bobl eu bod yn gyfarwydd hefo'r dull roedd gwasanaethau digartrefedd yn gweithredu oherwydd gwybodaeth flaenorol o systemau o'r fath. Mynegodd pob un o'r bobl hyn eu bod yn amheus y byddai eraill yn meddu ar yr un lefel o ymwybyddiaeth, ac yn ogystal gwnaethant fynegi fod cymorth yn anodd i'w gael. Yn ogystal, yr oedd gwahaniaethau rhwng awdurdodau yn nhermau sut yr oedd pobl yn gwybod lle i gael cyngor a chymorth digartrefedd:

**Ffigur 6.9: Sut mae pobl yn gwybod lle i fynd i geisio cymorth yn ôl awurdodau:**




6.40 Mae'r ymateb o'r don gyntaf o gyfweliadau yn dangos arwyddocâd cyfeirio at wasanaethau digartrefedd mewn ardaloedd gwledig. Yr oedd gwybodaeth ar lafar i hyrwyddo gwasanaethau yn ymddangos yn bwysicach mewn ardaloedd trefol. Yr oedd hefyd yn amlwg fod gan bobl mewn ardaloedd trefol well dealltwriaeth o ble i

droi am gymorth. Bydd gwahaniaethau eraill yn cael eu harchwilio'n llawn yn y cyfweliadau dilynol.

**Profiadau blaenorol o ddefnyddio gwasanaethau digartrefedd**

6.41 O'r 154 wnaeth ymateb, dim ond 54 oedd wedi defnyddio gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol yn flaenorol. O'r rhai a oedd wedi troi at awdurdod lleol, cymysg oedd profiadau'r rhai wnaeth ymateb. Yr oedd llawer yn teimlo fod y gefnogaeth a dderbyniasant yn ddefnyddiol, ac wedi cael cymorth i gael gwybodaeth am dai parhaol. I'r rhai hynny a oedd wedi colli eu llety ers hynny, roedd y rhesymau yn amrywiol ac yn amrywio o dorperthynas i amser a dreuliwyd mewn carchar ac ôl-ddyledion rhent. Amlygodd wyth o bobl rai materion yn ymwneud ag ansawdd a lleoliad y llety a dderbyniasant:

*'Doedd y lle y rhoesant fi ynddo ddim mewn gwirionedd yn ddelfrydol a fe'i caewyd gan arolygydd iechyd a diogelwch ... gawson nhw le lawer gwell; mewn gwirionedd fflat ydi o ond doedd o ond dros dro. Roeddwn i yno am dros ddwy flynedd '.*

*'Wnaethon nhw roi cymorth i mi hefo llety [ond] roedd o filltiroedd allan o'r ffordd. Yr oedd o bum milltir i ffwrdd a doeddwn i ddim eisiau byw mewn pentref bach, allan o'r dref oherwydd buasai'n costio fwy i mi i gael i [tref / canol y ddinas] ac felly'.*

6.42 I'r rhai hynny a oedd gan brofiad blaenorol o ddefnyddio gwasanaethau roedd nifer fechan o ymatebwyr yn datgan bod eu profiad presennol yn well na'u profiad blaenorol. Fel y dywedodd un person:

*'A dweud y gwir, o'i gymharu â'r hyn yr oedd yn y gorffennol, be dwi'n feddwl y tro diwethaf, dwy, dair blynedd yn ôl, os nad mwy. ..mae'n ymddangos yn wahanol iawn, yn fwy gobeithiol, gwell'.*

6.43 I un arall, y newid oedd ei fod yn awr yn derbyn cymorth:

*'Wel, wnaethon nhw ond gwneud dim y tro diwethaf. Gwrthod wnaethon nhw. Yr oeddynt - dweud mod i'n fwriadol yn ddigartref am fy mod wedi mynd i garchar*

6.44 Fodd bynnag, mynegodd un wnaeth ymateb am yr heriau oedd yn eu hwynebu fel canlyniad i'r pwyslais newydd ar 'wneud popeth eich hunan', ac o dan y system flaenorol, buasai mwy o gefnogaeth i'w gael:

*'Y tro diwethaf y cefais i brofiad o ddigartrefedd oedd ar ddechrau'r mileniwm, felly rydych chi'n son am 2001. Yr adeg honno, darganfyddais fod 'na gymorth real, ymarferol i'w gael. Rwy'n dioddef o anawsterau dysgu a phroblemau sy'n ymwneud â iechyd meddwl, felly i gael fy hun yn y sefyllfa honno a chael fy mwydo: "Ydych, rydych chi mewn perygl o fod yn ddigartref, 'da ni eisiau eich helpu chi." Mewn gwirionedd, yr hyn sydd angen i chi ei wneud yw gwneud yr holl helpu eich hun, a'r hyn ydych yn ei gael mewn cymorth yw rhywun yn eich atgoffa i helpu eich hun. Dyna faint y cynhorthwy. Yn ôl yr hyn rydw i'n ei gofio, buasai mwy o gymorth a'ch cyfeirio chi at stoc dai sydd yn cael eu rhoi un ochr, neu gymorth ychwanegol. Dwi'm yn teimlo fy mod wedi cael unrhyw gymorth ychwanegol. Yr hyn gefais i oedd anogaeth i helpu fy hun, ac rwy'n teimlo bod hynny'n newid mawr ers i mi orfod defnyddio canolfannau digartrefedd'.*

6.45 Roedd person arall a oedd wedi cael rhyddhad o'r blaen hefyd yn sylwi ar y dirywiad mewn cymorth oherwydd newid yn ei hamgylchiadau. Cymharodd ei phrofiad cadarnhaol blaenorol o fod yn fam sengl yn cael at wasanaethau digartrefedd a chael ei rhoi mewn hostel, i weld ei hun yn ddigartref ychydig o flynyddoedd yn ddiweddarach tra roedd hi gyda'i chymar a dau o blant, ac yn derbyn llai o gymorth:

*'Yr oedd o oherwydd fy mod yn meddwl fy mod ar fy mhen fy hun. Roeddwn yn fam sengl. Doeddwn i ddim yn gweithio, felly ces i'r holl gymorth. Pan ddois yn ôl y tro yma, roedd yn fi a fy mhartner. Yr oedd y ddau ohonom yn gweithio ac roeddent yn credu y dylsem ni allu fforddio ein rhent preifat ein hun, ar gyfer tair ystafell wely, ac ni allwn. Ond petawn yn sengl ac ar fy mhen fy hun buasent wedi rhoi budd-dal tai, tair ystafell wely i mi. Mi fuaswn wedi cael mwy o gymorth'.*

6.46 Yr oedd rhai o'r bobl ifanc a oedd wedi derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol, neu mewn gofal maeth, neu a oedd wedi cael profiad o ddigartrefedd yn flaenorol, yn awgrymu 'drws troi' yn nhermau'r nifer o gyfnodau yr oeddynt wedi byw mewn llety hostel. Mynegodd un person ifanc:

*‘Oeddwn, roeddwn i yn [cartref gofal]..ond roedd hynny pan oeddwn i’n 18 oed ac roeddwn i’n rhedeg o ffwrdd o gartrefi gofal, a phethau felly, mae gen i gysylltiad dal o gwmpas yn fan yna…yn y bôn, dwi wedi bod yn ddigartref ar hyd fy oes’.*

6.47 Disgrifiodd ymatebydd arall ei brofiadau pan oedd yn ei arddegau, a’r diffyg cymorth a gafodd bryd hynny. Wyth mlynedd yn ddiweddarach yr oedd yn ôl mewn hostel:

*'Dwi'n cofio pan oeddwn i wedi cael fy nhaflu allan yn 16 oed ... roedd pump ohonom wedi cael ein taflu allan. Es i fel hyn ac mi ddywedson nhw "da chi ddim yn edrych yn ddigartref a ‘does gennym ni ddim dyletswydd i ofalu amdanoch chi" sy’n anghywir. Mae'n teimlo eu bod ond yn helpu pobl sydd a [phroblemau] iechyd meddwl neu sydd wedi bod yn y carchar. ‘Dio’m yn iawn… roeddwn i’n 16. Mi es i i'r gwasanaethau cymdeithasol gyda fy mam a nhad ac yn y bod mmi ddywedon nhw wrth fy nhad mai o di’r rheswm dwi fel hyn. Es i nôl i fyw hefo fo, ges i fy lluchio allan eto am byth, ac o’n i ond newydd gydag ef, yr wyf yn got cicio allan eto a oedd yn barhaol, ac yr oeddwn wedi pasio 17, bron yn 18, a alle nhw wneud dim i mi. Roeddwn i a' mrawd yn gwersylla mewn ar fferm. Ydy, mae o'n fywyd ofnadwy’.*

6.48 Atebodd gant o ddefnyddwyr gwasanaeth, 'na' yn syml pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi cysylltu â'r awdurdod lleol o’r blaen. Ar gyfer un neu ddau ym mhob ardal, cafwyd ymateb arall a amlygodd yr effaith arnynt hwy o fynd yn ddigartref a hefyd pa mor anodd oedd gorfod mynd i ofyn am gymorth. I rai yr oedd hyn oherwydd yr oeddynt bob amser wedi medru cynnal eu hunain:

*'Na, ‘da ni wedi gweithio erioed, wedi gwneud bob amser - ond mae o’n ddigon i’ch hurtio’.*

6.49 I eraill, yn syml, oherwydd roeddent yn ofni gwybod beth fuasai’n digwydd, yng ngeiriau defnyddiwr gwasanaeth arall:


*‘Cymorth, na nid o’r blaen, na, y tro cyntaf felly mae o’n ddychrynllyd iawn’.*

6.50 Yn amlwg, nid oedd y mwyafrif o ymatebwyr wedi gofyn am gymorth o’r blaen ac ‘roedd y profiadau a fynegwyd yma yn gadarnhaol a negyddol fel ei gilydd.

**Anghenion cymorth a darparu gwasanaethau**

6.51 Roedd yr atebion a roddwyd i'r cwestiwn am anghenion cymorth yn aml yn ochelgar, neu yr oedd y rhai a wnaeth ymateb eisiau cadw union gyflwr y problemau yr oeddynt yn ei wynebu yn breifat. O'r 99 ymatebwr a oedd yn teimlo'n gyfforddus yn siarad yn agored am y mathau eraill o gymorth yr oeddynt yn ei dderbyn, nododd y mwyafrif fod y rhain yn cael eu darparu gan wasanaethau eraill. Y prif angen oedd ym maes iechyd meddwl, gyda 59 o ymatebwyr yn disgrifio hyn fel problem. Yr oedd eu cefnogaeth yn cynnwys cynghori, ymyriad gan nyrsys seiciatrig a thimau cefnogi iechyd meddwl. Yr oedd yn amlwg i'r tîm ymchwil a oedd yn gwneud y gwaith maes fod problemau iechyd meddwl yn elfen i fwy o ymatebwyr na'r rhai hynny a fynegodd hyn gan fod llawer o bobl yn arddangos arwyddion o broblemau iechyd meddwl. Yr oedd cymorth i reoli afiechyd corfforol hefyd yn fater arwyddocaol i ddefnyddwyr gwasanaeth, fel yr oedd cymorth gyda budd-daliadau. Mae'r rhain yn cael eu dangos yn y graff isod fel canrannau o'r cyfanswm y rhai wnaeth ymateb.

**Ffigur 6.10: Canran yr ymatebwyr yn benodol yn datgan anghenion cymorth sylfaenol**



6.52 I chwe ymatebwr, yr oedd angen lefel uchel iawn o gymorth i ddysgu sgiliau sylfaenol neu ymdrin â bywyd bob dydd. Er enghraifft, yr oedd rhai pobl angen cymorth gyda rheoli cyfrif banc, talu biliau, a dysgu sut i goginio. Nododd un wnaeth ymateb sut oedd ei weithiwr cefnogol wedi mynd gyda hwynt i bob un o'r banciau yn y dref mewn ymgais i ganfod sut y gellid talu biliau heb dystiolaeth o gyfeiriad. Disgrifiodd un neu ddau o ymatebwyr ym mhob ardal broblemau parhaus gydag alcohol neu gyffuriau. I rai ardaloedd yr oedd hyn ychydig yn uwch, tra nododd bedwar person broblemau gyda hapchwarae. Anghenion cymorth eraill a nodwyd oedd cymorth gydag iechyd ac anabledd corfforol, cymorth i gael budd-daliadau, cymorth i gael bwyd, cymorth gyda dyledion, a chymorth gydag achosion llys.

*Cymorth Iechyd Meddwl*

6.53 Yr oedd y bobl hynny a ddioddefai gyflyrau iechyd meddwl dwys, megis Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD), yn aml yn ymddangos fel pe baent yn defnyddio cymorth ffurfiol ac arbenigol. Mynegodd rai pobl eu bod yn rheoli eu cyflwr, ac ymddangosai fod y mwyafrif yn wybodus am y math o gymorth yr oeddent ei angen. Yr oedd pump o ymatebwyr ar draws y gwahanol ardaloedd wedi cael diagnosis o ASWT (PTSD), dau ohonynt yn gyn-filwyr. Nododd un o'r rhain pa mor anodd oedd cael cefnogaeth ddigonol:

> *‘I fod yn onest, dwi’n mynd i le gwell nag oeddwn i, oherwydd roeddwn i’n arfer dioddef o anhwylder straen wedi trawma a dwi wedi gorfod cysylltu ag elusennau’r fyddin oherwydd nid oedd GIG ar gael ar gyfer darparu'r gefnogaeth roeddwn i'w hangen i’w drin ... Felly, ie. Y peth arall amlwg nad yw llawer o bobl yn ymwybodol ohono yw Cyfamod y Lluoedd Arfog sydd, i fod yn deg, y ferch oedd yn delio â mi, mi wnaeth hi awgrymu i mi ond dwi ddim yn meddwl fod llawer o bobl sy’n gweithio i’r cynghorau yn ymwybodol ohono ac os ydynt, beth yn union mae’n ei olygu. Felly, dwi’n meddwl fod hynny'n ychydig o addysg iddynt hwy’.*

6.54 Fodd bynnag, nid oedd y person hwn yn meddwl y buasai'n bosibl cael cymorth gan y GIG heb gartref sefydlog:

> *‘Does gen i ddim cyfeiriad fel y cyfryw ... Allwch chi ddim cofrestru gyda meddyg teulu heb gyfeiriad'.*

6.55 Yn yr un modd, mynegodd ddefnyddiwr gwasanaeth arall yr effaith negyddol a gafodd eu sefyllfa ar ei iechyd meddwl cyn iddynt ddarganfod llety:

> *‘Mi effeithiodd o fi’n wirioneddol, o ran pryder a phopeth. Yr oeddwn ar gryn dipyn o feddyginiaeth yn ystod y cyfnod hwnnw’.*

6.56 Mynegodd chwe ymatebwr nad oeddynt yn derbyn unrhyw gymorth i gyflwr iechyd meddwl.

6.57 Disgrifiodd pobl eraill yr angen am fwy o sensitifrwydd i lefelau o gymorth ‘roedd pobl ei angen ynglŷn â phroblemau iechyd meddwl. Yr oedd hyn wedi ei fframio mewn perthynas â buddioldeb cael gweithiwr cefnogol yn nhermau sicrhau rhyw fath o gynnydd, fel y dywedodd un ymatebwr:

> *'Dwi’n meddwl pan yr ydych ar eich pen eich hun, da chi ddim fel petaech chi’n cael i unman ond pan mae gennych chi’r gweithiwr cefnogol gyda chi, mi ydach chi’.*

6.58 Tra cyfeiriodd yr ymatebwr hwn i ‘alluogwr’, soniodd eraill am y 'rhwystrau' fel y teimlai sawl person a oedd yn dioddef o gyflyrau iechyd meddwl neu gorfforol yn aml nad oedd staff digartrefedd awdurdodau lleol yn eu hystyried ddigon. Dywedodd un ymatebwr nad oedd hi’n ymddangos fod staff yn fodlon gyda diagnosis a phresgripsiwn oherwydd yr oeddynt angen eglurhad mwy manwl. Soniodd person arall am frwydro gyda chyfarwyddiadau i gasglu tystiolaeth a ofynnwyd amdano gan staff awdurdodau lleol, oherwydd eu cyflwr:

> *‘Mewn gwirionedd does 'na ddim cymorth i’w gael oherwydd mai gan rai pobl broblemau iechyd meddwl ac ymdrechu’n galed yn gwneud rhai pethau, wyddoch chi’.*

6.59 Mynegodd saith ymatebwr bryder am bobl digartref mwy bregus eraill, gan arddangos yr anawsterau posibl fod pobl gyda phroblemau iechyd meddwl yn gorfod eu hwynebu:

> *'Yr oeddwn i’n lwcus iawn, fy mod wedi gallu sortio pethau fy hun. Nes i drafaelio 20 milltir o ble roeddwn i’n byw ac mi ddiweddais i fyny’n dyblu faint o rent oeddwn yn ei dalu i’r landlord, ond mi nes i sortio hynny fy hun. Petawn i ddim wedi gallu gwneud hynna, gallwn fod wedi bod yn cysgu allan. Ar ddiwedd y dydd, y prif achos yw’r stoc tai, ond hefyd dwi’n meddwl fod y cynghorau yn torri eu gwasanaethau, ac mae llai a llai o amser ar gael i bobl hefo problemau. Dwi*

*ond yn gobeithio bod pobl ddim yn disgyn drwy'r bwlch. Petai rhywun yn llai abl na fi fasa rhywun ddim yn gallu helpu eu hunain'.*

*Cefnogaeth Iechyd Corfforol*

6.60 Ar draws pob ardal astudiaeth achos, dyma oedd yr ail o ran angen am gymorth a wnaeth arddangos gyda 34 o bobl o bob ardal yn dioddef o gyflwr iechyd hirdymor ac angen gofal arbenigol: er enghraifft: ffitiau, strôc ac anableddau corfforol.

6.61 Disgrifiodd bump o ddefnyddwyr gwasanaeth yr anhawster o gynnal gofal a chymryd meddyginiaeth yn gyson tra mewn hostel neu gysgu allan:

*'[Dwi'n cymryd] 18 o dabledi bob bore. Dwi'n mynd i lawr [at y fferyllydd] i'w cael nhw. Dwi wedi gorfod mynd lawr i'w nôl nhw achos maen nhw'n cael eu dwyn allan o' mag yn y lloches nos am eu bod i gyd yn defnyddio heroin neu'n defnyddio cyffuriau, gwahanol gyffuriau neu ddiod neu beth bynnag. Dwi'n mynd i'w nôl bob bore rŵan a dwi di cael pres wedi ei ddwyn o'm mag i yno'.*

*Cymorth i gael budd-daliadau*

6.62 Gwnaeth dau ar hugain o bobl fynegi eu bod wedi cael cymorth i gael budd-daliadau ac i'w cynorthwyo i sylweddoli beth oedd yn bosibl iddynt ei gael. Dywedodd rai o'r rhain fod y cymorth hwn wedi bod yn anodd ei gael ac yn anodd ei ddeall yn nhermau fframwaith budd-daliadau a'u cymhwysedd hwy i'w dderbyn. Mynegodd un ymatebwr nad oedd yn dall ddim yn teimlo ei fod yn gwybod pa gymorth yr oedd ef ei angen nag yn gymwys i'w gael:

*'Nid wyf yn gwybod [beth sy'n digwydd], i fod yn deg. 'Sgen i ddim syniad'.*

6.63 Nododd ymatebwr mewn sefyllfa debyg ei fod yn teimlo rhyddhad gan y ffaith fod eu gweithiwr allweddol yn yr hostel [awdurdod lleol] yn gallu eu helpu i fynd drwy'r fiwrocratiaeth, gan nad oeddent wedi ei wynebu o'r blaen:

*'Mae hyn i gyd yn newydd i mi, fel y cyngor, mae arwyddo i fudd-daliadau yn newydd i mi. Dwi erioed wedi gwneud y petha' yma o'r blaen. .... Dwi'n gwybod ddim amdano. Dwi ddim yn gwybod beth sydd ar gael i mi gyda'r system budd-daliadau, ond diolch byth, mae fy ngweithiwr allweddol ... mae hi wedi llwyddo i sefydlu popeth i mi'.*

*Cymorth i gynnal cyfrifoldebau gofal*

6.64 Er nad oedd hwn yn angen am gymorth a nodwyd yn uniongyrchol gan ymatebwyr, yr oedd gan 51 o bobl ar draws yr ardaloedd astudiaethau achos unai plant dibynnol yn byw gyda hwynt ac felly nhw oedd y prif ofalwr, neu roedd ganddynt aelodau eraill o'r teulu yn ddibynnol arnynt:

> *'Dwi eisiau byw yn lleol am fod fy chwaer yn anabl. Dwi'n edrych ar ôl fy chwaer ...mae [fy] merch hefyd yn byw yn lleol'.*

6.65 Dymunai mwyafrif o ddefnyddwyr gwasanaeth gael byw mewn tai yn yr un ardal yr oeddent wedi byw ynddi'n flaenorol oherwydd bod angen iddynt aros yn agos at deulu estynedig er mwyn parhau i gyflawni eu cyfrifoldebau gofalu.

6.66 I'r rhai heb gyfrifoldebau gofal uniongyrchol, yr oedd 21 o ymatebwyr, a gategoreiddwyd fel sengl, yn rhieni a oedd un ai wedi colli eu plant drwy'r awdurdod lleol lle roeddent yn byw, neu a oedd wedi gadael y plant gyda chymar ar ôl i'w perthynas ddod i ben. I'r grŵp hwn, cael tŷ oedd y broblem bwysicaf ac roedd angen datrys hyn cyn y gallent gyflawni eu cyfrifoldebau fel rhieni. Crynhowyd y teimlad hwn gan un ymatebwr:

> *"[A]r hyn o bryd dwi ond angen rhywle y gallaf ei berchnogi, wedyn gallaf weithio yn amlwg, tuag at gael swydd arall, ac yna, fel y dywedais, weithio tuag at gael rhyw fath o ymweliadau i fy mab, ond yn amlwg oni bai fod gen i fy lle fy hun does gen i ddim gobaith, nagoes?'*

6.67 Yn y cyfweliad rhagarweiniol byr hwn, wnaeth pawb ddim dewis i ddatgelu unrhyw fanylion am yr heriau penodol oedd yn eu hwynebu a'r cymorth oedd ei angen i'w datrys, ac yn aml roedd y manylion yn fyr. I'r rhai hynny a atebodd, iechyd meddwl oedd y brif broblem, ag yr oedd 59 o'r holl garfan a arolygwyd yn derbyn rhyw fath o ymyriad. Materion yn ymwneud ac iechyd corfforol oedd yr angen cymorth allweddol nesaf, ac yn olaf cymorth gyda budd-daliadau.


**Safbwyntiau ynglŷn â'r gwasanaethau digartref a phrofiadau hyd yn hyn**

6.68 O gymryd natur y nifer isel o gyflwyniadau o fewn yr ardaloedd astudiaethau achos, roedd llawer o'r rhai a gafodd eu cyfweld, 97 i gyd, wedi bod yn cyd-weithio gyda'r gwasanaethau digartrefedd am gryn amser. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn felly yn fwy manwl na'r disgwyl. Yn gyffredinol, roedd defnyddwyr gwasanaeth yn hynod gadarnhaol ynglŷn â'r cymorth yr oeddynt wedi ei dderbyn ar draws yr ardaloedd astudiaethau achos, gyda'r pethau a nodwyd o fod fwyaf o gymorth ac

felly yn brofiad cadarnhaol yn troi'n brofiad negyddol pan nad oeddynt ar gael. Ystyriwyd cyfathrebu da (yn enwedig wyneb-yn-wyneb); derbyn sawl math o gymorth, ymateb cyflym i broblemau yn bethau cadarnhaol. Nododd gyfanswm o 93 defnyddiwr gwasanaeth eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth gan y gwasanaeth tai, dywedodd 49 na theimlent eu bod yn cael cymorth ac roedd y gweddill, 12 o bobl yn ansicr, ddim yn gwybod neu'n gwrthod ateb. Yng ngeiriau un ymatebwr a oedd yn teimlo ei fod wedi cael cymorth gan yr awdurdod lleol:

*'O, ydi, mae fy mywyd wedi newid yn llwyr mewn ychydig wythnosau'.*

**Ffigur 6.11: Lefel o gymorth yn ôl ardal**




*Y graddau mae awdurdodau lleol yn deall amgylchiadau unigol a sut i gynorthwyo*

6.69 Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo fod yr awdurdod lleol yn deall eu sefyllfa ac yn gallu cynorthwyo, yr oedd yr ymateb yn gymysg ar draws yr holl garfan. Atebodd saithdeg a naw o bobl “ydynt” ar y ddau gyfrif, ond mynegodd 24 tra roedd yr awdurdod lleol yn deall eu sefyllfa, pan oedd hi’n dod i wirioneddol ddarparu llety hir-dymor ni allent helpu. Priodolodd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y gwasanaeth hwn i ddiffyg tai cymdeithasol, problemau gyda’r sector rhentu preifat a chostau rhentu uchel. Mynegodd naw ymatebwr arall ei fod yn dibynnu gyda phwy oeddent yn siarad â hwy yn yr awdurdod lleol. Mewn geiriau eraill, gallai staff o bosibl fod un ai’n rhwystr neu’n alluogwyr i’r broses o gael llety:

> *'Dwi’n meddwl ei fod yn dibynnu gyda phwy yr ydych yn siarad â hwynt. Dwi wedi siarad â phobl ar y ffôn sy’n hollol awyddus i helpu, ac ar y llaw arall mae pobl eraill sy’n dweud pethau fel, “Wel, mae’n ddrwg gen i, dyna fel y mae hi”. Mae o mewn du a gwyn ar bapur a ‘does ots am eich sefyllfa bersonol neu anghenion’.*

**Ffigur 6.12: A yw'r awdurdod lleol yn deall y sefyllfa, a sut y gallant fod o gymorth? N = 154**




6.70 Dywedodd naw ymatebwr na wyddent eto a oedd yr awdurdod lleol yn deall eu sefyllfa, ac ymatebodd 42 yn bendant nad oeddent yn credu bod hyn yn wir. Archwilir yr ymatebion mewn mwy o fanylder isod, ond ar y cyfan empathi (neu ddiffyg empathi) oedd y prif reswm am gredu a oedd awdurdod lleol yn deall safbwynt rhywun neu beidio. O'r 42 ymateb negyddol, yr oedd 33 ohonynt oherwydd diffyg empathi canfyddedig, gyda dau o'r ymatebwr arall yn priodoli’r diffyg empathi

yma i bobl benodol a oedd wedi eu hadnabod am gyfnod hir. Siaradodd chwech o bobl yn benodol hefyd am ddiffyg dealltwriaeth yr awdurdod lleol o'r anawsterau yr oedd pobl yn eu cael yn y sector breifat, ac roedd hyn yn bryder cyffredinol a fynegwyd gan lawer o ymatebwyr. Roedd hyn yn cysylltu'n uniongyrchol i allu staff i gyfathrebu'n effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaeth ac i ddarparu hyd yn oed lefelau isel o gymorth yn syth, a oedd hefyd yn cael effaith mawr ar ba mor fodlon oedd pobl o'r gwasanaethau:

*'Hi yw'r unig berson a wirioneddol eisteddodd i lawr a gwrando ar beth oedd gen i i'w ddweud. Nid oedd gan unrhyw un arall diddordeb, doeddent ddim eisiau gwybod. Beth bynnag, mi ddywedodd hi wrthyf sut oedd mynd ati i wneud pethau a chynghori beth i wneud nesaf'.*

6.71 Tra roedd ymatebwyr yn mynegi fod aelodau unigol o staff yn deall eu sefyllfa a sut i roi cymorth iddynt, yr oeddynt yn dangos rhwystredigaeth oherwydd y diffyg opsiynau tai oedd ar gael iddynt. Yr oedd hyn o ganlyniad i'r diffyg yn y nifer o dai cymdeithasol ac anallu i gael llety drwy'r sector rhentu preifat (unai oherwydd mad oeddent yn fforddiadwy neu waharddiad gan landlordiaid ar sail eu statws fel hawlwyr budd-daliadau lles):

*'Mae hi'n deall yn llwyr. Dwi'n meddwl nad oes ganddynt ryddid i wneud be allant. Dim nhw, yn uwch i fyny, te? Diffyg tai ydi o. Diffyg tai cyngor, tai cymdeithasol, does dim tai cymdeithasol o gwmpaso'i gymharu â sut oedd pethau. Mae'n ofnadwy. Mae'n gywilyddus'.*

6.72 Nododd y mwyafrif llethol y rhai a gyfwelwyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch gan staff awdurdodau lleol:

*'Urddas a pharch, ie. Tydi nhw ddim wedi'ch barnu chi, nac ydynt, maen nhw wedi cael tŷ i chi a'ch gadael chi iddi '.*

*Oeddwn, o'r diwrnod cyntaf doeddwn i ddim yn edrych ymlaen pan gerddais i mewn ond doedd o ddim [fel] beth roeddwn i'n meddwl [y buasai]'.*

*Defnyddio’r gwasanaethau digartrefedd*

6.73 Mewn nifer o achosion, yn arbennig i’r 24 o bobl a fynegodd fod yr awdurdod lleol yn deall eu sefyllfa ond nad oedd llawer y gallent ei wneud i’w cynorthwyo, roeddynt yn dal i werthfawrogi pa mor gymwynasgar a pharchus oedd y staff. Y dystiolaeth am hyn oedd oherwydd eu bod wedi gallu cael cymorth priodol wrth ddisgwyl i’w sefyllfa dai gael ei datrys:

> *'Maent wedi bod o gymorth mawr, ond dwi ond yn teimlo ei fod yn anodd oherwydd amseru, dyna'r unig broblem'.*

6.74 Yn fwy na dim, roedd pobl yn dymuno i rywun wrando arnynt, a bod peth gweithredu yn digwydd ar eu hachosion. Mae un ymatebwr yn crynhoi hyn yn daclus:

> *‘ Mae [Swyddog Opsiynau Tai] wedi bod yn rhyfeddol. Mae hi wedi gwneud pob dim roedd angen i mi fynd drwyddo, a mwy, i fod yn onest gyda chi, felly ‘n wirioneddol, wirioneddol dda. Mae hi wedi fy nghyfeirio yn awr i’r sector rhentu preifat, er mwyn iddynt ddod allan i asesu'r fflat i weld a ydi'n ddigon da i berson fyw ynddi ond mae hi hefyd wedi rhestru popeth. Eisteddodd a chymryd amser i wrando ar fy mhryderon, felly mae wedi gwneud gwaith da mewn gwirionedd, yn dda iawn; gwaith da iawn '.*

*Empathi*

6.75 Soniodd dri ar ddeg o ymatebwyr am y pwysigrwydd o deimlo nad oeddynt ar eu pen eu hunain yn ymdrin â’r broblem:

> *'[Roedd ] yn braf gwybod bod rhywun arall yn edrych, yn ogystal â fi ond yn fy helpu yn emosiynol hefyd. Rhoddodd hwb i mi ... Roeddwn i’n teimlo fy mod yn wirioneddol cael cefnogaeth ac roedd hi’n braf gwybod fod yna fath o.. sut fedra’i ddweud? Rhywun ar fy ochr i yn helpu fi i gael hyd i rywle’.*

6.76 Adroddodd wyth ymatebwr brofiadau hynod gadarnhaol o gael at wasanaethau ac roeddynt yn priodoli hyn i staff tai awdurdodau lleol a gymerodd yr amser i wrando arnynt:

> *‘Roeddwn i’n teimlo fy mod yn cael y cymorth oherwydd mi wnaethant gymryd fy sefyllfa o ddifrif ac yn y bôn fy helpu i gael y lle hwn ac mae'n braf ar y funud ’lly'.*

*'Yr oedd hi'n broses hawdd. Roeddwn i'n wirioneddol poeni amdano. Pan oeddwn yn llenwi'r ffurflen mi oeddwn yn edrych yn nerfus ond fe wnaethant o yn eithaf syml ac yr oeddwn i'n iawn '.*

*Cyfathrebu*

6.77 Er bod cryn amrywiaeth mewn amgylchiadau personol pobl, amlygwyd yr angen am gyfathrebu rheolaidd i fod yn allweddol o ran cynnig gwasanaeth y mae pobl yn fodlon yn ei gylch. Fel y gellid disgwyl, mynegodd ymatebwyr rwystredigaeth gyda'r gwasanaeth yr oeddynt yn ei dderbyn pan fo empathi, cysylltiad wyneb-yn-wyneb, a chyfathrebu amserol a rheolaidd yn ddiffygiol. I thua 50 o ymatebwyr na theimlasant fod yr awdurdod lleol yn eu deall, roedd nifer o themâu cylchol ynghylch hyn. Yr oedd y rhain yn cynnwys: diffyg cysylltiad wyneb-yn-wyneb; diffyg empathi a chyfathrebu da; diffyg dealltwriaeth o anawsterau yn y sector rhentu preifat; a rhagfarn a achoswyd gan wybodaeth bersonol flaenorol am yr ymatebwr. Ystyrir y rhain mewn mwy o fanylder isod.

6.78 Fodd bynnag, yn gyffredinol, mynegodd ymatebwyr eu bod yn teimlo yn fwy hyderus pan wnâi staff ymdrech i sicrhau nad oedd y broses ei hun yn ychwanegu fwy at eu pryder. Dywedodd un ymatebwr:

*'Mae'n wych, hollol wych. Allwn i ddim gofyn am fwy. Does dim rhaid i mi ofyn dim, maen nhw'n dweud wrthyf cyn ddim byd oherwydd eu bod yn gwybod fy mod yn poeni cryn dipyn. Dwi'n tueddu i boeni. Dwi'n bryderus drwy'r amser felly maen nhw'n gwybod hyn, yn amlwg, maen nhw'n cadw cysylltiad ynglŷn â phob dim'.*

6.79 Mewn ardaloedd gwledig yn arbennig, roedd pobl yn gadarnhaol iawn am yr awdurdodau rheini pan oedd y staff yn dod allan i ymweld â hwy, gan fod llawer o bobl yn sôn am yr anawsterau o deithio i swyddfa'r awdurdod lleol. I rai roedd difrifoldeb eu problemau iechyd neu gyfrifoldeb gofalu ar ôl plant oedd yn gwneud hyn yn anodd.

6.80 Yn ogystal, o ystyried pa mor gyffredin oedd problemau iechyd meddwl ymysg y bobl a gafodd eu cyfweld, roedd cyfathrebu a dealltwriaeth helaeth o anghenion cymorth a pha adnoddau oedd ar gael i'w weld yn arbennig o bwysig i helpu pobl i gael sefydlogrwydd tai. I lawer o bobl, yr oedd cyflwr oedd yn bodoli'n barod fel iselder neu bryder wedi bod yn elfen a oedd wedi cyfrannu i'w digartrefedd, ond yr oedd nifer o bobl eraill wedi cael profiad o salwch meddwl a thrallod fel canlyniad i fod yn ddigartref.

*Diffyg cysylltiad wyneb-yn-wyneb*

6.81 Mynegodd 15 o bobl fod angen am gysylltiad wyneb-yn-wyneb yng nghyswllt bylchau mewn cefnogaeth. Yr oedd hyn yn cael effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig ar ôl i swyddfeydd Opsiynau Tai gael eu dileu. Dywedodd nifer o ymatebwyr nad oeddent yn teimlo fod ganddynt sylw llawn yr aelod o staff wrth gyfathrebu dros y ffôn

*'Mi fuasai'n braf cael rhywun y gallwch siarad â hwy wyneb-yn-wyneb, nid ar ben arall y ffôn ... Pan ydych chi wyneb-yn-wyneb, dwi'n meddwl nad ydych chi'n mynd mor rhwystredig ag y gwnewch pan rydych chi ar y ffôn oherwydd os ydych chi'n ceisio mynegi eich barn ar y ffôn ac yn y bôn mae'n gwneud chi'n rhwystredig, ond pan ydych chi wyneb yn wyneb, yna mae'n rhaid iddynt ganolbwyntio arnoch..Weithiau, nid ydych yn gwybod beth maent yn ei wneud, mi allent fod yn darllen am rywbeth arall pan maen nhw'n ceisio siarad â chi ar y ffôn'.*

*Diffyg empathi*

6.82 I 20 o ymatebwyr, hyd yn oed pan oedd cysylltiad wyneb-yn-wyneb adroddasant am ddiffyg gwir gefnogaeth ac empathi. Nododd un ymatebwr:

*'Mae fel nad ydynt yn dod i wybod am eich sefyllfa. Mae'n cael ei ddarllen, a'i roi i'r person nesaf..Rhoddwyd darn o bapur i mi, heb i unrhyw un ddweud am beth oedd o. Dywedwyd bod rhaid i mi ei arwyddo ac yna ceisio dweud bod rhaid i mi dalu'r bond a rhent am y mis cyntaf, a doeddwn i ddim yn cael cyflog o gwbl. Dim ond y budd-daliad tai - ceisio cael y budd-daliad tai ... dim ond dweud wrthyf fod rhaid i mi arwyddo neu baswn i ddim yn cael yr eiddo. Dwi fyny fa'ma i ddangos hyn i fy ngweithiwr cymorth ..a dywedodd hi fod hynny'n gelwydd noeth, mynd yn syth ar y ffon hefo nhw ac o fewn hanner awr roedd o wedi cael ei ddatrys'.*

6.83 Adleisiwyd hyn gan ymatebwyr eraill:

> *'Roeddwn i'n meddwl y buasai llawer o empathi yn bendant. Dwi i ddim yn dweud bod angen iddo fod fel, 'O ... gafael ynddo fi' ond mwy fel 'O, ydw dwi'n medru deall'. Mae hyn yn mynd i fod yn anodd, ond ti'n gwneud symudiad, ti'n gwneud cam 'da chi'n gwybod be dwi'n feddwl?' Dim ond bod yn bositif ydi o'.*

6.84 Cwynodd ddeunaw o ymatebwyr am y cyfnodau hir o aros wrth fynychu Opsiynau Tai. Tra buasai lleihau hyn yn ddelfrydol yr oedd ymatebwyr yn bragmatig, ond yn teimlo y gallai'r man aros gael ei wneud yn fwy cyfforddus, yn enwedig pan oedd plant ifanc gyda hwy:

> *'Gellid cael rhywbeth yno i gadw'r plant yn ddiddig ond does dim byd i fyny yno ar gyfer y plant'.*

6.85 Roedd nifer fechan o'r bobl (wyth i gyd) wnaeth ymateb yn negyddol yn tueddu i fod wedi eu clystyru i ddwy o'r ardaloedd astudiaethau achos. Mynegodd un ymatebydd fod y gwasanaeth dai 'yn edrych i lawr' ar bobl sy'n wynebu digartrefedd:

> *'Maen nhw'n sbïo'i lawr arnoch chi. Maen nhw'n ych bychanu chi dipyn bach... mae o fel petai'n chi'n cardota, cardota am rywbeth, os gwelwch chi'n dda. Mae o fel'na, yndi. Da chi'n teimlo'n llai o berson '.*

6.86 Disgrifiodd ymatebwr arall brofiad tebyg:

> *'Nes i ddim teimlo unrhyw empathi na thosturi ac roedd 'na bethau bach fel pan siaradais i â'r gŵr bonheddig, roedd o'n darllen ei nodiadau ar ei gyfrifiadur. Dwi'n gweithio i ennill bywoliaeth a dwi'n gwybod am bethau fel gwasanaeth cwsmer ac iaith gorfforol a moesau yn gyffredinol. Doedd o ddim yn gallu edrych syth i'm llygaid ac roedd rhaid i mi eistedd yno tra fod y boi yn darllen ei nodiadau. Da chi'n gwybod pan da chi'n teimlo ar eich gwaethaf a rhywun hyd yn oed yn methu edrych arnoch chi yn eich llygaid? Da chi'n fwy sensitif nag ydach chi fel arfer, a da chi'n cymryd y pethau bach 'na i galon fwy na fuasech chi' .*

6.87 Mynegodd un ymatebwr brofiadau blaenorol gyda gwasanaethau digartrefedd sy'n tynnu sylw at faterion a oedd yn ymwneud â rhannu gwybodaeth, a sut yr oedd hyn wedi arwain tuag at y modd y bu iddi deimlo diffyg parch gan awdurdodau eraill:

*'Dim ond darganfod eu bod eisiau gwybod y cefndir, ond dwi'n meddwl os ydych yn datgelu hyn i nifer o bobl, di o ddim yn gyfrinachol wedyn. Mae o fel petai i gyd allan yn yr awyr agored ac mae fel "O'r nefoedd, da chi'n gwybod be dwi'n feddwl? Felly mae o fel petai nhw'n peidio a'ch parchu llawer a dwi'n meddwl mai'r rheswm am hynny ydi mae'n nhw'n edrych arnaf a mynd "O'r nefoedd, mae hi'n ddigartref. Dwi ddim eisiau sbio ar berson fel 'na'.*

6.88 Mae canolrwydd empathi yn nhermau agwedd person-ganolog yn amlwg yma. Yn wir, gwnaeth ymatebwyr a siaradodd am ddiffyg empathi yr oeddynt wedi ei brofi yn ychwanegol ddisgrifio diffyg cynhesrwydd amlwg a gwerthfawrogiad o'r amgylchiadau anodd yr oeddynt wedi cael eu hunain iddynt. Canlyniad hyn, fe ymddengys, oedd pobl yn teimlo eu bod wedi cael eu barnu, ac mewn rhai sefyllfaoedd, wedi eu diraddio.

6.89 Crynhodd un ymatebwr beth oedd yn ei ddisgwyl gan y gwasanaethau tai, gan gyfeirio at ei brofiadau blaenorol o ddiffyg empathi gan wasanaethau digartrefedd awdurdod lleol.

*'Dos yn dy flaen. Dod o hyd i ddrws a pharhau i fynd. Dyna'r unig ffordd y medrwch chi fyw o gwmpas fan hyn '.*

6.90 Yr oedd diffyg cyfathrebu wyneb-yn-wyneb yn rheswm canolog paham yr oedd pobl yn teimlo fod gwasanaethau yn rhwystredig yn hytrach nag yn ddefnyddiol, ac yn amharu cyfathrebu agored. Er enghraifft, mynegodd un ymatebwr nad oedd yr awdurdod lleol yn gwerthfawrogi pa mor ddifrifol oedd eu sefyllfa, ac yn pwysleisio'r angen am fwy o ymatebolrwydd a mwy o sicrwydd ynglŷn â'r broses:

*'Dwi ddim yn meddwl eu bod yn sylweddoli pa mor anodd yw hi i bobl, yn enwedig gyda'r aros am bythefnos. Dwi ddim yn meddwl fod 'na ddigon o gefnogaeth yn ei ganol. Ddywedodd neb, "Os oes gen ti bryderon, ffonia fi'n ôl ac mi wna'i ngorau", neu, "Ffonia fi'n ôl ac mi welai pa fath o gyngor fedra i gynnig i ti yn y cyfamser'.*

6.91 Rhannwyd y teimlad hwn gan 35 o'r rhai a gyfwelwyd, ac roeddent i gyd wedi teimlo pryder mawr drwy gydol y broses. Daeth rhwystredigaethau dwfn law yn llaw ag arafwch y broses a'r ansicrwydd drwyddi draw yn dod i'r wyneb mewn mwyafrif bychan o'r cyfweliadau, gan bwysleisio'r angen am gyfathrebu a chefnogaeth reolaidd. Mynegodd sawl ymatebwr eu bod yn teimlo fod awdurdodau lleol yn 'gwneud yr hyn y gallent', ond nid oedd hynny'n cynorthwyo i gyflymu pethau.

6.92 Awgrymodd un ymatebwr y buasai cymysgedd o gefnogaeth wyneb-yn-wyneb a dros y ffôn yn well, gyda hyblygrwydd i bobl unigol benderfynu pa un fyddai orau iddynt. Nododd un arall y byddai cael apwyntiadiadau wyneb-yn-wyneb yn eu tref eu hunain unwaith yr wythnos yn gwella’r gwasanaeth.

**Profiadau merched**

6.93 Siaradodd dair merch yn benodol am deimlo'n bryderus am eu diogelwch oherwydd eu rhyw, a mynegwyd rhwystredigaeth o’u cael eu rhoi mewn hosteli lle roeddent yn teimlo yn anniogel. Yr oedd un ferch yn pryderu ynglŷn ag addasrwydd a diogelwch llety hostel cymysg ar gyfer merched yn gyffredinol:

> *'Yn gyffredinol nid ydw i’n teimlo y dylai menywod gael eu rhoi ar loriau, achos mae’n fod eithaf gwrywaidd, digartrefedd yn gyffredinol ... y mae'n fath treisgar o fyd, wyddoch chi? Byd peryglus, os hoffech chi. Dwi’n meddwl fod ‘na agwedd diogelwch. ... dwi’n gwybod fod pobl eisiau cydraddoldeb, ond ... Ni fuaswn i’n teimlo'n gyfforddus bod gyda llwyth o ddynion yn campio allan ar y llawr ... Dwi ddim yn meddwl eu bod yn deall hynny o gwbl’.*

6.94 Tanlinellwyd sensitifrwydd i gamdriniaeth ddomestig fel mater posibl arall, er iddo effeithio grŵp bach a rannwyd ar draws yr ardaloedd. Eglurodd ymatebwr benywaidd arall, a oedd wedi cael profiad o gam-drin domestig, sut y teimlai hi fod staff awdurdod lleol heb gydymdeimlo pan wrthododd fynd yn ôl i’w fflat:

> *‘Roedd o fel petai fy mai i fy mod i wedi gadael y fflat a gwneud fy hun yn ddigartref ... Roeddwn i wedi rhoi gorau i fflat wirioneddol neis ond mi wnes i geisio mynd yn ôl ond roedd yna ormod o atgofion. Dorrais i lawr. Bob tro roeddwn i’n mynd yn ôl yno roedd o fel “fedra i’m byw yna”....A phan ddaw ef allan o garchar, er bod gen i waharddeb yn ei erbyn am dair blynedd, mae o’n adnabod yr ardal’.*

6.95 Yn yr enghreifftiau hyn, mae’r ddau ymatebwr yn arddangos y peryglon penodol i ferched, er mwyn i fenywod, er drwy wahanol amgylchiadau, pan nad yw diogelwch wedi cael ei ystyried o fewn y polisi ac ymarfer gwasanaethau awdurdodau lleol. Amlygir hyn isod mewn perthynas â llety hostel.

*Diffyg dealltwriaeth o anawsterau yn y sector rhentu preifat.*

6.96 Nododd nifer o ymatebwyr nad oedd yr awdurdod lleol yn deall yr effaith oedd costau rhentu uchel yn y sector rhentu preifat yn ei gael ar deuluoedd. Siaradodd chwech am hyn yn benodol, ond yr oedd hefyd yn thema ymysg y 24 ymatebwr a oedd yn amheus o allu'r awdurdod lleol i'w cefnogi. Roedd bron pob un o'r bobl hyn yn siarad am y diffyg tai cymdeithasol a'r prinder ehangach mewn tai fel rhan o'u hymateb. Mynegodd nifer o ymatebwyr eu bod yn cael eu gorfodi i fynd i eiddo na allent ei fforddio, ac unwaith y rhoddwyd llety iddynt nid oeddent yn cael mwy o gymorth. Fel y mynegodd un ymatebwr:

> *'Dwi heb weld dim ohonynt. Yn llythrennol, ers i mi gael fy nhŷ, dwi ddim wedi clywed dim ... Mae gen i gyfarfod ar ddydd Gwener [gydag elusen] am y denantiaeth, gan na allaf ei fforddio'.*

6.97 Roedd hyn hefyd yn fater sylweddol i bobl hŷn a oedd ar incwm sefydlog, ac yn methu fforddio llety rhentu preifat ar eu pen eu hunain. Yn ogystal â lefelau rhent, mynegodd ymatebwyr gryn bryder ynglŷn â sicrwydd deiliadaeth a grym landlordiaid dros amodau byw:

> *'Faswn i'n teimlo'n fwy diogeld pe bai'n dŷ cyngor neu drwy asianftaeth tai,ond dwi'n gwbl ymwybodol o'r sefyllfa a pha mor galed ydi o...Mi faswn i'n teimlo y buasai'n sefyllfa dai fwy diogel oherwydd y broblem gyda preifat ydi y gallant hwy wneud fel y mynent, yn y bôn'.*

6.98 Siaradodd eraill am y diffyg sicrwydd a sefydlogrwydd yn y sector rhentu preifat ac fe fyddai'n well ganddynt ddewis tai cymdeithasol gan ei bod yn bosibl i gael tenantiaethau hir dymor a chynaliadwy gan osgoi digartrefedd parhaus:

> *'Ie, sefydlogrwydd. Dwi'n meddwl mai dyna'r broblem, maent yn gwthio pawb i rentu preifat, ond tydyn nhw ddim yn sylweddoli y bydd pawb yn ôl yma mewn chwe mis o bosibl yn gwneud hyn eto'.*

*Rhagfarn yn deillio o wybodaeth bersonol flaenorol*

6.99 Disgrifiodd saith ymatebwr ar draws pob ardal anawsterau o ofyn am gymorth gan bobl yr oeddent wedi cysylltu â hwy o'r blaen, neu hyd yn oed pobl yr oeddynt yn eu hadnabod yn gymdeithasol. Roedd hyn wedi bod o gymorth i un ymatebwr, a'i wneud yn fwy hyderus o'r gefnogaeth a dderbyniodd:

*'O yndyn, maen nhw'n f'adnabod ers i mi fod yn blentyn felly mae'n.. maen nhw'n iawn o gwmpas fa'ma achos hogyn lleol ydw i ac maen nhw'n bobl leol sy'n gweithio yma. Maen nhw'n adnabod fy nhad felly maen nhw'n f'adnabod i, tydyn?'*

6.100 Fodd bynnag, yr oedd yn bryder i bedwar defnyddiwr gwasanaeth, ac yr oeddynt yn datgan fod ymdrin â rhywun a oedd yn meddwl eu bod yn gwybod popeth amdanynt yn barod yn sicrhau nad oeddynt yn gwrando arnynt na'u cefnogi:

*'Does gen i ddim syniad ... Dwi'n meddwl ei fod o'n rhywbeth i'w wneud â'r un swyddog ... da ni wedi ffraeo yn y gorffennol ac ers hynny, ers iddo fod yn rheolwr fedra'i ddim gael fflat'.*

6.101 Mynegodd ymatebwr arall, bum mlynedd ar ôl iddi fynd at wasanaethau digartref am y tro cyntaf pan adawodd ei chartref yn bymtheg mlwydd oed, yr anawsterau o gyfarfod gweithiwr tai a oedd yn ei hadnabod nifer o flynyddoedd yn flaenorol:

*'Mae hi'n dweud, "O dwi'n gweld dy fod ti yn yr un sefyllfa eto felly." Ac roeddwn i fel "wel mae pawb yn newid". Dwi'n meddwl mai dyna sut mae gyda rhai pobl cyngor, eu bod yn barnu'r bobl o hyd oherwydd be' mae nhw wedi ei wneud yn barod'.*

6.102 Pan edrychir arnynt yn ol ardal, mae'r gwahaniaethau yn y gwasanaethau a ddarperir yn eglur. Yr oedd gan ddwy ardal arbennig lefel uchel iawn o hyder ymysg defnyddwyr gwasanaeth, tra ar gyfer dwy arall mynegodd lai o bobl ddiffyg hyder yn yr awdurdod lleol na'r rhai na wnaethant hynny. Bydd y rhesymau dros hyn, a sut y mae'n cydberthyn a'r sefyllfa'r awdurdod yn cael ei archwilio yn yr adroddiad terfynol.

**Profiad o hosteli**

6.103 Yr oedd tri deg a saith o ymatebwyr[19] yn byw mewn hostel ar adeg y cyfweliad, ac roedd eu hymatebion i'r hosteli ar y cyfan yn gadarnhaol iawn yn nhair ardal astudiaethau achos, ac yn fwy cymysg yn y gweddill. Siaradodd bymtheg ymatebwr am eu pryderon ar y cychwyn am gael eu hanfon i hostel, gan amlygu pwysigrwydd teimlo'n ddiogel a chael eu cefnogi yn y fath leoedd:

*'Da chi'n gwbod be', roeddwn i'n wirioneddol ofnus o ddod yma oherwydd roeddwn i'n meddwl, wydoch chi be', da ni am fod yma am oesoedd, does neb yn*

[19]Cynhaliwyd cyfweliadau mewn hosteli lle nad oedd y tim astudiaeth yn medru cael gayfael ar y rhifau angenrheidiol oherwydd y nifer o bobl a oedd yn cyflwyno o'r newydd i'r awdurdod lleol

*mynd i'n helpu, mi fyddwn i'n gaeth yma gan ein bod wedi dod yma. Mae cael hyd i le i ni wedi bod ychydig bach yn araf ond mae gennym ni rywle i fynd. Dim ond aros ydan ni ond, ydy, mae o wedi bod yn wych. Mae e fel petae ni'n cael, unrhyw gymorth da chi ei angen, da chi ond yn gofyn [i staff hostel] neu rywun, os fedran nhw eich helpu mi helpan nhw chi, mae'n wirioneddol dda'.*

6.104 Mewn rhai ardaloedd, yn aml, 'roedd ymatebwyr yn gwybod sut i gael i mewn i hostel drwy eu rhwydweithiau eu hunain, yn hytach na thrwy gyfeirio gan yr awdurdod lleol. Mynegodd un ymatebwr ei phrofiadfau o gael mynediad i wasanaethau hostel fel un dirdynnol, ac un a fuasai'n waeth hyd yn oed heb gefnogaeth pobl eraill mewn amgylchiadau tebyg:

*'Mi nes i dorri allan i wylo gyda'r ddynes 'ma, 'Roeddwn i'n cysgu allan neu beth bynnag, 'roedd hi fel , "Does 'na ddim y medrwn ei wneud i chi"...Mae o jyst – wnaethon nhw ddim rhoi unrhyw gymorth o gwbl, ond trwy lwc ddois i yma ac mae rhain wedi fy nghynorthwyo i, oherwydd petai rhain ddim yma yna i fod yn onest hefo chi 'dw i ddim yn gwybod beth a fuaswn i wedi ei wneud'.*

6.105 Tra soniodd ddefnyddiwr gwasanaeth arall am ei anallu i gael i mewn i lety hostel, er gwaethaf y ffaith ei fod wedi ymgyflwyno i'r awdurdod lleol:

*'Y cyngor, mi wnaethon nhw – yn y bôn ddweud wrthaf i fy mod i'n ddigon ffit i fyw allan am o gwmpas 50 o ddiwrnodau'.*

6.106 Fodd bynnag, 'roedd peth feirniadu ar yr hosteli. Yn yr ardaloedd rheini lle mynegwyd mwy o feirniadaeth, ymddangosai hyn yn bennaf oherwydd gwrthdaro personoliaethau â rheolwyr ac anfodlonrwydd gyda'r systemau a oedd wedi eu sefydlu i bennu ardaloedd gwlâu.

6.107 Ar draws yr holl ardaloedd, mynegodd wyth ymatebwr bryderon am ildio i batrymau negyddol o ymddygiad tra'n byw mewn hostel, neu bod yn bryderus ynglŷn â bod yn agos i bobl oedd yn defnyddio cyffuriau ac alcohol. Yng ngeiriau un ferch ifanc:

*‘Dyna be dw i’n ’i ofni, os ydyn’ nhw’n dweud wrthaf, “Reit, iawn [ enw ], fedrwch chi fynd i hostel os rown ni chi yno os gwelwch yn dda? Dw i’n meddwl, “O, nefoedd, y tro diwethaf yr oeddwn i mewn hostel, mi nes i gymryd cyffuriau, cefais fy hun i lawer o drafferth,” ac nid yw o’r math gorau o olygfa. Dw i wedi cael fy rhoi mewn hostel sydd fwy fel fersiwn hen a fi oedd yr unig ferch yno. Tydy merched ddim hyd yn oed i fod yno a fi oedd yr unig ferch. Yr oedd o fel hen ddynion a phethau a daeddan nhw ddim yn neis iawn, o gwbl. Roedd o’n reit frawychus y sefyllfaoedd y mae’n nhw yn eich rhoi chi’.*

6.108 I’r rhai hynny oedd yn ymdrechu i gael dros orddibyniaeth roedd hwn yn bryder arwyddocaol. Ar y llaw arall, mynegodd un neu ddau ymatebwr fod y math o gefnogaeth yr oeddynt ei angen ( ar gyfer anghenion cefnogaeth ar raddfa lai ) yn absennol o system wedi ei haddasu fwy tuag at gleientiaid gydag anghenion cymhleth. Agwedd negyddol o gyd-breswylwyr oedd ganddynt; yng ngeiriau un ohonynt:

*‘Dim jynci alcoholig, meddw, sy’n ymladd ac yn dibynnu ar heroin ydw i, ar ryw olwg, a dw i ddim eisiau mynd drwy system sydd wedi cael ei theilwrio i hynna yn y bôn’.*


6.109 Fodd bynnag, ’roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn siarad yn hynod o gadarnhaol am eu profiadau o hosteli.

*Dyheadau lletya yn ystod y chwe mis nesaf*

6.110 O’r 130 ymatebwr nad oeddynt wedi eu hailgartrefu eto, ac a deimlai y gallent ateb y cwestiwn hwn, ’roedd y mwyafrif llethol yn datgan y buasent yn fodlon derbyn unrhyw gartref a oedd ar gael, gyn belled mai eu lle eu hunain ydoedd, dim ots pa mor fach. Dim ond un ymatebwr a fynegodd ei fod yn hapus i fyw mewn ystafell mewn tŷ wedi ei rannu gyda eraill. Dim ond chwe pherson fynegodd ffafriaeth am fflat yn y sector breifat, tra ’roedd gan 38 ffafriaeth gref am unai dai cymdeithasol neu gynorthwyol.

6.111 Tra fynegodd lawer o ddefnyddiwyr gwasanaeth eu bod yn fodlon derbyn unrhyw lety ac yn derbyn yr angen i ddod o hyd i lety yn y sector rhentu preifat, mynegodd y mwyafrif bod ganddynt ffafriaeth am dai cymdeithasol. Fodd bynnag, yr oedd y mwyafrif yn ymwybodol nad oedd tai cymdeithasol ar gael.

**Ffigur 6.13: Gobeithion ymatebwyr am gartref**




6.112 Dim ond pedwar o'r 130 ymatebwr oedd yn ansicr beth fuasai eu sefyllfa dai mewn chwe mis. Fodd bynnag, yr oedd y mwyafrif at ei gilydd yn optimistaidd y buasai eu sefyllfa yn gwella, gyda un ymatebwr yn unig yn nodi y buasent yn parhau i fyw mewn hosteli at hyd at 2 flynedd. Yr oedd rhai o'r bobl a gyfwelwyd wedi cael eu hailgartefu'n ddiweddar gan yr awdurdod lleol neu wedi cael hyd i lety preifat eu hunain. Cyfanswm o 24 o bobl ar draws yr ardaloedd astudiaethau achos oedd hyn. Y rhai oedd wedi cael eu rhoi mewn llety tai cymdeithasol oedd y mwyaf bodlon. O'r rhai oedd wedi symud yn ddiweddar i lety rhentu preifat, mynegodd mwyafrif gryn bryder ynglŷn â'r rhent uchel ac ansicrwydd daliadaeth. Yr oedd pawb yn y sector breifat wedi aros ar y rhestr aros am lety cymdeithasol.

6.113 Ar draws pob ardal astudiaeth achos mynegodd 33 o bobl yn bendant fod datrys eu sefyllfa dai yn cyflawni nodau ehangach yn eu bywyd, a'i weld fel y cam cyntaf anghenrheidiol. Gwnaeth nifer ohonynt gymharu cartref newydd â dechrau newydd:

> *'Dim ond yn gobeithio bod mewn llety ac yn talu rhent, yn ôl i waith. Dw i'n weithiwr caled. Dw i wedi gweithio ers oeddwn i'n 14. Dw i wedi gweithio erioed. Dyna sy'n gwneud fy iselder i'n waeth oherwydd fedra'i ddim gweithio, felly yn ôl mewn llety, bywyd yn edrych yn well, yn ôl mewn gwaith, dechrau newydd, ffres eto, gan roi hwn i gyd tu cefn i mi'.*

6.114 I dros hanner yr ymatebwyr a oedd yn parhau i chwilio am lety, roedd cartref parhaol yn cynrychioli siawns i gael bywyd newydd, dechrau newydd, ac o bosibl yn gyfle i ailadeiladu rhwymau teuluol a chymdeithasol:

*'I gael fy lle fy hun. I helpu fy hun fwy, i gael yn well ac ati. Gweld fy mhlant eto hefyd oherwydd 'dw i'n hiraethu amdanyn' nhw. Ia ...Jyst i, dw i'm yn gwybod. Dw i yn gwybod ond dw i ddim. Dim ond i fod yn fi. Fi ydi fi. Dw i ddim fel unrhywun uwch, nac is'.*

6.115 Ar gyfer 18 o'r dynion oedd yn dadau a ddaeth yn ddigartref unai drwy dor-perthynas neu oherwydd treulio amser yn y carchar, eu nod pennaf oedd cael cartref wedi ei sefydlu gydag ystafell ychwanegol fel y gallent ailadeiladu perthynas hefo'u plant a chael lle iddynt aros. I rai eraill, yn arbennig y teuluoedd,'roedd cartref parhaol yn cynrychioli ailgydio mewn normalrwydd:

*'Dim ond cael hyd i dŷ addas i mi a'r plant fel y gallwn gael yn ôl i normalrwydd'.*

6.116 Siaradodd ymatebwr arall, a oedd yn aros mewn llety lloches, am gael swydd a gobeithiai sefydlu ei hun mewn cartref newydd, fodd bynnag, siaradodd am sut yr oedd y profiad o fynd yn ddigartref oherwydd camdriniaeth ddomestig wedi achosi iddi deimlo fel pe bai ei bywyd wedi mynd am yn ôl:

*'Dwy swydd dw i wedi eu cael. Mae gen i swydd barhaol rwan, gan fy mod wewdi bod yn weithwraig dros dro pan ddes i yma gyntaf, ond dw i wedi llwyddo i gael swydd barhaol rwan, felly fe hoffwn i ymlacio, mwynhau'r bywyd yma, gwneud fy ngwaith a chael rhywle sefydlog... oherwydd byw'n gymunedol ydw i ac mae o wedi bod yn eithaf anodd...Dw i wedi mynd yn ol yn fy mywyd i fel oedd o pan oeddwn i'n 18'.*

6.117 Mynegodd nifer o ddefnyddiwyr gwasanaeth fod eu gobeithion am gael hyd i dŷ yn cael eu rhwystro gan y ffaith eu bod yn hawlio budd-daliadau. Gwnaethant fynegi sut yr oeddynt wedi cael eu heithrio o'r sector rhentu preifat gan fod landlordiaid ac asiantaethau gosod tai yn amharod i roi llety i'r rhai oedd yn derbyn Budd-dal Tai:

*'Dw i wedi gwneud ymgais i gael hyd i le rhentu preifat, ond eto, oherwydd yr ataliadau ar fudd-dal tai, mae fel petai'n amhosibl gwneud hynny heb symud i mewn hefo rhywun fel cymar oherwydd dyna'r unig ffordd y gallech chi mewn gwirionedd gael digon o gyllid i fforddio lle un gwely. Fel dw i'n dweud, yr unig lety y gallwn i, fel person sengl, ei fforddio fuasai 'bedsit, ond tydi'r rhai o gwmpas fa' ma ddim yn lletya taliadau budd-dal tai, felly mae hynny'n ychydig o ffordd ymwared'.*

6.118 O’r 24 a oedd wedi medru cael hyd i lety newydd yn y sector breifat, roedd 20 yn parhau i fod eisiau bod mewn tai cymdeithasol yn ystod y chwe mis canlynol oherwydd y sicrwydd ymddangosiadol yr oedd yn ei gynnig. Fodd bynnag, mynegwyd gan lawer nad oedd ganddynt lawer fawr o obaith y byddai hyn yn digwydd. Mynegodd un ymatebwr:

> *“Mi fuaswn yn teimlo mwy o sicrwydd pe bai’n dŷ cyngor neu drwy gymdeithas tai ond dw i’n ymwybodol pa mor anodd ydi hi. Yn ddelfrydol, buasai’n fwy – Mi fuaswn yn teimlo ei fod yn sefyllfa dai fwy sicr oherwydd y broblem gyda phreifat ydi gallant wneud fel fynno nhw, yn y bôn, a gymaimt mae’r cyngor yn dweud ‘ Mae hwn gennych chi ‘ a “Mi gawsoch hwnna.” Mae’n frwydr galed, hir’.*

6.119 Portreadodd ymatebwr arall y diffyg sicrwydd a deimlir ynglŷn â rhentu yn y sector breifat gan nodi fod rhentiau uchel yn golygu y byddai eu sefyllfa dai yn parhau’n ansicr:

> *‘Dw i’n meddwl petawn i’n mynd i’r rhentu preifat mi fydda’ i’n ôl yma mewn blwyddyn yn gwneud yr un peth eto. Petawn i’n mynd i’r dros dro, yna ddw i’n meddwl y bydda’ i’n iawn’.*

6.120 O blith pobl ieuengach, yn arbennig y rhai oedd yn sengl neu’n gyplau ifanc heb blant, nododd wyth o bobl eu bod yn eithaf anobeithiol am gael hyd i le i fyw a rhwystredigaeth fob dim cefnogaeth iddynt i gael eu bywyd yn ôl ar y llwybr cywir. Portreadodd un ymatebwr hynny fel a ganlyn:

> *‘Dim ond y mater hwn gyda’r digartrefedd a’r lloches nos a phob dim, dyna’r cwbl sydd gen i mewn gwirionedd. Mae fel petai bob dydd yn sialens, mae’n ymddangos i mi. Mae’n sialens. Does ’na ddim diwedd iddo. Fedra’ i ddim gweld unrhyw derfyn iddo fo o gwbl, i ddweud y gwir wrthoch chi’.*

6.121 Yr oedd chwedeg o ymatebwyr nad oedd eto wedi cael llety yn teimlo’n eithaf hyderus y buasent, ond mynegodd 30 o bobl yeu bod yn obeithiol ond yr oeddynt yn parhau i fod yn eithaf ansicr. Ar y llaw arall, yr oedd lleiafrif arwyddocaol o ymatebwyr a nododd eu bod yn poeni na fuasent yn gallu cael hyd i le i fyw o gwbl, er gwaethaf y cymorth gan wasanaethau tai. Yn bennaf, yr oedd hyn oherwydd y diffyg ymddangosiadol o dai fforddiadwy, yn arbennig ar gyfer pobl sengl, iau.

**Bylchau mewn darparu gwasanaeth**

6.122 Fel y trafodwyd o'r blaen, doedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr ddim yn gweld fod unrhyw fylchau yn y gwasanaeth yr oeddynt wedi ei dderbyn yn bersonol. Yr oedd nifer o bobl yn cydnabod fod awdurdodau lleol a'r staff oedd yn gweithio iddynt o dan gryn bwysau. Canfu rhain fylchau wedi eu canoli ar ddau fater trosfwaol: diffyg tai digonol a chyfathrebu rhwng awdurdodau lleol a defnyddiwyr gwasanaeth. Yn fwy penodol, 'roedd y bylchau'n cynnwys: diffyg lloches mewn argyfwng; yr angen am ddarpariaeth hostel addas i ferched a chyplau; yr angen am lety sy'n caniatáu anifeiliaid; diffyg tai cymdeithasol / tai rhentu preifat cymwys; pwysigrwydd cysylltiad wyneb yn wyneb; pwysigrwydd cwrteisi ac empathi gan staff; a gwybodaeth fwy eglur a diweddaru mwy rheolaidd.

*Diffyg lloches mewn argyfwng*

6.123 Y bwlch mwyaf pwysig oedd dim digon o loches mewn argyfwng mewn tri o'r chwe lleoliad, fel y dynodwyd gan faint o amser yr oedd rhai o'r ymatebwyr yn cael eu gorfodi i gysgu allan cyn cael eu darparu â llety mewn argyfwng. Mewn un ardal, cymhaliwyd "gwobr siawns" gyda'r nos pan nad oedd digon o le. Fel y mynegodd un ymatebwr:

> *'Os ydych chi'n cael eich tynnu allan o het, rydych chi ar y strydoedd. Fel yna mae hi. Pan fo mwy na 16 o bobl yn y lloches nos, os nad oes gennych gysylltiad lleol ' mae hi wedi canu arnoch chi. Rydych chi'n cael eich lluchio allan. Wedyn os yw'n parhau fod gormod yno, mae eich henw yn cael ei roi mewn het ac os ydych enw yn cael ei dynnu allan o'r het, nes fod yna 16 o bobl ar ôl "'rydych chi'n gadael'.*

*Darpariaeth hostel fwy addas i ferched a chyplau*

6.124 Nododd saith ymatebwr benywaidd eu bod wedi cael eu rhoi yn amhriodol mewn hosteli cymysg, ac wedi pryderu am eu diogelwch eu hun, tra doedd rhai cyplau'n methu ag aros gyda'i gilydd, a oedd yn gwneud y sefyllfa yn fwy anodd a dirdynnol iddynt:

> *Petaent wedi fy rhoi i a [ cymar] yn yr un ystafell yn syth oherwydd mi achosodd gryn dipyn o straen i [cymar] a rwan rydan ni yno ac mae hi wedi ymlonyddu a rydan ni'n iawn rwan.*

6.125 Disgrifiodd ymatebwr arall gostau uchel llety lloches mewn argyfwng, yn arbennig i'r rhai sy'n ennill eu cyflog eu hunain, a sut yr oedd hynny yn ei gwneud yn amhosibl cynilo er mwyn ailddechrau eu bywyd:

> *'Gan fy mod i'n gweithio...yr hyn dw i'n ei olygu, cost noddfa ydy £350 yr wythnos felly roedd rhaid i mi hawlio budd-dal oherwydd tydi fy nghyflog i ddim yn £350 yr wythnos, er fy mod i'n gweithio 50 awr...yn y bôn dw i'n gweithio am gyfwerth lwfans Chwilio am Waith ar hyn o bryd, a dim ots faint dw i'n ennill yn ychwanegol fedra i ddim ei gynilo oherwydd y mwyaf dw i'n ennill y mwyaf mae nhw'n ei gymryd...ar ben hyn mae'r tâl storio'n £105 y mis yn ychwanegol, mae o'n gylch cythreulig...wyddoch chi, o fethu gallu cynilo dim i fy nhael i fy hun allan ahono fo, a thaliad cartrefu dewisol ydi'r unig ffordd i mi gael allan ohono fo'.*

6.126 Ar gyfer yr ymatebwr a ddyfynwyd uchod, roedd yr awdurdod lleol wedi methu â darparu tŷ cymdeithasol, ond yr oedd yn gwethio i gynorthwyo cael llety yn y sector rhentu preifat. Roedd cefnogaeth i ddarparu 'bond' yn allweddol er mwyn gwneud hyn. Fodd bynnag, yr oedd yr angen am 'fond' wedi profi'n broblematig i sawl ymatebwr oherwydd roedd y broses fiwrocrataidd yn afradu amser o sicrhau a bod mewn sefyllfa i ddarparu bond yn golygu fod cefnogaeth wedi dod yn rhy hwyr i lond llaw o ymatebwyr mewn ardaloedd lle roed galw am lety rhentu preifat.

*Yr angen am lety sy'n caniatáu anifeiliaid*

6.127 Ymddiheurodd wyth ymatebwr neu roeddynt mewn embaras am nid yn unig ofyn am lety iddynt hwy eu hunain, ond am angen llety a fuasai'n derbyn anifeiliaid anwes, yn arbennig cwn:

> *'Mewn gwirionedd, mewn rhai ffyrdd, dw i'n meddwl eu bod wedi fy helpu ryw ychydig mwy oherwydd y ci, oherwydd mae nhw'n fy neall i. Rwy'n dioddef o post traumatic stress disorder, sy'n ddrwg ers pan oeddwn i'n filwr, a hi ydi fy mendith i,y ci, felly gwnaethon nhw ddeall hynny i gyd, ac mae nhw wedi bod yn fendigedig. Dw i'n gwybod e'lla' ei fod o'n swnio'n wirion ar eich recordiad a beth sydd gennych chi'.*

6.128 Fel y mae’r dyfyniadau uchod yn dangos, roedd caniatáu anifeiliaid anwes yn hynod o bwysig i bobl oedrannus, bregus ac i’r rhai gyda phroblemau iechyd meddwl. Mae’r math hwn o gwmniaeth yn bwysig wrth ystyried sut y mae’r grwpiau hyn yn cynnal gwydnwch ac yn addasu wrth wynebu adfyd, arwydd o rôl fwy pwysig i’r anifeiliaid hyn nag anifeiliaid anwes yn unig.

*Diffyg tai cymdeithasol / rhentu preifat addas*

6.129 Yn ystod cyfnod y cyfweliadau, mynegodd y mwyafrif o ymatebwyr ddymuniad am dai cymdeithasol gan eu bod yn fforddiadwy, o safon uwch na llety rhentu preifat, ac roedd ganddynt ddaliadaeth llawer mwy sicr. Dim ond chwe pherson a fynegodd y buasai llety rhentu preifat yn foddhaol pe bai o’r un safon â thai cymdeithasol. Daeth ugain o bobl yn ôl at y thema hon pan ofynnwyd iddynt am fylchau mewn cefnogaeth:

> *‘Adeiladwch fwy o dai cymdeithasol, darparwch fwy o dai cymdeithasol oherwydd mae cymaint o dai wedi eu gadael yn wag o gwmpas y fan yma ond mae cymaint o bobl digartref hefyd’.*

> *‘Y cyngor, ia, adeiladwch fwy o dai fel bod pobl yn gallu cael i mewn iddynt o ddifrif. Mae ’na fel 10 y cant o dai ar gael i’r cyfanswm o bobl sydd eu hangen hwy ac yna ceisiwch gael y rhai hynny allan o’r tai sydd yn llawer rhy fawr iddynt hwy beth bynnag. Mae pobl yn byw mewn tai gyda thair ystafell wely a dim ond un sydd eu hangen arnyn’ nhw, i’r rhai sydd angen yr ystafelloedd gwely.he council, yes, build more houses so people can actually get into them. There's like 10 per cent of houses available for the amount of people that need them and then try and get those out of houses that are way too big for them anyway. People are living in three bedroomed houses and they only need one, for those that do need the bedrooms’.*

6.130 Tra wnaeth 15 o ddefnyddiwyr gwasanaeth siarad yn benodol am y diffyg tai i bobl sengl:

> *‘Dim ond adeiladu mwy o dai sydd angen i ni, mwy i bobl sengl oherwydd mae ’na lawer o bobl sengl heb unman i fyw o gwbl oherwydd ni allan nhw eu fforddio llawer ohonyn’ nhw’..*

*Gwybodaeth fwy eglur a diweddariadau mwy rheolaidd*

6.131 Cwyn fwyaf 40 o bobl, a fynegodd eu bod yn hynod bryderus ynglŷn á beth fuasai'n digwydd iddynt hwy a phryd, oedd y diffyg diweddariadau rheolaidd gan staff awdurdod lleol am eu hachosion. Cynigodd rhai ymatebwyr y byddai cael llinell amser yn eu cynorthwyo i ddeall beth oedd yn digwydd ac i leddfu eu pryderon tra roedd eraill yn ystyried y buasai diweddariadau rheolaidd, dim ots faint o gryno, yn gymorth i'w bodloni fod gwaith yn cael eu wneud ar eu hachosion:

*'Yr unig beth arall ydi sicrhau eich bod yn derbyn diweddariadau, dim ond galwad ffôn dwy funud. Rydan ni'n ymwneud â'r achos. Popeth yn iawn. Mi fyddwn mewn cysylltiad'.*

*'Mi fuaswn i'n hoffi gwybod mwy na'r hyn rydan ni'n ei yn wirioneddol yn ei gael oherwydd rydan ni'n cael ein troi allan mewn, be' ydi o, ymhen mis a 'da ni ddim yn gwybod i le 'da ni'n mynd a be' da ni'n wneud, unai rydan ni'n mynd i gysgu allan neu mewn gwely a brecwastneu men lle un gwely neu ddau wely, neu beth bynnag... Mi fuaswn ni wedi hoffi cael llinell amser o'r hyn sy'n digwydd neu prud fyth petha'n digwydd neu, 'da chi'n gwybod, pryd mae nhw'n rhoi'r tai allan, os ydyn' nhw yn eu rhoi nhw yn wythnosol neu'n fisol neu rywbeth fel yna'.*

6.132 Nododd saith o bobl fod y wybodaeth a roddwyd iddynt ar y cychwyn yn llethol ac yn anodd i'w ddeall, yn arbennig oherwydd y straen yr oeddynt yn ei brofi. Wrth feddwl am anhawster cofio gwybodaeth, awgrymodd un ymatebwr y byddai'n ddefnyddiol petaent yn derbyn gwybodaeth ysgrifenedig am y broses o beth i'w ddisgwyl:

*'Efallai llyfryn bach i adael i bobl wybod beth yw'r brosrs oherwydd y mae o'n medru bod yn eithaf llethol 'dw i'n meddwl pan ydach chi'n poeni lle yr ydych yn mynd i fyw, yn arbennig os oes gennych chi blant ac ati. Efallai na fyddwch chi'n medru cofio'r hyn mae nhw'n ei ddweud yn y cyfarfod i gyd felly petai 'na daflen fach sy'n egluro, reit, 'da chi wedi eich cofrestru gyda thai rwan, mae disgwyl i chi wneud hyn, bydd rhywun yn cysylltu hefo chi os ydi hyn yn digwydd, wyddoch chi, a dim ond egluro'r broses fel bod gennych chi rywbeth i gyfeirio ato'.*

6.133 Mynegodd eraill eu bod wedi gorfod ailadrodd eu hanes i wahanol aelodau o staff, ac awgrymu y buasai cyfathrebu gwell rhwng staff awdurdod lleol yn atal hyn rhag digwydd:

> *'Efalla' cyfathrebu mwy oherwydd 'dw i ddim – fel y dywedais i, 'roedd rhaid i mi ailadrodd fy hun lwyth o weithiau ac mi ddylsent ddiweddaru'r system ac ati'.*

6.134 Yn amlwg, roedd cynnwys a pha mor aml oedd y cyfathrebu yn medru bod yn broblem. Roedd syniad o gyfnod amser, y broses, beth y gallai pobl ei ddisgwyl i ddigwydd yn ogystal â beth y disgwylir iddynt ei wneud a pham, yn hanfodol. Mae'r dyfyniad uchod hefyd yn oblygiad penodol mewn perthynas â chadw cofnodion a rhannu gwybodaeth fel nad oes gorfodaeth ar ddefnyddiwyr gwasanaeth egluro'u hamgylchiadau dro ar ôl tro (sydd yn y pendraw yn anghydweddol â dull person-ganolog o weithio).

**Crynodeb o gasgliadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau**

6.135 O'r rownd gyntaf hon o gyfweliadau ansoddol mae rhai patrymau'n ymddangos. Mae'r cyntaf yn canolbwyntio ar y rhesymau paham y mae pobl yn mynd yn ddigartref er bod cryn amrywiad rhwng amgylchiadau unigol pobl. Mae'r ffactorau sy'n arwain at ddigartrefedd yn cynnwys: perthynas yn chwalu, trais a chamdriniaeth ddomestig, anallu i barhau i fyw gyda theulu, materion yn y sector rhentu preifat, diffyg llety ar ôl cael eich rhyddhau o garchar / sefydliadau eraill, troi allan o dai cymdeithasol a methu â chael tai cymdeithasol fel canlyniad i dorri tenantiaethau o'r blaen, troi allan o ddarpariaeth argyfwng / hostel, ôl-ddyledion rhent, incwm bach a materion yn ymwneud â budd-daliadau.

6.136 Fodd bynnag, y mae'n amlwg mai'r ymatebwyr rheini oedd wedi cael problemau gyda'u teulu oedd y garfan fwyaf a oedd yn edrych am gymorth. O fewn y grŵp hwn, yr oedd y mwyafrif yn ymddangos fel canlyniad i chwalu perthynas, sy'n arddangos yr angen am lety di-oed, fforddiadwy i bobl sengl. Yr oedd yr ail garfan fwyaf yn cynnwys pobl ifanc oedd wedi cael eu gorfodi i adael eu cartrefi am amrywiaeth o resymau. Yr oedd llawer o'r bobl ifanc hyn yn cael profiad o broblemau mwy cymhleth, ac 'roedd llawer wedi bod yn y system ers cryn amser. Mae'r cyfweliadau'n dangos er mwyn atal digartrefedd i'r grŵp hwn mae'n bosibl fod angen blaenoriaethu cefnogaeth i bobl ifanc ar fin gadael gofal a darparu gwasanaethau mwy cynhwysfawr er mwyn darparu mwy o strwythur a sefydlogrwydd yn ystod y blynyddoedd cynnar hynny. Ymchwilir hyn ymhellach yn ystod yr ail don o gyfweliadau.

6.137 Problemau yn y sector rhentu preifat oedd yr ail reswm mwyaf cyffredin am ddigartrefedd , ac mewn dwy ardal astudiaethau achos dyma oedd y prif reswm dros bobl yn mynd at yr awdurdod lleol am gefnogaeth i ddod o hyd i gartref. Yr oedd ansicrwydd daliadaeth yn y sector hwn ac adroddiadau am ansawdd tai truenus ac anawsterau gyda landlordiaid preifat yn heriau arwyddocaol. Yn aml, ’roedd defnyddwyr gwasanaeth yn mynegi rhwystredigaeth gyda llety yn y sector preifat yn cael ei gynnig fel dull o ddatrys eu digartrefedd. Y mae hyn yn arbennig o ddealladwy pan fo eu digartrefedd wedi cael ei achosi gan broblemau gyda thenantiaethau yn y sector rhentu preifat. Wrth siarad am eu gobeithion ar gyfer y dyfodol, ’roedd y mwyafrif o bobl eisiau tenantiaeth yn y sector dai cymdeithasol, gan y teimlent fod hyn yn cynnig gwell sicrwydd ac ansawdd na’r sector rhentu preifat. Ystyriai nifer o ymatebwyr y gagendor mwyaf mewn gwasanaethau awdurdodau lleol yn syml iawn fel y diffyg tai cymdeithasol.

6.138 Roedd sawl elfen yn effeithio’r garfan gyfan o ddefnyddwyr gwasanaeth ac yn cyfrannu at achosi neu gynnal digartrefedd. Roedd effaith diffyg cyfleoedd gwaith yn yr ardaloedd lle ’roeddynt yn byw, incwm isel, diffyg llety fforddiadwy ac effaith Diwygio Lles yn croesdorri i greu heriau arwyddocaol. Ymddangosai fod hyn yn effeithio pawb, ond yn arbennig pobl sengl o dan 35 mlwydd oed. Yn amlwg, yr oedd y ffactorau hyn yn ymwneud ag incwm. Yn ogystal, yr oedd dyled yn fater i nifer o bobl ac i nifer fach o bobl roedd crynhoi ôl-ddyledion rhent cymdeithasol yn flaenorol yn ffactor a oedd yn cyfrannu i’w digartrefedd parhaus. Daeth yn amlwg fod nifer o ymatebwyr yn defnyddio ystod o wasanaethau i’w cynorthwyo i ddarparu anghenion sylfaenol - fel banciau bwyd - hyd yn oed i’r rhai oedd yn gweithio. Mae’r dreth ystafell wely’n parhau i gael effaith, er yn fach, yn ogystal â sancsiynau budd-daliadau eraill.

6.139 Yr oedd elfennau eraill a oedd yn achosi neu gynnal digartrefedd yn ymwneud ag iechyd gyda nifer uchel o broblemau iechyd meddwl yn ymddangos eu bod yn cyfrannu at anawsterau pobl wrth gael a chynnal llety. Gan amlaf, yr oedd y bobl hynny gyda'r afiechydon mwyaf difrifol yn derbyn cynhorthwy digonol, er i rai, roedd cynhorthwy o'r fath ond ar gael ar ôl cyfnod o gysgu allan. I lawer o rai eraill, fodd bynnag, yr oedd hwn yn angen cefnogi nad oedd wedi cael ei ddiwallu. Problemau iechyd meddwl a oedd wrth wraidd rhesymau eraill mwy uniongyrchol o ddigartrefedd fel cam-drin sylweddau, ymddygiad troseddol, sawl cyfnod o gaethiwed, a chwalu perthynas o fewn teuluoedd.

6.140 O'r data a gasglwyd yn ystod y don gyntaf hon gyda defnyddiwr gwasanaeth, y mae'n amlwg fod mwyafrif bychan o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cyfeirio at wasanaethau digartrefedd drwy atgyfeirio gan wasanaethau eraill. Yr oedd gan rhai pobl wybodaeth flaenorol ac eraill wedi cael eu cynghori i fynd at wasanaethau digartrefedd gan deulu a chyfeillion. Yr oedd llai na hanner o'r ymatebwyr yn unrhyw un o'r ardaloedd astudiaethau achos wedi mynd at yr awdurdod lleol o'r blaen, yn rhai ardaloedd yr oedd cyn ised â chwarter. Yr oedd nifer o'r rheini wedi cofrestru i fod ar y rhestr aros am dai cymdeithasol yn unig. O'r gweddill oedd wedi mynd at y cyngor, mynegodd ymatebwyr brofiadau cymysg. Yr oedd llawer yn gweld y cymorth yr oeddynt wedi ei dderbyn yn ddefnyddiol, ac wedi cael tai parhaol. I'r rhai a oedd wedi colli eu llety ers hynny yr oedd y rhesymau yn amrywiol ac yn amrywio o berthynas yn chwalu i amser wedi ei dreulio yn y carchar yn ogystal â chronni ôl-ddyledion rhent.

6.141 Yn fras, 'roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol iawn am y cymorth yr oeddynt wedi ei dderbyn ar draws ardaloedd astudiaethau achos lle yr oeddynt yn nodi fod yr awdurdod lleol wedi gwrando, yn deall eu sefyllfa, ac yn cyfathrebu'n gyson am eu hachos. Er bod cryn amrywiaeth yn amgylchiadau unigol pobl, amlygwyd fod yr angen am gefnogaeth a chyfathrebu rheolaidd yn bwysig. Gan fod problemau iechyd meddwl yn gyffredin ymysg y bobl a gyfwelwyd, yr oedd cyfathrebu a dealltwriaeth helaeth o anghenion cefnogaeth ac adnoddau oedd ar gael fel ei gilydd yn ymddangos yn arbennig o bwysig i gynorthwyo pobl i gael sefydlogrwydd llety. I lawer, roedd cyflwr a oedd yn bresennol yn barod fel iselder neu bryder wedi bod yn elfen a oedd wedi cyfrannu at eu digartrefedd, ond yr oedd nifer o bobl eraill wedi dioddef o salwch meddwl a thrallod fel canlyniad i wynebu digartrefedd.

6.142 Yn gyffredinol, mynegodd pobl fod yr awdurdod lleol yn eu cefnogi, ac yr oedd nifer fawr ohonynt wedi cael profiadau hynod o gadarnhaol. Nododd fwyafrif llethol eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch gan staff awdurdod lleol. Yr oedd y mwyafrif o ymatebwyr yn ansicr beth fyddai eu sefyllfa llety ymhen chwe mis. Fodd bynnag, yn fras roeddynt yn optimistaidd y byddai eu sefyllfa llety yn gwella.

6.143 Doedd y mwyafrif bychan o ymatebwyr dim yn teimlo fod bylchau yn y gwasanaeth yr oeddynt wedi ei derbyn yn bersonol. Roedd y bylchau y canfu ymatebwyr wedi cronni o gwmpas dau brif fater trosfwaol: diffyg llety digonol a chyfathrebu.

# 7. Canlyniadau

7.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno casgliadau'r ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid cenedlaethol, yr arolwg o bob awdurdod lleol Cymru a chyfweliadau ton gyntaf gyda 154 o ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws chwe ardal astudiaethau achos. Ar gyfer yr adroddiad interim hwn, nodir cydgyfeiriant a datgyfeiriad barn am weithredu'r Ddeddf, yn nhermau proses ac effaith ar draws y carfannau gwahanol (pan fo'n briodol).

**Proses**

*Canolbwyntio ar atal*

7.2 Ar y cyfan, mynegodd awdurdodau lleol eu bod yn cefnogi'r pwyslais cynyddol ar atal a gyflwynwyd o dan y Ddeddf, ac maent yn credu fod y newidiadau deddfwriaethol wedi cael effeithiau cadarnhaol. Awgrymodd rhanddeiliaid cenedlaethol hefyd fod cynnydd da yn cael ei wneud; fodd bynnag, yr oeddynt yn adrodd fod yna ddefnydd anghyson o weithgareddau atal yng Nghymru. Ymatebodd rhanddeiliaid yn gadarnhaol ynglŷn â'r ethos, bwriad a darpariaethau'r ddeddfwriaeth, ac yn gyffredinol yn mynegi fod y Ddeddf wedi sefydlu cyfres o ganllawiau a phrosesau clir, cyson a thryloyw ar gyfer awdurdodau lleol i fynd i'r afael â digartrefedd ar draws Cymru.

7.3 Adroddodd awdurdodau lleol bod y dull ataliol i ddigartrefedd yn llwyddo, gyda thros hanner yn cyfeirio tuag at y ffaith fod gweithgareddau atal wedi cynyddu ers cyflwyno'r Ddeddf, a'i fod wedi rhoi cymorth iddynt wella eu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor. Dyma farn y rhanddeiliaid cenedlaethol gan eu bod hefyd yn nodi fod y Ddeddf wedi cynyddu'r lefel o gyngor a chymorth a oedd ar gael i bobl.

7.4 Amlinellodd y rhanddeiliaid cenedlaethol a'r awdurdodau lleol ystod eang o weithgareddau atal llwyddiannus, a oedd yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i allgymorth, cyfryngu, eiriolaeth, llety, a ffurfiau eraill o gynnal tenantiaeth. Fodd bynnag, y mae'n bwysig nodi fod awdurdodau lleol wedi mynegi mai'r ffurf bennaf o atal yw cymorth ariannol - ar gyfer gwarantau rhent/talu blaendaliadau/bondiau, ôl-ddyledion rhent - ac y mae goblygiadau o ran adnoddau, gan fod ariannu trosiannol yn cynnal hyn ar hyn o bryd. Yn arwyddocaol mae gostyngiad yn y gweithgareddau cymorth i sicrhau fod awdurdodau yn eu cyflawni, yn awgrymu fod digartrefedd yn cael ei atal i lawer fwy o bobl nag o'r blaen.

7.5 Croesawodd y rhanddeiliaid cenedlaethol a'r awdurdodau lleol y dyblu o'r cyfnod pan fo pobl yn cael eu hystyried o fod dan fygythiad o ddigartrefedd. Nododd bron pob awdurdod lleol fod cynnydd wedi bod yn y gwaith atal ac roeddent yn gadarnhaol ynglŷn â'i effeithiolrwydd. Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder y byddai hyn yn lleihau'r cymorth oedd ar gael i'r rhai hynny a oedd yn troi at wasanaethau y tu allan i'r cyfnod o 56 diwrnod, ond nododd y mwyafrif o awdurdodau lleol eu bod yn gweithredu rhywfaint o waith atal pan fo'r bygythiad o ddigartrefedd yn fwy na 56 diwrnod.

*Cod Canllawiau*

7.6 Nododd bron pob un o'r awdurdodau lleol fod y 'Cod Canllawiau' yn ddefnyddiol o ran hwyluso dealltwriaeth a chydymffurfiaeth â'r Ddeddf, a chynigiwyd canmoliaeth am ei arddull cynhwysfawr. Fodd bynnag, dywedodd rhai awdurdodau lleol y buasai cael y Cod Canllawiau yn gynt fod wedi cynorthwyo i adlunio gwasanaethau mewn ymateb i'r Ddeddf. Mynegodd rhai awdurdodau lleol hefyd y buasai cynnwys ambell 'scenario' neu astudiaethau achos yn cynyddu dealltwriaeth o'r materion mae swyddogion rheng flaen yn debygol o ddod ar eu traws. Yr oedd y farn hon ar y cyfan yn cael ei rhannu gyda rhanddeiliaid cenedlaethol.

*Y defnydd o fwriadoldeb*

7.7 Hyd yn hyn nid oes unrhyw un o'r awdurdodau lleol wedi newid eu safbwynt gyffredinol ffurfiol ar fwriadoldeb, er bod rhai newidiadau wedi cael eu gwneud. Y mae pump o'r awdurdodau lleol wedi diystyru bwriadoldeb i'r grwpiau angen blaenoriaethol, ac mae pedwar yn adolygu eu safbwynt ar hyn o bryd. Dynododd rhai awdurdodau lleol eu parodrwydd i adolygu 'r sefyllfa yn y dyfodol, tra roedd eraill yn fwy gwyliadwrus ynglŷn â newid y dull o weithio ar hyn o bryd. Nid adroddodd unrhyw awdurdod lleol ar effaith newid bwriadoldeb o ddyletswydd i rym. Mewn gwrthgyferbyniad, yr oedd safbwyntiau cymysg ymysg rhanddeiliaid ar y defnydd o fwriadoldeb; cefnogodd nifer yr hyblygrwydd a roddai i awdurdodau lleol, ac ystyriai nifer fechan ei fod yn rhwyd ddiogelwch ddefnyddiol i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mynegodd rhai rhanddeiliaid cenedlaethol y dylid ei ddiddymu'n llwyr i adlewyrchu ethos y Ddeddf yn llawn.

*Angen blaenoriaethol/heb fod mewn angen blaenoriaethol*

7.8 Mynegodd rai rhanddeiliaid cenedlaethol bryderon ynglŷn â'r trothwy is ar gyfer agored i niwed fel y'i diffinnir o dan a71 o'r Ddeddf; fodd bynnag, mynegodd lai na hanner o'r awdurdodau lleol eu bod wedi newid eu cynhwysiad o'r prawf agored i niwed o dan y ddeddfwriaeth newydd. Teimlai rhanddeiliaid cenedlaethol fod rhai heb fod mewn angen blaenoriaethol yn cael gwell canlyniadau nag yr oeddynt o dan y ddeddfwriaeth flaenorol, er nad oeddynt yn gwbl glir a oedd y rhai hynny mewn angen blaenoriaethol yn well neu'n waeth o dan y Ddeddf newydd. Fel y dangoswyd uchod, mae llai o bobl yn derbyn cymorth o dan a73 sy'n awgrymu fod pobl yn cael eu cynorthwyo yng nghamau cyntaf y ddeddf a bod angen blaenoriaethol ond yn arwyddocaol ar y diwedd.

*Cysylltiad lleol*

7.9 Dangosodd y mwyafrif o awdurdodau lleol nad oes newid dramatig mewn rhifau pobl sy'n ymgyflwyno heb gysylltiad lleol; hynny yw o awdurdodau lleol eraill/trawsffiniol. Tra roedd rhanddeiliaid yn cytuno gyda'r safbwynt hwn, roedd rhai â phryderon ynglŷn â rheoli'r galw am wasanaethau digartrefedd mewn ardaloedd trefol lle mae llety yn brin; yn arbennig Caerdydd.

*Llwybrau*

7.10 Gan fwyaf, nododd rhanddeiliaid fod y llwybrau ar gyfer pobl digartref gydag anghenion cymorth yn eglur. Fodd bynnag, mynegodd awdurdodau lleol fod amrywiaeth arwyddocaol yn eu defnydd ar draws Cymru, gyda rhai awdurdodau wedi gosod llwybrau yn eu lle, er enghraifft ar gyfer pobl gyda phroblemau iechyd meddwl, tra nad oedd gan eraill ddim. Mynegodd awdurdodau lleol mai'r grŵp sydd yn ymddangos wedi elwa fwyaf o'r newidiadau mewn gwasanaethau a gynigir iddynt, yw pobl sy'n gadael carchar neu lety cadw ieuenctid (drwy'r Llwybr i'r rheini sy'n Gadael Carchar).Trafodir hyn yn fwy manwl yn nhermau'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau o dan 7.19 a 7.20.

*Cefnogi Pobl*

7.11 Yr oedd rhanddeiliaid cenedlaethol yn pwysleisio rôl annatod Cefnogi Pobl i weithredu’r ddeddfwriaeth yn llwyddiannus. Ar adeg yr arolwg, adroddodd 15 awdurdod lleol fod ganddynt byrth i gyfeirio pobl i wasanaethau Cefnogi Pobl drwy dîm canolog i wasanaethau arbenigol, ac roedd awdurdod lleol arall yn y broses o sefydlu porth o’r fath. Fodd bynnag, ymddangosodd ddarlun amrywiol ar draws Cymru ynglŷn â gwasanaethau Cefnogi Pobl; mewn rhai awdurdodau, mae gwasanaethau yn rhan o dimau digartrefedd a theimlid fod hyn yn gweithio’n dda.

*Tystiolaeth a Monitro*

7.12 Amlygwyd rhai pryderon arwyddocaol gan randdeiliaid ynglŷn â’r defnydd o ystadegau at dystiolaeth a monitro canlyniadau. Dim ond lleiafrif o randdeiliaid a adroddodd eu bod yn glir, gyda’r mwyafrif yn nodi eu bod yn anodd eu dehongli ac yn fwy arwyddocaol nad ydynt yn cofnodi nac yn adlewyrchu’r gwaith atal a rhyddhau digartrefedd sy’n cael ei wneud ar draws Cymru. Yn rhannol roedd hyn yn cael ei briodoli i’r dull y cesglir a chyflwynir data a bod amrywioldeb mewn gweithgareddau cofnodi ar draws awdurdodau ac ardaloedd gweithredu. Nododd rhanddeiliaid nifer o feysydd allweddol lle teimlwyd fod anghywirdeb ac anghysondebau yn ymwneud â niferoedd yr aelwydydd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd; y nifer o bobl a ddarganfuwyd yn dangos diffyg cydweithrediad gyda gwasanaethau digartrefedd yr awdurdodau lleol; atal aflwyddiannus o ddigartrefedd; y nifer o aelwydydd DLIE a gynorthwywyd a’r nifer o gyfeiriadau o Cefnogi Pobl. Awgrymwyd hefyd fod bylchau yn y data yn ymwneud â gwaith yr asiantaethau partner.

7.13 Roedd ymatebion o bersbectif yr awdurdod lleol hefyd yn amlygu rhai diffygion yn y dull roedd data yn cael ei gasglu a’i gofnodi. Tra mynegodd y mwyafrif o awdurdodau lleol eu bod yn gallu mesur canlyniadau i bobl, dim ond lleiafrif nododd fod cynnydd mewn monitro gweithgarwch. Er enghraifft, dywedodd chwarter yr awdurdodau lleol nad oeddynt yn casglu data ar fonitro cydraddoldeb, sydd yn arwyddocaol gan fod angen gwybodaeth ar ethnigrwydd a rhyw ar gyfer ffurflenni ystadegau Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol nododd awdurdodau lleol mai dim ond ychydig o ddadansoddi canlyniadau nodweddion cydraddoldeb oedd yn cael ei wneud ac nid oedd rhai awdurdodau lleol yn sicr sut y defnyddiwyd y data yma. Mynegodd rhai awdurdodau lleol fod tynnu ceisiadau yn ôl yn faes lle'r oedd

bylchau mewn monitro, a dim ond un awdurdod lleol yn adrodd fod ganddynt brosesau i fynd ar ôl ceisiadau a dynnwyd yn ôl.

**Effaith**

*Adnoddau*

7.14 Mynegodd rhanddeiliaid cenedlaethol ac awdurdodau lleol fel ei gilydd bryderon arwyddocaol am y lleihad ac yn y pen draw am ddileu'r cyllid trosiannol. Tra roeddynt yn gwybod fod yr ariannu presennol yn drosiannol o ran ei natur, awgrymodd y ddwy garfan fod angen ariannu tymor hir, cynaliadwy i sicrhau fod gweithgareddau atal yn parhau i dderbyn adnoddau ar gyfer gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus. Credid fod hyn yn angenrheidiol yn nhermau'r nifer o staff a hyfforddid yn briodol a chefnogaeth ariannol i'r rhai hynny mewn perygl o ddigartrefedd. Hyd yn oed yn y cyfnod yma o weithredu'r Ddeddf, mynegodd nifer fawr o awdurdodau lleol fod adnoddau cyfyngedig wedi bod yn broblem. Mae'n bwysig cofio, fel y trafodwyd ym Mhennod 5, fod cefnogaeth ariannol yn cael ei ystyried yn weithgaredd atal allweddol gan yr awdurdodau lleol.

*Canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth*

7.15 Pwysleisiodd rhanddeiliaid cenedlaethol yn gryf fod pobl a oedd yn cyflwyno i wasanaethau digartrefedd yn cael eu trin yn well ar y cyfan ac yn cael canlyniadau mwy cadarnhaol o dan y Ddeddf newydd. Nododd bron pob awdurdod lleol eu bod yn defnyddio cynlluniau tai personol, a barn gyffredinol y rhanddeiliaid cenedlaethol a'r awdurdodau lleol oedd bod hyn wedi arwain i arferion gweithio mwy cadarnhaol yn ogystal â sefydlu perthynas fwy cadarnhaol rhwng awdurdodau lleol a defnyddwyr gwasanaeth. Felly mae yna farn gyffredinol ar draws y carfannau awdurdod lleol a rhanddeiliaid cymdeithasol am effeithiau cadarnhaol y Ddeddf sydd wedi hybu ar y dull person-ganolog o weithredu. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn glir o ganfyddiadau o'r ddau set o ddata fod amrywioldeb yn y gweithredu (yn nhermau proses ac effaith) o'r Ddeddf. Yn rhannol gellir egluro hyn oherwydd gwahaniaethau mewn cyd-destunau, er enghraifft demograffeg o awdurdod lleol, gweithredu'r farchnad dai, a galw am wasanaethau. Codwyd pryderon hefyd am y diffyg llety i bobl sengl a'r lefelau o bobl sy'n cysgu allan.

7.16 Mae profiadau defnyddwyr gwasanaethau yn goleuo’r materion hyn ymhellach. Dim ond rhif bychan a allai gymharu profiadau blaenorol o gyflwyno i wasanaethau digartrefedd (o dan yr hen ddeddfwriaeth) a theimlai rhai o’r bobl yma fod y ddeddfwriaeth newydd yn well, tra theimlai eraill fod llai o gefnogaeth. Yn nhermau'r profiadau o dderbyn cymorth o dan y Ddeddf, yn gyffredinol teimlai defnyddwyr gwasanaethau yn gadarnhaol ar y cyfan am y cymorth yr oeddynt wedi ei dderbyn. Yr oeddynt hefyd yn nodi fod eu profiadau’n adlewyrchu ethos y Ddeddf, a nodasant eu bod wedi rhyngweithio’n llwyddiannus gyda staff awdurdod lleol. Ar y cyfan siaradodd defnyddwyr gwasanaethau yn gadarnhaol pan fo gwasanaethau digartrefedd yn hygyrch; roedd yr awdurdod lleol yn ymatebol, ac yn ymddangos fel pe baent yn deall eu sefyllfa a sut i’w cynorthwyo; cawsant eu trin gan staff gydag urddas a pharch a oedd yn dangos empathi am eu sefyllfa; cyfathrebodd staff awdurdod lleol gyda hwynt trwy gydol y broses gan ddarparu datrysiadau ymarferol. Yn gryno, roedd y dull yn ‘berson - ganolog’. Awgrymodd rhai pobl fod cyfyngiadau yn yr hyn y gallai’r awdurdod lleol ei wneud i’w cynorthwyo ond yr oeddynt yn parhau yn gadarnhaol am sut yr oeddynt yn cael eu trin gan staff. Fodd bynnag, adroddodd defnyddwyr gwasanaeth yn nwy o’r ardaloedd astudiaethau achos brofiadau llawer llai cadarnhaol, ac roedd y rhain yn ymwneud â: problemau cael at wasanaethau; diffyg cyswllt wyneb-yn-wyneb gyda staff; a diffyg ymateb gan staff awdurdodau lleol. Yn yr achosion hyn, adroddwyd yn aml fod cyfathrebu gan staff yn wael. Mewn rhai achosion, mynegodd rhai defnyddwyr gwasanaeth eu bod yn teimlo nad oedd y staff yn dangos empathi a bod rhai ohonynt yn arddangos agweddau negyddol amdanynt. Teimlid fod hyn yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd dull person-ganolog, sy’n cynorthwyo pobl i deimlo’n gadarnhaol ynglŷn â’r broses. Mae’r canlyniadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn awgrymu fod rhai bylchau mewn gweithredu ethos y ddeddfwriaeth yn llawn a gweithio drwy bartneriaeth mewn rhai awdurdodau lleol.

*Yr effaith ar bobl gyda nodweddion gwarchodedig/grwpiau sy'n agored i niwed.*

7.17 Cymysg oedd ymatebion gan awdurdodau lleol ynglŷn ag os oedd unrhyw newidiadau wedi bod yn y dull y mae pobl gyda nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin o dan y Ddeddf newydd. Awgrymodd rhanddeiliaid cenedlaethol fod effaith y Ddeddf ar bobl gyda nodweddion gwarchodedig/grwpiau sy'n agored i niwed wedi ei ganolbwyntio i raddau helaeth ar yr amrywioldeb mewn darparu gwasanaethau. Mae hyn yn ymwneud a'r gwahaniaethau ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, a hefyd yn nhermau'r nodweddion gwarchodedig sy'n bresennol, gyda phobl gyda phroblemau iechyd meddwl yn cael y profiadau mwyaf anodd. Nododd awdurdodau lleol yn aml fod heriau mewn darparu cefnogaeth i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl. Awgrymodd y rhanddeiliaid mai dynion sengl, y rhai hynny sy'n gadael gofal, cyn-droseddwyr a'r rhai gyda nifer o broblemau, oedd mewn mwyaf o risg gan ni ddiwallwyd eu hanghenion. Mae profiadau defnyddwyr gwasanaeth yn cefnogi hyn, gan na chafodd y rhan fwyaf o'r rhai hynny oedd yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau o garchar unrhyw gymorth i gael llety cyn eu rhyddhau, sy'n awgrymu nad oedd y Llwybr i'r rheini sy'n Gadael Carchar yn cael ei ddefnyddio'n gyson. Fodd bynnag, mynegodd nifer fechan o ferched yn yr un sefyllfa brofiadau mwy cadarnhaol.

7.18 Er bod y defnyddwyr gwasanaeth gyda'r cyflyrau iechyd meddwl mwyaf dwys yn ymddangos fel pe baent yn derbyn cymorth priodol, i lawer eraill, nid oedd eu hanghenion iechyd meddwl yn ymddangos fel pe baent yn cael eu trin yn iawn, ac nid oeddynt yn derbyn unrhyw gymorth. Nid yw'n glir beth oedd y rheswm am hyn; ai oherwydd nad oedd unigolion yn cyrraedd y 'trothwy' ar gyfer cymorth iechyd meddwl neu oherwydd nad oedd gwasanaethau ar gael yn eu hardal awdurdod lleol hwy neu oherwydd nad oeddynt wedi ceisio cael gwasanaethau. Mae hwn yn faes sy'n achosi pryder. Mynegodd nifer helaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth eu bod wedi profi problemau iechyd meddwl, ond dewisodd nifer o rai eraill i beidio ag ateb y cwestiwn hwn er ymddangosai fel pe baent yn dioddef problemau iechyd meddwl yn ystod y gwaith maes. Yn aml, roedd pobl a oedd yn dioddef problemau iechyd meddwl hefyd yn dioddef/ wedi dioddef problemau eraill, er enghraifft camddefnyddio alcohol a sylweddau eraill, gweithgaredd troseddol a oedd yn golygu treulio amser yn y carchar neu berthynas yn chwalu.

*Effaith y Ddeddf ar staff awdurdodau lleol*

7.19 Dangosodd dros hanner o awdurdodau lleol fod cynnydd wedi bod yn y galw am wasanaethau ers cyflwyno'r ddyletswydd i atal a theimlwyd yn gyffredinol fod hyn wedi gosod mwy o bwysau gwaith ar dimau digartrefedd awdurdodau lleol. Adroddodd un deg a saith o awdurdodau lleol fod heriau yng ngweithredu'r Ddeddf oherwydd yr addasu i ddulliau newydd o weithio a hyn yn rhannol oherwydd bod achosion yn cael eu cadw'n agored am fwy o amser a chynnydd mewn biwrocratiaeth. Dyma oedd barn y rhanddeiliaid cenedlaethol, a gododd bryderon am faich y gwaith papur a'r adnoddau oedd ar gael. Cododd rhanddeiliaid y mater o drosiant staff gan fod rhai aelodau o staff yn ymdrechu i addasu i'r dulliau newydd o weithio. Fodd bynnag, awgrymodd rhai rhanddeiliaid fod y Ddeddf hefyd wedi arwain at arferion gwaith mwy cadarnhaol a newidiadau mewn diwylliant sefydliadol. Awgrymodd rhanddeiliaid cenedlaethol hefyd fod penodi staff newydd - i gymryd lle'r rhai a oedd yn methu addasu i'r newidiadau - yn cynnig cyfle arall i wella gwasanaethau a sefydlu ethos person-ganolog, ond nodwyd hefyd fod gan hyn oblygiadau i'r angen am hyfforddiant pellach.

*Effaith y Ddeddf ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC)*

7.20 Nid oedd y mwyafrif o'r rhanddeiliaid cenedlaethol yn credu fod y ddeddfwriaeth newydd wedi newid rôl LCC mewn atal digartrefedd ac awgrymwyd fod nifer yn gweithio ar hyn o bryd mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i atal a datrys digartrefedd. Nododd rhai rhanddeiliaid fod y Ddeddf wedi cyfnerthu'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a'r LCC, gan ddarparu fframwaith mwy eglur i weithredu ynddo. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae darlun cymysg yn ymddangos yma, lle amlygwyd rhai esiamplau o arfer da, ond mynegwyd pryderon hefyd. Mae'r ymatebion o'r arolwg awdurdodau lleol yn ategu hyn. Dangosodd wyth awdurdod lleol fod y Ddeddf wedi caniatáu gwell cydweithrediad gyda LCC, tra adroddodd naw ddim newid a phump yn anghytuno. Mynegodd awdurdodau lleol fod esiamplau o gydweithio da, ac eraill lle 'roedd heriau, yn arbennig gyda 'unigolion anodd eu lletya'.

*Effaith y Ddeddf ar y sector rhentu preifat*

7.21 Y consensws ymysg rhanddeiliaid cenedlaethol oedd nad oedd unrhyw opsiwn ond i ddefnyddio'r sector rhentu preifat i ddarparu datrysiadau tai ar gyfer ystod o bobl; mynegodd rhai bod hyn yn gam cadarnhaol, tra amlygodd eraill bryderon am amrywioldeb mewn argaeledd, a safonau a diogelwch tenantiaeth ar draws Cymru. Er i'r awdurdodau lleol fynegi mai tai cymdeithasol yw'r brif ffordd mae awdurdodau lleol yn cyflawni dyletswydd i sicrhau llety i geiswyr ag angen blaenoriaethol (a75) pan fo'r ddyletswdd yn a73 yn dod i ben, cafwyd gwybodaeth hefyd eu bod yn defnyddio mwy o'r sector preifat i atal a rhyddhau digartrefedd. O'r arolwg awdurdodau lleol, roedd esiamplau o ymarfer da, er enghraifft fforwm landlordiaid a swyddogion sector rhentu preifat yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol.

7.22 Er y gall awdurdodau lleol yn awr adael i'w dyletswydd ddod i ben drwy'r sector rhentu preifat, nid yw'r cyflenwad wedi cynyddu, a chododd awdurdodau lleol bryderon am argaeledd, fforddiadwyedd a chynnal llety rhentu preifat. Yn arwyddocaol, ymysg defnyddwyr gwasanaeth, roedd problemau yn y sector rhentu preifat yn cael ei nodi fel yr ail reswm uchaf am ddigartrefedd ac i ddau o'r chwe ardal astudiaethau achos, y prif reswm pam fod pobl yn dod at yr awdurdod lleol am gymorth i gael hyd i gartref. Canfuwyd fod costau uchel, diffyg argaeledd, ansicrwydd tenantiaeth ac amgylchedd fyw gwael yn y sector rhentu preifat i gyd fel problemau arwyddocaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Tra dangosodd nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth y buasent yn derbyn tenantiaeth yn y sector breifat i ddatrys eu digartrefedd, mynegodd y mwyafrif y buasent yn dewis tai cymdeithasol, ond yr oeddynt yn ymwybodol ei bod yn annhebygol y buasent yn cael cynnig tenantiaeth tai cymdeithasol. Y mae'n bwysig nodi fod y rhai a ddaeth o hyd i lety yn y sector rhentu preifat, yn aros ar y gofrestr tai ar gyfer tai cymdeithasol, gan ddangos nad edrychid arno fel datrysiad hir dymor, sefydlog i rai a oedd wedi profi digartrefedd.

*Effaith y Ddeddf ar y defnydd o lety dros dro*

7.23 Nododd saith awdurdod lleol leihad yn y defnydd o lety dros dro, priodolwyd hyn i waith atal. Mewn cyffelybiaeth, canfu rhanddeiliaid cenedlaethol fod y defnydd o lety dros dro wedi lleihau ers i'r Ddeddf gael ei chyflwyno. Fodd bynnag, gwnaeth wyth awdurdod lleol arddangos fod eu defnydd o lety dros dro wedi cynyddu, priodolwyd hyn i'r angen am lety symud ymlaen ac un gwely. Soniodd saith awdurdod lleol ddim newid. Eto, mae hyn yn awgrymu darlun cymysg ar draws Cymru.

7.24 Darlun cymysg a roddodd y defnyddwyr gwasanaeth o'r defnydd o lety dros dro gan ddweud fod yna ddiffyg llety dros dro, hosteli a llety mewn argyfwng ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Yr oedd y rhai a oedd yn aros mewn hosteli ar adeg ton gyntaf y gwaith maes yn gadarnhaol iawn ynglŷn â hosteli mewn tair o'r chwe ardal ac yn fwy amwys am y gweddill.

*Effaith y Ddeddf ar agendâu eraill a gweithio mewn partneriaeth*

7.25 Nododd y mwyafrif o randdeiliaid cenedlaethol fod y Ddeddf wedi cael effaith gadarnhaol ar agendâu eraill a bod y cysylltiad rhwng y rhain (Trais yn erbyn Merched; Cenedlaethau i Ddod; Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles) yn gwbl glir. Yr oedd rhai yn gadarnhaol hefyd am welliannau mewn gweithio mewn partneriaeth, ac mae'r canlyniadau o'r arolwg awdurdod lleol yn cefnogi hyn gan eu bod yn dangos fod cynnydd arwyddocaol wedi bod mewn gweithio mewn partneriaeth a gweithio aml-asiantaeth gyda phartneriaid ac asiantaethau yn fewnol ac yn allanol. Codwyd pryderon gan randdeiliaid ynglŷn â'r posibilrwydd o effaith agendâu eraill – er enghraifft, Diwygio Lles – ar weithredu llwyddiannus y ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, cododd rhai rhanddeiliaid bryderon am weithio mewn partneriaeth, gan awgrymu fod amrywioldeb ar draws awdurdodau yn nhermau gweithio mewn partneriaeth, sydd yn faes mae angen mynd i'r afael ag ef. O'r data a gasglwyd yn ystod y don gyntaf hon o ymrwymiad defnyddwyr gwasanaeth, y mae'n amlwg fod ychydig mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi eu cyfeirio tuag at wasanaethau digartref drwy gael eu cyfeirio o wasanaethau eraill, sy'n awgrymu prosesau effeithiol rhwng asiantaethau, mewn rhai meysydd o leiaf.

7.26 I grynhoi, mae’r Ddeddf wedi cael effaith sylweddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth gan fod mwy o bobl yn awr yn gallu cael cyngor a chymorth i atal a rhyddhau digartrefedd. Fodd bynnag, mae’r effaith yn ymddangos fel pe bai wedi amrywio i bobl gyda nodweddion gwarchodedig/ agored i niwed a phobl a salwch meddyliol yn arbennig. Awgrymodd rhanddeiliaid cenedlaethol fod dynion sengl, rhai wedi gadael gofal, cyn-droseddwyr a rhai sydd gydag amryw broblemau yn llai tebygol o gael diwallu eu hanghenion. Nododd awdurdodau lleol gynnydd yn y galw a phwysau gwaith, ond eto ymddengys eu bod wedi addasu i newidiadau o dan y Ddeddf, yn nhermau gweithredu mwy o weithgareddau atal a gweithredu newidiadau mewn gweithio mewn partneriaeth a oedd yn golygu newid mewn diwylliant sefydliadol. Er hynny, dangosodd awdurdodau lleol a rhanddeiliaid cenedlaethol bryder am argaeledd, fforddiadwyedd a chynaliadwy o lety yn y sector rhentu preifat, ac fe fynegwyd fod y defnydd o lety dros dro yn amrywio’n fawr o un awdurdod lleol i’r llall. Fodd bynnag, mae’n amlwg bod amrywioldeb arwyddocaol yn bodoli ar draws ardaloedd y chwe astudiaeth achos, gyda dwy ardal yn ymddangos eu bod wedi gwneud llai o gynnydd wrth weithredu'r ethos sydd wrth wraidd y Ddeddf ac mae hyn yn seiliedig ar brofiadau defnyddwyr gwasanaeth.

**Adran Cyfeirnod**

**Adran Cyfeirnod**

Office for National Statistics (2012a). 2011 Census: Key Statistics for Wales, March 2011. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/2011censuskeystatisticsforwales/2012-12-11#key-figures

Office for National Statistics (2012b). 2011 Census: Population and Household Estimates for Wales, March 2011. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/2011censuspopulationandhouseholdestimatesforwales/2012-07-16

Office for National Statistics (2016). Wales population mid-year estimate. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/timeseries/wapop/pop

Shelter Cymru (2016). *Reasonable Steps: Experiences of homelessness services under the Housing Act 2014*. https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2015/02/Reasonable-Steps.pdf

StatsCymru (2015a). Penderfyniadau a wnaethpwyd yn ôl ardal awdurdod lleol a chymhwysedd. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Pre-April-2015/decisionstaken-by-area-eligibility

StatsCymru (2015b). Aelwydydd y derbyniwyd eu bod yn ddigartref yn ôl ardal awdurdod lleol, rhyw ac oedran yr ymgeisydd. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Pre-April-2015/householdsacceptedashomeless-by-area-gender-age

StatsCymru (2015c). Aelwydydd y daethpwyd o hyd i lety dros dro iddynt yn ôl y math o lety a'r math o aelwyd. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Pre-April-2015/householdsaccommodatedtemporarily-by-accommodationtype-householdtype

StatsCymru (2015d). Aelwydydd y daethpwyd o hyd i lety dros dro iddynt yn ôl cyfnod o amser a'r math o aelwyd. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Pre-April-2015/householdsaccommodatedtemporarily-by-lengthoftime-householdtype

StatsCymru (2015e). Aelwydydd sy'n gadael llety dros dro yn ôl y rheswm dros adael a chyfnod o amser. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Pre-April-2015/householdsleavingtemporaryaccommodation-by-reasonforleaving-lengthoftime

StatsCymru (2016a). Pob achos lle mae gweithredu cadarnhaol llwyddo yn llwyddo i atal digartrefedd / lleddfu. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/all-cases-where-positive-action-succeeded-in-preventing-relieving-homelessness

StatsCymru (2016b). Aelwydydd y daethpwyd o hyd i lety dros dro iddynt yn ôl y math o lety a'r math o aelwyd (ar ol 2015-16). https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Temporary-Accommodation/householdsaccommodatedtemporarily-by-accommodationtype-householdtype

StatsCymru (2016c). Aelwydydd yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Households/Projections/Local-Authority/2008-Based/Households-by-LocalAuthority-Year

StatsCymru (2016d). Aelwydydd am gymorth wedi cael ei ddarparu yn ôl canlyniad, oed a rhyw. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/householdsforwhichassistancehasbeenprovided-by-outcome-age-gender

StatsCymru(2016e). Aelwydydd am gymorth wedi cael ei ddarparu yn ystod y flwyddyn, yn ôl grŵp ethnig yr ymgeisydd. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/households-for-which-assistance-has-been-provided-during-the-year-by-ethnic-group-of-applicant

StatsCymru (2016f). Aelwydydd a ganfuwyd yn gymwys i gael cymorth, yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol yn ystod y flwyddyn. Categorïau angen blaenoriaethol yn ôl math o aelwyd (adran 75). https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/households-found-to-be-eligible-for-assistance-unintentionally-homeless-and-in-priority-need-during-the-year-categories-of-priority-need-by-type-of-household-section-75-

StatsCymru (2016g). Aelwydydd a ganfuwyd sy'n gymwys, yn ddigartref yn amodol ar ddyletswydd i helpu i sicrhau yn ystod y flwyddyn. Y prif reswm dros golli'r cartref sefydlog diwethaf yn ôl y math o aelwyd (Adran 73). https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/households-found-to-be-eligible-homeless-subject-to-duty-to-help-to-secure-during-the-year-main-reason-for-loss-of-last-settled-home-by-type-of-household

StatsCymru (2016h). Aelwydydd a ganfuwyd yn gymwys, yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol yn ystod y flwyddyn. Y prif reswm dros golli'r cartref sefydlog diwethaf yn ôl math o aelwyd (Adran 75). https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/households-found-to-be-eligible-unintentionally-homeless-and-in-priority-need-during-the-year-main-reason-for-loss-of-last-settled-home-by-type-of-household-section-75-

StatsCymru (2016i). Aelwydydd a ganfuwyd mewn perygl o fod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn. Y prif reswm dros fod mewn perygl o fod yn ddigartref yn ôl math o aelwyd (Adran 66). https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-

Homelessness-Prevention-and-Relief/main-reason-for-being-threatened-with-homelessness-by-type-of-household-section-66-

StatsCymru (2016j). Rhesymau dros gyflawni dyletswydd o dan adran 75 yn ystod y flwyddyn. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/reasons-for-discharge-of-duty-under-section-75-during-the-year

Welsh Assembly Government (2008). *A Statistical Focus on Rural Wales, 2008 Edition*. http://llyw.cymru/docs/statistics/2008/080515-statistical-focus-rural-wales-08-en.pdf

Welsh Local Government Association (2017). *Local Authority Position on Housing Stock Transfer*. http://wlga.wales/local-authority-position-on-housing-stock-transfer

Welsh Government (2016). *Statistical First Release: Homelessness in Wales, 2015-16*. http://llyw.cymru/docs/statistics/2016/160824-homelessness-2015-16-en.pdf

Welsh Government (2017). *National Rough Sleeper Count, November 2016 – Experimental Statistics*. http://llyw.cymru/docs/statistics/2017/170201-national-rough-sleeper-count-november-2016-experimental-statistics-en.pdf

## Annex A: Cwestiynau Arolwg Awdurdodau Lleol

CYFRINACHOL

### Arfarniad Ôl-Weithredu o'r Rhan Digartrefedd o'r Ddeddf Tai (Cymru) 2014

### Cwestiynau Arolwg Awdurdodau Lleol

Croeso i Arolwg Awdurdodau Lleol am Arfarniad Ôl-Weithredu o'r Rhan Digartrefedd o'r Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Rydym yn gwerthfawrogi eich bod yn cymryd eich amser i gymryd rhan yn yr arolwg.

Mae'r arolwg yn gynhwysfawr, yn ymdrin â nifer o agweddau o'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, bydd y cwestiwn diwethaf yn caniatáu i chi wneud unrhyw sylwadau perthnasol i'r arfarniad, na lwyddwyd i'w mynegi yn yr arolwg.

Rydym yn eich annog i ddefnyddio'r opsiwn 'Gorffen yn ddiweddarach' os na ddymunwch ei gwblhau ar unwaith.

Cwblhewch yr arolwg os gwelwch yn dda a chlicio'r botwm 'Terfyn' erbyn **13eg Awst 2016.**

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau sydd gennych ynglŷn â'r arolwg i m.a.wilding@salford.ac.uk

Diolch o flaen llaw am eich cydweithrediad.

---

1. Cwblhewch yr wybodaeth ganlynol os gwelwch yn dda:

| | |
|---|---|
| **Enw'r Awdurdod Lleol:** | |
| **Eich rôl:** | |
| **Enw:** | |
| **Gwybodaeth Cyswllt:** (er mwyn dilyniant) | |

Atebwch y cwestiynau canlynol yn fanwl, a rhowch resymau dros eich atebion.

### Ynglŷn â gweithredu'r Ddeddf

*Yn awr yr ydym am ofyn i chi am sut y gweithredir y Ddeddf yn eich Awdurdod Lleol.*

2. Pa mor ddefnyddiol mae'r 'Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd' a gyhoeddwyd ym Mawrth 2015 a'i adolygu ym Mawrth 2016 wedi bod, i gynorthwyo eich Awdurdod Lleol i gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Rhan 2 o'r Ddeddf?

- Hynod o ddefnyddiol ☐
- Eithaf defnyddiol ☐
- Dim yn ddefnyddiol nac yn annefnyddiol ☐
- Dim yn ddefnyddiol iawn ☐
- Dim yn ddefnyddiol o gwbl ☐

Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda

| |
|---|
| |

3. Beth fuasech yn ei ddweud oedd y prif 3 her a wynebodd eich Awdurdod Lleol wrth weithredu Rhan 2 o'r Ddeddf?

| | |
|---|---|
| 1. | |
| 2. | |
| 3. | |

## Adnoddau

*Yn awr yr ydym am ofyn i chi, pa effaith gafodd y newidiadau a oedd yn gysylltiedig â'r Ddeddf ar adnoddau eich Awdurdod Lleol.*

4. Pa effaith a gafodd y Ddeddf ar yr angen am wasanaethau i'r digartref yn eich Awdurdod Lleol?

5. Sut yr ydych wedi ymdopi â'r angen?

## Dyletswyddau o dan Ran 2 o'r Ddeddf

*Yn awr yr ydym am ofyn i chi pa wybodaeth, cyngor a chefnogaeth a gynigir gan eich Awdurdod Lleol pan ofynnir am gymorth.*

### *Gwybodaeth & asesiad*

6. Pa sianeli y mae'ch Awdurdod Lleol yn eu defnyddio i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth ynglŷn â rhoi cymorth i bobl sy'n ddigartref/mewn perygl o ddod yn ddigartref o dan a60(4) o'r Ddeddf? **Ticiwch bob un sy'n berthnasol**

- Wyneb-yn-wyneb ☐
- Ffôn ☐
- Gwe-seiliedig ☐
- Arall (nodwch os gwelwch yn dda) ☐

7. Sut mae'r wybodaeth a'r gwasanaeth cynghori wedi newid i gyflawni anghenion y grwpiau arbennig o dan a60(4) o'r Ddeddf? Yn arbennig:

Pobl sy'n gadael y carchar neu lety cadw ieuenctid:

Pobl ifanc sy'n gadael gofal:

Pobl sy'n gadael lluoedd arfog rheolaidd y Goron:

| |
|---|
| |

Pobl sy'n gadael yr ysbyty ar ôl triniaeth feddygol am anhwylder meddyliol fel claf preswyl:

| |
|---|
| |

Pobl sy'n cael gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned:

| |
|---|
| |

8. Sut mae'r wybodaeth a'r gwasanaeth cynghori wedi newid i ateb anghenion:

pobl sengl:

| |
|---|
| |

pobl sy'n cysgu allan:

| |
|---|
| |

pobl gyda 'nodweddion gwarchodedig':

| |
|---|
| |

pobl o awdurdodau lleol eraill/trawsffiniol:

| |
|---|
| |

9. Disgrifiwch y broses os gwelwch yn dda (pryd mae pobl sydd yn ddigartref /neu mewn perygl o ddod yn ddigartref yn cysylltu) pan yr ydych yn penderfynu os yw asesiad digartrefedd yn gymwys o dan a62 o'r Ddeddf.

| |
|---|
| |

10. Ydy eich Awdurdod Lleol yn defnyddio cynlluniau lletya personol?

Ydynt ☐ Nac Ydynt ☐

Os ydynt, pa mor ddefnyddiol yw eich profiad ohonynt?

| | |
|---|---|
| Hynod o ddefnyddiol | ☐ |
| Eithaf defnyddiol | ☐ |
| Dim yn ddefnyddiol nac yn annefnyddiol | ☐ |
| Dim yn ddefnyddiol | ☐ |
| Dim yn ddefnyddiol o gwbl | ☐ |

***Ataliad***

*Yn awr yr ydym am ofyn i chi am y gwaith mae eich Awdurdod Lleol yn ei wneud i atal 'ceisydd' rhag bod yn ddigartref.*

11. Am bob un o'r gwasanaethau a restrir isod, i **atal** ceisydd rhag bod yn ddigartref o dan a66 o'r Ddeddf, mynegwch os gwelwch yn dda os mai drwy ddarpariaeth Awdurdod Lleol neu drwy ddarpariaeth tu allan i'r Awdurdod Lleol y mae hyn. Mynegwch hefyd os gwelwch yn dda os yw'r ddarpariaeth o'r gwasanaeth hwn wedi cynyddu ers y Ddeddf. **Ticiwch bob un sy'n briodol**

| **Gwasanaeth** | **Darpariaeth Awdurdod Lleol** | **Darpariaeth tu allan i'r Awdurdod Lleol** | **Cynnydd mewn Darpariaeth AR ÔL y Ddeddf** |
|---|---|---|---|
| Allgymorth | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyfryngu | ☐ | ☐ | ☐ |
| Taliadau ar ffurf grant neu fenthyciad | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwarantu y bydd taliadau yn cael eu gwneud | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cefnogaeth i reoli dyled, ôl-ddyledion morgeisi neu ôl-ddyledion rhent | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mesurau diogelwch i geiswyr sydd mewn perygl o wynebu camdriniaeth | ☐ | ☐ | ☐ |
| Eiriolaeth neu gynrychiolaeth arall | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dulliau eraill o gefnogaeth tenantiaeth | ☐ | ☐ | ☐ |
| Llety | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rhaglenni i gynyddu argaeledd llety fforddiadwy | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cynlluniau tai cymdeithasol i'w llogi | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwybodaeth a chyngor | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau eraill (nodwch os gwelwch yn dda) | ☐ | ☐ | ☐ |
| | ☐ | ☐ | ☐ |
| | ☐ | ☐ | ☐ |
| | ☐ | ☐ | ☐ |

12. A oes newid wedi bod yn y dull yr ydych yn dyrannu adnoddau er mwyn cynnig y gwasanaethau a drafodwyd yng nghwestiwn 11?

Oes ☐ Nac oes ☐

Os oes, sut ?

| |
|---|
| |

13. A oes unrhyw broblemau arwyddocaol wedi codi o ganlyniad i brinder adnoddau yn y gwasanaethau a drafodwyd yng nghwestiwn 11?

Oes ☐ Nac oes ☐

Os oes, eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda a mynegwch pa gamau yr ydych yn eu cymryd i ddatrys y rhain:

| |
|---|
| |

14. A oes unrhyw wasanaethau allweddol y teimlwch y dylent fod ar gael yn eich Awdurdod Lleol i roi cymorth i atal pobl rhag mynd yn ddigartref, ond nad ydynt ar gael ar hyn o bryd?

| |
|---|
| |

Am ba resymau na ellir darparu y rhain ar hyn o bryd?

| |
|---|
| |

15. A fedrech amlinellu'r broses sut y mae eich Awdurdod Lleol yn ymateb i bobl sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref mewn mwy na 56 diwrnod?

| |
|---|
| |

*Angen blaenoriaethol*

*Yn awr yr ydym am ofyn i chi am Angen Blaenoriaethol yn eich Awdurdod Lleol.*

16. A yw eich Awdurdod Lleol wedi newid ei ymateb i'r prawf hyglwyf o dan a71 ers i Ran 2 o'r Ddeddf ddod i rym?

Do ☐ Naddo ☐

Os do, sut?

| |
|---|
| |

17. A yw eich Awdurdod Lleol wedi newid ei ddull o drin y rhai sy'n gadael y carchar a/neu ddalfa'r ifanc ers i Ran 2 o'r Ddeddf ddod i rym?

Do ☐ Naddo ☐

Os do, sut?

| |
|---|
| |

*Cymorth i warantu llety*

*Yn awr yr ydym am ofyn sut yr ydych yn cynorthwyo i warantu llety ar gyfer ceiswyr digartref yn eich awdurdod lleol (h.y. y cyfnod rhyddhad)*

18. Ar gyfer pob un o'r gwasanaethau a restrir isod, i gynorthwyo i **warantu** lletya i geiswyr digartref o dan a73 o'r Ddeddf, dangoswch os gwelwch yn dda a ydynt yn cael eu darparu drwy'r Awdurdod Lleol neu drwy ddarpariaeth tu allan i'r Awdurdod Lleol. Dangoswch hefyd os gwelwch yn dda a yw'r ddarpariaeth ar gyfer y gwasanaeth hwn wedi cynyddu ers y Ddeddf:
**Ticiwch bob un sy'n briodol**

| Gwasanaeth | Darpariaeth Awdurdod Lleol | Darpariaeth tu allan Awdurdod Lleol | Cynnydd mewn Darpariaeth AR ÔL y Ddeddf |
|---|---|---|---|
| Allgymorth | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyfryngu | ☐ | ☐ | ☐ |
| Taliadau ar ffurf grant neu fenthyciad | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwarantu y bydd taliadau yn cael eu gwneud | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cefnogaeth i reoli dyled, ôl-ddyledion morgeisi neu ôl-ddyledion rhent | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mesurau diogelwch i geiswyr sydd mewn perygl o wynebu camdriniaeth | ☐ | ☐ | ☐ |
| Eiriolaeth neu gynrychiolaeth arall | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dulliau eraill o gefnogaeth tenantiaeth | ☐ | ☐ | ☐ |
| Llety | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rhaglenni i gynyddu argaeledd llety fforddiadwy | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cynlluniau tai cymdeithasol i'w llogi | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwybodaeth a chyngor | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau eraill (nodwch os gwelwch yn dda) | ☐ | ☐ | ☐ |
| | ☐ | ☐ | ☐ |
| | ☐ | ☐ | ☐ |
| | ☐ | ☐ | ☐ |

19. A oes unrhyw broblemau arwyddocaol fel canlyniad i adnoddau cyfyngedig wedi bod yn y gwasanaethau a drafodwyd yng nghwestiwn 18?

Oes ☐  Nac oes ☐

Os oes, sut?

20. I ba raddau y gwelwyd newid yn y defnydd o'r sector lletya preifat yn eich Awdurdod Lleol ar ôl i Ran 2 o'r Ddeddf ddod i rym?

- Lleihad sylweddol ☐
- Lleihad bychan ☐
- Dim newid ☐
- Cynnydd bach ☐
- Cynnydd sylweddol ☐

Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda:

21. I ba raddau yn eich barn chi y gwelwyd newid yn y **defnydd o** letya dros dro yn eich Awdurdod Lleol ers i Ran 2 o'r Ddeddf ddod i rym?

- Lleihad sylweddol ☐
- Lleihad bychan ☐
- Dim newid ☐
- Cynnydd bach ☐
- Cynnydd sylweddol ☐

Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda gan gyfeirio at unrhyw newid mewn angen, neu newid yn y math o lety a'r cyfnod sydd ei angen:

22. Ydy eich Awdurdod Lleol wedi dioddef unrhyw faterion penodol wrth sicrhau llety i:

Pobl sengl:

Pobl sy'n cysgu allan:

Pobl gyda 'nodweddion gwarchodedig':

Pobl o awdurdodau lleol eraill/trawsffiniol:

Arall (nodwch os gwelwch yn dda):

*Dyletswydd i Sicrhau*

*Yn awr yr ydym am ofyn i chi am Ddyletswydd i Sicrhau yn eich Awdurdod Lleol.*

23. Beth yw'r brif ffordd y mae eich Awdurdod Lleol wedi llwyddo i weithredu ei ddyletswydd i sicrhau llety i geiswyr gydag angen blaenoriaethol (a75) pan fo'r ddyletswydd yn a73 yn dod i ben?

Sector rhentu preifat ☐
Tai cymunedol ☐
Arall (nodwch os gwelwch yn dda) ☐

Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda:

***Bwriadoldeb***

*Yn awr yr ydym am ofyn i chi ynglŷn â'r sylw a roir i fwriadoldeb yn eich Awdurdod Lleol.*

24. A yw eich Awdurdod Lleol wedi diystyru bwriadoldeb ar gyfer unrhyw un o resymau a75 i unrhyw grŵp ag angen blaenoriaethol benodol?

Do ☐ Naddo ☐

Os do pa gategorïau a pha effaith mae hyn wedi ei gael?

25. A ydych wedi gwneud unrhyw newidiadau i'ch safiad gwreiddiol tuag at fwriadoldeb ers Gorffennaf 2015?

Do ☐ Naddo ☐

Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda:

***Cysylltiad lleol***

*Yn awr yr ydym am ofyn i chi am gysylltiad lleol yn eich Awdurdod Lleol.*

26. Amlinellwch os gwelwch yn dda broses eich Awdurdod Lleol ar gyfer darparu cefnogaeth i bobl heb gysylltiad lleol sy'n edrych am gymorth yn ardal eich Awdurdod Lleol?

27. Sut, ydych yn meddwl fod diffyg prawf cysylltiad lleol yn a66 ac a73 (yn ôl a73 [2])o'r Ddeddf wedi effeithio ar y galw am gymorth i'r digartref yn eich ardal?

Lleihad sylweddol mewn galw ☐
Lleihad bychan mewn galw ☐
Dim newid mewn galw ☐
Peth cynnydd mewn galw ☐
Cynnydd sylweddol mewn galw ☐

## Adolygiadau ac apeliadau

*Yn awr yr ydym am ofyn i chi am adolygiadau ac apeliadau yn eich Awdurdod Lleol.*

28. Faint o geisiadau am adolygiadau ac apeliadau sydd wedi cael eu gwneud am benderfyniadau eich Awdurdod Lleol ers i Ran 2 o'r Ddeddf ddod i rym?

| | **Rhif llwyddiannus** | **Rhif aflwyddiannus** |
|---|---|---|
| Adolygiadau | | |
| Apeliadau | | |
| Cyfanswm | | |

29. Ydy'r nifer o geisiadau am benderfyniadau eich Awdurdod Lleol i gael eu hadolygu / apelio wedi cynyddu neu leihau ers i'r Ddeddf ddod i rym?

Cynyddu ☐ Lleihau ☐

Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda:

30. A oes cynnydd neu leihad wedi bod yn yr apeliadau llwyddiannus o benderfyniadau eich Awdurdod Lleol ers i'r Ddeddf ddod i rym?

Cynnydd ☐ Lleihad ☐

Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda:

## Gwaith Partneriaethau ac Agendau Llywodraethol

*Yn awr yr ydym am ofyn i chi am waith eich Awdurdod Lleol ar bartneriaethau ac agendau'r llywodraeth.*

31. Ers i Ran 2 o'r Ddeddf ddod i rym a oes unrhyw newidiadau yng ngwaith partneriaethau wedi cael eu gwneud:

*Er enghraifft, mwy o bartneriaethau gyda'r sector breifat; cyrff sy'n cefnogi pobl gydag anghenion iechyd meddwl, pobl ifanc/rhai sy'n gadael sefydliadau gofal, a chyn-filwyr.*

a. O fewn eich Awdurdod Lleol

Oes ☐ Nac oes ☐

Os oes, sut?

b. Gyda phartneriaid allanol

Oes ☐ Nac oes ☐

Os oes, sut?

32. Sut mae'r berthynas gyda'r canlynol wedi datblygu ers y Ddeddf?

LCC (RSLs)

Sector Rhentu Preifat

33. A oes gennych:

Gynllun mynediad i wasanaethau Cefnogi Pobl

Oes ☐ Nac oes ☐

Os oes, sut y mae hyn yn gweithio'n ymarferol?

Proses atgyfeirio ffurfiol i wasanaethau Cefnogi Pobl

Yes ☐ No ☐

Os oes, sut y mae hyn yn gweithio'n ymarferol?

34. Sut mae adnoddau Cefnogi Pobl wedi eu targedu i gefnogi atal pobl rhag dod yn ddigartref?

35. Ydy'r agenda digartref yn llywio comisiynu y gwasanaethau Cefnogi Pobl?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os ydy, sut?

**Canlyniadau Mesur**

*Yn awr yr ydym yn mynd i ofyn i chi am sut y mae canlyniadau yn cael eu mesur yn eich Awdurdod Lleol.*

36. Sut y mae eich Awdurdod Lleol yn monitro effaith y Ddeddf ar ddefnyddwyr gwasanaeth (gan gynnwys pobl sengl, pobl sy'n cysgu allan, pobl gyda 'nodweddion gwarchodol', a phobl o awdurdodau eraill/trawsffiniol)?

37. Pa mor effeithiol ydych chi'n meddwl y mae'r cynlluniau monitro hyn?

38. Pa rai o'r nodweddion cydraddoldeb hyn sy'n cael eu cofnodi yn y data? Dewiswch o'r rhestr isod os gwelwch yn dda.

- Oedran ☐
- Anabledd ☐
- Ailgyfeirio Rhyw ☐
- Priodas a Phartneriaeth Sifil ☐
- Beichiogrwydd a Mamolaeth ☐
- Hil (mae'n cynnwys hil, lliw, a chenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth, tarddiad ethnig neu genedlaethol) ☐
- Crefydd neu Gred (gan gynnwys di-gred) ☐
- Rhyw a Chyfeiriadaeth Rywiol ☐
- Arall (nodwch os gwelwch yn dda) ☐
- Dim data a gasglwyd ☐

39. Sut y mae eich Awdurdod Lleol yn defnyddio data monitro cydraddoldeb?

40. Pa drefniadau sydd yn eu lle yn eich Awdurdod Lleol i fesur canlyniadau i bobl sy'n derbyn cymorth o dan Ran 2 y Ddeddf?

41. Pa mor aml y cesglir y wybodaeth?

42. Pa ddefnydd ydych chi'n ei wneud o'r canlyniadau data?

43. Ydych chi'n **dadansoddi'r** data yn ôl cydraddoldeb?

**Amcangyfrifon Gosodiadau**

44. Nodwch pa mor gryf yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol.

| | Cytuno yn llwyr | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytunoyn | Anghytunoyn | Anghytunoyn llwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Nid yw eich Awdurdod Lleol wedi wynebu unrhyw sialensiau arwyddocaol wrth weithredu'r Ddeddf ers Ebrill 2015 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae cynnydd wedi bod mewn adnoddau ar gael o fewn eich Awdurdod Lleol er mwyn atal a mynd i'r afael â digartrefedd ar wahân i ariannu trosiannol Llywodraeth Cymru. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r Ddeddf wedi dylanwadau ar eich Awdurdod Lleol i gynnig gwelliant mewn gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â digartrefedd. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae eich Awdurdod Lleol yn gwneud mwy o waith ataliol. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r gwaith ataliol yn fwy cynhwysol. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r gwaith ataliol yn fwy effeithiol. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae cynyddu'r cyfnod mae ceiswyr yn cael eu hystyried dan berygl o ddigartrefedd i 56 diwrnod wedi cael effaith gadarnhaol ar atal digartrefedd. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Bu newid y prawf bwriadoldeb o fod yn ddyletswydd i rym, lwyddo i roi cefnogaeth fwy effeithiol i bobl ddigartref a rhai mewn perygl o ddod yn ddigartref. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r newidiadau ynglŷn â chysylltiadau lleol wedi sicrhau rhoi cefnogaeth fwy effeithiol i bobl ddigartref a rhai hynny mewn perygl o ddod yn ddigartref, sydd heb unrhyw gysylltiad lleol. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sicrhaodd y Ddeddf bwyslais cryfach ar gyd-weithio rhwng amrywiol wasanaethau'r Awdurdod Lleol a gweithio aml-asiantaeth. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r Ddeddf wedi caniatáu defnydd mwy effeithlon o'r sector rhentu preifat i atal/ leddfu digartrefedd. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r Ddeddf wedi caniatáu defnydd mwy effeithlon o'r sector rhentu preifat i ryddhau dyletswyddau digartrefedd. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r Ddeddf wedi caniatáu cydweithio mwy effeithlon gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae gan eich Awdurdod Lleol brosesau mewn grym i ddilyn ceisiadau wedi eu tynnu yn ôl a dan Ran 2 o'r Ddeddf. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae eich Awdurdod Lleol yn gweithredu mwy o fonitro o ran cydraddoldeb. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae monitro cydraddoldeb yn fwy effeithlon. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae eich Awdurdod Lleol yn defnyddio monitro cydraddoldeb i lywio ei weithgareddau o dan Ran 2 o'r Ddeddf. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r Ddeddf wedi caniatáu newid diwylliannol sy'n croesawi agwedd fwy person ganolig. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae llwybrau clir yn eich Awdurdod Lleol ar gyfer bobl ddigartref gydag anghenion cefnogi, i gael mynediad i gefnogaeth lletya. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn gyffredinol, mae'r Ddeddf yn cael effaith gadarnhaol yn eich Awdurdod Tai Lleol i bobl sydd angen cymorth gyda digartrefedd. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

45. Am unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu gwneud am effaith y Ddeddf yn eich Awdurdod Lleol, ysgrifennwch isod:

| |
|---|
| |

Rydym yn gwerthfawrogi yn fawr iawn eich bod yn cymryd eich amser i gwblhau'r arolwg hwn ac yn cyfrannu at Werthusiad Deddfwriaeth Digartrefedd yng Nghymru.